


Celt
5249
38.32

WIDENER LIBRARY

HX CYD4 R

Cell 5249.38.32

HARVARD COLLEGE
LIBRARY



THE GIFT OF
FRED NORRIS ROBINSON
Class of 1891
OF CAMBRIDGE

Cover

157-

WIL BRYDYDD Y COED

COFIANT SIENCYN BACH Y LLWYWR

△

CHOFIANT DAI HUNANDYB

GAN BRUTUS



CAERFYRDDIN: WILLIAM SPURRELL

MDCCCLXXVI

HANNER CORON

Digitized by Google

WIL BRYDYDD Y COED

COFIANT SIENCYN BACH Y LLWYWR

^

CHOFIANT DAI HUNANDYB

GAN BRUTUS



CAERFYRDDIN: WILLIAM SPURRELL

MDCCCLXXVI.

Celt 5249 .38.32

✓



Gift of Prof F. N. Robinson

RHAGY MADRODD.

CYHOEDDWDY “Wil Brydydd y Coed” o fis i fis yn yr HAUL tua deuddeg mlynedd yn ol. Daeth y darn cyntaf allan yn y rhifyn o'r cyhoeddiad hwnw am fis Medi, 1863, a pharhëid ei ymddangosiad achlysurol nes i law fedrus ei Awdwr gael ei hattal gan law gryfach—llaw Angeu.

Cymbhellwyd Cyhoeddwr yr HAUL amryw weithiau i ddwyn allan ail argraffiad o'r Hanes, a chydysniwyd o'r diwedd â'r cais; ond teimlwyd diffyg wrth wneyd hyny, gan nad oedd yr Awdwr wedi dwyn ei waith i ben. Yr oedd rhai yn dymuno i ysgrifenydd arall ymgymmeryd â'r gwaith o orphen yr Hanes; ereill am ei adael fel y gadawodd yr Awdwr ef. Ar ol ychydig ystyriaeth penderfynwyd ar y drefn ddiweddaf; ac y mae yn awr yn llaw y darlennydd fel yr ysgrifenydd gan BRUTUS, heb gyfnewidiad ac heb ychwanegiad.

Pan ddywedwn “fel yr ysgrifenydd gan BRUTUS,” arweiniwyd ni i nodi un eithriad. Nid llaw BRUTUS a ysgrifennodd y ddarlith ar *Logic* a geir yn nhudalen 86; ac y mae hyny, y mae yn debygol, yn eglur i ddarllenwyr craff; ond gan i BRUTUS ei derbyn, nid ein gwaith ni yw ei gadael allan.

Nid oedd yr Awdwr wedi penderfynu beth oedd diwedd Wil i fod, fel y dywedodd, “Whether I shall kick him out of the ministry, or make him a Doctor of Divinity;” ac yr oedd hyny yn un rheswm dros beidio ymyru â'i waith.

Mae lle i feddwl fod gan yr Awdwr athrylithgar, fel gan ffughaneswyr mwy adnabyddus i'r byd, ryw bersonau gwirioneddol mewn golwg pan yn cofnodi helyntion ei gymmeriadau dychymmygol. Nid oedd, y mae yn debygol, yn deall yn llawn ei allu fel ysgrifenydd; ac y mae yn golled i lenyddiaeth Gymreig na bu iddo droi ei feddwl at waith cyffelyb yn gynnarach. Bu ar ddwy achlysur yn agos â llithro i'r llwybr ffughanesol yn 1860. Yn y flwyddyn hono, ymddangosodd dau gofiant o'i eiddo yn yr HAUL—"Cofiant Siencyn Bach y Llwywr," a "Chofiant Dai Hunandyb;" ond gorphenwyd hwynt mewn ychydig dudalenau.* Y mae'r ddau yn dangos arwyddion o'r unrhyw alluoedd treiddiol ag a welir yn helaethach yn Hanes "Wil." Attodwyd hwynt ar ol y gwaith anorphenedig.

Y CYHOEDDWR.

Caerfyrddin, Awst, 1876.

* Gweler yr HAUL am fisoedd Mehefin, Awst, a Thachwedd, 1860.

WIL BRYDYDD Y COED.

I.

MAE llawer yn barnu ar Wil, ac yn dywedyd eu dewis chwedlau am dano, ac yn chwerthin am ei ben; ac ar amryw ystyriaethau, nid yw hyn yn rhyfeddod yn y byd; canys y mae mewn llawer o bethau wedi myned yn hynod o ddwl: ond eto, er hyn, chwareu teg i Wil, o blegid ar y cwbl, y mae yn fachgen ffamws. Mae Wil yn llawn o gareidigrwydd; mae yn gyfaill trwyadl lle byddo, ac yn ddiddichell hollol; ond fel y mae yn waethaf iddo ef, y mae wedi penddaru yn hollol er pan yr aeth yn brydydd, fel nad ydyw yn gwneyd na daioni iddo ei hun, nac i neb arall. Yr oedd Wil yn grefftwr da; daeth yn mlaen yn rhyfeddol; yr oedd yn dechreu ymaflyd yn ei grefft o ddifrif; a phawb yn dyweyd, "Fe ddaw Wil yn ddyd." Ond y mae'r brydyddiaeth Satan yma wedi taflu cwmwl arno; ac oni chymmer tro buan le, digon tebyg bod ei ddefnyddioldeb a'i gysuron wedi cael eu dinystrio am ei oes. Mae cof gweddol dda gan Wil, ac y mae wedi darllen bageidach o hen lyfrau Cymreig, megys *Drych y Prif Oes-oedd*, *Y Bardd Cwsg*, a'r *Oes Lyfr*; ac yr oedd, megys ag y mae yn parhau i fod, yn selog iawn dros y Cymry a Chymraeg. Mae yn credu yn hollol mai'r Cymry oedd yn byw yng Nghaerdroia—mai Cymry oedd Sadwrn, Iou, Mawrth, a'r holl dduwiau paganaid—mai Cymraeg oedd iaith y Baradwys ddaiarol—ac mai Cym-

raeg fydd iaith y Baradwys nefol. Mae yn credu holl brophwydoliaethau Myrddin yn yr hen gân, "Chwi fonedd a chyffredin, y Cymry a'r Seison pur," &c.; ac mae yn credu yn Owen Lawgoch; ac y bydd i'r Seison gael eu hymlid o Loegr, ac y bydd i'r Cymry eto feddiannu'r deyrnas, y goron, a'r cwbl; ac os cymmer hyn le, bydd y 'menyn yn lled deneu ar fara'r Sais. Mae Wil yn credu nas gall neb brydyddu fel y Cymry, ac nad oes genedl ar wyneb y ddaiar mor dalentog a chenedl y Cymry; ac er mwyn cadw ei hun yn Gymro dilwgr, ni ddysgodd erioed hanner dwsin o eiriau Seisoneg; ac y mae yn difrio'r Seison yn ofnadwy; a phan eir at y Seison a'r Seisoneg mewn ymddyddan, ar ol llychaid a tharanau Wil, ceir ei weled yn ymfurfio i'w agweddiad llon a naturiol wrth ac wedi adrodd y ddwy linell ganlynol:—

"Seison iaith, cyfarthiaith o'n,
P'le tywn rhag plant annwn?"

"Dyna hi, dyna hi iddynt hwy a'u hiaith," meddai Wil, gan wenu a dyfod i'w le, ac ymddangos fel Cristion arall. Ond bachgen go lew yw Wil, ac y mae yn drueni ei fod wedi ymddyrysu cymmaint er pan y mae wedi ymgymmeryd â barddoniaeth. Nid oedd neb wedi meddwl nac wedi dychymmygu dim y buasai'r brofedigaeth hon byth yn cyfarfod â Wil; ond mae yn debyg nas gall un dyn ddiengyd ar ei blaned; ac fel hyn

y bu ar Wil. Dygwyddodd i hanner Jack a hanner *student* ddyfod i bregethu i'r capel ar uchaf boreu Sul; a hwn, i'r dyben o egluro rhyw air neu eiriau yn ei destyn, er mwyn peri deall i'w wrandawyr, a grybwyllodd ei ystyr yng ngwaith y cynfeirdd a'r gogynfeirdd; soniodd am Taliesin, am Aneurin, am Llywarch Hen, ac am rywun naill ai Llywelyn neu Lewis Brydydd y Moch, ac a ddywedodd nad oedd na Homer, na Virgil, na Horace, na neb o'r hen feirdd Cenedlig, na neb beirdd ar y ddaiar, fu, sydd, ac a ddaw, ddim yn y byd at y beirdd Cymreig. Dywedodd fod yr awen ynddynt yn fwy poethlyd—fod eu meddyliau yn fwy dyrchafedig, yn fwy hedegog, yn gyflymach, ac yn fwy treiddgar nag unrhyw feirdd ereill. Cynghorai yr hanner Jack a'r hanner *student* hefyd ei wrandawyr i "ffermwriaethu" barddoniaeth, ac nas gallent gael ond y peth nesaf i ddim o gysurcn ac adeiladaeth yn Llyfr y Salmau a phrophwydoliaethau Esaiah, os nad oeddynt i raddau mwy neu lai dan ddylanwad yr awen. Rhoes yr hanner Jack a'r hanner *student* hefyd donc ar Dderwyddiaeth, a dywedodd mai Derwyddiaeth ydoedd crefydd Abraham, o blegid iddo blanu llwyn o goed yn Beerseba, a bod y Derwyddon byth ar ol hyny yn fford o gyflawnu eu gwasanaeth crefyddol mewn coed. Dywedodd yr hanner Jack a'r hanner *student* lawer iawn hefyd am y fantais o feddwl a myfyrio mewn coed, a bod dynion o feddyliu mawrion ag wreiddiol yn hoff o rodio ac eistedd dan gangenau cysgodfawr coedydd. Dywedodd hefyd bod yr amser wedi dyfod i ddynion ieuainc roddi mwy o'u bryd ar lenyddiaeth, ar gyfansoddi, ac ar brydyddu, ac ar natur eglwys, er mwyn bod o ddefnyddioldeb mwy yn eu "dydd a'u tymmor," ac felly i "lanw eu cylch;" ac wedi myned ym nilacn gyda'r annogaethau difrifol hyn am ychydig fynyddau, cafwyd yr Amen.

Lled sychlyd oedd y bobl yn gwrando, ond Wil yn unig; ac wrth fyned o'r cwrdd, cadwai ar ol, a cherddai wrtho ei hun megys pe buasai mewn rhyw syn fyfyrdod. "Beth sydd ar Wil, heddyw?" meddai un. "A yw Wil ddim yn iach?" meddai'r llall. "I ba beth y mae Wil yn edrych yn barhäus tua'r coed draw?" meddai'r trydydd. "Ef allai fod Wil am fyned yn Abraham, neu yn Dderwydd, neu yn brydydd, neu yn bob un o'r tri," meddai'r pedwerydd. Ond wrtho ei hun yr oedd Wil yn dyfod o'r cwrdd. Cerddai gan edrych tua'r ddaiar, a chyfodai fioduyn llygad y dydd neu laswelltyn; ac wedi edrych dipyn arno, troai yn ddisymmwrth at y coed, a sylwid ei fod yn cyfodi ei law yn fynych at ei ben, ac yn ei grafu.

Dygwyddodd fod cwrdd yr hanner Jack a'r hanner *student* ar ddydd Gwener, a chian ei bod yn ddydd marchnad dranoeth, aeth Wil i'r dref gyfagos; ac wedi cyrhaeddyd y dref, i mewn rap â Wil i siop y *bookseller*; ac wedi myned i mewn, gofynodd i'r *bookseller* os oedd ganddo Ramadeg Cymreig ar werth. "Oes," ebai'r *bookseller*, "mae genyf amryw: pa un ydych chiwi yn ymofyn am dano?" "Ni wn i ddim," atebai Wil; pa un o honynt a recommendiech chiwi i mi?" "Nid yw o bwys i mi," ddywedai'r *bookseller*, "pa un a werthaf; ond Gramadeg Rowland y mae dynion dysgedig yn ymofyn am dano. Dyma'r Gramadeg sydd yn Oxford a Cambridge; a'r Gramadeg hwn sydd yn *universities* Germany hefyd." "Mi gymmeraf hwna," ebai Wil, gan ei dderbyn o law y *bookseller*; ac wedi ei dderbyn, efe a'i hagarodd, ac a welodd fod Seisoneg ar ei ddail. "Mae Seisoneg yn hwn," ebai Wil; "ac ni wn i fawr neu ddim Seisoneg." "O," meddai'r *bookseller*, "gwel i chiwi gael copi o ddiensnari dwbwl Spurrell, ac ni fydd un drafferth i chiwi lanw'r bwlech

yna." "Dewch ag e," ebai Wil. "Mae arnaf eisieu cweier o bapyr gwyn, a dau neu dri llyfr o ddail gwynion swllt yr un, a boesod o *steel pens*, a pheth i'w dodi ynddo, â chwart o *Japan ink*, a gwerth dwy geiniog o blotin papyr, a photel i ddala'r inc, a phig iddi, rywbeth yn gyffelyb i big tebot, a choreyn yn y big, a hanner dwsin o *stuck lead pencils*." "Cewch yn siwr," ebai'r *bookseller*: "mi debygw'n eich bod chwi yn dipyn o *literary character*—tipyn o ddyleit mewn prydyddu, *probably?*" "Oes, dipyn," meddai Wil. "*All right*," meddai'r *bookseller*; "beth feddylwch chwi am y rhai hyn?" gan dafu gwaith Iorwethr Glan Aled ac *Oriau'r Hwyr* Ceiriog Hughes ar y *counter*. Dyma y gwaith mwyaf *tasty* sydd wedi dyfod allan yn ddiweddar; a gwell i chwi eu prynu." "Mi a'u cym'raf," ebai Wil; "a oes genych chwi rywbeth arall a recommendwch i mi?" "Dyma waith Dafydd Ionawr, dyma waith Dewi Wyn, dyma waith Beirdd Mon, dyma *Winllan y Bardd*, dyma "Dyna ddiagon, dyna ddiagon i'm poced i heddyw."

Wel, paciodd y *bookseller* y cwbl yn un bwndel, ac wedi talu am danynt, aeth Wil allan i'r heol; ac wedi troi ei ffrîw yma ac acw, ffwrdd ag e tua'r *Lamb and Flag*, neu fel y mae pobl y wlad yn ei alw, *Eflam an' Eflam*: aeth i ystafell, ac wedi eistedd wrth fwrdd bychan naill ochr, galwodd am beint o *borter*; ac wedi cael hwnw, efe a'i gosododd ar y faine, ac a ddododd y pacyn ar y bwrdd. Yfodd ddracht o'r *porter*, ac wedi ei ddodi yn ol ar y faine, agorodd y pacyn ar y ford; a dyna lle yr oedd y llyfrau—Gramadeg Rowland, diesnari dwbwl Spurrell, y llyfrau prydyddol, y llyfrau â'r dail gwynion, y *steel pens*, y pethau i'w dodi ynddo, y botel gwart o *Japan ink*, a'r botel fach â'r big fel tebot, a'r blotin papyr, yr un fath a phe buasai wedi codi *standing* yn y

Eflam an' Eflam. Dyna lle yr oedd Wil yn edrych ar ei *stock*; a phwy ddeuai i mewn i'r ystafell ond ysgolfeistr y *National School* ag oedd yn ardal Wil. Agorodd yr ysgolfeistr ei lygaid mewn syndod, a dywedodd, "Beth, ai chwi, William, sydd yma yng nghanol eich llyfrau a'ch papyrau fel rhyw Syr Isaac Newton?" "Iê," ebai Wil, "ac yr wyf yn benderfynol i ymgymmeryd â studio barddoniaeth, a thyma fi wedi dechreu prynu llyfrau." Edrychodd yr ysgolfeistr dros y llyfrau bob yn un ac un gan eu canmol; a dywedai Wil iddo fod yn hir iawn yn eu pigo allan. "Mae'r llyfrau, William, yn llyfrau da; ond os ydych chwi yn meddwl am fod yn fardd, y mae yn rhaid i chwi gael gwaith *Talháiarn* eto. Tipyn yn farwaidd yw'r llyfrau hyn; ac y mae yn angenrheidiol i chwi yn eich cyfansoddiadau i sugno ychydig o'r bywyd, o rywbeth nad oes genyf fi un enw arno, o dethau *Tal*, er mwyn iddynt fyned." "Gwerth faint yw gwaith *Talháiarn?*" ofynai Wil." "Gwerth coron," atebai yr ysgolfeistr." "Nid oes genyf ond tri swllt heb eu gwario," ebai Wil; "gwnewch roddi benthyg hanner coron i mi hyd foreu dydd Llun, ac mi redaf i brynu hwnw eto; a gofalwch am y cwbl hyd nes y delwyf yn fy ol." Cafodd Wil yr hanner coron, a ffwrdd ag ef i'r siop, ac yn ol y daeth â gwaith *Tal* yn ei law; ac wedi iddo ail bacio, ac yfed y gweddill o'r peint *porter*, ffwrdd ag ef tuag adref yn sobr ei wala.

. Boreu dydd Sul a ddaeth, a chyfododd Wil yn foreu iawn, yn gynt na neb yn y pentref; a'r peth cyntaf a welodd un o'r boreuwyr penaf ydoedd gweled Wil yn ymyl coed y Fron, â'i lyfr yn ei law, yn cerdded tipyn, yn sefyll tipyn, yn myned dipyn ym mlaen, yn myned dipyn yn ol, yn edrych i'r wybren, yn edrych i'r ddaear, yn edrych tua'r gogledd, yn edrych tua'r deheu, yn

y bu ar Wil. Dygweddodd i hanner Jack a hanner *student* ddyfod i bregethu i'r capel ar uchaf boreu Sul; a hwn, i'r dyben o egluro rhyw air neu eiriau yn ei destyn, er mwyn peri deall i'w wrandawyr, a grybwyllodd ei ystyr yng ngwaith y cynfeirdd a'r gogyfeirdd; soniodd am Taliesin, am Aneurin, am Llywarch Hen, ac am rywun naill ai Llywelyn neu Lewis Brydydd y Moch, ac a ddywedodd nad oedd na Homer, na Virgil, na Horace, na neb o'r hen feirdd Cenedlig, na neb beirdd ar y ddaiar, fu, sydd, ac a ddaw, ddim yn y byd at y beirdd Cymreig. Dywedodd fod yr awen ynddynt yn fwy poethlyd—fod eu meddyliau yn fwy dyrchafedig, yn fwy hedegog, yn gyflymach, ac yn fwy treiddgar nag unrhyw feirdd ereill. Cynghorai yr hanner Jack a'r hanner *student* hefyd ei wrandawyr i "ffermwriaethu" barddoniaeth, ac nas gallent gael ond y peth nesaf i ddim o gysurcn ac adeiladaeth yn Llyfr y Salmau a prophwydoliaethau Esaiah, os nad oeddynt i raddau mwy neu lai dan ddylanwad yr awen. Rhoes yr hanner Jack a'r hanner *student* hefyd done ar Dderwyddiaeth, a dywedodd mai Derwyddiaeth ydoedd crefydd Abraham, o blegid iddo blanu llwyn o goed yn Beerseba, a bod y Derwyddon byth ar ol hyny yn ffond o gyflawnu eu gwasanaeth crefyddol mewn coed. Dywedodd yr hanner Jack a'r hanner *student* lawer iawn hefyd am y fantais o feddwl a myfyrio mewn coed, a bod dynion o feddyliau mawrion a gwreiddiol yn hoff o rodio ac eistedd dan gangenau cysgodfawr coedydd. Dywedodd hefyd bod yr amser wedi dyfod i ddynion ieuaine roddi mwy o'u bryd ar lenyddiaeth, ar gyfansoddi, ac ar brydyddu, ac ar natur eglwys, er mwyn bod o ddefnyddioldeb mwy yn eu "dydd a'u tymmor," ac felly i "lanw eu cylch;" ac wedi myned ym nlaen gyda'r annogaethau difrifol hyn am ychydig fynyddau, cafwyd yr Amen.

Lled sychlyd oedd y bobl yn gwrando, ond Wil yn unig; ac wrth fyned o'r cwrdd, cadwai ar ol, a cherddai wrtho ei hun megys pe buasai mewn rhyw syn fyfyrdd. "Beth sydd ar Wil, heddyw?" meddai un. "A yw Wil ddim yn iach?" meddai'r llall. "I ba beth y mae Wil yn edrych yn barhäus tua'r coed draw?" meddai'r trydydd. "Ef allai fod Wil am fyned yn Abraham, neu yn Dderwydd, neu yn brydydd, neu yn bob un o'r tri," meddai'r pedwerydd. Ond wrtho ei hun yr oedd Wil yn dyfod o'r cwrdd. Cerddai gan edrych tua'r ddaiar, a chyfodai flodeuyn llygad y dydd neu laswelltyn; ac wedi edrych dipyn arno, troai yn ddisymmwrth at y coed, a sylwid ei fod yn cyfodi ei law yn fynych at ei ben, ac yn ei grafu.

Dygweddodd fod cwrdd yr hanner Jack a'r hanner *student* ar ddydd Gwener, a chan ei bod yn ddydd marchnad dranoeth, aeth Wil i'r dref gyfagos; ac wedi cyrhaeddyd y dref, i mewn rap â Wil i siop y *bookseller*; ac wedi myned i mewn, gofynodd i'r *bookseller* os oedd ganddo Ramadeg Cymreig ar werth. "Oes," ebai'r *bookseller*, "mae genyf amryw: pa un ydych chi yn ymofyn am dano?" "Ni wn i ddim," atebai Wil; pa un o honynt a recommendiech chi i mi?" "Nid yw o bwys i mi," ddywedai'r *bookseller*, "pa un a werthaf; ond Gramadeg Rowland y mae dynion dysgedig yn ymofyn am dano. Dyma'r Gramadeg sydd yn Oxford a Cambridge; a'r Gramadeg hwn sydd yn *universities* Germany hefyd." "Mi gymmeraf hwna," ebai Wil, gan ei dderbyn o law y *bookseller*; ac wedi ei dderbyn, efe a'i hagorodd, ac a welodd fod Seisoneg ar ei ddail. "Mae Seisoneg yn hwn," ebai Wil; "ac ni wn i fawr neu ddim Seisoneg." "O," meddai'r *bookseller*, "gwel i chi gael copi o ddicsnari dwbwl Spurrell, ac ni fydd un drafferth i chi lanw'r bwllch

yna." "Dewch ag e," ebai Wil. "Mae arnaf eisieu cweier o bapyr gwyn, a dau neu dri llyfr o ddail gwynion swllt yr un, a boesod o *steel pens*, a pheth i'w dodi ynddo, â chwart o *Japan ink*, a gwerth dwy geiniog o blotin papyr, a photel i ddala'r inc, a phig iddi, rywbeth yn gyffelyb i big tebot, a choreyn yn y big, a hanner dwsin o *flack lead pencils*." "Cewch yn siwr," ebai'r *bookseller*: "mi debygwn eich bod chwi yn dipyn o *literary character*—tipyn o ddyleit mewn prydyddu, *probably*?" "Oes, dipyn," meddai Wil. "*All right*," meddai'r *bookseller*: "beth feddyliwch chwi am y rhai hyn?" gan dalu gwaith Iorwerth Glan Alad ac *Oriau'r Hwyr* Ceiriog Hughes ar y *counter*. Dyma y gwaith mwyaf *tasty* sydd wedi dyfod allan yn ddiweddar; a gwll i chwi eu prynu." "Mi a'u cym'raf," ebai Wil; "a oes genych chwi ryw-beth arall a recommendwch i mi?" "Dyma waith Dafydd Ionawr, dyma waith Dewi Wyn, dyma waith Beirdd Mon, dyma *Winllan y Bardd*, dyma "Dyna ddigon, dyna ddigon i'm piced i heddyw."

Wel, paciodd y *bookseller* y cwbl yn un bwndel, ac wedi talu am danynt, aeth Wil allan i'r heol; ac wedi troi ei ffrw yma ac acw, ffwrdd ag e tua'r *Lamb and Flag*, neu fel y mae pobl y wlad yn ei alw, *Eflam an' Eflam*: aeth i ystafell, ac wedi eistedd wrth fwrdd bychan naill ochr, galwodd am beint o *borter*; ac wedi cael hwnw, efe a'i gosododd ar y faine, ac a ddododd y pacyn ar y bwrdd. Yfodd ddracht o'r *porter*, ac wedi ei ddodi yn ol ar y faine, agorodd y pacyn ar y ford; a dyna lle yr oedd y llyfrau—Gramadeg Rowland, diensnari dwbwl Spurrell, y llyfrau prydyddol, y llyfrau â'r dail gwynion, y *steel pens*, y pethau i'w dodi ynddo, y botel gwart o *Japan ink*, a'r botel fach â'r big fel tebot, a'r blotin papyr, yr un fath a phe buasai wedi codi *standing* yn y

Eflam an' Eflam. Dyna lle yr oedd Wil yn edrych ar ei *stock*; a phwy ddeuai i mewn i'r ystafell ond ysgolfeistr y *National School* ag oedd yn ardal Wil. Agorodd yr ysgolfeistr ei lygaid mewn syndod, a dywedodd, "Beth, ai chwi, William, sydd yma yng nghanol eich llyfrau a'ch papyrau fel rhyw Syr Isaac Newton?" "Ië," ebai Wil, "ac yr wyf yn benderfynol i ymgymeryd â studio barddoniaeth, a thyma fi wedi dechreu prynu llyfrau." Edrychodd yr ysgolfeistr dros y llyfrau bob yn un ac un gan eu canmol; a dywedai Wil iddo fod yn hir iawn yn eu pigo allan. "Mae'r llyfrau, William, yn llyfrau da; ond os ydych chwi yn meddwl am fod yn fardd, y mae yn rhaid i chwi gael gwaith *Talhaiarn* eto. Tipyn yn farwaidd yw'r llyfrau hyn; ac y mae yn angenrheidiol i chwi yn eich cyfansoddiadau i sugno ychydig o'r bywyd, o rywbeth nad oes genyf fi un enw arno, o dethau *Tal*, er mwyn iddynt fyned." "Gwerth faint yw gwaith *Talhaiarn*?" ofynai Wil." "Gwerth coron," atebai yr ysgolfeistr." "Nid oes genyf ond tri swllt heb eu gwario," ebai Wil; "gwnewch roddi benthg hanner coron i mi hyd foreu dydd Llun, ac mi redaf i brynu hwnw eto; a gofawch am y cwbl hyd nes y delwyf yn fy ol." Cafodd Wil yr hanner coron, a ffwrdd ag ef i'r siop, ac yn ol y daeth â gwaith *Tal* yn ei law; ac wedi iddo ail bacio, ac yfed y gweddill o'r peint *porter*, ffwrdd ag ef tuag adref yn sobr ei wala.

. Boreu dydd Sul a ddaeth, a chyfododd Wil yn foreu iawn, yn gynt na neb yn y pentref; a'r peth cyntaf a welodd un o'r boreuwyr penaf ydoedd gweled Wil yn ymyl coed y Fron, â'i lyfr yn ei law, yn cerdded tipyn, yn sefyll tipyn, yn myned dipyn yn ol, yn edrych i'r wybren, yn edrych i'r ddaear, yn edrych tua'r gogledd, yn edrych tua'r deheu, yn

edrych tu'r dwyrain, yn edrych tua'r gorllewin, yn crafu tipyn ar ei ben, yn crafu tipyn ar ei fraich, yn myned i mewn i'r coed, yn dyfod allan o'r coed, ac felly am oriau meithion; ac a ymddangosai fel pe buasai yn edrych a oedd rhywrai yn ei weled ac yn sylwi arno. Erbyn i Wil fyned i'r ty, dyma ei fam yn ei alw i gyfrif am ei absenoldeb; y boreu-fwyd wedi pasio—y *coffee* wedi oeri— a Wil yn synu ei bod gymmaint o'r gloch, a'r oriau wedi myned heibio mor ddiarwybod iddo. "Pan ddechreuo dyn feddwl," meddai Wil wrth ei fam, "ac i'w feddwl gael ei lyncu gan ryw bwnc neu gilydd, mae yr amser yn myned heibio; ac mi fuais i mewn *study* fawr wrth goed y Fron: mor bell y mae meddwl dyn yn gallu cyrhaeddyd! gymmaint a all gwmpasu! y fath bethau newydd sydd yn ymgynnyg iddo! Yr wyf fi er ys ychydig ddiwrnodau megys pe byddwn wedi newid dau fyd; yr wyf yn teimlo fy hun yn ddyn newydd; yn ddyn arall; ac y mae barddoniaeth yn rhedeg fel pistyll i fy mhen." Hi ddaeth yn amser cwrdd yn fuan, a ffwrdd â Wil i'r capel, ac i mewn ag ef i'r côr. Eisteddai Wil yn y côr; ond sylwid fod ei olwg yn fwy doctoraidd o lawer nag arferol. Edrychai tua phen y capel, ac edrychai tua'r llawr, megys pe buasai mewn rhyw *study* fawr anghyffredin. Edrychai ar y bobl, nid fel rhai o'r un cnawd a gwaed ag yntau, ond o ddefnydd is law a gwaelach na defnydd ei gyfansoddiad ef. Yr oedd rhyw hen wr yn dygwydd bod yn pregethu yno y Sabbath hwnw; ac yr oedd yr hen wr dipyn yn ddwl, ond nid hanner mor ddwl a Wil. Yn fuan wedi i'r hen wr ddechreu dyweyd tipyn, dyma'r llyfr â'r dail gwynion allan o boced brest cot Wil; ac ar ol agor y llyfr â'r dail gwynion, dyma'r *black lead pencil* allan; ac wedi i Wil edrych dipyn ar yr hen wr yn y pulpud, dyma ef

yn ysgrifenu, neu yn cymmeryd arno ei fod yn ysgrifenu, yn llyfr y dail gwynion, ac wedyn yn dod i'r cwbl yn ol. Ym mhen ychydig dyma'r llyfr allan eilwaith, a thyma'r *pencil* allan hefyd, ac yn ol â hwy drachefn. Ac fel yna y parhaodd Wil trwy ystod y bregeth; a darfu i'w brancs wirioni yr hen wr yn y pulpud.

Sylwodd y bobl ar Wil trwy'r capel; ac wrth fyned tuag adref, "Pa beth sydd ar Wil?" meddai un. "Mae Wil yn myned yn ddwl," ebai'r llall. "Nac ydyw, nac ydyw," meddai'r llall; "wedi prynu llyfrau y mae Wil, ac y mae wedi bod yn eu hastudio yn galed neithiwr a boreu heddyw; mi a'i gwelais ef yn cerdded yn ol ac ym mlaen wrth goed y Fron gyda bod yr haul yn codi heddyw: mae awen farddonol yn Wil; a marciwch chwi, fe ddaw yn brydydd." "Os rhyw ystumiau gwneuthur, fel yr oedd gan Wil heddyw yn y capel, yw yr awen brydyddol," meddai'r gof, "cerdded i Satan o'm rhan i." "Dyma chwi bob amser; dyna eich arferiad chwi; cnap ar ben dyn ieuanc os bydd rhywbeth ynddo." "Y mae eisieu cnapo'r prancs yna allan o hono beth bynag," meddai'r gof drachefn; "gwnewch chwi fy nghredu neu beidio, y mae Wil yn myn'd yn ddwlach nag y bu erioed." "Mae yn rhaid i ddynion hunanol," meddai Pegi y Twyn, "dynu pawb lawr os bydd rhywbeth ynddynt; ac y mae William yn sicr o fod yn gymmaint o ddyn a'r rhai sydd yn siarad am dano, os nid yn fwy." "Mae yn gas genyf glywed dynion sydd yn meddwl eu hunain yn fwy ac uwch law pawb, yn ceisio tynu ereill lawr, ac yn gosod eu traed ar eu penau, pan mewn gwirionedd nid ydynt yn ffit eu hunain i sychu eu hesgidiau," ddywedai Sian Ty Cornel. Fel hyn y siaredid am Wil wrth ddyfod o'r cwrdd.

Yr oedd Wil yn ddyfal yn yr Ysgol Sul, ac yn ymddwyn fel rhyw

fachgen arall yn ei ddosbarth; a daeth i'r Ysgol prydawn y Sul hwnw, ar ol bod yn cerdded yn ol ac ym mlaen am tuag awr a hanner dan goed y Fron, â'i lyfr yn ei law, ac yn fynych yn codi ei ffrîw, ac megys yn syn fyfyrîo. Wedi i Wil eistedd yn ei ddosbarth, a gosod pob peth mewn trefn, aed at y gwaith; a phan ofynid cwestiynau yr oedd pawb yn ateb, ac yn mynegu eu meddyliau fel arferol ond Wil. "Beth yw eich meddwl chwi am y gair hwn, William?" ofynai yr athraw. Ond ni atebai Wil ddim. "Beth yw eich golygiad chwi am yr adnod hon, William?" gofynai yr athraw eil-waith. Dim bwm ddywedai Wil. Sylwid ei fod yn ymchwyddo ac yn ymlenwi o hyd; ac o'r diwedd dyma hi yn tori allan, ac meddai Wil, "Mi ddywedaf wrthych beth; ni thâl hi ddim yn y byd yn y dull yr ydym ni yn myned ym mlaen, canys

y mae pawb yn yr un fan o ran dim cynnydd sydd yn cymmeryd lle. Mae yn rhaid i chwi ddysgu grama-degau, a deall cystrawen y Gymraeg, a gwybod beth ydych chwi yn galw y Gymraeg; ac yn benaf dim y mae yn rhaid i chwi gael tast at brydyddiaeth y Beibl, yn neillduol felly at brydyddiaeth y Salmydd a phrydyddiaeth Esaiah; canys beth *sydd* yn brydyddiaeth, a pheth sydd heb fod yn brydyddiaeth ydyw'r pwnc mawr." "Mae Wil wedi dotio." meddai un. "Nac ydyw," ebai'r llall, "canys y mae Wil yn dywedyd yn iawn." "Mi ymadawaf fi â'r *class*," meddai un, "os nad yw Wil yn cael ei ffordd." "A minnau a ymadawaf â'r *class*," meddai'r llall, "os nad yw Wil yn cael llusgo ei brydyddiaeth iddo." Hi aeth yn hwrli pwrli o *glass* i *glass* trwy yr ysgol, a therfynwyd hi. Hyd yma yr af yn bresennol â hanes Wil.

II.

Yr oedd Wil erbyn hyn dan raddau mawrion o gynhyrîad; a'r wythnos ganlynol, wedi iddo fod yn prynu llyfrau, ni wnaeth gymmaint a rhithiantyn o waith, ond treulio pob dydd yn ei ddydd, fel yr oedd y dydd yn dyfod, yng nghoed y Fron. *Study* Wil yng nghoed y Fron oedd, pa fodd y gwnaethai ei hun yn ddyn; ac nid yn ddyn cyffredin ond yn ddyn anghyffredin; hyny yw, yn ddyn mawr, yn ddyn enwog, ac yn ddyn o glod trwy'r wlad a'r gwledydd. Collwyd Wil braidd yn hollol o'r pentref am yr wythnos ganlynol, ac ambell gipolwg geid arno trwy'r cysgodau pan yn myned ac yn dyfod o goed y Fron. Yn y coed y treuliai braidd bob diwrnod; ac ar ambell waith gwelid ef yn estyn ei ben fel llwynog allan oddi rhwng y dail i wrando ar y ceiliogod yn canu, ac i wneuthur sylw manwl ar eu trifanau. Erbyn hyn yr oedd

Wil wedi myned yn destyn siarad cyffredinol yn yr ardal, a braidd yr unig destyn siarad; ac yr oedd y farn yn wahanol am dano fel pwnc, megys ar bob pynciau ereill. Barn rhai oedd bod Wil wedi colli'r tipyn synwrau a gafodd, ac y byddai gorfod ar swyddogion y plwyf ei anfon i ryw wallgofdy yn fuan. Ond yr oedd y blaid fwyaf dros Wil, ac yn selog iawn drosto. Yr oedd y blaid hon wedi gweled pethau mawrion yn Wil pan oedd yn fachgenyn; ac yr oedd y blaid hon hefyd wedi daroganu, wedi prophwydo, ac yr oedd rhywbeth wedi dywedyd wrth-ynt er ys amser y byddai Wil yn ddyn mawr—yn brydydd mawr, yn bregethwr mawr, ac yn glod i'r ardal lle y ganwyd ac y magwyd ef.

Pa fodd i fyned yn ddyn mawr oedd testyn myfyrdod Wil yn y coed; a tharawodd yn ei feddwl yn ddi-symmwth bod yn rhaid iddo fyned

yn farfog, ac y gwnelai ei farf dynu sylw pawb. Yr oedd yn gweled bod ffasiwn y farf yn lled gyffredinol—ei bod yn gwneuthur ei pherchenog yn *odd* o leiaf os nid yn synwrol—a bod trwch o farf ar bregethwr yn gyffredinol yn ei wneuthur yn *respectable* yn y pulpud uwch law pob peth. Ystyriai y torchau blewog am yddfau dynion yn gadwynau heirdd o waith natur, ac yn neillduol felly am yddfau pregethwyr. Ystyriai fod digonedd o flew geirwon eithinog am eu mynyglau nid yn unig yn addurniadau digyffelyb ond yn gynnorthwyon i'r cydau ymadrodd a elwir y *larynx* a'r *pharynx*, ac yn rhyddhau y bibell waeddi i'r llafar. Ystyriai hefyd bod y dorch flewog am fwnwgl pregethwr yn gwneuthur gwahaniaeth rhwng tir y fendith a thir y felltith, ac yn arwyddo bod y siol lawer yn fwy cyssegredig na'r hen gorpws a'i wyniau a'i chwantau—fod y dorch rawnog a blewog yn ganolfur y gwahaniaeth rhwng y cyntedd cyssegredig a chyntedd y Cenedloedd. Yr oedd Wil hefyd, er yn fachgen, yn hoffi torchau blewog y cŵn bychain a elwir y *French Poodles*, yng nghyd â'r rhywogaeth ryfedd o fwnciod a welir yn *shew* ffair Awst; a dywedai mai dyledswydd creaduriaid dwy-droed, yn enwedig dynion cyhoeddus fel beirdd a phregethwyr, oedd ymdebygoli ym mlewach eu gyddfau i'r creaduriaid pedair troed a grybwyllwyd. Ystyriai Wil hefyd fod torch flewog am y mwnwgl, yn neillduol am fwnwgl bardd a phregethwr, ond yn benaf pregethwr, yn arwydd amlwg o fod yr hwn sydd yn gwisgo'r dorch hon yn ac wrth ei waith. Cofiai fod pob mwlsyn fyddai yn ac wrth ei waith â thorch, neu, fel y gelwir hi mewn rhai ardaloedd, mwnci brwyn neu fwnci gwellt, am ei wddf, a bod y pregethwyr yr un modd yn arwyddo eu bod yn ddynion wrth eu gwaith pan yn gwisgo mwnciod blew am eu mynyglau.

Pan yn myfyrio yng nghylch ei fawredd dyfodol, a'r orsaf uchel y dringai iddi ym mhlith ei gydgenedl, yn ei ddarpariadau meddylgar gyferbyn â hyny, nid yn unig penderfynodd roddi ei wddf mewn torch o rawn, ond hefyd gadael i'w farf gael ei ffordd ei hun yn ei thyfiant ar hyd ei gernau, ei ên, a'i wefus uchaf. Ystyriai fod y gwefusau yn *dender*, a'u bod yn cael eu diogelu dan gysgodau bargodion rhawn. Ystyriai hefyd fod bargodion yn tasfu'r dyferynau oddi wrth y muriau ac yn eu diogelu felly rhag y lleithder, a'i fod yn ffoliawn mewn dynion i adael rhyw ddyferion redeg i'w geneuau pan yr oedd natur wedi darparu bargodion rhawn iddynt er mwyn diogelu y geneu. Ystyriai Wil fargod rhawn yn wasanaethgar i bawb, ond yn neillduol felly i bregethwr. "A phwy ŵyr," meddai ef yn ei fyfyrdod wrtho ei hun yng nghoed y Fron, "na fyddaf finnau yn bregethwr? o blegid mi fynaf fy nerbyn heb fod yn hir, a goreu i gyd po gyntaf y bydd i mi wneuthur parotoadau gyferbyn â sefyll uwch ben pechaduriaid."

Mewn cyssylltiad â'r bargod rhawn cymmerodd Wil yn ei *study* yn y coed, yr holl wyneb i mewn, a llychedenodd i'w feddwl ar unwaith nad oedd y gwyneb dynol dan unrhyw amgylchiadau yn ymddangos mor brydferth a phan fyddo dan gnwd o flew. Ystyriai bod gwryg ar y mynydd yn prydferthu'r mynydd, bod eithin a rhedyn ar y glenydd yn prydferthu'r glenydd, a bod pibrwyn a ffwcs yn y corsydd yn prydferthu'r corsydd; ac felly hefyd bod cnwd o flew ar y gwyneb yn prydferthu'r gwyneb. Ond anghofiodd Wil yn y fan hon bod y cnwd rhawn ar y gwyneb yn cuddio y gwyneb. Meddyliodd Wil hefyd ei fod yn beth rhagorol, i.e. ac angenrheidiol, i ddyn guddio ei hun mor bell ag yr oedd modd iddo wneuthur hyny. Ei fod yn dangos synwyr a

doethineb mawr mewn dyn i wneuthur ei hun mor debyg i greadur pedwar troediog ag y mae yn ei allu i wneuthur hyny; ei fod yn dangos cywreinerwydd mawr mewn pregethwr i guddio ei hun yn agweddiad mwnci mawr, neu fabŵn mawr, neu *ourang outang*, neu *gorilla*; ei fod yn beth *clever* iawn mewn pregethwr, pan ddangoso ei hun yn y pulpud, i dafu'r gynnulleidfa mewn petrusder yng nghylch pa rywogaeth fydd y creadur sydd yn sefyll ger eu bronau, ac yng nghylch eu hanerch yn yr Efengyl. "Beth all yr hwdwech mawr fod?" meddai un. "Beth yw yr anghenfil blewog a rawnog hwn?" meddai y llall." "Ac y mae siarad fel hyn trwy'r capel," meddai Wil wrtho ei hun yn y coed, "yn peri i sylw mawr gael ei wneuthur o'r pregethwr." Ac meddai Wil ym mhellach, "Byddai yn *improvement* mawr iawn pe ychwanegid cyrn a chynffon at y blew."

Llyncwyd Wil yn hollol gan y farf. "Beirdd difarf," ebai ef wrtho ei hun, "maent yn warth i gerdd tafod, ac nid ydynt yn werth bwtwn." "Rhowch i mi bregethwr," meddai ym mhellach, "â digon o farf arno o glust i glust, a hōno yn cwrlu, a'i chwys a'i boeri yn ddyferion mawrion yn crogi wrthi fel dyferion eira toddedig wrth fargod gwellt. Dyna'r pregethwr i mi." "Y mae rhywbeth rhyfedd mewn digon o farf ar gwyneb pregethwr," ychwanegai Wil, "i adeiladu'r ffyddloniaid yn y ffydd, ac i argyhoeddi pechaduriaid cyndyn." "Ydyw," meddai, "mai'r Gair yn fwy nerthol ac yn dyfod allan yn llymach o eneu pregethwy'r barfog nag o eneu pregethwy'r ereill; canys y mae'r llais megys yn dyfod allan o ogof mewn caugwm; ac wrth ymadael â chiliau ei fochau y mae yn *whishan* yn y blew, ac yn per-eiddio wrth ymwithio trwyddynt; ac felly, yn ei ymdaith, yn myned yn floedd felus a pher, ac yn toddi'r bobl wrth ddisgyn arnynt yn ei

gwres." "Ydyw," meddai Wil dra- chefn, "y mae yr Efengyl yn awr yn ymofyn am *oddities*—digon o farf ar wddf, bochau, gēn, a gwefus uchaf pregethwr, er mwyn dangos y gall hi weithio i ddychwelyd pechaduriaid trwy agweddiad dycithrol ar bersonau pregethwy'r, yn gystal a thrwy eu hagweddiad dynol."

Fel yr oedd Wil yn myned ym mlaen yn ei fyfyrfaeth ar y farf, neidiodd yn wyllt ar ei draed, ac wedi rhoddi ysbone fawr, efe a roes ei gefn i bwyso ar baladr derwen fawr, ac ebai ef, "Mae genyf gorff gweddol luniaidd; yr wyf yn ystwyth fel y faneg; ac fel yr wyf byw, mi adawaf i'r barf dyfu o glust i glust ac o ên i drwyn, ac mi fynaf dorch flewog am fy ngwddf; ac erbyn yr elwyf yn fardd ac yn bregethwr, a chael cyfleusdra i ddangos fy hun, a lledu fy noniau a'm cynhwysderau ger bron y wlad, digon tebyg y gwna rhyw *lady* gyfoethog fy ffansio a'm priodi, a gosod fy niraed ar war y byd ar unwaith, ac yna baw; iē, yna baw i bawb."

Wedi i Wil ddyfod i benderfyniad yng nghylch pwnc mawr ei farf, meddyliodd nad gwiw iddo feddwl y gallasai fod yn fardd o fri, ac yn bregethwr enwog, a phriodi *lady* gyfoethog, a bod yn wr boneddig, a'i droed ar war y byd heb ddysgu Seisoneg. Megys y crybwyllwyd yn yr erthygl flaenorol, yr oedd Wil, megys ag y mae'r nifer amlaf o'r Cymry unieithog, yn difrio'r Seison a'r Seisoneg yn ofnadwy; ac yr oedd ei loned o ragfarn at y Seisoneg, a hōno yn tarddu oddi ar nad oedd yn gwybod Seisoneg, fel y mae'r bobl gyffredin ac anwybodus er ys oesau: ond mae'r rhod yn troi fel arall yn gyflym yn ein plith. Fe deimlai Wil ei ddiffygion gyda golwg ar y Seisoneg, a chanfuai bod y grisiau braidd i bob dyrchafiadu yn ammhosiibl i'w hesgyn heb gynnorth-wyon yr iaith hon. "Beth ydyw'r

ffolineb sydd wedi bod arnaf?" meddai Wil wrtho ei hun yng nghoed y Fron. "Yr wyf wedi bod trwy'r blynyddoedd yn difrio, yn dirmygu, ac yn sathru ar y Seisoneg, a minnan ar yr un pryd heb fod yn gwybod ond y peth nesaf i ddim am yr iaith hon! Rhyfedd mor ffol yr wyf wedi bod, a minnau ar yr un pryd yn gweled ei defnyddioldeb ar bob llaw! Mae'r byd yn myned ym mlaen, ac yr wyf yn gweled eisieu tipyn o Seisoneg arnaf braidd ym mhob man y dygwyddaf fod ynddo. Ni waeth i mi â breuddwydio, ni ddeuaf byth yn ddyn heb ddysgu rhywfaint o Seisoneg. Ni ddof yn fardd, nac yn bregethwr cymmeradwy, nac yn berchen ar *lady* yn wraig heb fod genyf dipyn o Seisoneg.

Wedi bod yn myfyrio fel hyn trwy gydol yr wythnos yng nghoed y Fron, yr oedd y pentref a'r ardal mewn syndod o'i blegid; ond yr oedd anadl y bobl gyffredin o blaid Wil. "Mae rhywbeth," meddent, "ym mhen Wil; a dywedod pawb yr hyn a ddywedont, fe ddaw Wil yn ddyn. Ni welsoch chwi erioed y fath becyn o lyfrau ddarfuo iddo brynu pa ddiwrnod yn y dref. Mae cloriau hyfryd am danynt; rhai yn leision, rhai yn dduon, a rhai yn gochion, a llythyrenau melyniion arnynt: maent yn sicr o fod wedi costi punnoedd iddo. Maent yn sicr hefyd o fod yn lyfrau uchel iawn, ac fe fydd Wil hefyd yn ddyn uchel." Yr oedd gan Wil geiniog o arian wedi ei chrafu yng nghyd, ac yr oedd gan fam Wil geiniog o arian hefyd. Un noswaith ar yr aelwyd wrth y tân, agorodd Wil ffwch ei amcanion, ac a osododd ei gynnwysiad ger bron hen wraig ei fam. Dywedodd wrthi ei fod yn teimlo awydd ynddo i fod yn ddyn, ac yn ddyn enwog—ei fod yn credu fod ynddo ddoniau barddonol—a'i fod yn ddiweddar wedi cael ei dueddu yn gryf i greu fod ynddo ddoniau a chymhwysderau mawrion hefyd at

fod yn bregethwr. "Ti i fod yn brydydd a phregethwr, Wil," meddai yr hen wraig, "a thithau heb fod ar yr enw? Pa fodd yr wyt ti yn gallu meddwl am fod yn bregethwr a thithau ddim gyda'r achos—ddim wedi dy dderbyn—ddim yn *b'longo*—ddim wedi *joino* ag un *party*—ac nid ydwyf wedi eistedd?" "Nid ydyw hyna ond peth hawdd, mam," ddywedai Wil; "ni ddeuaf trwy hyna yn hawdd fy ngwala." "Ond," meddai mam Wil, "y mae gan y gweinidog fab neu ddau ag y mae yn fwriadu roddi yn bregethwyr; a bydd hwn yn dy erbyn di rhag ofn y byddi ar ffordd ei feibion ef." "*Never mind* am hyny," ddywedai Wil; "mae fy ewythr Sion a'm hewythr William yn ddiaciaid; ac agored y gweinidog ei geg, os baidd, yn fy erbyn: buan y bydd dan orfod troi i ryw gongl arall o'r maes i bori. Ond y peth ag ef yw hyn, mam," ddywedai Wil; "yr wyf yn bwriadu myned *off* i rywle rhwng Cymru a Lloegr, er mwyn cael *crap* ar dipyn o Seisoneg, a hyny am flwyddyn, canys nis gallaf fod yn ddyn heb hyny." Heb fyned i chwalu mwy na mwy ar y mater, rhoes ei fam i fyny i Wil, a phenderfynwyd fod i Wil gychwyn i'w daith i rywle ar y terfynau rhwng Cymru a Lloegr boreu dydd Llun.

Boreu dydd Llun, aeth ei fam i hebrwng Wil i'r dref, ac o'r dref i'r *station*, i'w weled yn myned ymaith gyda'r *train*. Yr oedd yr hen wraig ar ei gwên yn y *station* wrth glywed yr *officials* ac ereill yn siarad Seisoneg; nid am ei bod hi yn deall cymmaint a gair a ddywedid, ond am y byddai Wil wedi dysgu holl Seisoneg y byd yn fuan yn y fan lle yr oedd yn myned iddo ar y cyffiniau rhwng Cymru a Lloegr. Ar y ffordd adref yr oedd Wil yn barhäus ar feddwl yr hen wraig, druan â hi: a pha ryfedd? ei Wil hi ydoedd; ei mab hi oedd Wil; ac yr oedd ef yn lloned y byd yn

ei golwg. Dywedai wrthi hi ei hun, "Fe ddaw Wil yn ei ol yn ysgolhaig; fe ddysg ddigon o Seisneg: beth fydd offeiriad y plwyf at Wil pan ddaw yn ei ol? Ac os bydd mor lwcus a phriodi ladi, ni raid iddo dynu ei het nac i'r person, na'r 'sgweier, na neb arall."

Pan ddeallwyd yn y pentref a'r ardal bod Wil wedi ymadael, bu yn siarad mawr ac yn siarad bach rhwng pob dau a rhwng pob tri am ddiwrnod a darn o noswaith; ac erbyn dranoeth, daeth rhywbeth arall yn destyn, ac anghofiwyd Wil.

Ym mhen tua'r flwyddyn, ar foreu dydd Sadwrn, ychydig cyn hanner dydd, diwrnod marchnad y dref agosaf i ardal Wil, gwelid slipyn o ddyne ieuanc yn dyfod oddi wrth y *station* yn farf goch fawr a thew dros ei holl wyneb, ac ar ei wefus uchaf, ac yn cyrhaeddyd o'i en hyd gyferbyn â'i frest, a thorch goch o flew oddi amgylch ei wddf. Yr oedd ei wallt coch wedi ei dafu yn ol o fargod ei dalcen, ac ar y gwrthwyneb dros ei goryn, heibio i gymmydog-aethau ei glustiau, ac wedi ymuno â gwallt ei wegil, yn disgyn yn gydn-grych hyd ei ganol. Yr oedd *shawl* wlanen *Scotch blod* yn myned dros bont ei ysgwydd, ei frest, a'i gefn, ac wedi ei chylmu wrth ei ochr fel rhyw *field marshal* dan ei *orders*. Yr oedd ei *watch* ym mhoced ei wasgod; dwy ochr *chain* felen dan ei wasgod ar ei gryns neu ei *sham*, a *chain* arall yn croesi oddi wrth boced y *watch* i'r boced arall. Yr oedd *carpet bag* mawr yn un llaw iddo, ac *umbrella* yn y llaw arall, ac yn mesur ei gamrau mor *exact* a phe buasai yn mesur rhesi tatws ar hyd ochr yr heol, yng nghyfeiriad y Fflam an' Fflam; a gwelid ef yn myned i mewn i'r Fflam an' Fflam. Wedi myned i mewn, dyma'r wraig, neu'r ferch, neu'r forwyn yn prysuro i gyrrhaeddyd y gadair fihogani i'r gwr boneddig; ac yna eisteddodd y gwr boneddig yn y gadair. Wedi

iddo eistedd, fe ddywedodd, "Glass porter and cigar, plis;" a chyda'r gair dyma yr ateb, "Immediately, sir," yn cael ei roddi; ac mewn eiliad dyma'r *cigar* a'r *porter* ar y bwrdd o flaen y gwr boneddig. Daeth gwraig y Fflam an' Fflam i'r ystafell ym mhen ychydig, a chyfododd y gwr boneddig ar ei draed, ac estynnodd ei law iddi, gan ei chyfarch, "Mrs. Jones, how diw dw?" "Really, sir, you have the advantage over me, as I do not recollect you," atebai Mrs. Jones. Yng ngwyneb hyn, dywedai'r gwr boneddig, "Is you forgetit me? I be Mr. William Morgans from—." Synodd Mrs. Jones, a dywedodd, "Dear me, Mr. Morgans, you must forgive me; you have so much altered for the better since I saw you last; you are quite a gentleman. I am very happy to see you looking so well." "I be in England in the school, and I learn much there; and be now a big scholar," meddai Wil. Erbyn hyn yr oedd galwad ar Mrs. Jones i fyned i'r *cellar*, ac meddai wrthi ei hun wrth fyned, "O, y mwlsyn dwl." "Hi, hi, hi," chwarddai y ferch. Ac "O, y ioncyn hanner call," meddai'r forwyn. Gwedi i Mrs. Jones ddyfod yn ol, gofynnodd Wil iddi, "Is I can have a small bit o' dinner?" "O yes, sir," atebai Mrs. Jones: "dinner will be on the table exactly at two o'clock." "I go and lookit about the streets now," meddai Wil, "to see if I see mother, and to see if I see some others from the place of my born. I lèv my carpet bag here till I kom back;" a chyda hyny efe a droes allan i'r heol.

Yr oedd amryw yn dygwyyd bod yn yr ystafell yn clywed Wil yn siarad; ac wedi iddo fyned allan fe'i barnwyd yn unfrydol yn ffwl.

Daw Wil eto ar yr heol; a chan ei fod yn fwy *odd* na neb a welid ar yr heol, chwi ellwch feddwl fod yno ddigon o edrych arno; ond neb

yn ei adnabod, a phawb yn meddwl mai rhyw *officer* perthynol i'r fyddin oedd, neu *general*, neu *gommander in chief*. Nid oedd neb yn adnabod Wil.

Yr oedd ceffyl gwyn gan hen bobl yn sir Gaernarfon ryw lawer o flynyddoedd yn ol; a pha beth a wnaeth rhyw seiri cellweirus ond lliwio yr hen geffyl yn ddu; a bu yn greadur diarddel am wythnosau, a'r hen bobl yn chwilio am dano bob dydd, ac yn ei weled bob dydd, ond yn methu ei adnabod. Ac meddai yr hen wraig pan yn adrodd y 'stori, "Wrth ei brancs y darfu i ni yn y diwedd adnabod mai ein ceffyl ni ydoedd." Yr un modd Wil, wrth ei brancs yntau yr adnabuwyd ef gan ei gymmydogion—wrth ei ddwli ac nid wrth ei synwyr, wrth ei anwybod-aeth ac nid wrth ei ddisgeidiaeth. Os oedd edrych mawr ar Wil cyn ei adnabod, yr oedd mwy o edrych arno wedi ei adnabod, a phawb yn y syndod mwyaf.

Aeth Wil ymaith o'i ardal heb fod nac yn broffeswr, nac yn fardd, nac yn bregethwr; ond daeth yn ol yn bob un o'r tri—yn broffeswr, yn fardd, ac yn bregethwr, yn ol fel y mae pethau yn cael eu deall yn bresennol.

Celwydd Wil bob gair oedd ei fod wedi bod yn Lloegr, ac yn yr ysgol yn Lloegr; canys pan yr aeth oddi cartref, efe a ddisgynodd wrth ochr un o fynyddoedd Morganwg, yn un o'r Gweithiau. Wedi i Wil ddisgyn, dygwyddodd iddo gael lletty yn nhy un o ddiaconiaid capel bychan perthynol i'r enwad ag oedd Wil o'r un farn ag ef. Yr oedd capel cyntaf yr enwad hwn yn y lle dipyn yn hen; ond wedi i'r gynnulleidfâ ymrafaelio, ymladd, ac ymrannu yng nghylch bod ci un o'r diaconiaid wedi lladd ei y diacon arall wrth ymladd, ffurfiodd un blaidd eglwys newydd, ac a adeiladasant gapel newydd, a derbyniwyd yr eglwys newydd yn aelod o'r undeb sirol ac o'r gymmanfa. Aeth yr eglwys new-

ydd yn mlaen â'i hachos yn llewyrchus a llwyddiannus iawn am ryw hyd; ond ymrafaeliodd dwy wraig ag oeddynt yn aelodau yn Soar, y capel newydd, yng nghylch prisiau rhyw ddwy *shawl* newydd oeddynt wedi brynu, ac aeth yr ymrafael yn fater eglwys; ac o'r diwedd ymrannodd yr eglwys hon, ac adeiladodd y sismaticiaid gapel newydd, a chafodd ei derbyn i'r undeb sirol ac i'r gymmanfa. Yn nhy un o ddiaconiaid y capel hwn y dygwyddodd i Wil gymmeryd lletty: ac enw y capel hwn oedd Rehoboth. Yr oedd gweinidog Rehoboth wedi priodi merch y diacon hwn; ond yr oedd gan y diacon ferch arall gartref yn weddw; ac yr oedd y ferch hon hefyd yn aelod yn Rehoboth, ac yn hynod o selog; a phwy bynag fyddai yn absennol o'r moddion—yr ysgol, y canu, a'r cyrddau nosaw!, a phob cynnulliadau o'r natur hyn, yr oedd hi yn ffyddlawn iawn, a braidd yn rhy ffyddlawn a diwyd yn ol barn rhai. Yr oedd Wil, beth bynag, yn gysurus iawn yn ei *lodgings*; a phan yr aeth i holi am ysgol, cyfeiriwyd ef at y *British School* yn y lle; a dywedwyd wrtho y cawsai gymdeithion yno, sef dynion ieuaine gobethiol o bregethwyr, yn cael eu parotoi gyferbyn â chael eu derbyn i'r coleg, er mwyn bod yn fwy addas i'r weinidogaeth; a'u bod yn ddefnyddiol iawn yno gyda golwg ar y cyrddau gweddi, ac i ddechreu'r cwrdd o flaen y gweinidog, a phregethu yn achlysurol yn lle'r gweinidog, pan fyddai oddi cartref, neu pan fyddai am gael ei arbed, ac i

Aeth Wil i'r *British School*; ac wedi bod ynddi am yng nghylch pythefnos, cafodd esamplau da, rhodiad gweddaidd, ymddygiad gostyngedig a difalech, yng nghyd â chynghorion y pregethwyr ieuaine gymmaint o ddyllanwad ar ei feddwl, fel yr aeth yn uniongyrchol i'r seiet; a chafodd eglwys Rehoboth gymmaint o foddlonrwydd yn ei brofiad, fel

y derbyniwyd ac y cyfammedwyd ef, y mae yn rhaid i'r rhai a hoffant
 yn aelod yn y cwrdd pen mis nesaf. ddarllen hanes Wil fod yn amynedd-
 Mac'r papyr yn darfod arnaf, ac gar hyd y cyfleusdra nesaf.

III.

CYRHAEDDODD Wil ei gartref nos Sadwrn, a diau ei fod ef, fel pob dyn arall; dan ryw deimladau pan roes ei droed "*in the place of his born.*" Agorodd ddrws ty ei fam yn lled ddiseremoni; a phan aeth ym mlaen i'r llawr, gwelai yr hen wraig yn duo ei hesgidiau wrth oleu'r tân. Wrth glywed trwst ei draed ar y llawr, cyfododd ei phen a gwelai ryw hwdwch dycethrol yn sefyll ar y llawr; ac er iddi gyda brys oleuo'r ganwyll, methodd ei adnabod nes i Wil ofyn iddi, "Mother, how be you?" Ac wrth ei lais hi a'i hadnabu ef, a gallem feddwl fod ei llawenydd yn fawr i weled Wil dan ei chronglwyd drachefn. Mam yw mam; ac y mae gan fam deimladau mam.

Nid oes dim yn ddyddorol neillduol yng nghyfeillach Wil â'i fam nos Sadwrn, ac am hyny eir heibio iddi yn ddystaw. Cyfododd Wil yn fore iawn dydd Sul, ac aeth tua thy ei ewythr, y blaenor neu y diacon, yr hwn oedd brif lordyn y capel; ac er mwyn tafu goleuni ar ysgogiadau dyfodol Wil dan nawdd ei ewythr, y mae yn angenrheidiol darlunio cymmeriad y lordyn, canys y mae yn ddrych cywir i ddangos llawer iawn o lordiaid yn eu gwir anianawd.

Mae ewythr Wil, yn mhob ystyr, yn arlun cywir o'r nifer amlaf o lordiaid y capeli. Ymhona i raddau uchel o dduwioledeb: y mae bob amser yn sier o'i gyflwr; a phan y byddo yn holi'r brodyr a'r chwiorydd yn y cyfeillachau, y mae yn gwasgu'r sierwydd hwn arnynt fel prif bwnc crefydd, am fod pob crefyddwr, meddai ef, yn sier o'i gadwedigaeth. Ym mhob cyfeillach, ewythr Wil, yn y cymmeriad o'i lordiaeth, ydyw'r

blaenor braidd bob amser: efe sydd yn holi profiadau; ac y mae yn cyfeirio at bawb fel eu gilydd—y cryfion a'r gweiniaid—yr hen a'r ieuaine—ie, pawb yn ddiwahaniaeth—at sierwydd ffydd, fel maenprawf duwioledeb; ac nid ydyw un amser yn cyffwrdd â gweithredoedd fel prawf o'i ffydd na'i sierwydd. Mae ewythr Wil yn cymmeryd arno fod pregethau yn cael argraff ryfeddol arno, ac er mwyn dangos hyny y mae yn fwy ei ystwr na holl bobl y capel gyda'u gilydd. Mae ei ebychiadau ef i'w clywed bob amser; a braidd y caiff pregethwr ddarllen ei destyn cyn y bydd ewythr Wil â'i "ho" a'i "ha," a chusanu'r *witch*, neu ryw gwafers ereill, er mwyn dangos i'r bobl ei fod yn derbyn pob gwllithyn o fendith, a bod pob gair a ddyfera o eneu'r pregethwr yn cael argraff ar ei gyflwr ef. Mae ef, trwy ei ragrith a'i dwyll, wedi gwneuthur ei hun braidd yn ben hollol ar y capel; ac er bod y nifer amlaf o'r aelodau yn gwybod mai rhagrithiwr drygionus ydyw, eto rywfodd neu gilydd y mae ar bawb o honynt ofn ei wrthwynebu; ac felly, mae yn cael ei ffordd, ac yn ben ar y gweinidog a'r cwbl. Mae yn ymofyn yn rhyfedd am gael ei fawrlhau, ac y mae ganddo ffordd iddo ei hun i wneuthur ei hun yn ddyn mawr ym mhob man lle byddo; ac yn ol y mawrhâd a roddir iddo gan yr aelodau y mae efe yn ymddwyn tuag at y naill a'r llall o honynt. Wrth ochr, ac nid yn ol cyfiawnder, y mae efe yn myned ym mlaen â'r cwbl; ac nid ydyw ei ddwrn yn drwm ar neb os rhoddir digon o groesawiadau, ciniawau, a thê iddo, canys y mae yn ofnadwy am ei fol. Mae ewythr Wil, sef y

lordyn, yn ddyrn rhydd iawn; efe a wad ei eiriau; efe a wad ei lawysgrifen; ac ni waeth ganddo beth a wiria, na pha beth a wada, er mwyn dial, neu er mwyn ei fola. Mae yn llawn cyfrwysdra a dichellion i gyrrhaeddyd ei amcanion ei hun, ac yn llawn o fân gnacach, am y rhai y gŵyr ei gymmydogion ac aelodau'r capel o'r goreu; ond y mae ei ffalsder a'i ragrith yn gymmaint fel y mae yn cadw o afael, a hyny yn benaf o ddiffyg gwrolder yn y gweinidog a'r aelodau i ymaffyd o ddiffrif ynddo. Nid yw'r gweinidog ond gwas bach i'r lordyn; nid ydyw ond *tutting-boy* i'r lordyn, ewythr Wil. Nid oes gan y gweinidog na llygaid, na chlustiau, na thafod, na dwylaw, na thraed, na barn, ond fel y byddo'r lordyn yn ysgogi ei beiriant. Mae'r lordyn yn rhoddi pwys mawr iawn arno ei hun yn mhob man ac ym mhlith pawb; ac ar bob achlysuron yn gwisgo ei rith sancteiddrwydd i dwyllo; a braidd yr holl gynnulleidfa yn dywedyd dan eu dannedd, mai twyllwr drygionus ac eithaf maleisus ydyw.

Aeth Wil boreu dydd Sul yn fore iawn i dy ei ewythr; ac er mor ddy-eithr oedd ei ymddangosiad, fe'i hadnabuwyd yn uniongyrchol gan y lordyn, canys yr oedd wedi cael darluniad gweddol gywir o ddyn oddi allan Wil nos Sadwrn. Ysgydodd ei ewythr ddwylaw yn serchog â Wil, ac a'i galwodd ym mlaen i eistedd yn y 'stôl gefn; a berwydau neu dri o wyau i Wil gyda'i frechdanau a'i dê i frecwast. Adroddodd Wil ei hanes i'w ewythr—ei argyhoeddiadau—ei aelodaeth—ac i'r frawdoliaeth yng nghapel Rehoboth, yn y Gweithiau, ganfod yn uniongyrchol y cyfryw gymhwysderau gweinidogaethol ynddo, fel ag y darfu iddynt ei annog i arfer ei ddoniau i argyhoeddi pechaduriaid, a bod ganddo lythyr o gymmeradwyaeth oddi wrth yr Eglwys. "Da iawn," ebai'r lordyn, "William bach;" nid ydyw ryfedd yn y byd genyf i

ddynion call weled dy gymhwysderau, canys yr wyt wedi hanu o ddynion nodedig am eu synwryau a'u callineb. A oes genyt ti bregeth go dda erbyn heddyw i ddangos tipyn ar dy ddysg a'th ddoniau i'r bobl, ac i wneuthur tipyn o son am danat y tro cyntaf yma? canys mynaf dy roddi yn y pulpud." Dywedodd Wil fod ganddo bregeth newydd wedi ei chyfansoddi o bwrpas i'w thraddodi yn ei ardal enedigol, a'i fod yn meddwl y buasai yn creu cryn lawer o gyffro.

Aeth Wil a'i ewythr tua'r capel; ac wedi cyrrhaeddyd y fynwent, cerddasant yn ol ac ym mlaen ym mhlith y beddau i ddysgwyl y bobl. Fel yr oedd y lordiaid a'r prif aelodau yn dyfod, yr oedd ewythr Wil yn eu derbyn yn y fynwent yn fwy cwtws-lon, ac yn siglo dwylaw â hwynt yn fwy serchogaidd nag arferol, ac yn introduwio Wil iddynt nid yn unig fel aelod, ond hefyd fel pregethwr. Siaradai hefyd yn ddystaw â hwynt y naill ochr bob yn un, bob yn ddau, a phob yn dri; ac yr oedd yn hawdd i bawb ddeall fod ewythr Wil yn ennill ei bwnc, canys yr oedd ei wên yn fwy ffalst a thwyllodrus nag arferol. Wedi darfod sisial â'r bobl, trodd at Wil, a dywedodd, "Y mae'r ffordd yn rhydd i ti, Wil; edrych ati; ond y mae yn rhaid i ni aros hyd nes delo'r gweinidog er mwyn ei hysbysu, fel *matter of form*, mai ti sydd i bregethu. Ar y gair dyma'r gweinidog yn dyfod trwy fwelch y fynwent, a dyma ewythr Wil yn troi ato ac yn siglo llaw yn lled fawreddog ag ef, ac yn dywedyd rhywbeth yn ddystaw yn ei glust. Dyma'r gweinidog yn troi yn ddiflas at Wil, ac wedi siglo llaw yn ddiflas ag ef, yn ceisio ganddo bregethu yn ei le y boreu hwnw; â'r hyn y cytunodd Wil yn ewyllys-gar.

Pan oedd y tri yn myned i mewn i'r capel, yr oedd pawb â'u llygaid

at y drws yn edrych ar Wil; ac yn wrywod a benywod, yn feibion ac yn ferched, yn blant ac yn gwbl yn ymestyn dros ymylau'r corau gan eu brys i gael cipolwg ar Wil. Ond hawyr anwyl, dyma Wil yn esgyn grisiau'r pulpud yn wir fawreddog, yn myned i'r pulpud, ac wedi troi ei berson at y gynulleidfa, yn sefyll fel babŵn blewog hirfain yng nghanol y pulpud, ac yn edrych rywbeth yn debyg iawn fel pe buasai mewn serch mawr ato ei hun, ac fel pe buasai ganddo olwg fawr arno ei hun, ac fel pe buasai ganddo ymddiried mawr ynddo ei hun gyda golwg ar ei dalentau a'i gymhwysderau. Edrychai'r bobl ar Wil yn y pulpud; yna edrychent ar eu gilydd; ac yna edrychent drachefn ar Wil â'u cegau yn ymestyn yn fwy nag arferol at fonau eu clustiau.

Aeth Wil trwy'r rhan arweinyddol o'r gwaith, a darllenodd ei destyn-ddwywaith yn Gymraeg ac unwaith yn Seisoneg; ond yn fy myw ni allaf gofio adnod y testyn, ond ei fod rhywle yng nghymmydogaeth y Prophwyd Eseciel. Rhagymadroddodd ar y *chaos*, neu fel y swniai efe y gair, *câws*, sef cyflwr cyntaf y greadigaeth; ac yma crybwyllodd am *geology*, *stratas*, *fossils*, a bod y cwbl wedi tarddu a deillio o'r *primitive rocks*; *adamant* caled tragwyddol, meddai Wil. Yr oedd ewythr Wil, sef y lordyn, yn gam dros ymyl ei gôr ac yn pwyso arno; a phan glywodd am y *primitive rocks*—yr *adamant* tragwyddol—gwenodd, a chlywid ef, fel y mae yn arferol o wneyd, er mwyn dangos i'r bobl fod rhywbeth mawr ar gerdded, "Ho ho; o wel, wel." Ond pan ddywedodd Wil bod llawysgrifen y Creawdwr ar y *primitive rocks*, ac nad oedd Efe erioed wedi ei wadu, sylwyd bod gwyneb ei ewythr yn coch i yn anghyffredin, ac iddo eistedd yn uniongyrchol megys pe buasai yn cael ei daro gan lewyg. "Ond," ebai Wil, "y mae yn rhaid i mi ddyfod at fy *nhert*,

canys ni ro'f fi ddim am y pregethwyr hyny sydd yn gwneuthur llawer o *round about*. Yr wyf am *gloso* at y testyn yn *ddirect*, ac nid rowndio cwm a mynydd." "*Probably*," meddai Wil, "y bydd fy null o drafod fy nhestyn rywbeth yn ddyceithr i chwi. Yr wyf fi o'r farn fod yn rhaid cael rhyw *revelation* yn y *form* o bregethu cyn y dël yn wir *useful*. Os na fydd y testyn yn cael ei *analyso* a'i *ddivido* yn *broportionately* i *understandings* ac *experiences* y gwrandawyr, y mae yn *ddiuse* yn fy marn i. Rhaid cael safon da yn y *divisions*, ac onid e collir yn y *bearings*, a bydd y *subdivisions* yn *contradicto* y rhanau *doctrinal*." "Mae yn rhaid cael y *leading ideas*," meddai Wil, "yn *gonformable* i *expressions* a *spirituality* y testyn, yn ol *facts* ac *evidences*; ac os felly, y mae gobaith am *broduso* firwythau yn gyfatebol yn yr *hearers*; o leiaf, dyna fy marn i. Yr wyf yn *analyso* y testyn fel hyn:—

"Yn I., yn *historical*. Yn II., yn *rammatical*. Yn III., yn *boetical*. Yn IV., yn *ddoctrinal*. Ac yr wyf yn gobeithio y cewch chwi fendithion helaeth yn yr oedfa hon." ["Amen," meddai ewythr Wil yn ei gôr.]

"Ond yn I., meddai Wil, "hanesyddiaeth; hyny yw, *history*. Dyma ein safon ni gyda golwg ar *facts*: ond y mae yn wir, ar yr un pryd, bod eithriadau mawrion mewn *orthodoxy* ac *antrinitarianism*. *History* ydyw A B C y byd dysgedig. Beth fusen ni heb yr A B C? Dim yn y byd: ni fuasai a b ab, na c a ca, nac A b ab, b o t bot, Abbot, oni buasai yr A B C. Y mae A yn *appearo* yn ddigon lledchwith, fel hen gwpl ty, â'i dwy coes ar led, a thrawst coed yn ei chydio yng nghyd; ond y mae yn un o safon *history*; hyny yw, y mae yn un o *foundations history*. Mae yn beth rhyfedd fod A mor fyr—ei bod mor *grop* yn yr hen iaith Gwyneg; ac

yn hyn y mae'r ieithoedd Groeg ac Hebraeg yn rhagori ym mhell. *Alpha* yw A yn y Groeg; ac a welwch chwi fel y mae yn cynnwys pum llythyren! *Aleph* hefyd yw A yn yr Hebraeg; ac y mae yn yr iaith hon eto yn cynnwys pum llythyren! Mae rhywbeth rhyfedd yn y rhif pump, ond i chwi *observo*; canys y mae un a phedwar yn gwneuthur pump, a thri a dau yn gwneuthur pump; ac yn y Groeg a'r Hebraeg y mae yr un llythyren A yn cynnwys pump o lythyrenau. Mae hwn yn fater dyeithr i bobl annysgedig; ond y mae yn fater nid yn unig sydd yn deilwng o'ch sylw chwi, ond yn werth mawr i chwi i'w gadw yn eich *remembrances*.

"Hanesyddiaeth neu *history* yw ein *finger-post* ni, y rhai sydd yn ymdrin â llyfrau. Chwi wyddoch beth yw *finger-post*. Mae hwn yn cael ei osod yn ymyl croesffordd, a llun bys arno, yn dangos y ffordd i'r man a'r man. *Finger-post* yw Adda, *finger-post* yw Noah, a *finger-post* mawr iawn yw Solomon mewn *history*. Mae Adda â'i fys yn dangos yr afal ar y pren; mae Noah â'i fys yn dangos y gwin, wrth yfed yr hwn y cnapodd; ac y mae Solomon â'i fys yn dangos y myn-wetach." "Ond," meddai Wil, "mi af at

"Yr ail *ddivision*, sef gramadeg y testyn. Gramadeg yw *substance* y cwbl; canys ni ellir gofyn yn briodol am fara a chaws heb ramadeg. *Bread* yw bara; ond nid yw bara yn ramadeg cyflawn, canys y mae yn rhaid cael *cheese* hefyd. *Bread and cheese*, bara a chaws." "Ond," meddai Wil, "dyma i chwi *fystery* mawr mewn *grammar*; mae *bara* a *llaeth* yn ramadegol, eithr y mae *llaeth* a *bara* yn anramadegol, am y dylasai y bara fod yn flaenaf ac nid y *llaeth*; ac y mae y *grammar* Groeg yn dywedyd, '*Verbit persuale cumcordat numratorum.*' Mae pethau mawr ac o *importance* neillduol yng

ngramadeg y testyn yn ol barn dysgedigion; ac yr wyf finnau hefyd o'r un farn a'r dysgedigion. Mae gramadeg fy nhestyn yn *splendid*, ac ystyried mai hen esgob a'i rhoddodd wrth ei gilydd; ac y mae rhywbeth yn *expressive* iawn ynddo. Mae yn cyrhaeddyd gartref; neu, fel y dywed y dysgedigion, y mae yn *bierring* ryfeddol. Yr ydych chwi, fel gwrandawyr, yn ei cholli o blegid eich bod yn *understando* mor ychydig o ramadeg yr iaith. Yr ydych yn colli'r *cream*; yr ydych yn colli'r *marrow* a'r melusderau; canys y mae berf, enw cadarn, enw gwan, a chenedl gair, a sillgoll, yn rymusach nag ydych chwi wedi feddwl erioed; ac y mae gramadeg yn fwy blaenllym i gyrhaeddyd eich cyflyrau nag yr ydych chwi erioed wedi feddwl. Ond

"Y trydydd *clause* o'r testyn yr addewais sylwi arno yw ei farddoniaeth. Bob amser," meddai Wil, "y cyfarfuwch â'r llythyren O, fel yn fy nhestyn, y mae barddoniaeth yn ei dilyn. Mae'r llythyren hon fel balwn yn rhoddi *jerk*—yn rhoddi naid fawr nes byddo dyn ar unwaith yn y cymylau. Mae O yn fynych gan Homer yn ei waith, ac efe yw y blaenaf ym mhllith beirdd Mon. Mae O yn fynych gan Ovid, un o feirdd Morganwg, yn ei gyfansoddiadau, a Horace, bardd o Ddyfed; ac mi allwn nodi mwy na mwy o *examples* o hyn pe gallech chwi eu deall; ond mi allaf ddyweyd am danoch yn ymadrodd uchel a dyrchafedig un o'r hen feirdd, '*Verbit dandit et redindit, regit dativit.*' Dyna swm; i.e, dyna fwisig *poetical*. Nid oes dim blas ar ddim oni fydd yn *boetical*; ac nis gall unrhyw bregeth weithio ei ffordd yn naturiol trwy borth y glust oni fydd yn *boetical*; hyny yw, yn farddonol, fel fy mhregeth i y boreu newydd hwn. Nid oes neb yn ddyn mawr, oni fydd rhywfaint o farddoniaeth ynddo; a diolch i'm Creawdwr, yr wyf fi yn llawn o *boetry*; ac y mae

yr awen yn fynych yn chwyddo ynof i'r fath raddau fel ag yr wyf ar droion ym nron â holli. Mae y maes hwn yn agor yn helaeth o fy mlaen; ac yr wyf yn cyffroi bob tipyn o honof o'm gwadnau hyd fy nghoryn; ond mi af ym mlaen rhag bwyta gormod o amser at

“Y pedwerydd *divisional part* o'r *text*, sef ei athrawiaeth. *Doctrine* yw athrawiaeth, o *doctor*, meddyg, am ei bod yn gwella ac yn iachau dynion. Nid pob pregethwr sydd yn gallu gweled athrawiaeth ei destyn; ond yr wyf fi, trwy lafur caled, a thrwy gynnorthwyon dysgedigion a'r ieithoedd gwreiddiol, bob amser yn deall beth yw athrawiaeth fy nhestyn; ac o ganlyniad, yr wyf yn gallu goleuo tywyllwch dynion, fel yr wyf yn goleuo eich tywyllwch chwi heddyw. *Darkness* yw y gair Seisoneg am dywyllwch; a phan elo y *doctrine* i *darkness* dyn, mae dyn yn myned yn oleu, fel yr ydych chwithau wrth fy ngwrando innau heddyw. *Doctrinal part* y testyn

yw bod dyn wedi colli ei *physical power*, ond wedi *retain* ei *natural power*: fod dyn yn greadur *irresponsible*; ac am iddynt hwy ystyried hyn ar frys cyn iddi fyned yn rhy ddiweddar.

“Yr wyf yn awr yn terfynu,” ebai Wil, “ond *apply* y testyn atoch; a hwn ydyw yr *application* mawr at bob un o honoch, sef bod i chwi *refuso* y dreth Eglwys, a *supporto* y *British Schools* yn selog.”

Sefydlodd Wil ei boblogrwydd ar unwaith; canys yr oedd yr holl gynnulleidfa, hyd at ychydig nifer, nid yn unig wedi cael eu boddioni yndo, ond hefyd yn credu ei fod y pregethwr mwyaf dysgedig a glywsant croied. Yr oedd y gwrandawriad yn astud, a'r bobl yn dangos eu cymmeradwyaeth trwy hw, ha, a he, ac o wel wel, *very well*, ac *is indeed*: ond yr oedd ewythr Wil yn cadw mwy o 'stŵr ei hun na'r holl bobl; a buasai digon o amenau yn cael eu rhoddi pe buasant yn gwybod ym mha le i'w dodi.

IV.

Yr oedd siarad mawr am Wil a'i bregeth y dyddiau canlynol. Dywedid fod synwyrâu mawrion a chryfion yndo, a'i fod yn rhy gall i fod yn bregethwr dealladwy; y buasai y pregethwr mwyaf trwy yr holl wledydd, ond bod ei feddyliau mor anferth o fawr, fel na allai eu bwrw allan o'i ben gydag eglurdeb, ond y deuai yn alluog i wneuthur hyn yn uniongyrchol. Mewn gair, yr oedd braidd pob peth yn ymdangos yn ffafriol i anturiaeth bregethwraidd a jackyddol Wil.

Dechreuodd Wil cyn brechwast dydd Llun i gymmeryd yr arferion jackyddol mewn llaw; canys mor gynted ag y cyfododd o'i wely ac y gwisgodd ei ddillad, troes allan i hela ei foreufwyd ac i lwrcan a chlecian. Ymgyfeiriodd at dy lle

yr oedd un o aelodau'r capel yn preswyllo; ac wedi cyrhaeddyd y ty, curodd wrth y drws, yr hwn a agorwyd gan wraig y ty. Derbyniodd hon gyfarchiadau boreuol Wil yn llon, ac wedi siglo llaw yn serchog iawn ag ef, ceisiodd ganddo ddyfod i mewn; ond yr oedd Wil yn frys bob tipyn o hono. “Na, na,” meddai Wil, “dim ond galw i edrych pa fodd yr oeddych wrth fyned heibio. Mi a'ch gwelais yn y capel ddoe. Pâ fodd y mae John Jones, heddyw? Yr wyf am gyrhaeddyd ty fy ewythr erbyn brechwast, canys mi addewais wneuthur hyn y ddoe.” “Dim o'r fath beth, William Morgans,” ebai'r wraig; “canys y mae yn rhaid i chwi gymmeryd tamaid o frechwast gyda ni heddyw; ac os gollyngaf chwi i fyned fel hyn, gwna Sion

hanner fy lladd." Cymmerodd Wil ei berswadio i fyned i mewn, ac arweiniwyd ef at dân y gegin. Erbyn bod Wil wedi eistedd dyma'r feistres yn dechreu ordro'r forwyn, "Dod y tecil ar y tân; tyr'd â'r ffrimpan yma oddi ar y bach; cerdda i chwilio nythau'r gieir, a thyr'd â thri neu bedwar o wyau yma: gwna dân yn y pen isa', a phaid loitran dim." Dyma'r fusnes fawr ar gerdded i barotai gyferbyn â bola gwas yr Arglwydd. Ffwrdd at gymneu'r tân yn y pen isa': ffwrdd â'r 'stên i'r pistyll: ffwrdd â'r tecil ar y tân; a ffwrdd i nythau'r gieir; a thyma'r lodes yn dyfod â chwech wy i'r ty. Tra yr oedd y tecil yn suo ac yn canu ac yn ymbarotai i ferwi, yr oedd gwraig y ty mewn gafael â'r bacwn dan y llofft, a thorodd wyth sleisyn o hono. Gwedi i'r tecil ferwi, dyma'r ffrimpan fawr ar y tân a'r wyth sleisyn ochr wrth ochr ynddi; ac wedi iddynt ddigoni, dyma'r chwech wy yn nofio ac yn ffreio yn y brasder; ac edrychai Wil arnynt trwy gil ei lygad â llonder yn ei wedd, a'r dwfr gloew yn rhedeg o'i geg. Angylchynwyd y bwrdd, ac ati yr aed; a dywedodd gwraig y ty wrth Wil am sugro'r tè at ei dast ei hun, yr hyn a wnaeth Wil; a phan yn ei lwyceidio o'r *basin* i'w gwpan, dywedodd fod y *doctor* wedi gorchymmyn iddo gymmeryd llawer o sugr yn ei dê a'i goffi, rhag rhyw ddolur yn ei ymysgaroedd ag yr oedd ef yn ddarostyngedig iddo.

Yr oedd Wil yn bwrw at ei blat-aid yn anwyl, a sylwodd na fwytaodd efe facwn erioed mor fiasus; ei fod wedi bwyta llawer o facwn mewn llawer o fanau. "Ond am eich bacwn chwi," meddai ef, gan droi ei olgion at wraig y ty, "mac yn rhagori ar unrhyw facwn a fwyteais i erioed." Ac mewn gwirionedd, yr oedd y bacwn wrth fias Wil, canys ni fu dau sleisyn a dau wy fawr o dro cyn diengyd allan o'r golwg;

ac yn uniongyrchol dyma wraig y ty yn cyfarch *plate* Wil â dau sleisyn a dau wy yn ychwaneg. Pan gafodd Wil yr ail blated o'i ffaen, dywedodd fod y *doctor* wedi dywedyd wrtho y buasai ei ystymog yn gwella ac yn cryfhau wedi iddo fyned i'r wlad; "ac fe ddywedodd y gwir," meddai Wil, "canys ni fwyteais i frecwast erioed yn fwy cysurus." Ond celwydd Wil oedd pob gair am y *doctor*, canys yr oedd ei ystymog ef, fel ystymogau yr holl Jacks, yn ddigon cryf i fwyta llyffaint.

Bu Wil yn gwneuthur llawer o brancs rhyfeddol wrth ddarllen pen-nod a gweddio ar ol brechwast; ond gan fod seiniau y geiriau, darllen, a gweddio yn rhy gyssegredig i'w cysylltu â phranes Wil, mi a'u gadawaf heb eu hadrodd, amgen mi allaswn ddywedyd pethau rhyfedd.

Yr oedd Sion a'i wraig yn meddwl y buasai Wil yn cymmeryd ei berson ymaith ar ol brechwast; ond yr oedd efe wedi gweled ei gyfleusdra, ac fel Jack o'r iawn rywogaeth yn benderfynol i ymaflyd yn y cyfleusdra, ac i wahôdd ei hun i fod yno yn lwrcan, ac i lanw ei fol ar eu cefnau am y diwrnod hwnw. Yn lle ymbarotai i fyned ymaith, aeth Wil tua'r tân, ac wedi eistedd yn yr hen gadair yng nghongl y simnai, ac estyn ei draed i'r lludw dyma fe yn galw am bibell, ac wedi cael pibell dyma fe yn galw am ddybaco, a dyma Pali yn dyfod â hanner cwarter o ddybaco Franklin Sion, yr hwn oedd hi wedi brynu yn y dref dydd Sadwrn. Eisteddodd Sion gyferbyn â Wil, a thyma hi yn dechreu myned yn siarad. Wil yn dywedyd am yr ysgol fawr yr oedd efe wedi bod ynddi, ac fel yr oedd wedi dysgu; ac fel yr oedd wedi myned trwy fwy na mwy o lyfrau; ac fel yr oedd yn rhagori ar ei gydysgolheigion ac yn eu gadael ym mhell ar ol; ac fel yr oedd yn cael ei barchu; ac fel yr oedd galw arno ac am ei wasanaeth gan yr eglwysi cymmydogaethol;

ac fel yr oedd wedi derbyn dwy, neu dair, neu bedair o alwadau gan wahanol eglwysi i fod yn weinidog iddynt; ac fel yr oedd wedi eu gwrthod oll. Yr oedd yn siarad yn ddibaid o ganol y mwg mawr, a'i holl siarad yn tueddu at ddyrchafu ei hun, ac argraffu ar eu meddyliau ei fod ef yn ddyngar ag oedd yn sefyll yn uchel yn yr ardal lle y bu yn yr ysgol.

Yr oedd Sion yn deall ei fod yn dyweyd celwydd; ac wedi i Wil raffo mwy na mwy, efe a gyfododd, a chan estyn ei law i Wil, dywedodd, "Y mae yn rhaid i mi fyned at fy ngwaith: ffarweliwch yn bresennol, William Morgans: mi gaf eich gweled eto yn fuan;" ac ymaith ag ef i lanhau ffos y clawdd.

Yr oedd Wil yn parhau i ysmocio yn y gongl, ac o'r mwg yn dywedyd wrth Pali fel yr oedd yn pregethu, ac mor boblogaidd yr oedd; a bod y tai lle byddai yn arferol o bregethu ym mron â hollti; a bu'r wraig ym mron â dotio pan dynodd lyfr allan o'i boced, ac y darllenodd y Groeg canlynol iddi:—"Mi chwara pendivarachisti bodago, eich lemnēsaiorum pa. Obermangestolerum curcathmatheiotepes pragarestimativi forgest tuntarunto jo. Pa, sa, ra, maw, saw, reveraw, jaw."

"Ha, ha, ha," ebai lodes y forwyn; "chwi fuoch ym mron dywedyd 'jawl'; 'does bosibl eich bod yn pregethu fel yna yn Lloegr!"

"Gwna di dy waith," ebai ei meistres, "darllen y ieithoedd mae William Morgans na wyddost ti ddim am danynt; am hyny, gwna di dy waith."

"How ati," meddai'r lodes, gan chwahu'r colfran, ac ar yr un pryd yn dywedyd wrthi ei hun, "*Pochonato rachamano stachamado sa. Ffiaw, ptsaw, stwcsaw, stensaw, jaw.*"

Troes ei meistres ei golygon ymaith, ac edrychodd Wil arni gyda phar o lygaid teigr, a phesychodd yn gyssegredig, fel y mae Jacks yn arferol o wneuthur pan fyddant yn dangos eu dysgeidiaeth.

Rhwng yr ysmocio, y poeri, y baldordd, y darllen Groeg, a'r cwbl, cododd syched mawr ar Wil, a gofynodd i wraig y ty am lymaid i yfed.

"Mae yma gasgenaid o dablen fach go dda," ebai'r wraig; "a gymmerwch chwi ddyferyn o honi, William Morgans? Mae yn ddiagon iachus."

"Wel, yn siwr, ebai Wil, "yr wyf er ys misoedd rywbeth yn *feverish*, ac felly yn sychedig iawn; ac fe ddywedodd y doctor wythf am yfed lllamaid o dablen iachus, ac y buasai o les mawr i mi."

"Siani, cyrhaedda ddycanteraid o dablen i Morgans."

A phan yr oedd hon yn y *slope*, dywedai, "Os nad wyf fi yn cam-synied y mae Wil yn cithaf Jack; ac yr wyf yn gryf o'r farn fod y peth a alwai efe yn *jaw* yn ei fola."

Ymddangosai yn aulwng erbyn hyn fod Wil yn hoff o'i le yn y gongl, a'i fod yn hoff o ddybaco Sion, ac yn hoff o'r dablen fach; canys aeth dwy ddycanteraid yn fuan o'r golwg, ac yr oedd y drydydd yn barod ar glawr y pentan.

"Yn awr yr wyf yn cofio," ebai Wil; "fe ddywedodd fy ewythr wrthyf am ddyfod yn fore, am ei fod yn myned oddi cartref; ac nid gwiw i mi feddwl am fyned yno mwyach heddyw; a mi a arosaf gyda chwi, Mrs. Jones;" a chododd ei ffriw, a tharawodd ei lygad ar y ddwy ystlys facwn dan y llofft.

Aeth Pali allan pan glywodd hyn, ac wedi iddi fyned allan, galwodd ar Siani; ac wedi i Siani ympirio, dywedodd wrthi, "A welaist ti erioed y fath beth? Mae'r bolgi yn myned i aros yma trwy'r dydd. Dod y crochan ar y tân, a cherdda yn union i ddal un o'r ffowls; lladd, a phlufia, a glanhâ ef mor gynted ag y gallot."

"Dyma hi yn *noble*," meddai Siani; "Jackyddiaeth, Jackyddiaeth!"

Ffwrdd â Siani i'r pistyll, y dwf i'r crochan, a'r crochan ar y tân; ac yna allan â hi i hela'r ffowls. Ffwrdd â'r ffowls, a ffwrdd â Siani; trwy'r

cloddiau â'r ffowls, a thrwy'r cloddiau â Siani; a phan ymaffodd brigyn yn ei ffedog, a'i rhwygo, meddyliodd ei meistres ei bod yn ei chlywed yn rhegu, ac yn mellithio'r Jacks. Wedi helpa hir, cafodd Siani afael yng nghoes un o'r ffowls, a thyma hi yn dyfod ag ef tua'r ty yn chwys ac yn lludded, ac yn darpar *cock mawr*, ac yn ffyrnig yn ymaffyd yn y fwyell; ond wrth dori pen y ceiliog bach ar y plocyn, hi dorodd gwt ar ei bys, a chafodd y Jacks fagad o regffeydd ganddi yng ngwyneb y brofedigaeth hon. Erbyn myned â'r ffowlyn i'r ty yr oedd yn rhaid i Pali ymgymeryd â'r gorchwyl o'i blufio, ei agor, a'i lanhau; canys yr oedd digon o waith gan Siani i ymgeleddu ei bys. Gadawodd Pali ei gwaith, ac aeth at y ffowlyn; ac wedi i Siani ymgeleddu ei bys, aeth i ymofyn tatws; a thrwy flinder, hi a'u golchodd yn y pistyll. Aeth i'r ardd i ymofyn cenin, a daeth â'r cenin wedi eu glanhau i'r ty. Yr oedd Pali ei hun wedi doddi darn o facwn a darn o gig eidion yn barod yn y cawl; a thra bu Siani yr ail waith yn yr ardd yn ymofyn persli ar ddymuniad Wil, a Pali allan yn ysgwyd pluf y ceiliog bach oddi ar ei dillad, berwodd y cawl i'r tân, a rhywfodd neu gilydd syrthiodd ar gefn troed Wil, yr hon oedd yn y lludw; ac erbyn i Pali a Siani ddyfod i'r ty yr oedd Wil yn neidio fel mwnci ar hyd y llawr, ac yn oernadu yn waeth na mwlsyn, a'r bibell wedi tori; a pheth oedd fwy, yr oedd wedi taflu'r dycanter oddi ar y pentan, a'r darnau ar yr aelwyd; ond wrth lwc nid oedd dyferyn o dableden ynddi ar y pryd, canys yr oedd Wil wedi gofalu am fynu gweled ei gwaelod yn glir.

Erbyn hyn yr oedd Wil a'i Jackyddiaeth wedi taflu'r wraig a'r forwyn allan o'u gorchwylion perthynol i'r ceulu; ac yr oedd y diwrnod a'i waith yn myned yn ofer dan eu dwylaw wrth dendio Jack, dan y dyb o'i

bod yn arferiad sectyddol i'w tendio, dan y twyll o'u bod yn tendio gweision yr Arglwydd. Pan syrthiodd y cawl ar gefn troed Wil, tafodd ei esgid ymaith fel gwallgoffdyn, a thynodd ei hosan lawr, ac yntau yn buchad fel llo; ond wedi rhoi crafion tatws oerion wrthi, llonyddodd, a daeth *horrors* y Jack dipyn i'w lle.

Daeth cinio yn barod, a daeth Sion oddi wrth ei waith, ac edrychodd dipyn yn ddiilas pan welodd Wil yn y cornel; ond daeth i'w le yn fuan. Ni chymmerodd dim yn neillduol le ar giniaw, ond yn unig i Wil osod ei ffoc mewn taten, a phan yr oedd yn ei harwain i'w blat, iddi hollti uwch ben y jwg a'r dablen, yn yr hon y boddodd yn ddiseremoni. Pan oeddid yn tynu at derfyn ciniaw, dywedodd Wil nad oedd ef yn barnu fod Mr. Evans, y gweinidog, yn llanw ei swydd fel y dylasai, a'i fod ef yn baruu fod yr achos yn cael camganddo. Gwedi i Wil ddywedyd hyn, dyma lygaid Sion yn gloewi; a thyma'r ddau bar llygaid y edrych yn serchogaidd iawn ar Wil. "Yr ydych chiwi, Morgans, yn lled lygad-graff, ac yn gweled yn gywir fel y mae yma," atebai Sion; canys y gwirionedd yw, bod defnyddioldeb Mr. Evans ar ben yma, a goreu i'r achos pa gyntaf iddo godi ei bac oddi yma a sefydlu mewn rhyw fan arall."

Yma y mae yn angenrheidiol deall, i Sion gael ei siomi pan oeddid yn dewis lordyn, trwy i Mr. Evans roddi ei ochr ym mhlaidd un arall; a digiodd Sion a'i berthynasau, a ffromasant yn aruthr wrtho, ac a wnaent ddefnydd braidd o bob peth er mwyn ei wrthwynebu, a bod yn rhwystr iddo; a gwelodd Sion a Pali ar unwaith y gallasant wneuthur twlsyn o Wil yn erbyn y gweinidog. Edrychodd Sion allan trwy y ffenestr, ac wedi troi ei wyneb yn ol, dywedodd, "Y mae yn edrych yn gymylog uwch ben, ac yn debyg o fwrw gwlaw, a gwell i chiwi, Morgans, wneuthur eich hunan yn gysurus

yma gyda ni hyd y fory, a minnau a arosaf yn y ty am y prydawn i gadw cwmni i chwi." Nid oedd eisieu cymhell fawr ar Wil i gydsynio â gwahoddiad Sion, a threfnwyd gan Pali mai felly yr oedd yn rhaid iddi fod. Ar ol ciniaw, aed at y tân; taniodd Sion a Wil bob o bibell; daeth Pali â phob o jwgaid o'r dablen fach iddynt; ac yr oeddynt yn gysurus anghyffredin gyferbyn â'u gilydd dan fantell y simnai, a Phali ar ganol yr aelwyd yn eistedd a gwau hosan.

"Yr ydych chiwi, Morgans, wedi cwrdd â ni i'r tipyn mewn perthynas i Mr. Evans," ebai Sion; "canys y mae wedi myned yn llawn o'i opiniynau ei hun, ac yn mynu ei ffordd ei hun; ac nid yw yn gwrandio dim ar lawer o'r aelodau; ac y mae er ys ychydig wedi gwrthwynebu eich ewythr lawer gwaith; ac y mae yma fageidach yn lled ddfilas o hono; ond ni a wnawn o'r goreu ag ef, os safwch chiwi gyda ni, wedi i ni gael siarad â'n gilydd."

"Sefyll," ebai Wil, "safaf hyd yr eithaf; ewch chiwi ym mlaen â'ch gwaith, a chwi a'm cewch i yn barod yn eich ymyl i wneuthur fy ngoreu."

Erbyn hyn dyma guro wrth y drws, ac wedi ei agor pwy oedd yno ond Tomos, sef y diacon, ac ewythr Wil. Yr oedd Sion a Pali yn rhyfedd o lawchaidd iddo, ac wrth ei frysio ym mlaen at y tân bu ym mron â syrthio ar gorn ei wddf wrth daro yn erbyn ystôl deirtroed oedd yn dygwydd bod ar ganol y llawr. Erbyn bod y diacon wedi eistedd yr oedd pibell cyhŷd a braich yn ei geg, a'r drydydd jwgaid o'r dablen fach ar y pentan. Agorodd Sion y waled i Tomos y diacon, yr hwn, fel yr ydych yn deall, ydoedd â geneu eithaf drygionus ac eithaf maleisdrwg, ac yn ddigon diegwyddor i unrhyw bwrpas.

"Ni ddeuwn trwyddi yn rhwydd," ebai Tomos y lordyn, "ond i ni fod dipyn yn ffalst a gwyliadwrus, a bod

yn ffyddlawn i'n gilydd. Yr wyf fi er ys amser wedi cael digon ar yr Evans yna: mae eisieu symmud ei borfa oddi yma; ac yr wyf wedi penderfynu mynu ei weled yn codi ei bac. Mi a'i gwelais ef yn hawdd ei drafod, ond y mae yn awr wedi myned yn bwmp mawr o ddyn; a phwy ond efe! Ac yn wir, y mae hithau, Mrs. Evans, wedi myned yn wraig 'sgwâr iawn, ac yn llon'd pob lle, ac yn snocto yn anghyffredin os na chaiff hi fod ym mlaenaf ym mhob man. A welsoch chiwi y *shawl* newydd oedd ar ei gwar, ac hyd ei thraed, yn y cwrdd ddoe? Mae yn rhaid i ni gymueryd calon i ddechreu gweithio, canys ni fu brafach cyfleusdra erioed i fyned dan seiliau'r gwr; o blegid y mae Rhagluniaeth megys wedi gwenu arnom wrth ddyfod â William i'n plith. Fachgen, paid di â synu os byddi yn weinidog arnom heb fod yn hir yn lle yr Evans yna."

"Pa fodd y mae dechreu?" meddai Sion.

"Wel, fel hyn," ebai Tomos y lordyn, wedi gollwng pwff anferth o fwg o'i safn, ac wedi llyncu dracht go dda o'r dablen fach: "fel hyn," ebai ef:—"Chwi wyddoch mai dau Sul yn y mis y mae Evans gyda ni, a'r ddau Sul arall yn cael eu llanw gan y pregethwyr ereill. Y Sul nesaf yw Sul Evan William, ac fe anfonaf fi genad ato i ddywedyd wrtho nad ydym ni ddim yn ymofyn am ei wasanaeth ym mhellach; ac fe gei di, William, neidio i'w le ac eistedd yn ei ystôl. Ac ym mhen tipyn ni wnawn yr un peth â'r pregethwr arall, ac felly fe fydd gan William ddau Sul yma. Dyma'r marc cyntaf y mae yn rhaid i ni gythaeddyd ato, ac wedi cyrhaeddyd hwn bydd y ffordd yn oleu o'n blaen."

Cytunwyd ar y cynllun, a threuliyd y prydawn yn gysurus i ysmocio yr ail hanner cwarter o *Franklin's superfine shag*, a phrofi'r dablen fach.

Cyn ymadael dywedodd Tomos y lordyn fel hyn:—"Mi alwaf wrth fyned adref yn Nhroed y Foel, canys y mae Siencyn a'i wraig o'r un feddyliau a minnau. Mi ddywedaf y cwbl wrthynt, ac y byddwn ni ein tri yn cyfarfod yn ddystaw yno pryd-nawn y fory i ymdrin ym mhellach

ar y pwnc; ac yn y cyfryw amser y mae yn rhaid i ni, ym mhob dull a modd, i gannol a dyrchafu William fel pregethwr."

Aeth Wil i'r gwely yn gysurus iawn y noson hòno, ond bod cefn ei droed yn llosgi tipyn. Hyd yma yn bresennol.

V.

AETH Wil i'w wely y noson hòno, megys y dywedwyd yn barod, yn gysurus iawn yn ei feddwl; canys yr oedd yn dirgel gredu ei fod yn gweled Rhagluniaeth yn gwenu arno, a bod yr arwyddion yn ffafriol—fod llwybr wedi cael ei dori allan iddo i fod yn ddefnyddiol i'r achos; o leiaf ei fod yn debygol y buasai yn cael ei ddyrchafu i fod yn *reverend* ac yn Feistr Morgans, dened a ddelai. Aeth i'r gwely y noson hòno, ac yn ei gwsg, trwy gydol y nos, gwelai ei hun mewn capel, a thyrfafawr o bobl ynddo: gweinidogion a phregethwyr yn garneddau ar garneddau, a'r rhai hyny yn cynffonloni arno, ac yn siglo dwylaw yn serchog ag ef; a meddyliai hefyd fod hwn a'r llall yn galw Mr. Morgans arno; a thybiai eu bod yn dod i eu dwylaw ar ei ben, a'i fod mewn teimladau rhyfedd o gysurus pan oedd torau eu dwylaw ar ei *diwpi*.

Cyfododd boreu tranoeth yng nghylch naw o'r gloch. Yr oedd y tecil wedi chwyrru, wedi canu, ac wedi berwi er ys mwy nag awr, ac wedi oeri erbyn hyn ar y pentan. Pan glywodd Siani y forwyn drydar Wil ar hyd y llofft, symmudodd y tecil oddi ar y pentan, ac a'i dododd ar y tân; ac yr oedd mewn cryn natur ddrwg hefyd, a dywedai wrthi ei hun, "Nid oes greaduriaid ar wyneb clawr y ddaiar yn debyg i'r lwrnod Jacks yma: maent yn felltith ym mhob man a lle y stwffant eu trwynau iddynt."

"Dod bedwar o wyau yn y sespan ar

y tân, Siani," meddai ei meistres: "y mae Morgans wedi codi: dod y llestri ar y ford: gad y plat â'r tost wrth y tân, a'r plat â'r bara 'menyn ar y ford: pa le mae'r tebot? cyrhaedda'r *canister*: cerdd i'r drâr i ymofyn y llwyau *plated*; a gwna hast: galw Sion i'r ty, a dywed fod Morgans wedi codi."

Yr oedd Siani yn brawlan yn anwyl erbyn hyn, ac yr oedd mewn teimladau rhyfedd o wresog a chysurus at holl rywogaeth y Jacks.

Daeth Wil lawr a throdd i'r parlwr bach, lle y bu ef a Phali yn warbld "boreu da i chwi" at eu gilydd; ac achwynodd Wil ei fod yn *feverish*, a bod syched didor arno; ac er mwyn gwneuthur Wil yn gysurus yng ngwyneb ei syched, perodd Pali i Siani fyned i ymofyn dycanteraid o'r dablenn fach i Morgans. Daeth Siani â'r dablenn yno; ac erbyn hyn yr oedd Wil wedi cael gafael yn y bibell, ac yn dechreu chwiffio. Ond daeth Sion i'r ty, a siglodd law yn serchogaidd â Wil, ac eisteddwyd wrth y bwrdd; ac wedi i Wil o'i eistedd ddyweyd gras nad oedd yn bosibl i neb wybod ym mha iaith, ond yn unig ei bod wrth ffasiwn jackyddol yr oes, bwriwyd at freewast: a phob chwareu teg i Wil, efe a wnaeth chwareu teg â'i fol, a dylasai Siani nawseiddio llawer yn ei thymmerau ato am iddo ddangos cymmaint o hoffder yn ei *chookery*.

Erbyn eu bod wedi darford brecwasta, dyna alw wrth y drws; a phwy oedd yno ond morwyn fach

Troed y Foel, yr hon, gwedi myned o honi i'r ty, a ddywedodd ei bod hi wedi cael ei hanfon yno gan ei meist'r a'i meistres i beri i Sion a Morgans ddyfod i ginio, ac am i Pali ddyfod yno erbyn tē. Edrychodd Sion ar Pali, a Pali ar Sion; ac edrychodd Sion a Phali ar Wil, a Wil ar Sion a Phali: yr oeddynt yn gwenu hefyd wrth edrych ar eu gilydd. "Ni fyddwn ni yn sier o ddyfod," ebai Sion: "dywed hyny wrth dy feistr a'th feistres. Aros i ti gael cwpanaid o dē gyda Siani yn y gegin."

Wedi clirio'r llestriach o'r parlwr i'r gegin, dyma seiet yn cael ei chadw yn y parlwr rhwng Wil, a Sion, a Phali. "Yr oeddwn i yn meddwl y deuai hi yn 'storom ar Evans, canys y mae yr Arglwydd yn ofalus iawn am ei achos. Y mae yn rhaid iddo godi ei bac oddi yma; ac yr ydych chiwi, Morgans, yn ein taro ni; ac ond i chwi fod yn ffyddlawn i ni, ninnau a'ch gwnawn yn ddyd. Iē, er mwyn yr achos goreu; canys y mae yn drueni bod yr achos yn dyoddef; da chwi, Morgans bach, sefwech fel hyn o'n plaid. Nid wyf fi yn cael dim blas er ys llawer dydd ar Evans; ac mi ddiffasais yn neillduol arno pan welais y *shawl* newydd ar war Mrs. Evans, a Mrs. Williams, Ty'r Dolau, yn myned adref gyda hi i ginio. Hi a'm pasiodd i ar y fynwent heb gymmaint a'm gwaled; a'r ddwy â'u dillad yn rhwsian fel dwy ladi wrth fyned heibio. Tynwech chwi cydrhyngoch eithaf *plan* heddyw yn Nhroed y Foel; canys y mae eisieu cael penau yr Evans a'i ladi dipyn bach yn is."

Yr oedd seiet fechan ar yr un pryd yn cael ei chadw yn y gegin rhwng Siani a morwyn fach Troed y Foel. "A wyddost ti beth, Martha," meddai Siani, "y mae rhyw ddrwg yn sier o fod ar gerdded. Pan ddaeth Wil yma ar ei lwrcaeth cyn brechwast boreu ddoe, nid oedd fawr o roesaw iddo yn y gwaelod

gan 'meistr na 'meistres; ond yma yr arosodd yr hen lwdn; ac ar ol ciniaw galwodd Tomos, ewythr Wil, yma, ac yr oeddynt yn bwrw eu penau at eu gilydd yn fusi iawn, ac yn siarad yn ddystaw. Mi a'u clywais yn dywedyd rhywbeth am yr Evans, ac y gwnaent hwy o'r goreu ag ef. Yr oedd genyf fi ddigon o waith i drotian i ymofyn tablen iddynt; ac mi glywais yr hen Domos yn dywedyd y byddai ef alw yn Nhroed y Foel wrth fyned adref. Wil ydyw'r dyn yma yn awr."

"Lodes," ebai Martha, "fe alwodd yr hen Domos yn ein ty ni wrth fyned adref, ac fe fu acw am oriau, dim ond 'meistr a 'meistres ac yntau yn y parlwr bach; ac y mae Wil i fod yn pregethu yn ein ty ni am ddau o'r gloch dydd Sul, ac nid oes air braidd i'w glywed acw er pryd-nawn ddoe ond rhywbeth i ddyrchafu Wil. Dywedodd 'meistres wrthyf neithiwr am ddal un o'r ceiliogod trymaf; bod Morgans, a Sion, a Tomos yn dyfod yno i giniaiw heddyw; eu bod yn bwrw eu penau at eu gilydd yng nghylech bywhau tipyn ar yr achos, am ei bod yn gwywo ac yn marw dan ddwyllaw yr Evans. Ond nid yr achos sydd yn blino neb o honynt, ond eisieu dial ar Evans, druan. Pe buasai yr achos yn gor-phwys rhywfaint ar feddwl 'meistres, ni fuasai ar ddydd Sul y cwrdd mawr yn fy ngyru i ddal fflowlyn, a'i ladd, a'i blufio, a'i ferwi yn y cawl i giniaiw, i roesawu rhyw ddynion dyeithr o'r Gweithiau, y rhai a ddaethant i'r ardal nos Sadwrn."

"Dyna fel y mae Pali, fy meistres innau," ebai Siani: "gellid meddwl wrth ei thafod ei bod yn grefydd hyd ei gwddf; ond druan â hi, y mae yn glec ac yn gelwydd o'i bon i'w brigau; ac nid oes roesaw i neb yma ond i glecwns, Sul, gwyl, a gwaith. Ti gei di weled bod rhyw ddyrgau ar gerdded; ac mi fyddaf fi yn sier o fod yn gwybod llawer cyn pen yr wythnos, canys bydd

yma gydeidiau o glec wedi eu harllwys cyn hyny."

Ond beth dâl siarad? dacw Wil a Sion yn myned gyda'u gilydd tua Throed y Foel; ac yr oedd Sion, gwnewch chwi goelio neu beidio, yn getyn o ddyn. Yr oedd Pali wedi gwneuthur iddo shafo, a gwisgo ei *shum*; ac yr oedd hōno newydd ddyfod dan y *steel*; a Wil yn ymnyddu weithiau ar ei ol, ac weithiau wrth ei ochr, ac weithiau o'i flaen; ac yr oedd yn bleser ei weled yn rhedeg ar hyd y waen i gamu dros ac i neidio y cwteri. Yr oedd yn prancio fel ebolyn yn y drem o draw ar y weinidogaeth. Yr oedd ar ei wên, a hon yn wên mor helaeth fel y gellid gwelod y cildant pellaf yn ei ben, ac yr oedd yn siarad yn ddi-daw hyd nes cyrhaeddyd drws Troed y Foel.

Yr oedd Siencyn a Nansi wrth y drws; a dyna siglo dwylaw mawr rhyngddynt a Wil, ac eill deuoedd yn cyd-ddywedyd, "Morgans, deuwch ym mlaen; Morgans, peidiwch â thynu eich het ymaith; Morgans, eisteddych; Morgans, deuwch yn nes at y tân; a oes syched arnoch, Morgans? a fynwch chwi bibell, Morgans? a gymmerwch chwi lasaid o rywbeth, Morgans?" Mae yn beth rhyfedd na buasai Siencyn a Nansi wedi treulio llythyrenau ei enw, gan fel y dalient ef ar eu maen llyfnu! Yr oedd Tomos y diacon, ewythr Wil, yno amser o flaen Sion a Wil yn ysmocio ei chalon hi ar yr ystôl gadair wrth y tân, a jwg ar y pentan, lle bu llymaid o dablen, ond i'r dablen gael ei symmud o'r jwg i fola'r diacon. Nid oedd ciniaw yn barod, a threuliwyd yr amser mewn ysmocio, a siarad, a phrofi'r dablen; ond heb ddyfod at y mater, eithr tafu bwled yn awr ac yn y man at Mr. Evans, ac yna chwerthin. Daeth yr arwyddion yn amlwg bod ciniaw yn nesâu: gwelid hwlcyn o geiliog mawr yn dyfod allan o'r crochan; ac ar ol y ceiliog, y bacwn;

ac ar ol y bacwn, darn o gig eidion; ac ar ol y darn cig eidion, darn o gig maharen; ac wedi doddi'r trugareddau hyn heibio, gwelid drws y ffwrn fach haiarn yn cael ei agor, a'r mwg mawr yn dyfod allan yn un post, ac yn cludo arogl y pdingau gydag ef. Yr oedd Martha, y forwyn fach, yn tynu'r dysglau allan, ac yn llosgi ei bysedd, neu yn cymmeryd arni ei bod wedi eu llosgi; canys yr oedd yn eu rhoddi yn ei phen, ac yn eu sugno bob yn un a phob yn ail. Yr oedd Tomos y diacon, ewythr Wil, fel y crybwyllwyd yn barod, yn ofnadwy am ei fol; ac edrychai yn gynhes ar y ceiliog, a'r bacwn, a'r cig eidion, a'r cig maharen yn dyfod o'r crochan; ond pan welodd y dysglau â'r pdings yn naill ar ol y llall yn dyfod allan o'r ffwrn bach, ac yn neillduol pan y ffroenodd eu harogl yn ymdaenu ar hyd yr ystafell gyda'r mwg, tynodd y bib o'i ben, sychodd ei weflau, ac ymbarotōdd gyferbyn â gwneuthur bolied lân. Yr oedd Wil yntau yn edrych â chil ei lygad ar y parotadau; canys yr oedd ei fol yn dduw bychan, os nid yn dduw mawr ganddo. Yr oedd Nansi, y feistres, a Martha, y forwyn fach, yn cydwisgo'r ford; ac wrth ymofyn y platiau, a'r dysglau, a'r cyllyll a'r ffyres, hwy darawent weithiau wrth eu gilydd neu byddai un yma a'r llall acw. A rhyw fodd neu gilydd pan oedd Martha yn dyfod â'r ddysgl a'r ceiliog i'r bwrdd, ei meistres, wrth droi ychydig yn chwimmwth, a'i tarawodd o'i dwylaw nes y syrthiodd y ddysgl ar y llawr, ac a dorwyd yn ddarnau, a throlionodd y ceiliog i'r lludw. Gwnawd y tramgwydd hwn i fyny yn fuan: ymofynwyd dysgl arall, a chyfododd Martha y ceiliog o'r lludw, ac a'i sychodd yn lân, ac yna hi a'i dododd yn drefnus ar y ddysgl.

Tra yr oedd y fusnes fawr yn myned ym mlaen yn y parlwr, aeth yn rhyfedd o brofedigaethus yn y

gegin. Yr oedd y crochan â'r cawl fel arferol wedi cael ei osod ar hen blocyn pwrpasol i'r gorchwyl o'i ddal. Yr oedd yn Nhroed y Foel hen gath frech fawr; ac wedi i'r hen gath neidio i ben y plocyn, dyrchafodd ei dwy bawen i ymyl y crochan megys i *surveyo* beth oedd ynddo. Gwelodd Sioni, y gwas bach, y gath, a chan feddwl ei bod yn efnach na'i chroesaw, a ymaflodd yn ei chynffon i'w thynu oddi yno. Pan deimlodd y gath y tynu o'r tu ol, gosododd ei phawenau yn dynion wrth ymyl y crochan. Tynu'r gath wrth ei chynffon yr oedd Sioni, a'r gath yn dal; ond rhoes Sioni blwc, a thyma'r gath a'r crochan cawl yn ffarwelio â'r plocyn, ac i'r llawr â hwy gyda 'stŵr mawr; ac o blegid y 'stŵr, yng nghyd â bonllef oer-nadol Sioni, dyma Nansi, a Siencyn, a Wil, a Tomos y diacon yn rhedeg o'r parlwr i'r gegin; ac yn y drws beth oedd yn eu cyfarfod ond cenllif fawr y cawl a'r tatws yn trolian ynddo, megys pe buasant yn myned trwy gafn gwyllt melin. Estynodd Martha, y forwyn fach, fageidach o *salutes* i Sioni â'r lletwad, nes gall- esid clywed cornubo ei wawchiau o gareg ystum llath. Nid oedd dim yn y byd i wneuthur ond gwneyd y goreu o'r gwaethaf; a chrynowyd y tatws yn lled lew, ac wedi sychdarad rhywfaint arnynt, aed â hwynt i ford y parlwr, a gosodwyd hwynt ger bron.

Pwy oedd i dori'r ceiliog? Ni ellai Nansi, canys yr oedd ei gar-ddwrn yn dost; ni ellai Wil am ei fod yn rhy *nervous*; ni ellai Siencyn, canys nid oedd erioed wedi tori ceiliog; a syrthiodd carfo'r ceiliog ar gefn Tomos y diacon, ewythr Wil; a mawr mor gelfyddydol yr aeth trwy'r gorchwyl. Ni wnaf ym-helaethu dim yng nghylch bwyta'r giniauw, ond iddynt, fel y mae yn naturiol feddwl, dafu ati yn galonog. Yn awr, yn gymmaint ag mai disodli Mr. Evans trwy fradwriaeth ydoedd

mewn golwg, ni fyddai allan o le, yn ol fy marn i, i roddi ychydig o'i hanes cyn myned ym mlaen at y cynllun a osodwyd lawr yn Nhroed y Foel.

Daeth Mr. Evans at y gynnull- eidfa hon trwy'r peth y gelwir galwad unfrydol arno, ryw nifer o flynydd- oedd yn ol, o Goleg ——. Yr oedd yn ddyn ieuanc gweddol wy- bodus, yn lled esmwyth yn ei dym- merau; ac o ddyn ieuanc, yn bregethwr gobeithiol. Nid oedd yn myned i eithafoedd mewn dim, fel y gwna y nifer amlaf o bregethwyr yr oes, ond yn sefyll ar dir cym- medroldeb, ac yn dra gwyliadwrus ar ei dafod yn y pulpud ac allan o'r pulpud. Pan ddaeth gyntaf i'r lle, y pregethwr mwyaf yn yr holl fyd ydoedd; nid oedd neb yn gyffelyb iddo: torf fawr yn ei ddilyn ym mhob man y byddai yn pregethu ynddynt yn yr ardal, a phawb am yr uchaf eu lleisiau yn ei ganmol. Nid oedd air i'w glywed ond "Mr. Evans ni" i fyny ac i waered: "Mr. Evans ni" oedd yr unig ddyn ar y ddaiar ag oedd yn ffit i fyned i ben ystôl ac i'r pulpud. Yn eu cyrddau gweddi yr oeddynt yn anghofio eu hunain, canys dros Mr. Evans yr oeddynt yn gweddïo o *run*. "Dy was anwyl, ein gweinidog anwyl; diolch i ti am dano: yr wyt wedi gofalu yn rhyfedd am danom trwy ei anfon i'n plith; yr wyt wedi ei fendithio â doniau rhyfedd; yr wyt eisoes wedi ei wneuthur o ddefnydd mawr yn ein plith; ac O! gofala am dy was anwyl!" Ië, am dym- mor anghofiasant weddio drostynt eu hunain, ac ymgymmerasant ym mron yn hollol â'r gorchwyl o ganmol Mr. Evans wrth yr Arglwydd! Y gwŷr, pan welent Mr. Evans, a estynent law iddo o hyd braich; a'r gwragedd, pan welent ef, a estynent law iddo yr un modd, gan ofyn yn serchogaidd, "Mr. Evans, pa bryd y dewch i'n ty ni i bregethu?" Yr oedd sel ryfeddol drosto, a dyma

ddwy neu dair o feredd ffermwyr yr ardal yn d'od i'r seiet; ac erbyn y seiet nesaf dyma hanner dwsin ereill yn dyfod yno; a phan welodd y bechgyn y merched yn myned i'r seiet, dyma hwythau hefyd i'r seiet: ac erbyn hyn dyma hi yn ddiwygiad mawr yn tori allan yng nghapel Bethel; a Mr. Evans oedd yn ben, yn bont, ac yn gwbl oll. Nid oedd neb mor dderbiniol a Mr. Evans. Yr oedd pregethwyr dycieithr, gan nad pa mor ddoniol, yn ddiwerth hollol ganddynt, canys Mr. Evans oedd y cwbl. Aeth y diwygiad gwyllt heibio; ond yr oedd Mr. Evans yn sefyll yn uchel, a'r sel yn fawr drosto. Ym mhén amser ymdaenodd y newydd fod Mr. Evans yn caru, a dyma'r sel fawr yn dechreu oeri; ond pan briododd Mr. Evans, dyma'r sel yn oeri mwy.

Wedi ei briodas nid oedd cym-maint o gip a chais ar Mr. Evans i fyned ar hyd dai yr ardal i bregethu; a phan ddygwyddai iddo fyned, nid oedd y gwragedd yn ei arwain fel cynt i'r llofftidd i ddangos blancedi, cwiltau, celfi, a llestri'r merched, canys yr oedd wedi myned yn *day after date*. Yr oedd merch gan Tomos y diacon, ewythr Wil, wedi bod yn selog iawn dros Mr. Evans cyn iddo briodi; ond rywfodd neu gilydd hi oerodd ato wedyn, ac oerodd ei thad hefyd. Ac heb law hyn, ar ol i'r diwygiad gwyllt fyned heibio, aeth llawer iawn o blant y diwygiad hwn yn afreolus ac yn ynyfyd iawn, mor ynyfyd ag y ceir plant y byd yn gyffredin. A chwareu teg i Mr. Evans, yr oedd yn fynych yn eu cwrt, ac yn eu galw i gyfrif; a'r canlyniad oedd fod y rhai hyn yn digio, a'u tadau yn digio, a'u mamau yn digio, a'u perthynasau yn digio. Ac heb law hyn hefyd, er bod Mr. Evans wedi cynnyddu yn fawr fel pregethwr rhagor na phan yr ymsefydlodd yn eu plith, yr oeddylnt wedi diflasu arno, ac eisieu cael rhywun newydd i swnio

yn eu clustiau. Ac heb law hyn hefyd yr oedd Tomos y diacon, a rhyw nifer o rai ereill, am gael holl awdurdod a llywodraeth y capel i'w dwylaw eu hunain, ac yr oedd gormod o hyn yn eu dwylaw; ond yr oedd Mr. Evans, er eu gwaethaf, yn caelw rhyw gymmaint yn ei law ei hun. Yr oedd yma blaidd yn benderfynol i'w wthio ymaith, a phenderfynasant wneuthur defnydd o Wil fel offeryn er mwyn cael eu hancan-ion i ben.

Wel, ar ol ciniaw yn Nhroed y Foel, wedi eistedd wrth y tân, ac wedi dechreu ysmocio, a'r decanter fawr ar y pentan, yn gwneuthur eu bola arnynt; dechreuodd Tomos y diacon, a Siencyn, a Sion, ymdrin â'r mater mewn llaw; ac yr oedd Nansi a Phali hefyd yn eu plith. Penderfynwyd ei fod yn ddyledswydd orphwysedig arnynt, er mwyn yr achos goreu, i dreio symmud Mr. Evans o'r ardal; a chytunasant yn unfrydol ar hyn (Nansi a Phali hefyd yn cydweled â hwynt): ond pa fodd i gyrhaeddyd hyn oedd y pwnc. Nid gwiw dwyn dim yn erbyn ei fuchedd, canys yr oedd hono yn dra diargyhoedd. Nid gwiw dwyn dim yn erbyn ei farn, canys yr oedd ei farn ef a barn yr enwad yr un peth. Nid gwiw dwyn dim yn uniongyrchol yn erbyn ei bregethu, canys yr oedd yn well pregethwr yn awr na phan ddaeth atynt gyntaf. Siaradai un fel hyn a'r llall fel arall; ond wedi ysmocio cryn lawer, ac wedi yfed peth iechyd da i'w gilydd, daethant i'r penderfyniadau canlynol:—

Nad oeddylnt i ddangos mwy o oerfelgarwch nag o'r blaen at Mr. Evans, ond yn hytrach i'r gwrthwyneb; dangos yn hytrach fwy o wresogrwydd tuag ato na chynt; a chymmeryd arnynt, yn allanol o leiaf, fod ganddynt barch personol mawr iddo. Ond yr oeddylnt i ymadnewyddu yn eu sel dros yr achos, ac i ddangos gofid mawr ei fod mor

wyw, mor ddifywyd, mor ddilewyrch, ac wedi myned mor isel. Eu bod i gymmeryd hyn yn destyn cyffredinol, ac yn neillduol felly yn y seietau ac ar ol y cyrddau gweddi. Eu bod i dristâu a chwynfan yn fawr o blegid yr achos; a bod yn rhaid iddynt ddefnyddio rhyw foddion i godi ei ben. Yn y seiet, yn neillduol felly, yr oeddynt i achwyn ac i gwynfan ei bod wedi myned yn dymmor sych iawn arnynt; ei bod yn Gilboa hollol arnynt; a bod yr achos yn ddilewyrch iawn yn eu plith. Eu bod hefyd i beidio rhoi unrhyw arwydd trwy amenau, ho, ha, ac O wel, wel, eu bod yn cael blasyn pan fyddai Mr. Evans yn pregethu; ond ymddangos yn eithaf sychlyd, ac eto ymddangos megys pe byddai llwyddiant yr achos yn gwasgu yn drwm arnynt. Pan ddygwyddai fod rhyw bregethwr heb law Mr. Evans i fod yn pregethu, yr oeddynt i godi eu penau, ac ymddangos dipyn yn siriol, a gofalu cadw gryn dipyn o 'stŵr; a dangos eu bod yn derbyn ac yn blasu ar bob briwsionyn; ac wrth fyned adref i gofio dyweyd ar ol pob gwr dweithr, "Wel, trwy drugaredd, ni gawsom dipyn o wledd heddyw: yn enw pob peth, beth yw'r sychder sydd wedi dyfod dros Mr. Evans?"

Cytunasant hefyd ei wneuthur yn bwnc gweddi, i weddio yn neillduol dros Mr. Evans, sef bod iddo gael ei adnewyddu yn ei ysbyrd, bod i'w galon gael ei hadwregysu, bod i'w fyfyrddau gael eu hysbrydoli, bod i'w bregethau gael eu hawchlymu, bod ei weinidogaeth i gael ei gwneuthur yn wllthog, bod i ddrysau carchar ei gaethiwed i gael eu hagog, a bod iddo gael ei adferyd i'w hen ysbyrd yn y blynyddoedd y daeth i'w plith gyntaf. Eu bod yn barhäus, yn eu gweddïau, i gofio achwyn ar yr oerfel a'r cwsig ysbyrdol oedd yn eu plith, a lled-dafu y cwbl ar gefn Mr. Evans; ac am i'r Arglwydd ymweled yn fuan ag ef, amgen bod yr

achos yn darfod ac yn marw yn eu plith. Dyma seiet felus, onid e? O'r _____.

Terfyn y cynllun uffernol hwn ydoedd, fod i bob un o honynt siarad â'r aelodau oedd yn ffafriol i Mr. Evans—Tomos y diacon, a Sion, a Siencyn, a'r gwŷr a'r gweision, a Phali, a Nansi, a'r merched a'r gwragedd—am iselder yr achos a'r cysgadrydd, a bod yn rhaid i Mr. Evans ddihibuno, amgen bod yr achos yn marw yn eu plith. Cafodd *Franklin's superfine shag* hi yn anwyl, ac nid yn ysgafn yr ymddygydd at y gasgen naw galwyn ddaeth oddi wrth y *breuer* ar frys i Droed y Foel y boreu hwnw. Erbyn bod y seiet wedi terfynu, yr oedd y tē yn barod, a chwypwyd ato yn llon ac yn awchus.

Gwedi darfod â'r tē, ac wedi annog eu gilydd i ffyddlondeb, dechreuasant barotoi i ymadael. Ei ewythr, Tomos y diacon, a siglai law yn wresog â Wil; a phan yn siglo llaw â Sion a Phali'r Pant, yr oeddynt yn gwasgu llaw Wil yn anghyffredin, ac yn peri iddo alw, a galw yn fynych yn y Pant, a bod yn rhaid iddo heb fod yn hir ddyfod yno i bregethu.

"Cofiwch, Morgans," meddai Pali, "bod croesaw i chwi bob amser i alw gyda ni; am hyny, peidiwch â bod yn ddyweithr."

Arosodd Wil yn Nhroed y Foel y noswaith hono yn gysurus iawn; canys yr oedd y ty, a holl drugaredau y ty, at ei wasanaeth. Tra yr oedd y seiet ar gerdded, gwnaeth gafod drom iawn o wlaw; a phan yr aeth Wil allan wedi iddi dywyllu, cydrhwng y tywyllwch a bod y dablenn wedi codi dipyn i'w ben, fel ag i golli ychydig ar lywodraeth ei draed, syrthiodd i'r gwtter ar ei gefn, ac wrth gynnwyo codi, syrthiodd ar ei fol, a rhoes dro ynddi. Clywyd twmbwr ei godwm o'r ty, ac allan â phawb, a'r *lantern* gyda hwynt, i weled pa beth oedd wedi cymmeryd

lle; a pha beth oedd yno ond Wil, yn hwdwch main, ac yn faw o'i ben i'w draed. Ni welwyd y fath olwg ar greadur o ddyn erioed o'r blaen. Llusgwyd ef i'r ty; stripiwyd ef; dodwyd ef yn ei wely; a bu gorfod ar y ddwy forwyn olchi ei ddillad bob ragyn o honynt cyn myned i'w gwely. Y tywyllwch, ac nid y dablenn, dafodd Wil i'r gwter, cofiwch hyn.

VI.

PAN ddihumodd Wil dranoeth, a phan ddechreuodd ei synwrau gwasgar-edig ymgasglu yng nghyd, un oddi yma a'r llall oddi draw, ac er ei fod yn lled ddyrasedig, a'i gof dan gryn nifer o gysgodau, sef effeithiau y dablenn y nos o'r blaen; eto, o ychydig i ychydig, fel yr oedd y goleuni yn tywynu ar ei feddwl, efe a gofiodd mai yn Nhroed y Foel yr oedd, a daeth yr ymddyddanion a'r penderfyniadau o un i un i'w feddwl. Yr oedd yn foreu dydd Mercher, a'r cwrdd gweddi i fod y noson hōno yn y Fedwen: ond yr oedd hyn wedi cael ei anghofio y prydawn a'r hwyr o'r blaen, ym melusderau y pethau ereill perthynol i'r achos goreu a drinid gan seict dduwiol Troed y Foel. Nid oedd fawr o archwaeth gan Wil at ei freewast, ac achwynai o blegid y *bile* oedd yn llanw ei ystumog. Gofynodd Nansi iddo a wyddai efe am ddim a roddai esmwythâd iddo, ac os oedd rhywbeth yn y ty fuasai yn rhadloni ei ystumog, bod iddo bob groesaw iddo. Dywedodd Wil mai y cynghor oedd ef wedi gael gan y *doctor* pan yn yr ysgol yn Lloegr oedd, curo wy ac yna ei gymmysgu â *noggin* o *rum*, a'i yfed yn un dracht; ac os na atebai un y dyben, y byddai'r nesaf yn sicr o lwyddo. Dyma floedd yn uniongyrchol oddi wrth y feistres ar y forwyn i ymofyn am wy ffres; a phan oedd hōno yn trotian i fon bargod y beudy i ymofyn am y wy, dyma Nansi yn ymhwylio i'r cwppwrdd cornel i ymofyn y botel â'r *rum*. Daeth y lodes â'r wy, a thyma Nansi yn ei dori i'r *basin*, ac â llwy yn dechreu ei

ddyfnodio â'i ffusto, ac wedi ei gael i'r *temper* addas, i mewn â *noggin* da o *rum*, *real Jamaica*, ac i Wil ag ef; ac i lawr trwy gafn gwyllt Wil yr aeth, i chwilio am ac i ymlid ymaith y *bile* oedd yn blino ystumog ei barchedigaeth. Gwedi llyncu y wy a'r *rum*, gwnaeth Wil guchiau lled gas; ond ym mhen ychydig, wedi iddo gael ei lafar, dywedodd, "Wel, yr wyf yn meddwl ei fod wedi gwneuthur peth daioni i mi; mae y poen yn llai yr ochr hyn i'm brest, ond braidd yn fwy yr ochr arall."

"Mae yn dda ei fod yn cilio tipyn o un ochr," meddai Nansi; "ond deuweh chwi, os ydyw yn dechreu ildio, mi wnaf fi i'r peth a enwasoch chwi i godi ei bac. Mi fynaf eich gwneuthur yn ddyn iach, Morgans; canys y mae gwaith mawr o'ch blaen chwi i'w wneuthur. Martha, cerdd ar drot i ymofyn wy arall."

"Mae'r c——l ym mola Wil," ebai'r lodes; a fwrdd â hi o ganol ei breewast i ymofyn wy dan gronglwyd y beudy. Daeth ag ef, a thyma Nansi â'r wy i'r *basin*, a'r llwy yn ei gorddi yno; ac wedi ei gael i'r *consistency* a gyfarwyddid gan *bre-description* y doctor, i mewn â'r ail *noggin* o *Jamaica*, a lawr ag ef heb loitran dim i gafn gwyllt Wil, ac i'w geubal ag ef. Wedi i Wil gael ei anadl, dyma ef yn edrych yn siriol ar Nansi, ac yn dywedyd, "Trwy drugaredd, y mae'r poen wedi llaesu: rhyfedd fel y mae'r doctoriaid yn deall y cwbl: 'rwyf wedi cael esmwythâd rhyfedd: rhyw fendith amhrisiadwy yw moddion fel hyn yn llaw yr Arglwydd: 'rwyf lawer yn well." Pan oedd Nansi yn myned

â'r botel yn ei hol i'r cornel cwpwrdd, yr oedd Wil yn ei dilyn â chil ei lygad megys pe buasai yn hiraethlawn ar ei hol, ac megys pe buasai am gael *how do you do*, a *salute* â hi drachefn.

Penderfynodd Siencyn wneuthur aberth o ddydd Mercher eto, a'i dreulio yng nghymdeithas Wil i siarad ac i gynllunio yng nghylch yr achos goreu; pa fodd i ddwyn pethau i drefn, a chael crefydd i gyflwr o lwyddiant yn eu plith; canys nid oedd Mr. Evans, y gweinidog, yn gwneuthur dim gyferbyn â hyny. Yr oedd y ddau, Siencyn a Wil, yn teimlo ac yn ofidus iawn am yr achos ei fod mor isel; ac yn benaf oll, yr oedd cynulleidfya yr Eglwys blwyfol yn cynnyddu, a'r bobl, lawer o honynt, megys pe buasant yn ymallyd mewn pethau eglwysig, a braidd yn oeri at Sectyddiaeth; ac nid oedd pechodau yr ardal na'r ardaloedd ddim yn y byd yn eu golwg at y pechod mawr o ogwyddo mewn meddwl, gair, a gweithred at yr Eglwys.

"Nid yw o un *use* i ni," meddai Siencyn, "i roddi dim ffordd i'r offeiriad; y mae yn rhaid i ni edrych ar ei ol; mae yn rhaid i ni blano yn ei erbyn i'w rwystro; canys y mae arnaf ofn ei fod yn cydio ac yn myned ym mlaen; ond ar yr un pryd y mae yn rhaid i ni fod yn ddoeth, ac yn bwylllog, ac yn ffalst, a gweithio yn ddystaw: yr wyf yn ofni bod yr offeiriad yn myned yn ei flaen."

"Mi ddywedaf wrthych am hyny," ebai Wil; "y mae ddwldod wedi cymmeryd lle yn ein plith. Yr ydym wedi bod yn rhy fyrbyll: yr ydym wedi dangos gormod ar ein dannedd a'n colynau yn gyhoeddus o'r pulpudau a'r platfforms; ac y mae llawer o'r bobl; i.e. o'n pobl ni ein hunain a'n gwrandawyr wedi diflasu ar y difriô a'r rhaesau mawr sydd wedi ac yn cymmeryd lle. Mae ein pobl ni ein hunain, lawer o honynt,

braidd wedi suro o blegid y difriô, ac y mae eu teimladau braidd yn rhedeg gyda'r Eglwys. Mae yn rhaid i ni weithio yn fwy dystaw ac yn ddirgelaid, i ddylanwadu ar y bobl; dyna fel y mae i ni wenwyno eu meddyliau yn erbyn yr Eglwys: cyfeillachu yn wresog â'r rhai welom â'u tuedd ati; a phan gaffom gyfle, brathu gair i bwrpas: mae'r difriô a'r ysgathru mawr yr ydym wedi wneuthur, fel y mae achos i ofni, yn troi yn ein herbyn, ac yn gwneuthur niwed i'n hachos ni. Rhaid i ni wylid ein cyffeuserau."

"Yr ydych chiwi yn getyn mawr o wag, Morgans," dywedai Siencyn; "yn fwy felly o lawer nag oeddwn i wedi feddwl; 'rwyf yn gweled fwyfwy mai dyn o'ch bath chiwi yw y dyn i fod yn weinidog i ni. Mae arnaf ofn yr offeiriad; canys y mae wrthi bob dydd, ac y mae ol ei waith yn amlwg; ac y mae mwy o bobl ieuaine yn awr yn myned i'r Eglwys nag a welais i erioed o'r blaen; ac y mae yn rhaid i ninnau roddi rhyw gyfarfodydd a phethau ereill ar gerdded i'w difyru a'u cadw yng nghyd, i gwmnia, i weled, i edrych, ac i fod yn llon ar eu gilydd; ac y mae yn rhaid i ni beidio bod yn rhy *exact* ar eu hol; onid e hwy ddiffasant fwy arnom."

Yr oedd Nansi yn clywed y siarad hyn, ac ebai hi, "Mae rhywbeth yn bod, ac os na edrychwn ni ati, ni gollwn y bobl. Yr oedd Martha ni, a Siani, morwyn y Pant, a Twm, gwas y Fedwen, yn y 'sgubor gyda'r nos rhyw ddiwrnod yr wythnos ddiweddaf; ac wrth glywed siarad a chwerthin, mi aethym yn ddystaw at y drws cefn, a pha beth oedd ganddynt mewn llaw ond trin a chwerthin am ben y Jacks, yng nghyd â chnaciau pregethwyr; a dywedent nad oedd dim yn y capeli yn awr ond winco ar gnaciau eu gilydd, cuddio a gwadu pob drygau, a dywedyd celwydd; a bod pregethwyr a Jacks wedi myned rhagddynt

mewn pob oferedd. Yr oeddynt wedi bod mewn rhywbeth y galwent eisteddfod arni, ac yn dyweyd mai crefyddwyr y capeli oedd y rhai mwyaf blaenllaw ym mhob *rallies*, ac mai'r pregethwyr oedd y rhai penaf i yru chwerrthin ac ynfydrwydd ym mlaen yno. Yr oedd *sport* anwyl ganddynt; ond ni ddangosais i fy mod yn eu clywed. Ac os gwelwch chwi fod yn dda, mae Martha ni yn dechreu dyleito yn yr Eglwys; ond mi wnaif fi o'r goren â hi; mi rof ddigon o waith gartref iddi ar forenau'r Suliau; a bydd raid iddi ddyfod i'r capel am ddau, neu aros gartref; ac mi ddyfeisiaf ryw ffordd i'w chadw nos Suliau rhag y cyrddau eglwysig."

Yng nghanol y siarad Cristionogol a chrefyddol hyn, pwy welid yn dyfod ar hyd llwybr cae'r 'sgubor at y ty ond Tomos y diacon, ewythr Wil; ac wedi dyfod o hono i'r ty ac eistedd yn y parlwr, dechreuwyd tori mater, yn neillduol yng nghylch y cwrdd gweddi oedd i fod yn y Fedwen y noson hōno. Cytunwyd, am fod yr amser yn fyr, i gael siarad â'r cyfeillion ereill; fod i'r diacon, ewythr Wil, i ddechreu'r cwrdd; ac ar ol y diacon, bod Siencyn i fyned i weddi; ac ar ol Siencyn, Sion y Pant; ac ar ol Sion y Pant, bod Wil i orphen y cwrdd; a bod pob un o honynt i gofio myned ym mlaen yn ol y penderfyniadau a wnaed y prydawn a'r hwyr o'r blaen yng nghwmni y dablenn. Arosodd y diacon yn Nbroed y Foel i ginio; canys, os ydych yn cofio, un ofnadwy yw y diacon am ei fola, ac y mae braidd bob dydd yn hela rhyw fraser neu gilydd ar hyd tai y cymmydogion. Dyma ei arfer bob dydd Sul, canys y mae bob prydawn dydd Sul yn lladd dau aderyn â'r un gareg; o blegid y mae yn cyrhaeddyd ei dê a'r cwrdd gweddi. Aeth y diacon, ewythr Wil, ymaith o Droed y Foel ar ol cinio i browlio i ryw le, ond arosodd Wil; a rhyw bryd yn

y prydawn, cyn tê mae yn debygol, cafodd *spasm* arall yn ei ystumog, a bu gorfod ar Nansi gompowndo wy a *noggin* o *Jamaica rum* iddo cyn tangnodi y *bile* yn ei ystumog. Pan ddaeth yr amser fyny, ymbarotwyd i fyned i'r cwrdd gweddi; ac yma yr wyf am osod ger bron ac o flaen fy narllenwyr bod genyf bob parch i gyrddau gweddi, y rhai sydd yn briodol yn gyrddau gweddi; ond nid wyf yn ystyried mai cyrddau gweddi, yn ystyr briodol y geiriau, yw nifer fawr o'r cyrddau a elwir felly, a'u bod yn ammhriodol yn cael eu galw yn gyrddau gweddi, am nad ydynt mewn gwirionedd felly. Pan gyrhaeddodd Wil, a Siencyn, a Nansi, y Fedwen, yr oedd y diacon, ewythr Wil, yno yn barod yn eistedd yn ol ei arfer wrth y tân, yn y gadair freichiau, ac yn ol ei arfer hefyd yn ysmocio. Yr oedd yn fwy llon nag arferol, ac yn cyfarch hwn a'r llall fyddai yn dyfod i'r ty, a hyny o draw ac yn wresog ryfeddol. Yr oedd Sion y Pant a Pali yno hefyd yn barod, ac amryw o'r brodyr a'r chwiorydd ag oeddynt wedi cael awgrymiad o'r fradwriaeth oedd ar droed. Yr oedd yno amryw gŵn hefyd wedi dyfod yng nghyd—*Spark* y Lôn, *Sherppyn* y Twyn, *Tango* y Cwm, a *Cwta* Bess y Twmpath, heb law ei y diacon a chŵn Troed y Foel a'r Pant. Yr oedd y cŵn yn fusi iawn, yn chwilmantan pob twll a chornel, a'u trwynau ym mhob llestr a gawsent dan y dodrefn; yr oeddynt yn chwyrnu peth, ac yn noethi rhyw gymmaint ar eu dannedd ar y naill y llall. Yr oedd yno naw neu ddeg o'r brodyr yn barod wedi dyfod yng nghyd, a'u pibau cwta yn eu penau, ac yn ysmocio nes oedd y gegin yn dew gan fwg dybaco. Gofynwyd i Wil a ysmociai efe cyn dechreu y cwrdd; ac wedi iddo arwyddo ei gydsyniad, dygwyd *getyn* o bib iddo, ac yngymmerodd Wil â'r gorchwyl. Aed i siarad yn awr am y feiriau diweddar, a'r prisoedd,

a'r gwlaw, a'r porthmyn, a'r *rail-roads*, a chant o bethau; ond yn ddisymmwrth dyma fflach, a chyffro, a ffusto, a phawb am y cyntaf yn edrych beth oedd wedi cymmeryd lle dan fantell y simneu; a pha beth debygech chwi oedd wedi dygwydd ond cornel barf Wil oedd wedi cymmeryd tân pan oedd yn tanio ei bibell. Gwnaeth y tân dipyn o *ddamage* i'w farf; canys heb law bylchu'r crop, fe andwyodd i raddau ei *uniformity* a'i *regularity*.

Gwedi ymdawelu o blegid y cynhwrf a'r cyffro wnaeth y fflam yn ei pherthynas â barf Wil, ac wedi i'r brodyr guro'r tân allan o benau eu pibau, a'u gosod yn eu pocedi, dyma'r diacon, ewythr Wil, yn cyfodi o'i gadair, yn holl fawredd ac urddas ei swyddogaeth, ac yn ysgogi yn gyssegredig tua bwrdd y gegin, ac yn dechreu'r cwrdd trwy ddarllen; a Wil yntau dan fantell y simneu ar yr amser yn rhwtio ei gern: y tân wedi bod dipyn yn llawdrwm tua bon ei flewach, digon tebyg. Aeth y diacon ym mlaen â'i waith; a phan ddechreuodd weddio, yr oedd rhywbeth yn gymmysglyd, yn ddyrasedig, ac megys yn curo yr awyr yn y tywyllwch; Yr oedd y bobl, sef y rhai nad oeddynt yng nghyfrinach y fradwriaeth, yn gwrandao ac yn cocio eu clustiau, a methu yn lân â deall beth oedd y curo pant a thalar oedd ar Tomos y diacon. Tolcog iawn oedd y diacon yn myned ym mlaen â'i waith; ond wedi dwbwdalpo digon, dyma fe yn cymmeryd calon ac yn tori'r ias oer, ac yn neidio dros ei ben a'i glustiau i bwl y pwnc. Dyma yr achwyniadau yn dyfod o'i safn fel y blawd i gafn y felin, neu fel rholiau gwlan o gribau y *factory*:

“Yr ydym wedi myned yn sych iawn, yn ddiffwrwyth iawn, yn oer iawn, yn wywedig iawn, yn grin iawn, yn ddifywyd iawn.” Ond ni ddywedodd eu bod yn fradwyr, yn wenicithwyr, yn dwyllwyr, ac yn rhagrithwyr, a'u

bod wedi hogi eu twcaod i'w tynu trwy fwnwgl eu gweinidog i'r dyben o'i lofruddio. Na ddo, na ddo; ond wedi i Tomos y diacon fyned ym mlaen, a maeddu tipyn yn lled lew arnynt eu hunain yn y crochan trwyth, dyma fe yn ymafyd yng ngwar y gweinidog, a'i dafu yn grynsrth i'r pair trwyth. Yr oedd yn arswydus clywed y dyn, a meddwl ei fod wedi gwisgo cymmeriad ac agwedd gweddiwr, yn gosod ei gyllell ar wddf ei weinidog fel yr oedd.

“Cofia dy was, ein hanwyl weinidog,” meddai ef, “sydd yn myned i mewn ac allan o'n blaen. Mae yntau wedi colli yr hen ysbryd gwresog gynt; yr ydym yn ofni ei fod yntau i raddau wedi oeri, ac nad ydyw mor fywiog ag y bu. Mae yr achos yn gwywo ac yn marw dan ei law; yr ydym yn myned yn fwy yn ol nag ym mlaen.”

Aeth ym mlaen fel hyn yn rhwydd am ennyd fawr! Ac i goroni ei feltigedigrywydd, cymmerodd arno i weddio drosto, ar fod “iddo ddyfod dan yr un arddeliadau a chynt; ac os oedd rhyw bryfedyn gwenwynig wrth ei wraidd yn ei grino, fod i hwnw gael ei ladd, er mwyn iddynt gael yr hen amser hyfryd a blasus gynt yn ol.” Ac wedi ârfod â Mr. Evans, dyma fe yn troi at Wil ac yn diolch ei fod nid yn unig wedi dyfod dan yr iau, ond hefyd am ei fod wedi cael ei gymhwysu a'i ddonio i waith mawr y weinidogaeth. Bod arwyddion gobeithiol iawn arno y buasai fel offeryn defnyddiol i'r eglwys i ddychwelyd llawer o bechaduriaid, ac i wneuthur rhyw ddaioni mawr yn ei ddydd a'i dymmor. Dywedodd y buasai yn dda iawn ganddynt pe buasai Rhagluniaeth yn gweled bod yn dda i drefnu yn y cyfryw fodd ag i Wil gael aros am dymmor yn eu plith hwy i fywau yr achos: eu bod yn barod wedi cael bendith trwyddo, ac wedi teimlo yn gysurus yn barod dan ei athrawiaeth.

Yr oedd Sion y Pant, a Siencyn,

Troed y Foel, a gwr y Fedwen â 'stŵr rhyfeld ganddynt pan oedd y diacon Tomos yn gweddio dros Wil; ac yr oedd Pali, Nansi, ac Esther y Fedwen hefyd yn gwneuthur lleisiau irad pan yr oedd yn gweddio dros Wil.

Aeth Sion a Siencyn ati ar ol Tomos y diacon, ond ni wnaethant hwy ond dilyn trac y diacon fel cŵn ar ol cadno; ac yr oedd y bradwyr yn fawr eu hystŵr wrth gynnal eu gilydd. Ond i ddybenu'r cwrdd, dyma Wil ati—i fyny ac i lawr—bryn a phant—mynydd a dyffryn—yn ei gwau ac yn ei chor-eddu—yn ielpan ac yn bloeddio—a'r bradwyr a'r bradwresau cuwch eu hielp ag yntau; ac yng nghanol y ielpaeth y terfynodd!

Cafodd Wil wahoddiad, fel y mae yn naturiol meddwl, i aros yn y Fedwen y noson hōno, ac y mae yn gwbl mor naturiol i feddwl i Wil dderbyn y cyfryw wahoddiad; canys beth yn well oedd yn cytuno â'i anianawd? Wrth fyned adref, er i'r hen William y saer, a gyfrifid yn hen wr call ac yn hen grefyddwr da, ddywedyd nad oedd y cwrdd y noswaith hōno yn fwy o gwrdd gweddi na ffair y Waun yn ymyl Dowlais; ac er i Jack y dyrnwr ddywedyd mai cwrdd cableddus yd-oedd, eto yr oedd y nifer luosocaf yn credu mai cwrdd o'r nefoedd oedd; bod y tywalltiadau wedi dechreu, a bod rhywbeth goruchnaturol wedi ymaflyd ynddynt yn y cwrdd! Yr oedd yno rai benywod, ie a gwrywod hefyd, yn siarad yn fân ac yn fuan ac yn ei chlocho yn lled uchel, a bu yno gryn niclo tafod drwg rhwng rhai o'r frawdoliaeth.

Dranoeth yr oedd son mawr am y cwrdd gweddi yn y Fedwen.

"Pw, pw," meddai rhai; "*humbug a nonsense*; mae rhywbeth ar gerdded; mae rhyw boint mewn golwg gan Tomos; mae ef yn sicr o fod ar gefn rhyw ddrwg; a ydych ddim wedi marco ei fod yn ddiweddar wedi dyblu ei ragrith?"

"Cwrdd oddi fry oedd y cwrdd," meddai'r lleill; "yr oedd yno rhywdd-ineb; yr oedd yno wresogrwydd; a chafodd llawer un fendith yno: ond y mae rhai yn ein plith ni nad oes dim yn menu arnynt mwy nag ar farbl; ac hwy siaradant yn ys-gafn am waith y nefoedd."

Yr oedd y cwrdd yn amlwg yn ffafir y bradwyr.

Yr oedd dranoeth yn ddydd Iau; a chyn brecwast dyma Tomos y diacon yn curo wrth ddrws y Fedwen, ac wedi dyfod i mewn, gofynodd am Morgans a oedd ef wedi codi. Yr oedd Wil heb godi; ond pan gafodd wybod fod ei ewythr yno dyma fe lawr, ac mor gynted ag y gallodd rhoes ei ddillad am dano; ond cyn iddo allu gwisgo'r cwbl, dyma'r diacon i mewn ato ef i'r ystafell.

"Dim ond un gair, William," ebai ei ewythr; "y mae yn rhaid i ti dreio cyd-ddwyn â'r *bile* yn dy 'stumog, ac nid gwiw i ti ond hyny i gymmeryd physig doctor Lloegr eto. Mae Martha, morwyn Troed y Foel, wedi lapan rhywbeth neithiwr; ond y mae Siencyn a Nansi wedi dy glirio, ac y maent hefyd wedi gwneuthur i Martha i alw ei geiriau yn ol. Bydd yn fwy carcus, bydd yn fwy carcus."

Cymmerodd Tomos arno ei fod mewn brys mawr i ymadael yn uniongyrchol; ond, hawyr anwyl, na na, rhaid i'r diacon i aros brecwast; a chan mai bola'r diacon oedd ei dduw, nid oedd dim yn cytuno â'i dduw oddi mewn yn well na'r gwahoddiad o gael pryd da a blasus. Siaradwyd llawer ar freewast; a dywedodd y diacon fod y berman yn gweithio yn fwy nag y meddylwyd, ac y deuai'r fusnes i boint yn gynt nag y meddylwyd, a bod yn rhaid curo'r haiarn tra fyddo yn boeth.

"Ac yn awr," ebai ef, "y mae brawd yr Evans wedi marw yn ddi-symmwth, a daeth llythyr i ymofyn am dano i'r North, ac y mae wedi starto yno boreu heddyw; ac ni

wrantaf na ddaw yn ei ol o leiaf un pythefnos, ac y mae yn rhaid i ni wneyd ein goreu i dwymo ei wely erbyn y delo yn ol. Cerdda di, William, o ddeutu gymmairt ag a allot heddyw, a gwna alw gyda'r aelodau, a chofia fod yn ffromil iawn â hwynt i'w hennill o'th blaidd; canys y mae yn rhaid i ni iwso cety'n o ffalsder a rownd abowt yn yr achos."

Cytunwyd y byddai hyn yn ddoethineb. Cafodd Wil lonydd gan y *bile* y boreu hwn, ac ni chlywyd gair am dano. Wedi tipyn yn ychwaneg o siarad yng nghylch y ffordd sicraf i ddisodli Mr. Evans, aeth Tomos y diacon i ddyledswydd; ac wedi darfod, ymaith ag ef ar ol y fradwriaeth!

Yr oedd cyfarfod i fod yn y capel prydawn dydd Gwener; cyfarfod eglwysig y gelwid ef, yn yr hwn yr oedd materion yr achos i gael eu trin. Ffwrdd â Tomos y diacon i ymweled â thai yr aelodau, ond yn cuddio ei wir neges dan gysgodau ffug negeseuon ereill; a llwyddodd ym mhell tu hwnt i'w ddylsgwyliadau i wenwyno meddyliau llawer at Mr. Evans; ond ni ddylanwadodd ddim ar yr aelodau mwyaf crefyddol perthynol i'r capel. Aeth Wil yntau ymaith yn fuan ar ol breuwast ar daith ymweliadol â'r brodyr a'r chwiorydd, ac eisteddai ennyd ym mhob ty; a'i ymddygiadau oeddylt yr un ym mhob ty. Yn y ty cyntaf, siglaid ddwyllaw yn llon a serchogaidd â gwr y ty, â gwraig y ty, â philant y ty, â'r gweision, ac â'r morwynion; wedi hyny eisteddai i lawr, ac yna dechreuai siarad yn weniathgar—bod y gwr a'r wraig yn edrych yn well ac yn ieuengach na phan welodd efe hwynt o'r blaen, a bod y plant yn dyfod ym mlaen yn rhagorol; eu bod yn blant glân a thegaidd iawn, ac yn edrych yn siriol iawn, ac mai pleser oedd eu gwled: fod ganddynt dy glân iawn; bod yno gegin helaeth a chyflëus i gadw cwrdd. Ac yn sw'n y gair cwrdd,

eto yng nghlustiau y wraig, dyma hi yn dywedyd, "John, yr ydym wedi bod yn son lawer gwaith am gael cwrdd yma, a beth pe byddai i ni geisio gan Mr. Morgans i ddyfod i roddi pregeth rhyw brydnawn Sul yn fuan?"

"Yr wyf fi yn ddigon boddllawn," meddai John.

"Wel, hai," ebai'r wraig, "ni cheisiaf fi ddim mwy gyda'r Evans i ddyfod; hanner addawodd lawer gwaith; ond nid yw ef dros bregethu yn y tai, canys y mae'r capel yn ddigon agos, meddai ef, ac yn fwy cyflëus. A ddowch chwi yma i roddi pregeth, Morgans?"

"Na, na," meddai Wil, "nid wyf am dramgwyddo Mr. Evans; ond o'm rhan fy hun, mi chwennychwn yn fawr i ddyfod; canys yr wyf wedi taflu fy hun yn gyfan-gwbl i'r weinidogaeth, ac i fod yn llafurus, ac i wneuthur daioni ym mhob man y gallwyf. Mae Mr. Evans yn ddyn call ac yn ddyn da; ond yn ol fy marn i, y mae yn ei cholli yn y fan yna. Mae yn rhaid i ni, fel pregethwyr, ddefnyddio pob cyfleuserau, canys bydd ein cyfrif yn fawr iawn."

"Mae'r Evans yn ei cholli mewn llawer o bethau," ebai John; "ond na feindiwech chwi mo'i dramgwydd na'i heb dramgwydd, canys mi safaf fi rhyngoch chwi ag ef; nid wyf yn hidio pytaten am dano; fi bia'nyhy, ac mi fynaf y sawl fyddaf fi yn ddewis i bregethu ynddo, heb ofyn cenad yr Evans na neb arall."

"Yr wyf yn caru eich ysbryd anymddibynol, Jones," ebai Wil; "ac eisieu mwy o'ch bath chwi sydd: yr ydych chwi yn actio oddi ar egwyddor. Nid ydwyf am dramgwyddo Mr. Evans mewn modd yn y byd: ond os ydych chwi a Mrs. Jones am i mi ddyfod yma i bregethu, dyfod yma wnaif fi er neb; canys yr wyf yn gydwybodol am gyflawnu rhwymedigaethau fy ngalwedigaeth a'm swyddogaeth."

“Wel, y mae hyna wedi cael ei setlo,” ebai John; “ni gawn eich gweled dydd Sul i siarad ym mhell-ach. Mae brys arnoch, ’rwyf yn deall, amgen buaswn yn eich cynhell i aros yma i ginio, ie i aros trwy’r dydd, a heno hefyd; a gymmerwch chwi ddyferyn o rywbeth cyn myned fwrdd?”

“’Stumog ddrwg iawn sydd genyf,” ebai Wil; “mae rhyw oerfel yn dueddol iddi.”

Bu ym mron â dyweyd *bile*; ond cofiodd am ei ewythr, y diacon, a meddylodd y gallasai gymmeryd dyferyn i wresogi ei ’stumog.

“Fe wna llymaid o whisgi gynhesu eich ’stumog, Morgans; nid ydych yn edrych yn dda heddyw. Liza, dewch â’r botel â’r whisgi yma, ac arllwyswch lasaid i Morgans.”

Wedi i’r wraig wneuthur hyny, ac wedi i Wil ei lynu, dyma John yn cymmeryd y botel yn ei law ei hun, ac yn arllwys y glasaid arall i Wil, a Wil yn gwrthod; ond rhwng bodd ac anfodd efe a lyncodd hwnw hefyd.

Troes Wil ymaith ac ar y ffordd i’r ty nesaf; yr oedd yn gweled y wawr yn tori fwyfwy ar ei achos. Lled sychaidd y cafodd Wil deulu y ty nesaf. Siglo dwylaw, ond *no go*; canmol y plant, ond *no go*; gwenieitho, ond *no go*; dyweyd fod yno gegin lân a helaeth, ac un bwrpasol iawn i bregethu, ond *no go*—dim gwahoddiad i bregethu yno; ac achwyn bod ei ’stumog yn oer, ond *no go*—dim dyferyn o whisgi.

Tipyn yn well yn y ty nesaf. Dim pwmp ar Mr. Evans, a dim gwahoddiad i bregethu. Pysgotodd ei ginio yno; ond dim tablennau na whisgi i gynhesu ei ’stumog oer.

Ond ar y cwbl, hi droes allan yn weddol i Wil ar y diwrnod hwn. Pan aeth yu hir brydnawn, efe a gyfeiriodd ei gamrau i’r Lan at Robert, yr hwn oedd yn hen wr didwyll a di-dderbyn wyneb, ac mor

blaen ac onest a neb, os nid yn fwy felly na neb, trwy yr holl ardaloedd; ac yr oedd hefyd y dyn goreu a berthynai i’r capel. Pan aeth Wil i’r Lan, yr oedd Robert yn y ty, a siglodd law â Wil, a gwahoddodd ef ym mlaen i eistedd wrth y gadair gawn wrth y tân. Dechreuodd Robert holi Wil, a Wil yn ateb; a chan ei fod wedi clywed rhyw chwibaniad isel yng nghylch y fradwriaeth, deallodd wrth rai o atebion gochelgar Wil bod drygau mewn llaw. Ond wedi cryn siarad ac ymgonio, dyma Robert yn troi at Wil, ac yn lled ddiseremoni yn dywedyd wrtho—

“Wil, paid di â bod dan unrhyw gamsyniadau, a phaid di â thwyll dy hun; canys yr wyf fi yn dy adnabod trwyddot. Lwrcyn diog, sêgur, rhagrithiol, a haerllug i’r eithaf wyt ti. Dyn drygionus wyt ti, Wil, â’th fryd ar ddygioni, ac yn ddigon rhydd a diegwyddor at unrhyw weithred neu weithredoedd drygionus; a’r Diafol ei hun, a neb ond efe ei hun a’i weision, a’th ddyrchafodd i ben ’stôl. Ac yr wyt wedi ymgymmeryd â Jackyddiaeth yn ei holl felltith a’i hysgelerderau corddedig. Ti wedi bod yn yr ysgol yn Lloegr! Dy gelwydd di bob gair yw hyny; ac yr wyt ti a’r Jacks yn byw ar gelwydd. Ti yn bregethwr, ac yn llygadu am y weinidogaeth Gristionogol, ar draul tori corn gwddf dyn da! Rhag dy gywilydd! Edrych arnat dy hun: yr wyt yn debycach i epa—i fwnci blewog—i fwystfil gwyllt ac anwar o’r anialwch—nag i ddyn! Yr wyf yn dywedyd eto mai Jack eithaf drygionus wyt ti, ac nad oes yn dy fryd ond drygioni a phob twyll. Nid wyt yn meddwl am ddim, y burgyn drewllyd, segur, ond am ddygioni! Nid yw gwaith yr Arglwydd ond cellwair—dim ond chwareu—genyt, y Diafol drygionus! Ti yn myned uwch ben dynion i’w goleuo, a’u hadeiladu, a’u cyfarwyddo yn ffyrdd rhinwedd a daioni, pan

nad oes yn dy galon ond pob drygioni yn berwi fel pair mawr! Yr wyt ti a'th frodyr jackyddol yn felltith gwlad ac Eglwys! Yr ydych yn ddynstr i foesoldeb! Ac y mae dy feistr, y Diafol, wedi dy yru i'r ardal hon fel pentewyn i'w fflamio o un cwr i'r llall o honi a'i llanw â melltith! Yr wyt ti yn meddwl dy fod di a'th gefnogwyr yn y cudd, a'ch bod wedi cynllunio eich bradwriaeth dan fantell na all neb ei gweld; ond y mae dirgelwch anwireded eich melltith wedi dyfod i'r goleu. Ië, ti, Wil, y Jack, o bur rywogaeth y llwyth epäaidd jackyddol sydd yn llanw capeli ein gwlad ag ymrysonau ac ymladdau, wedi dyfod i'r ardal hon a'th frwmstan a'th lusiffers gyda thi i'w thanio o un cwr i'r llall iddi! Nid oes dim ond yr aflwydd yn dy ddilyn di a'th frodyr jackyddol, y rhai a ymlusgwech i deiau, ac yn y teiau hyn byddwch yn hocan eich scandal a'ch celwyddau ar eich gwell, ac yn fynych yn gadael llau ar eich ol, y creaduriaid ffaidd! Ië, ti, Wil, a Thwm dy ewythr! Yr hen ragrithiwr twyllodrus erioed! Yr wyf yn adnabod dy ewythr, Twm y diacon, ac yn gwybod yn lled dda am ei gnaciau! Ië, Twm dy ewythr, yr hwn ni wel ddim allan o le yn y manau yr arllwysir ciniawau a the i'w fola melyn, ond ergydion llawdrwm lle na byddo yr hen filain rhagrithiol yn cael tē a llanw ei fol! Ië, Sioni'r Pant a Siencyn Troed y Foel; ym mha le trwy'r wlad a'r gwledydd y ceir y fath ddau ddyngymaint eu celwydd, a'u twyll, a'u cnafeidd-dra ym mhob peth a'r rhai hyn? 'Adar o'r un lliw a ehedant i'r un lle;' ac felly yr wyt ti, Wil, a'th gymdeithion yn y fath fradwriaeth ofnadwy bresennol. Gwelodd y Diafol dy berson di, Wil, yng nghanol y Jacks, a dywedodd, 'Er mai gwesion uffudd a ffyddlawn ydynt oll i mi yn eu gwasanaeth, ond Wil Brydydd y Coed yw y fflagl oreu at yr achos presennol.'

A dyma ti wedi ymgynnweryd â'r embassadoriaeth, ac wedi rhoddi dy hun yn dwlsyn gwirfoddol i'r Diafol a'i weision! Yn Ymneilldŵr y dygwyd fi i fynd; ond y mae Jackyddiaeth, yn y gwahanol rywogaethau o honi, wedi ei gwneuthur yn bwdr oll trwyddi! Mae Ymneillduaeth wedi myned i ddwyllaw Jacks! Jacks o weinidogion! Jacks o bregethwyr! Jacks o ddiaciaoniaid! Jacks o flaenoriaid! A'r rhai hyn mor fâlch, mawr, a hunanwybodus, ac yn gwanu eu trwynau i bob busneson, ac os na chânt hwy eu ffordd, llanw ardal ac ardaloedd â than ac â difrod eu terfysgoedd. Mi welais i Ymneillduaeth yn gwneuthur daioni; ond y mae, dan ddylanwad melltith pob Jackyddiaeth, wedi myned yn gyfundrefn o fudrelw, o dwyll, o ragfarn, o *rallies*, o chwarcuon, ac o bob direidi ac haerllugrwydd jackyddol. Yr wyf yn dywedyd wrthyf ti, Wil, ar ol ymladd brwydr Mr. Evans â thi a'th frodyr (cans ni adawaf ef ym mysg bleiddiaid a dreigiau wrtho ei hun i gael ei ddarnio ganddynt; ond ti elli benderfynu y deunw ym nilaen yn nerthol yn ei blaid); ië, yr wyf yn dywedyd wrthyf ti fy mod yn benderfynol i adael Ymneillduaeth ac ymuno â'r Eglwys. Yr wyf wedi blino ar ymrysonau, terfysgoedd, ymladdau, a chwerwderau y Sectau; ac yr wyf am dreulio gweddill fy oes mewn tangnefedd, ac am ddisgyn i'r dyffryn heb 'stŵr, *rallies*, ac ymrysonau yn fy nghlustiau. Yr wyt ti, Wil, wedi cydio yn y drwg, ac yr wyf yn dywedyd eto mai dyn drygionus i'r eithaf ydwyf, ac mai dy ddrygioni fydd yn achos dy dranc-edigaeth. Yr wyt ti yn meddwl dy fod yn gwneyd dy hun yn ddyngymaint o fawr yn y dull mwnciaidd a luniaist i ti dy hun; ond gelli fy nghoelio fod dy faraf, a'th Sysneg, a'th gelwydd, a'th satan yn golofnau rhy wan i gynnal y clochdy dychymmygol ydwyf ti wedi adeiladu. A

chan fy mod, yn ol fy marn i, wedi bod mor onest a dywedyd cymmaint a hyna o wirionedd wrthyt, yr wyf yn peri i ti godi dy bac, a thynu dy berson yn lled fuan o'r ty hwn, a chwilio am glwyd yn rhyw le arall heno."

"Yr ydych yn fy nghamsynied, Robert," ebai Wil.

"Dy gamsynied di, Wil," atebai Robert; "nac ydwyf, canys yr wyf yn dy ystyried yn eithaf drygionus, ac nid oes dim camsynied yn bod mewn perthynas i hyn. Dos ymaith ar frys, Wil, oddi yma, canys y mae fy amynedd yn ei pherthynas â thi wedi darfod; am hyny, cymmer dy hun ymaith."

Nid oedd Wil yn codi, ond yn dechreu siarad; a phan welodd Robert Wil yn oeri ei gawl fel hyn, cyfododd ar ei draed, a dywedodd, "Wil, yr wyf yn tynu ar fy oedran: y mae braich dda gref genyf, ac y mae'r gewynau hefyd yn gryfion:

a weli di y ffon yma sydd yn fy llaw, Wil? Os nad wyt ti yn departo mewn moment, hi fydd ar dy gefn; ac mi roddaf i ti y cyfryw bastwniad ag nad anghofi yn hawdd am dano tra fyddi ar dir y byw."

Pan welodd Wil y ffon, cododd ar frys, ac ymaith ag ef; ac wrth fyned allan, tarawodd flaen ei droed wrth y trothwy, a thyma fe yn grybach cam, yn myned yn ei flaen, ac ar ei ben i domen o fwdlacs oedd draw gyferbyn â'r ty nes oedd hyd ei ysgwyddau. Pan dynodd ei ben allan o'r bwdlacs, yr oedd golwg ryfedd arno, yn enwedig y pibonwy oedd yn hongian wrth ei farf. Wedi cyfodi, ymaith â Wil nerth ei draed, ac i'r waen oedd dan y ty, a ffwrdd ag ef ar hyd y llwybr i lawr tua'r afonig; a chan fod y baw wedi llanw ei lygaid, methodd â gweled y bont-bren, ac ar ei ben ag ef i'r pwll; ond ymlusgodd rywffodd i'r lan, a throes i'r coed, y ffordd nesaf i dy ei fam.

VII.

MAE yn hysbys i'm darllenwyr fod Wil i bregethu am ddau, neu rhwng dau a thri o'r gloch prydawn dydd Sul, yn Nhroed y Foel. Peth mawr, peth o bwys; ac y mae braidd yn un o'r pethau trymaf yng ngolwg llawer o ddynion i gael cwrdd pregeth i'r ty; mae hyn yn derbyn yr arch; mae hyn yn gynnal yr achos; ac y mae hyn yn derbyn y gweision i'r babell; ac y mae hyn yn un o'r arwyddion penaf fod crefydd yn preswyllo ac yn gwneuthur ei chartref yn y galon. Wedi i Wil gael y gwahoddiad i bregethu yn Nhroed y Foel prydawn dydd Sul, hi a aeth yn gyffro mawr, o blegid y darpariadau oedd i gael eu gwneuthur gyferbyn â'r oedfa. Bu Siencyn a Nansi yn cynnal cwrt hir ar yr achos; yn dadleu weithiau yn boethlyd iawn â'u gilydd, Siencyn yn arw yn ei lais, ac yn

ddirân yn ei wyneb, ac yn clocho yn enbyd.

"Os cael cwrdd," meddai Nansi, "cael cwrdd y tâl galw cwrdd arno, ac nid ffrit o gwrdd;" ac ebai hi ym mhellach, "gan fod pethau yn myned fel y maent, a chan ein bod yn belongo i'r parti sydd yn sefyll ym mhlaidd Morgans, mae rhaid i ni sefyll yn selog; bydd yr holl ardal yn edrych arnom ni, ac ni wnawn ddaioni mawr i'r achos, ac a godwn ein hunain ar yr un pryd yng ngolwg y wlad."

"Wel, wel," meddai Siencyn, "yr wyf fi o blaid Morgans, ac yr wyf am gael yr Evans ffwrdd; ac am unwaith y mae yn rhaid myned i dipyn o gost a thrafferth; nid oes dim byd i'w wneuthur ond myned trwy y cwbl wedi dechreu; turn rhywun arall fydd hi y tro nesaf. Yn enw'r anwyl am unwaith, gadewch i ni dori rhyw ffugrau, a bydd hyny

yn godiad mawr i Morgans, ac a'n cryfhâ fel plaid yn erbyn yr Evans; mae bil pum punt yn y drâr bach, cymmerwch ef a gwnewch a fynoch ag ef o ran hyny; ond gwnewch bob peth yn *right*."

Mae'r Seison yn arfer â dywedyd, "*Money makes the mare to go*;" a dyma Nansi yn brysio i'r drâr bach, ac yn symmud lletty a bil pum punt; ac wedi ordro am Ffarmer, a'i lanhau, a'i gyfrwyo, dyna hi yn dechreu stripio, ac yn galw ar Martha i ddyfod â dw'r iddi i ymolchi, i gyrhaeddyd y sebon, i chwilio am y lliain sychu, i ymfyn am ei sanau, i sheino ei hesgidiau, ac i edrych a oedd rhybanau wrth ei chap.

"Gwna hast," meddai hi "ac wedi i ti wneyd y pethau yna, rhed yn gynt nag y gallot i'r Pant, a dywed wrth Pali fy mod yn myned i'r dref, ac iddi wneuthur ei hun yn barod mewn jiffy i gwrdd â mi wrth fwllch Pensingrig; a dywed wrth Siani'r forwyn am barotoi i ddyfod yma dydd Gwener i dy helpu di, canys y mae ei meistres wedi ei haddaw. Gwed wrth Anne, y weinyddes, am ddyfod yma prydawn heddyw erbyn y delwyf fi o'r dref; a gwed wrthi, os na ddaw y gwnaf ei chofio tra byddo hi byw. Dywed wrth yr hen Ned am iddo ddyfod yma i white washo'r ty boreu dydd Sadwrn yn fore, ac i roi help llaw trwy'r dydd."

"O ddifrif, meistres," ebai Siani, "a ydym y mwnci Wil yna wedi eich dwlian, ac wedi eich gyru allan o'ch cof?"

"Martha," atebai ei meistres, "paid ag edrych yn fach a phaid â siarad yn fach am was yr Arglwydd."

"Gwas yr Arglwydd yn wir," atebai Martha; "mae Wil yn ddigon o was y cythraul."

Ffwrdd â Martha tua'r Pant, ac wedi iddi adrodd ei chenadwri, dyma Pali hithau yn dechreu ordro am ddal Jolly, ac am bob peth arall, a hyny mewn llais tebyg iawn i lais natur ddrwg; ac wrth ymddadlau â'u

gilydd, siglodd y feistres flewyn y forwyn, a phan ag yr oedd yn troi ymaith i gyfarfod â Nansi, dyma wawch Siani ar ei hol, yn gwaeddi, "Meistres, cofiwch ddyweyd wrth Nansi fod y *bile* yn becco Wil yn ei 'stymog, ac am iddi brynu potelaid neu ddwy o physig doctor Lloegr iddo." Ni chymmerodd Pali arni ei chlywed, a ffwrd â hi.

Chwarddodd y ddwy forwyn yn iach ar eu gilydd.

"Lodes," ebai Martha, "y mae wedi myned yn amser dyeithr yn yr ardal! Dyma beth yw Jackydd-iaeth! Druan â Mr. Evans! Mae wedi myned yn dlawd fod satan fel Wil wedi cael ei gymmeryd yn dwlsyn yn nwyllaw sataniaid ereill i daflu Mr. Evans o'r capel."

"Mae wedi myned yn ddrwg," ebai Siani; "ond deall di, nid ydyw ond dechreu, fe fydd mwy o andras drwg tua'r capel nag a fu mewn unrhyw fan erioed yn yr ardal. A glywaist ti fel y syrthiodd Wil ar ei ben i'r ddomen dail wrth redeg rhag ffon Robert y Lan."

"Do, mi gwelais i e," atebai Martha, "ac yr oeddwn i yn go-beithio y buasai yn mogi yn y domen. Yr ydym ni yn arfer dyweyd y cwbl wrth ein gilydd. Lodes, pan fu Wil yn cysgu yn ein ty ni pwy noswaith, fe alwodd am ddw'r o'r *room* ar lofft; a phan aethym â'r dw'r i'r *room*, fe ymaflodd ynof, ac a dreiodd fy nghusanu, ond mi ddiengais oddi arno."

"Fe wnaeth yr un peth â minnau," ebai Siani.

"Pa fodd y gwnacthost ti ag ef?" ofynai Martha.

"Gwneuthur â'r gwr drwg," atebai Siani, "mi wnaethym o'r goreu ag ef. Mi ymeflais yn hen gorn ei wddf main, ac a roddais iddo wasgiad y gwna gofio am dano am getyn; ac mi ddywedais wrtho ar fy llw mawr, y buaswn yn ei ladd ar y *spot* os na fuasai yn llonydd."

Ymadawodd y ddwy forwyn â'u

gilydd; ac aeth y ddwy wraig yn llon, ac yn wenau o glust i glust ar eu gilydd, tua'r dref; ac wedi disgyn yn y Fflam an' Fflam, a chael y ceffylau i'r 'stabal, a chael pob o ddyferyn bach gan Mrs. Jones i'w lloni, aethant allan i siop y *draper* i fargena a phrynu, ac yr oeddynt wedi cytuno i brynu yr un pethau. Prynasant ddwy het yr un peth, yr un bris, a'r un *strings*; prynasant ddwy *shawl* yr un defnydd, yr un bris, yr un *flowers*, yr un *borders*, a'r un *fringe*; prynasant *kid gloves* yr un peth, yr un bris, a'r un lliwiau; prynasant rybanau wrth eu capiau yr un defnydd, yr un bris, a'r un braf braf; prynasant yr un *curtains* i'w doddi ar welyau cadw'r mis ac ar y ffenestri. Wedi dar fod â hwy eu hunain, prynasant bob o sham i Sion a Siencyn yr un peth; prynasant bob o *die* du i'w gyddfau yr un defnydd a'r un bris; prynasant iddynt bob o bâr o fenyg *kid* duon; prynasant bob o napeyn poced yr un peth, yr un *flowers*, a'r un bris; prynasant bob o napeyn poced sidan iddynt eu hunain; a phrynasant bob o *die*, a phob o sham, a phob o bâr o *kid gloves*, yn tynu at liw carbô neu blwmswnen addfed, a phob o napeyn poced yn bresantau i Wil. Wedi dar fod â'u busneson yn siop y *draper*, a pheri anfon y paciau i'r Fflam an' Fflam, ymaith â hwy tua siop y *grocer*, er mwyn gwneyd cyfiawnder â'r ddau ddyn, sef y dyn oddi mewn a'r dyn oddi allan. Yno y prynasant dê, a choffi, a sugr gwyn, a sugr melyn, a *raisins*, a *churrants*, a *spices*, a phubyr, a *nutmegs*. Wedi dar fod â'r *grocer*, gwelid y ddwy chwaer yn gwynebu ar y *china shop* i ddethol deadellau o ddefaid Morgan, fel y galwant y *tea-kettle* yn fynych yn y Gogledd. Wedi edrych, wedi gandlo, ac wedi cracio rhai wrth eu trafod, dewisodd y ddwy chwaer bestri o'r un fath, ac wedi bargena yn go faith, prynasant bob o set

yn gyflawn, a phob o dray *splendid*; y rhai, gwedi eu pacio, a anfonwyd i'r Fflam an' Fflam. Wrth fyned o'r *china shop* i'r *confectioner shop*, heibio i'r *grocer*, cofiodd Pali'r Pant iddi glywed Wil yn dywedyd ei fod yn hoff o ffigys, a bod doctor Lloegr wedi eu cymmeradwyo iddo at helpu'r *digestion* a chryfhau ei 'stymog, a hi a droes i mewn ac a brynodd ddau bwys; a gwnaeth Nansi Troed y Foel yr un peth. Yn *shop* y *confectioner* prynasant amryw gacenau breuon, breision, a melusion, i helpu 'stymog Wil; ac ymaith â hwynt tua'r Fflam an' Fflam i gael tê cyn myned adref.

Yr oedd Mrs. Jones o'r Fflam an' Fflam wedi clywed rhyw achlust o hanes Wil, ac wedi deall fod y ddwy ddysgyblesau iddo hyd fon eu breichiau. Wedi eistedd lawr, a thra yr oedd y tê yn cael ei barotoi, gofynodd Mrs. Jones, "Pa fodd y mae Mr. William Morgans gyda chwi? Mi fethais i â'i adnabod gan fel yr oedd wedi *improvo* yn Lloegr; mae wedi myned yn un o'r dynion mwyaf *genteel* a welais erioed; mae yn siarad Seisoneg yn *splendid*; mae yn *dresso* yn *splendid*; mi wrantaf y daw yn bregethwr *beautiful*. Erbyn eu bod wedi yfed tê, daeth cert y felin heibio i'r Fflam an' Fflam; galwyd ar y melinydd i mewn, a chafwyd bob o gwart gan y ddwy santes; a'r paciau a osodwyd yn y cert, ond y poteli *spirits*, canys nid oedd dim o'r *trust* mwyaf na buasai y melinydd yn yfed iechyd da iddo ei hun ar y ffordd o'u cynnwysiad. Aeth y gwragedd tuag adref.

Wythnos ryfeddol yw wythnos y parotoi gyferbyn â chwrdd prydawn dydd Sul. Rhaid cael y teiliwr a'r wniadyddes, rhaid cael y meisiwn, rhaid cael y saer, rhaid gyru i dy'r crydd, rhaid gyru i'r felin; a rhwng pob peth y mae yn ferw mawr trwy yr holl wythnos. Fel hyn yr oedd yn Nhoed y Foel yr wythnos cyn cwrdd Wil. Glanhau y canwyllarnau

pres a haiarn, glanhau y dysglau a'r platiau pewter, tynu llestri y *dresser* trwy'r olchfa, rhwbio'r celfi, pobi bara a gosod y torthau ar yr astell dan lofft y gegin, hala bara ceirch a'u gosod yn grugiau ar yr astell arall, fflwrio y cig eidion a'r cig moch ar y bachau dan y lofft, gadael drws y cwppwrdd cornel yn agored i'r bobl gael gwelod y llestri tē, yng nghyd â doddi pob peth ar yr olwg oreu. Yr oedd yn rhyfeld yn Nhroed y Foel, yn neillduol dydd Iau, dydd Gwener, a dydd Sadwrn cyn cwrdd Wil. Yr oedd Siencyn â'i raw fawr lydan yn glanhau gydag ochrau y muriau, ac yn rhoio'r budreddi o bob twll a chongl. Dydd a nos yr oedd yn rhedeg a ielpan megys pe buasai hanfod y greadig-aeth yn ymddibynu ar Wil a'i gwrdd. Dwy neu dair o hen wragedd busnesgar yr ardal yno; un yn cario dw'r, a'r llall yn cario glo, y llall yn cynneu tân yn y ffwrn; Martha'r forwyn yn benfflwhch yn ceisio bod ym mhob man, ac heb fod yn un man; a Siani, morwyn y Pant, yn dotio yn yr ystŵr fawr, ac yn rhoi Wil a'r cwrdd yn ddiseremoni i'r gwr drwg. Yr oedd y benywod yn fawr, yn galch, yn bridd, yn we pryf copyn, ac yn ddropas o'u penau i'w traed, fel nad oeddynt yn debyg i greaduriaid dynol. Dyma oruchwyliaeth a seremonïau wythnos y parotoi gyferbyn â chwrrd prydawnol dydd Sul! Nid glanhau er mwyn glanweithdra, ond glanhau er mwyn porthi balchder; glanhau er mwyn dangos i ddynion dyeithr eu bod yn lân; a glanhau fynychaf, fel y Phariseaid, o'r tu allan, a llawer iawn o faw ar yr un pryd allan o'r golwg.

Rhyw fodd neu gilydd ni ddaeth nemawr yng nghyd i'r capel nos Wener i'r cwrdd eglwys, a dechreuodd a gorphenodd yn dra fflat.

Ond boreu Sul ddaeth! Yr oedd yr ardal yn ferw oll drwyddi; canys yr oedd y gath wedi diengyd o'r

cwd, a phawb yn gwybod erbyn hyn fod plaid yn y capel am droi Mr. Evans allan, a doddi Wil yn ei le. Yr oedd wedi myned yn arferiad gan bobl y capel i fod yn ddiweddar iawn yn dyfod i'r odfaon. Ond boreu y Sul hwn gwelid hwynt o draw ac yma yn fynteioedd ar fynteioedd yn cynniwair tua'r lle, ac yn edrych rywbeth yn fwy gwyllt nag arferol. Ymddangosai yn amlwg fod bywyd yn y fusnes, a'i fod wedi rhoddi bywyd newydd yn y rhai oedd yn arferol o fyned i'r capel. Yr oedd Tomos y diacon, ewythr Wil, ar y fynwent yn dra boreu; yr oedd yn rhagrithiol dros ben arferol; gwên ar ei wyneb, ond i'r rhai oedd yn ei adnabod ac yn hysbys o'i gnaciau yn edrych fel pe buasai wedi cael ei feddiannu gan fwy o wrdrwgiaid nag arferol. Yn fuan yr oedd Sion y Pant, Siencyn, Troed y Foel, ac amryw o frodyr y fradwriaeth wedi tyru yng nghyd ar y fynwent, ac yn siarad yn ddystaw â'u gilydd; ac yr oedd chwirydd y fradwriaeth hefyd yn tynu at eu gilydd; ac yr oedd Pali a Nansi yn rhodio yn eu hetiau, a'u *shawls*, a'u rhybanau, a'u menyg *kids* newydd, a'u cynffonau yn ysgubo'r dwst yn yr holl hyny o le. Yr oedd y bobl yn edrych yn wyllt, a phob un yn dysgwyl clywed rhywbeth gan y llall nad oedd efe ei hun yn ei wybod. Gwyddent fod rhywbeth ar gerdded, ond ni wyddent yn iawn pa beth; ac er ymholi â'u gilydd nid oeddynt fawr callach. Yr oedd amryw yn myned i mewn i'r capel o wŷr a gwragedd, ac heb gymmeryd sylw o ddim mwy na phe buasai dim heb fod, a Wil heb ei eni. Y bobl wylltion yn dyrau yma ac acw ar hyd y fynwent, yn siarad yn lled uchel, ac eto heb wybod pa beth i siarad.

Ond ym mhnen ychydig gwelid Wil yn dyfod i'r fron yn ymyl. Ymddangosai fod ganddo gryn ymddiried ynddo ei hun; tafai ei ben o ysgwydd i ysgwydd mor rheolaidd a

phendilo cloc; tynai farf ei ên yn fynych trwy ei law chwith; safai, megys i edrych ar y dorf yn y fynwent, megys pe buasai mewn syndod. Yr oedd yn ei *ganonicals*: tie gwyn am ei wddf, ei *watch* ym mhoced ei wasgod, a'r *guard* am ei wddf; a sylwid ei fod yn chwareu rywbeth yn lled rydd o dano, fel pe buasai *screws hinges* ei 'stern a'i benliniau wedi ymryddhau tipyn yn eu gafaelion; ac yr oedd yn siglo ei gyffon yn anghyffredin. Erbyn ei ddyfod i'r fynwent, ffwrdd â'r bobl wylltion yn un daenfa, gan ymwithio am y cyntaf i'r capel; ond arosodd y bradwyr i groesawu Wil. Estynai y brodyr a'r chwiorydd eu crafangau iddo am y cyntaf, a thynent eu gwenau cyfled arno fel y gellid gweled y cilddannedd pellaf yn eu penau. Edrychai Wil yn fawreddog arno ei hun, ac yr oedd yn hawdd deall hyny, ac yr oedd mor hawdd a hyny hefyd i ddeall ei fod yn fyr ac yn ddiffygiol yn ei synwyrâu.

"Mae yn bryd dechreu," ebai'r diacon, ewythr Wil, ac efe a Wil a aethant gyda'u gilydd, a'r brodyr a'r chwiorydd ereill perthynol i'r frafwriaeth ar eu hol. Aeth y diacon yn flaenaf, a Wil ar ei ol, i'r côr mawr dan y pulpud: eisteddodd y diacon fel arfer yn y 'stôl dan y pulpud, ac aeth Wil i fyny i'r pulpud, a llygaid yr holl dorf arno. Wedi iddo dynu ei farf trwy ei ddwrn dair neu bedair gwaith, agorodd y Beibl, a darlennodd bennod. Yr oedd yn darllen yn annaturiol hollol: yr oedd ei lais yn llais dyeithr iddo ei hun; weithiau yn ei wddf, pryd arall yn ei drwyn, ac yn llusgo fel pe buasai oged fawr ar ei ol. Weithiau gosodai acen a phwyslais ar eiriau na pherthynent iddynt fod arnynt; a gadawai i'r geiriau y perthynent iddynt fod heb-dynt. Yr oedd darllen Wil yn fath o chwareu a chellwair â'r Gair Sanctaidd, a Wil wrth geisio ei ddarllen yn ymgyrhaedd am ogoniant iddo ei hun, ac nid am adeiladaeth y bobl

oedd yn gwrando. Yr oedd ym mhell o fod yn ddarlleniad naturiol, eglur, a dealladwy, ond yn ddarlleniad gwneuthur, hwdwchaidd, anghywir, ac aflafar, fel y mae darlleniad y Jacks yn gyffredinol. Wedi darllen, edrychodd Wil yn ddoctoraidd ac yn hunangyssegredig iawn ar y bobl, ac ymddangosai ei fod yn cael blas neillduol yn y drem ar y dorf oedd "ar lawr ac ar lan" o'i flaen. Fe ymaffodd yn y llyfr hymnau oedd ar ymyl y pulpud, ac a drodd amryw ddail megys i chwilio am hymn dipyn yn effeithiol, hymn â bywyd ynddi, a hymn afaelgar i gyffroi ychydig ar y dorf; ond wedi troi dalenau y llyfr ym mlaen ac yn ol, ymddangosodd iddo fethu â chael un wrth ei fodd ar y pryd; ac wedi iddo gau y llyfr, efe a'i dododd yn ei ol ar ymyl y pulpud, ac a roes yr hymn ganlynol allan o'i frest:—

"Diawl, Diawl,
Ni fedd y cythraul ddim un hawl
Ar neb a brynwyd ar y pawl;
Na fedd nac arnaf finnau chwaith;
Mi loriaf Satan dan fy nhra'd
Trwy hyn o wlad tra ar fy nhaith."

Pan darawodd lleferydd yr hymn hon ar glustiau'r bobl, edrychent yn wyllt ar eu gilydd, a chwarddodd amryw; ond dyma ryw hen gantwr ag oedd wedi cael ei goglais yn ei hen deimladau a'u hen brofiadau yn gosod ei law ar ei gern, ac yn bwrw yn benbres ar yr hen dôn; ac o blegid melusder yr hen dôn hyfryd hon, unodd y bobl, y nifer amlaf o honynt, ym miwsig y dôn, er dichon fod llawer o honynt yn methu gweled fod yr hymn yn yr oll o honi yn briodol iawn.

Mae gweddi a gweddio yn rhy gyssegredig braidd i wneuthur gwawd o ffugweddi ac o ffugweddio. Nid gweddi, yn fynych iawn, yw yr hyn y gelwir gweddi arni, ac nid gweddio yw y curo pant a thalar a wneir gan ddynion yn fynych pan y cymmerant arnynt eu bod yn gweddio. Ni chlybuwyd erioed y fath ffrables ag

a ddywedai Wil ar weddi: nid ceisio yn ostyngedig oedd Wil, ond demando; nid erfyn, ond hawlio; gorchymyn, peri, ordro Tad y trugareddau oedd Wil, a thynu cynlluniau iddo pa fodd i actio at ei greaduriaid ar y ddaiar. Yr oedd ei weddi yn fath o gymmysgedd dyeithrol, ac fel cysgod anegu heb drefn arni o'i dechreu i'w diwedd; ond yr oedd plaid Wil yn cadw ystŵr dirfawr: yr oedd eu tuchaniadau a'u hamenau yn llanw'r capel, ac yn fwy na'i lonéd. Wedi gweddio, rhoddodd yr hymn ganlynol allan:—

"Ceffyl pren sydd imi'n gymbwys,
Ar ei bedwar troed mae'n gorphwys,
I fyn'd rhwng pedwar o'm ffrynds pena',
Mewn crys gwyn yn dyn am dana',
Tua'r bedd a'm traed yn flaena'."

Wedi canu yr hymn ryfeddol hon, aeth Wil at y pregethu, a thestyn ei bregeth oedd "olwyn" Eseciel. "O olwyn"—"O! wheel."

"Yr oedd y prophwydi, ebai Wil, "yn ffond iawn o *emblems*; ac nid pawb sydd yn gallu *comprehendo'r emblems* hyn, ac ni ellir eu *comprehendo* chwaith heb eu *contemplato* yn fynych. Yr oedd dyleit mawr genyf fi er yn blentyn i *gontemplato emblems* y Prophwydi, ac felly yr wyf wedi dyfod i'w *comprehendo* yn rhyfedd. "O olwyn"—"O! wheel;" dyma *emblem* ryfeddol; y mae yn *wonderful*; y mae yn *graceful*; ac y mae hefyd yn *beautiful* i *imaginative powers* dyn, *especially* felly i *imaginative powers* pregethwr a bardd. Mae yr *emblem* ardderchog hon yn dywyll i chwi, ond y mae yn oleu i mi am fy mod yn gallu ei *comprehendo*; ac os goddefwch yr ymadrodd, am fod fy *faculties* yn graspo *tropes*, *figures*, *emblems*, a'r holl *sublunaries* uchel a geir yn y prophwydoliaethau. Mi a'ch dodaf yn y goleu gyda golwg ar yr *emblem* hon; ac i'r dyben hwnw yr wyf yn myned i dreato'r *subject* yn—

"1. Yn scientifical.

"2. Yn fysical.

"3. Yn bractical.

"1. Yn scientifical; hyny yw, yn ol *science*. Yr ydych chwi, fel y mae yn drueni mawr i feddwl am eich cyflwr, yn anwybodus o *science* a scientificality; ac felly yr ydych yn colli llawer iawn o gysuron i'ch eneidiau. Y mae fy nhestyn heddyw," meddai Wil, "yn ymofyn am gael ei drafod yn scientifical. O olwyn! Un rownd yw olwyn; peth pedwar ochrog yw 'sgwâr, a thri ochrog yw *triangle*. Gwnewch chwi gadw hyn mewn cof. Nid oes ochrau gan olwyn fel 'sgwâr o *triangle*, canys un rownd ydyw: mae fel rhod nyddu, neu *wheel* cert a *wheel* whilber, heb ben draw iddi, heb ddechreu na diwedd iddi, ond rowndio, rowndio, rowndio, a hyny byth a hefyd heb gyrhaedd y pen draw! Dyma *idea* ardderchog; neu, fel y dywed y Sais, dyma '*sublime thought*.' Ni rof fi ddim yn y byd am bregethau na fyddant yn cynnwys ond *common ideas*—ond *common things* yn unig. Un rownd yw *wheel*, a gwnewch chwi gadw hyn yn eich cof; a chofiwch bob amser na ellwch wneuthur dim o *emblems* y Gair heb eu rhoddi yn gyntaf yng ngrucible scientificalization, er mwyn eu reduso i liquidity, ac yna chwi ellwch eu tynu yn *wires* ffurion neu feinion at y gwasanaeth fydd genych iddynt; a chwi gewch gysuron mawr wrth drafod y crucibles.

"2. Mi gymmeraf olwg ar fy nhestyn yn yr ystyr fysical."

Yr oedd Wil yn dechreu twymo tua diwedd y pen gyntaf, a rhoddodd ddwy neu dair o ysgrheffydd ellyllaid a mwyaf oernadol a glywodd clustiau dynol erioed. Yr oedd yn dechreu nyddu ei wddf, fel y gwna gof â gwail cyll i ddal ei offer; weithiau yn plygu ar ei arau, ac yna yn ymuniawnu megys pe buasai o friad i neidio o'r pulpud i'r oriel; tafai ei freichiau, a bygythiai ei ddyrnau ar y bobl, fel pe buasai yn eu sialens i ymladd. Curai

waelod y pulpud â'i draed, fel pe buasai am argyhoeddi ei wrandawyr fod Satan yn barod dan ei draed yn cael ei gicio; ac yr oedd weithiau yn agor ei ben fel pe buasai am lyncu crochanau cawl yr ardal y naill ar ol y llall, a churai'r Beibl a'r llyfr hymnau nes yr oedd y dail yn ffileio ar hyd y ty cwrdd fel barcutanod papyr. Yr oedd Wil hefyd yn dechreu chwysu, a'r chwys yn ddyferion fel bwtwnau ar flaenau shwffen dew-flewog ei wyneb, ac yn syrthio ar frest ei wasgod, nes yr oedd hōno yr un olwg a sach wlan dan wlaw. Yr oedd ffryndiau Wil erbyn hyn yn cocio eu clustiau ac yn dechreu cadw 'stŵr wrth dderbyn a mwynhau ei athrawiaeth, a'r "ha, ho, hw," a'r "wel, wel" yn lled fynych yma ac acw, ond dim amenau dan y pen cyntaf, canys ni wyddent pa le i'w dodi. Ond dyma Wil yn gadael y pen cyntaf ac yn myned at yr ail ben, sef mysticality y testyn.

"Mae'r testyn yn ysbrydol," ebai Wil, "ac olwyn ysbrydol yw y *wheel* hon. Yr ydym ni," meddai ef; "hyny yw, mae dynion yn colli mer a brasder y Gair trwy beidio â'i ddeall yn ysbrydol; dim yn y byd ond myned dros bethau hanesiol a llythyrenol, a gadael y *mystical* allan o'r golwg. Meddyliwn yn awr," ebai Wil, "am yr enwaediad, fel y mae yn fysical yn dangos argyhoeddiad. Yn gyntaf, mae yn doriad rownd; yn ail, mae yn doriad dolurus; yn drydydd, mae yn doriad gwaedlyd; ac yn bedwerydd, mae yn doriad yn y d—l—f—n." Fe ddywedodd Wil fel yna yng nghlyw y dorf! Ac meddai ef, "Yr oedd asyn Balaam yn asyn *mystical*, Pharaoh *mystical* oedd Goliah, a *wheel* fysical yw *wheel* y testyn. Yr olwyn—y *wheel*," ebai Wil, "sydd yn myned â charafan y saint adref, a hyny trwy bant a bryn, a rhosydd a mynyddoedd. Yn y cerbyd, yn y *carriage* mawr, yn y carafan, yn cael ei lusgo gan

y *wheel* hon, y mae breninoedd Tarsis, Sheba, a Seba yn myned adref. Yn y carafan hwn, yn cael ei lusgo gan yr olwyn, y mae hyrddod Nebaioth a defaid Cedar yn myned adref; ac O am afael yn y *wheel* hon!"

'Y machgen byw i, dyma *electricity* Wil yn gweithio, a'r bobl yn y cyffro mwyaf ac yn fyw trwy'r holl gapel. Yr oedd Wil erbyn hyn yn ei gingdom, ac os gwaeddodd o'r blaen yr oedd yn gwaeddi ac yn ebychu yn awr megys pe buasai yn ymyl trancedigaeth, a'r gyllell ar ei wddf.

"Y *wheel* hon, meddai Wil, gan ysgyrnygu a noethi ei ddannedd ar y bobl, "sydd yn lusgo gambo'r iachawdwriaeth; hon sydd yn lusgo whilber y cyfammod. Chwi welwch y ceryg yn cael eu cario mewn whilberi o'r chwareli; felly y mae'r whilber hon yn myned â'i llwythio o geryg y deml tudg adref. Daw Lot, a'i wraig, a'i ddwy ferch yn myned o Sodom yn y whilber, ac ar ben yr heol daw bac o oferwyr yn cyfarfod â'u gilydd; ac meddai Twm, 'Mae yr hen Lot a'i deulu wedi ffoi!' 'Yr hen ffŵl,' meddai Shoni. 'Mae wedi dyweyd y gwna hi fwrw tân heddyw,' meddai Ned. 'Dewch i'r Ffarmers,' ebai Dai, 'i yfed pob o beint o iechyd da iddo.' Mewn i'r Ffarmers â hwy, ac wedi yfed llymaid, aeth un o honynt i'r *yard*, ac wedi dyfod yn ei ol i'r ty, dywedai, 'Wel, fechgyn, mae rhywbeth yn debyg y gwna hi friwlan ychydig o wlaw.' 'Mae eisieu cawod yn dost,' meddai Twm, 'canys y mae wedi myned yn sych iawn.' Ym mhen tipyn wedyn, dyma Ned allan i'r *yard*, ac yn rhedeg yn bost hast yn ol i'r ty, a gwaeddi, 'Fechgyn, y mae yn dechreu bwrw gwlaw, a disgynodd rhai dyferion ar gefn fy llaw, a j—l erioed, yr oedd yn llosgi fel *oil* fitrol neu *aqua fortis*!' Dyma hi yn gyffro yn union, a'r llefain a'r gwaeddi mawr ar hyd yr

heolydd; ond pa le yr oedd Lot? Yr oedd yn sâff yn yr hen whilber yn Soar!”

Yr oedd wedi myn'd yn frwd yn y capel erbyn hyn: Tomos y diacon, ewythr Wil, â'i geg yn agored yn barhäus yn y côr, yn ebychu ei “o wel, wel, wel,” yn curo'r Testament neu'r llyfr hymnau yn barhäus ar ymyl y côr, ac yn gwneuthur ystumiau a gweffau rhyfeddol.

Yr oedd yn amlwg yn awr fod Wil yn myned â chorff y gynnull-eidfa gydag ef.

“Dysgwyliwch, bobl, wrth y whilber,” ebai Wil. “Yr wyf yn cofio fy mod yn darllen am Ymherawdwr Ffrainc, pan glywodd am ryw bentref nad oedd neb yno yn cyfranu nac yn rhoddi elusen i'r tlodion ond un labrwr bach oedd yn y lle. Gwisgodd yr ymherawdwr fel dyn tlawd, ac aeth i'r pentref, ac aeth o dy i dy ac o ddrws i ddrws i fegian tamaid o ymborth; ond dim ym mhob ty. O'r diwedd, aeth at ddrws y labrwr, ac wedi cnoco, daeth y labrwr i agor y drws, a gofynodd i'r ymherawdwr pa beth oedd ef yn ymofyn. ‘Tipyn o ddyn bach tlawd wyf fi ar fy nhrfael,’ atebai yr ymherawdwr, ‘ac eisieu lodgings arnaf.’ ‘Ni wn i yn y byd beth wnaf i chwi,’ ebai'r labrwr: ‘yr wyf fi yn arfer styl i helpu tipyn ar ddynion fel chwi; yr wyf yn treio rhoi tamaid styl i ddynion ar eu trafael; ac yr wyf yn rhoi cornel bach iddynt styl i orwedd dros y nos. Ni wn i beth yn y byd i wneyd â chwi; mae'r wraig yn bygyth dyfod ag un bach. Ond deuwch chwi i'r ty, druan; chwi gewch fyned i gysgu i'r pen isaf at y plant.’ Efe a gysgodd yn y pen isaf gyda'r plant; ganed y plentyn; ac ymaith â'r ymherawdwr ar ei siwrnau. Ym mhen yr wythnos, dyma'r coaches a'r gweision lifre yn dyfod i'r pentref ac at ddrws y labrwr, ac yn ei gymmeryd ef a'i wraig a'i blant i balas yr ymherawdwr; a gwnaeth yr ymherawdwr

y labrwr yn *brime minister* mewn mynyd. Dyna'r whilber yn gweithio yn anwyl, bobol, onid e?”

Yr oedd y bobl, y mwyafrif o lawer o honynt, erbyn hyn wedi dotio, ac yn fyw trwy'r capel. Yr oedd Wil yn chwys mawr, yn dyferu oll drosto.

“Olwyn,” meddai; “mae'r *wheel* yn rhwymo pethau yn sownd wrth eu gilydd fel rhod nyddu, a chloc, a *watch*, a phethau cyffelyb. Ond meddylwch am fodrwy priodas: *wheel* fach yw'r fodrwy; ond y mae yn rhwymo yn dynach nag y gall dim arall wneuthur. ‘Does dim *trust* i'r lodes pan fyddo yn smeilo ac yn llygad-loni; ‘does dim *trust* i'w haddewidion a'i chusanau; ond y mae yn sâff wedi cael y fodrwy—wedi cael y *ring*—wedi cael y *wheel*—wedi cael yr olwyn am ei bys.”

“Nid bob amser y maent yn sâff wedyn,” ebai rhyw ioncyn pengrych, bal, a salw ar y *gallery*: “nid bob amser y maent yn sâff dan y fodrwy, yn neillduol yn yr ardal hon,” ebai'r ioncyn *impudent*. Aeth yn “ha ha” trwy'r capel: y brodyr yn chwertthin yn gyssegredig yn eu dyrnau, a'r chwiorydd hwythau yn chwertthin yn gyssegredig yn eu napeynau pocedi. O! beth pe gwelsech wepau y diacon, ewythr Wil!

Dyma Wil yn awr yn dystewi, yn sefyll yn syth yn y pulpud, yn sychu ei wyneb, hyny yw, yn sychu ei farf; yn edrych yn *expressive*, ys dywed y Sais; a phob arwyddion arno ei fod wedi rhoddi boddlonrwydd mawr iddo ei hun.

“Wel,” ebai ef, “dyma fi yn dyfod at y trydydd peth, a'r peth olaf yr addewais sylwi arno, sef *practicability* y testyn. Yr wyf dros fod yn *systematical* yn mhob peth, ac felly y mae pob un sydd wedi astudio a deall y *mathematics* fel yr wyf fi wedi gwneuthur. *Practicability* yw ymarferoldeb. Yr ydych wedi clywed yn barod, a gobeithio, er mwyn eich llesâd eich hunain, y gwnewch gofio, mai nid peth 'sgwâr yw *wheel*, ac

mai nid *triangle* yw *wheel*, ond mai un rownd yw *wheel*. Mae hyn yn beth o bwys i chwi i'w gofio; canys yn *roundness* y *wheel* y mae ei *practicality*. Cofwch mai yr un peth yw *practicability* a *practicality*; 'does dim gwahaniaeth ynddynt ond mewn geiryddiaeth yn unig; canys y mae yr hyn y mae dysgedigion yn ei alw et—et—etmalology, yn ei ddilyn i'r un *roots*."

Wedi myned yn mlaen fel hyn er budd ac adeiladaeth y gynnulleidfa, dechreuodd Wil ag ail boethi, ac ail ysgrechain, a gwaeddi, a banllefain allan, "Ië, y *practical part*; ië, bobol, y *practical part*. Deuwch at y *practical part*; dyma'r pwnc mawr, dyma'r pwnc rhyfeddol, a dyma'r pwnc penaf a mwyaf *grand* i chwi. Wel, rhowch glywed, meddai rhywun, beth ydyw y *practical part*? O, ië; dyna hi. Beth debygech chwi yw y *practical part*? Myn'd at y Virgin Mary i Eglwys Rhufain? Nag e, nag e, nag e! Myn'd at yr *absolution* i Eglwys Lloegr? O nag e, nag e, bobol anwyl. Yr wyf am i chwi ddyfod at y *practical part*. Yr wyf yn caru eich eneidiau chwi, bobl anwyl; yr wyf am i chwi ddyfod at y *practical part*. Wel, beth yw y *practical part*? meddwch chwi eto. Wel, mi ddywedaf wrthyhych; nid wy wedi ei ferwi, na'i ffreio, na'i bobl ydyw; nid *sausages*, na fflagots, na thripes pobl y gweithiau ydyw; nid uwd y Gogledd, ac nid sucen blawd y Deheudir ydyw; ond ymaflyd yn yr olwyn ac yna neidio i'r whilber ydyw, ac yna *drive* on heb hidio am neb ydyw; clwydi rhyddion a rhad ras ydyw, ac adref â ni."

Yr oedd y bobl wedi dyfod i diwn uchel yn y *practical part*; ac er bod Wil yn cadw 'stwr mawr wrth eu doddi yn y whilber, ni chlywyd dim o'i 'stwr ef wedyn gan eu 'stwr hwy yn y whilber. Cafodd Wil ei anadl am dipyn tra bu y dorf yn y whilber;

ac wedi iddi fyned yn weddol ddys-taw, dyma Wil drachefn yn gwaeddi nerth ei geg, "Mi ddywedaf wrthyhych beth yw'r *practical part*. Difriô, ac enllibo, a dyweyd celwyddau ar y person? Nag e, nag e, nag e. Gommedd talu Treth Eglwys? Nag e, nag e, nag e. Cael yr Eglwys a'r cwbl a berthyn iddi i'n whilber ein hunain yw y *practical part*."

Methodd Wil ennyn y fflam yn yr ergyd hwn, ac fe fu mor graff a gweled hyny; a chyn iddynt gael sefyll dim ar y mater, dyma fe yn rhoddi ysgreth a iwb fel *dragon*, ac mewn rhyw lais dyeithriol yn gwaeddi, "Ond yn benaf oll; gwrandewch yn awr; gwrandewch am eich bywydau yn awr. C'lymu eich hunain yn sownd wrth y *wheel* yw y peth penaf yn y *practical part*. Wedi i chwi g'lymu eich hunain yn sownd wrth y *wheel*, cerdded hi lle yr elo, chwi ewch gyda hi: bryn a phant, chwi ewch gyda hi; mynydd a dyffryn, chwi ewch gyda hi; yn ol o Babilon, gyda hi; trwy'r Môr Coch, gyda hi; os sefyll, chwi sefwech gyda'r *wheel*; os syrthiwech, chwi syrthiwech gyda'r *wheel*; a phan gyfodwch, chwi gyfodwch gyda'r *wheel*, ac a fyddwch yn nes ym mlaen er pob peth yn eich siwrnau. Yn sownd wrth y *wheel*, bobol; yn sownd wrth y *wheel*, bobol. Amen."

Ail fflaglodd y tân ar ddiwedd pregeth Wil; ac wedi dyblu rhyfeddol ar y canu, cyhoeddwyd Mr. William Morgans i bregethu yn Nthroed y Foel, yr odfa i ddechreu am hanner awr wedi dau yn y prydawn.

Trodd y cyfarfod hwn yn hollol yn ffafr Wil gan y mwyafrif o lawer, a'r farn oedd ei fod wedi pregethu yn gall, yn brofiadol, yn eglur, yn fywiog, ac yn felus. Bernid ei fod wedi trin ei destyn a'i faterion, o destyn a materion mor drwm, yn rhagorol iawn, a bod bendithion lawer iawn wedi cael eu derbyn a'u mwynhau trwyddo.

VIII.

YMDDENGYS bod rhai o ddarllenwyr yr HAUL yn barnu mai dychymmyg oll trwyddo yw hanes y Parchedig William Brydydd y Coed; ond dymunir hysbysu'r cyfryw rai bod yr hanes am y gwr parchedig yn ffeithiau, y pregethau yn ffeithiau, a'r hymnau wedi cael eu rhoddi allan; a bod yr ymadroddion rhwng yr *inverted commas*, neu a geir rhwng y nodau hyn—" "—air yng ngair megys y traddodwyd hwynt o bul-pudau. Mewn gair, mae Wil yn ffaith, ac yn ffaith fawr o bregeth-wriaeth jackyddol Cymru.

Wel, megys ag y crybwyllwyd, trodd yr oedfa yn y capel boreu dydd Sul yn hytrach yn ffafur Wil; o blegid rhywbeth tebyg i bregeth Wil yw y pregethau sydd yn myned â'r bobl am ychydig yn dyrfaoedd ar eu hol. A chyda golwg ar archwaeth y werin, yr oedd pregeth Wil yn bregeth a ystyridd yn gampus, canys yr oedd yn rhoddi digon o ddifyrwrch i'r bobl. "Fe'i gweithiodd Morgans hi yn gampus," meddai un. "Dyna fachgen yn myned trwyddi yn *splendid*," ebai'r llall. "Mawr fel y cafodd ei gario," meddai'r trydydd. "Och fi," ebai'r pedwerydd, "fe fydd y ffŵl yna ar gorn ei wddf yn fuan." Ond yr oedd y mwyafrif o lawer, i.e., yr oedd y dyliaid oll o blaid Wil; ac y mae yn hysbys i bawb bod dyliaid cynulleidfaoedd yn bump i un o'r gwybodusion.

Wedi dyfod allan o'r capel, gwelid Wil a Tomos y diacon, ei ewythr, wrth un ochr iddo, a Sion y Pant wrth yr ochr arall, a Siencyn Troed y Foel, a thri o'i ffryndiau gydag ef. Yr oedd Nansi Troed y Foel a Phali'r Pant o'r tu ol yn drwsiadus iawn yn eu hetiau, a'u shawls, a'u capiau, a'u napcynau pocedi, ac amryw wragedd gyda hwynt, ac oll dan wahoddiad i Droed y Foel i ginio,

er mwyn bod yn barod i'r oedfa brydnawnol. Ac y mae yn deilwng o sylw yn y fan hon, wrth fyned heibio, bod visito ar y Suliau yn rhan fawr o grefydd rhai ardaloedd; nid yn unig yn rhan o grefydd y rhai anghrefyddol, a dywedyd dipyn yn Wyddelaidd, ond yn rhan o grefydd y crefyddolion. Ef allai bod y gwahoddiad yn cael ei roddi wythnos ym mlaen llaw; ond fynychaf ar y fynwent, wedi dyfod allan o'r capel, y bydd yn cael ei roddi. Ceir eu gweled yn llusgo eu gilydd, ac yn dywedyd, "Dewch, dewch yn wir; y mae'r cwrdd gweddi heno yn y fan a'r fan ar eich ffordd adref. Mae yn rhaid i chwi ddyfod gyda mi heddyw." Mae *visits* fel hyn yn rhan fawr o grefydd rhai ardaloedd, ac nid oes braidd Sul yn myned heibio na fydd rhai o honynt yng nghafnau eu gilydd ac yn llyfu padelli y naill y llall.

Yr oedd cryn nifer o wŷr a gwragedd y visito ar y Sul yn myned tua Throed y Foel; ac erbyn cyrhaeddyd y ty yr oedd y bwrdd wedi ei daenu yn barod yn y parlaur, a Siani, morwyn y Pant, a Martha, morwyn Troed y Foel, yn eu ffedogau gwynion, yn barod i gyflên y trugar-eddau ger eu bronau pan fyddai galwad am danynt. Eisteddwyd yn uniongyrchol wrth y bwrdd; a thra yr oedd y ddwy lodes yn ei arlwyo, dyma'r siarad mawr allan yn ffrwd ac yn ffrydiau, a'r cwbl yn ganmol-iaeth i Wil a'i bregeth.

Wedi iddynt eistedd dechreuodd Tomos y diacon, ewythr Wil, agor y fusnes siarad yn gyssegredig iawn, a dywedodd wrth Wil, "Wel, fachgen, ti a'i gwnaethost yn galch heddyw; ti settlest hi heddyw; ni chlywais i erioed y fath beth; yr wyt ar dop yr ysgol; ac nid ti ddeui yn boblogaidd, ond yr wyt yn boblogaidd; ac nid oes na gweinidog na

phregethwr trwy'r wlad na'r gwledydd all shalco â ti."

Tra yr oedd Tomos y diacon yn dyferu'r whisgi hwn yn laseidiau i Wil, yr oedd yn edrych yn llygadlon ar y brasderau yn cael eu cludo i'r bwrdd gan y ddwy lodes, a'i hen weflau tewion yn chwareu ar y drem arnynt.

"Do," meddai Sion y Pant, fe stablishodd Morgans ei hun heddyw; a mawr fel y dywedodd."

"Ni chwrddodd dim erioed â'm cyflwr i," ddywedai Pali'r Pant, "yn gyffelyb i heddyw; ac os cefais i fendith erioed, mi a'i cefais heddyw."

"Mi allaf fi ddywedyd yr un peth a chwi, Pali," ebai Nansi Troed y Foel; "canys yr oedd pob gair yr oedd Morgans yn ei ddywedyd yn myned fel *oil* at fy nghalon."

Ond beth dâl chwalu geiriau? aeth y dyweyd, a'r siarad, a'r frawl gymmaint, fel yr anghofiwyd gras bwyd, ac aeth pob un i'w gafn i wneuthur ei oreu. Yr oedd Wil yn treio ymgyrhaedd am dipyn o faners, a neb arall; a phe dechreuwn adrodd am fochian mawr a llyncu rhyfedd Tomos y diacon, ac fel yr oedd y tameidiau yn syrthio oddi ar eu cyllyll ac o'u penau, ac fel yr oedd eu penliniau yn taro yn erbyn eu gilydd, ac fel yr oedd y tatws yn hollti ar flaenau eu ffyrce wrth eu cyrhaeddyd o draw, ac fel yr oeddynt yn colli'r peth yfed am draws eu gilydd, ac fel y syrthiodd plât un dros ymyl y bwrdd, ac fel y diwelodd decanteraid o gwrw ar y bwrdd; ac fel y daeth y ddysgl a'r tatws i'r parlaur o flaen Martha y forwyn, o blegid rhyw fistâk wnaeth ei throed tua'r trothwy; ac fel y ciciodd Sion y Pant grimog Nansi Troed y Foel dan y bwrdd, yn lle cicio'r ci, a'r fath ielp a roes y ci pan dderbyniodd y *salute* ar yr ail gic; ac fel y neidiodd y gath o un badell i'r llall at y tarts oedd ar y ford fach yng nghongl yr ystafell; ac fel y rhogodd Martha pan

wanodd un o'r chwirydd ei ffoc yng nghefn ei llaw, pan oedd yn gosod dysglaid o datws o flaen y *visitors*, yn lle ei gwanu yn y daten; ac am yr olwg ryfedd oedd ar farf Wil —pob blewyn â rhywbeth yn hongian wrtho fel profion o'i syberwyd: pe dechreuwn adrodd helyntion y ginio hon gyda manylwch, nid oes genyf amcan pa bryd y dystawn. Goreu peth yn awr yw dywedyd i'r ginio fyned trosedd, i'r llestri gael eu clirio ymaith, i Wil a'r brodyr ymgymmeryd ag ysmocio; a'r gwragedd at bob o lasaid o win, a siarad fel yr oedd pregeth Mr. Morgans wedi cyrhaeddyd eu cyflyrau yn y boreu, ac yn gobeithio y cawsai ei gario yr un fath yn y prydawn.

Dyma'r gair yn dyfod i'r parlaur fod y bobl yn dyfod dros y glenydd ac ar hyd y ffyrdd yn dyrfaeodd i'r oedfa; a gwir y chwedl, canys yr oeddynt yn dyfod yn fynteioedd ar fynteioedd tua Throed y Foel. Rhwng y llyffaint ag oedd Wil wedi eu llyncu yn barod, a'r llyffaint mawr a lyncodd pan welodd y torfeydd oedd yn dyfod i'w wrando, yr oedd i'w weled yn chwyddo, ac yn fawreddog dywedai, "Mi debygwn y bydd yn rhaid i mi bregethu allan; a goreu pa gyntaf i chwi barotoi lle cyn i'r bobl lenwi pob man." Penderfynwyd yn uniongyrchol bod yr horsplog yn gyflëus hollol i'r achos, ac nad oedd eisieu iddynt drafferthu dim yn ychwaneg yng nghylch hyny. Dyma'r bobl yn dechreu dyfod, a dyfod, a dyfod, yn Eglwyswyr ac yn sectwyr o bob libre a lliwian; canys yr oedd y swm mawr wedi myned allan am Wil a'i waith yn y boreu, a phawb yn troi allan i'w weled ac i'w glywed yn Nhroed y Foel yn y prydawn.

"William bach, edrych ati; pregetha yn dda; tafla dy got lawr; ti weli mor boblogaidd wyt; a thi fyddi yn weinidog arnom ni yn union. Meindia hi i'r peg."

"Mae gen i, mae gen i," meddai

Wil wrth Tomos y diacon, ei ewythr; a dywedodd Wil ym mhellach wrtho, fod yn rhaid iddo ddechren'r cwrrd.

“O'r goreu, o'r goreu,” ebai yr hen gadnaw.

Yr oedd y gynnulleidfa a'r wlad yn hollol hysbys o weniath, ffalsder, cnaciau, a chythreuldeb ewythr Wil, sef Tomos y diacon, a'i fod ym mhob ystyr mor ddiogwyddor a Beelsebub ei hun, ac mai ei fola oedd ei dduw penaf. Yr oedd ef bob Sul yn spwnjan mewn rhyw dy neu gilydd: ciniaw neu dê, ac yn gyffredin ciniaw a thê, ar gefn yr ysgol a'r cwrrd gweddi yn yr hwyr; ac er pan gladdodd ei wraig, y mae wedi ymgymmeryd â'r gelfyddyd o hela ar gyfer ei fola yn nhai y gwidwod sydd yn perthyn i'r capel. Nid gan neb ond ei berthynasau y mae y gradd lleiaf o barch iddo yn eu calonau; ac eto, trwy ei ffalsder a'i haerllugrwydd, y mae yn gallu cadw rhan fawr o'r flaenoriaeth yn ei law.

Daeth yn amser dechreu'r cwrrd, a thyma'r ystolau a'r cadeiriau allan i'r gwŷr goreu; ac wedi i Wil sibrwd rhywbeth yn ddystaw yng nghlust Nansi Troed y Foel, dyma hi ar ffrwst yn ymaffyd yn y gadair fihogani ac yn myned â hi i'r ochr arall, gyferbyn â'r horsplog, i Miss Williams y Berllan i eistedd arni. Yr oedd Miss Williams yn unig ferch ei thad a'i mam, yn etifeddes gyfoethog, ac yn aelod o'r Eglwys Sefydledig, ac yn y dwymyn iasboeth wedi dyfod yno i weled a chlywed Wil.

Pe gwelsech olwg Pharisaidd a rhythgyssegredig Tomos y diacon yn dringo i ben yr horsplog, ni anghofiaech hi rhawg, ys dywed ein cyfeillion yn y North. Darllenodd bennod; rhoes hymn allan i'w chanu, a chanwyd hi yn iawn, canys yr oedd y dorf erbyn hyn yn gannoedd mewn nifer. Aeth i weddi, pe gweddi hefyd fyddai dyweyd wrth yr Arglwydd pa fath un ydyw, ac adrodd

newyddion yr ardal iddo—pwy oedd yn glaf a phwy oedd wedi marw—fel pe na fyddai Efe yn gwybod dim heb fod dynion yn hysbysu iddo. Dywedodd lawer am Wil; ei fod wedi cael ei eni a'i fagu yn yr ardal, ei fod wedi troi allan yn fachgen gobeithiol, ei fod yn anrhydedd i grefydd, ac yn debyg o fod er lles mawr i'r ardal yn yr amser oedd i ddyfod. Dywedodd hefyd wrth yr Arglwydd fod rhai, ond nad oeddynt yn lluosog, yn wrthwynebwyr i Wil, ac wedi dangos hyny yn ddiweddar. Diolchodd hefyd dros Wil, am ei fod wedi cael ei gynnysgaeddu â thalentau mor fawrion ac â doniau mor ardderchog. Dywedodd wrth yr Arglwydd hefyd bod Wil newydd ddychwelyd o'r ysgol i roi tro i'r hen ardal, a'i fod ef ac ereill yn ei ol i'r ysgol, o blegid fod nifer luosog am ei gadw i fod yn ddefnyddiol yn eu plith hwy, yn ei ardal endedigol.

Dybenodd Tomos y diacon o'r diwedd; a thyma Wil mewn *moment* ar ben yr horsplog, yn ei farf, yn ei dei, yn ei *watch*, yn ei *guard*, ac yn holl ogoniant a mawredd ei ddyn oddi allan. Rhoes hymn allan i'w chanu yn bwysig iawn:

“Gorthymderau sy'n y byd,
Haleliwia;
Maent yn fy nilyn i o hyd,
Haleliwia,” &c.

“Testyn byr sydd genyf eto yn y prydawn,” ebai Wil ar ol canu'r hymn uchod. “Ond y mae testynau byrion yn gynnwysfawr iawn, ond cael dysg a dawn i'w trin. Dyma'r testyn,” meddai: “‘Cofiwch wraig Lot.’ Yn Sysneg, ‘Remember Lot's wife.’” Ac wedi ei ddywedyd yn Seisoneg, trodd gil ei lygad at Miss Williams, yr hon oedd yr ochr arall yn eistedd ar y gadair fihogani a ddygodd Nansi iddi.

“Mae'r testyn hwn,” meddai Wil, “wedi presento ei hun mewn llawer *view* i lygad fy meddwl, a'r meddwl

yw *fountain conceptions*, ac oddi yma y mae'r *streams* yn dyfod allan ac yn bransho ymaith, un y ffordd hyn a'r llall mewn ffordd ddifferent. Bîm am gryn amser yn methu â chael allwedd wrth fy modd i fyned i mewn i'r *text*; ond wedi hir bwzlo, sheinodd goleuni i'm hunderstanding, fel y gellais ei ddiveido a'i subddiveido yn y fath fodd ag y gall eich *capacities* eu comprehendo. Ac yn awr, heb fyned yn amgylchynol, yn ol ac ym mlaen, mi gwmpaf am draws fy nhestyn ar unwaith."

Ac felly y gwnaeth Wil, a thyma fe ar y testyn; a'r bobl, ar ol rhagymadrodd mor ddysgedig, â'u clustiau yn barod i wrando ar drwst yr allwedd yn troi yng nglo y testyn.

"'Cofiwch wraig Lot:' '*Remember Lot's wife,*'" meddai Wil, gan edrych â chil ei lygad ar Miss Williams. Sylwedd fod dau *object* neu ddau "wrtrych" yn y testyn, sef Lot yn un a gwraig Lot y llall. "Ac yn yr *objects* hyn," ebai ef, "y mae dau o wahanol *genders* neu o rywiau—*masculine gender* a'r *feminine gender*; yn Gymraeg, y rhyw wrywaidd a'r rhyw fenywaidd. Lot yw'r *masculine gender* a gwraig Lot yw'r *feminine gender*. Nid yw pregethwyr yn bresennol yn talu digon o sylw i wahaniaeth y *genders*; canys y maent yn dueddol iawn i'w cymmysgu, ac felly yn myned yn fynych i dd'ryswch, ac yn arwain y bobl i dd'ryswch; ac y mae yn anhawdd iawn dyfod allan o'r d'ryswch hwn wedi unwaith fyned iddo. Ac yr wyf wedi sylwi yn ddiweddar ei bod yn ammhosibl dyfod i ddeall y *genders* yma yn dda heb gymhorth y gramadegau; ac y mae yn dda genyf ddyweyd wrthy ch fy mod i, trwy fy astudiaeth caled yn y gramadegau Cymraeg a Sysneg, wedi d'od yn feistr ar y *genders* neu y rhywiau, ac yn medru eu distinguisho i drwch y blewyn. Er bod dau wrtrych neu ddau *gender* yn y testyn, eto y *feminine gender*, neu y wraig, ydyw yr

object penaf: 'Cofiwch wraig Lot.' Nid cofiwch Lot, ond 'cofiwch wraig Lot.' Mae rhywbeth mawr yn y gair gwraig; mae rhyw swn *charming* yn llythyrenau y gair hwn; ac y mae yr *object* hwn neu hon i aros yn y cof: 'Cofiwch wraig Lot.'"

Yr oedd Wil yn awr yn edrych yn fynych ar Miss Williams yn y gadair fihogani.

"Pa beth," meddai Wil, "sydd i ni gofio yn neillduol am wraig Lot? Dyma'r peth mawr a'r peth penaf sydd i ni gofio am wraig Lot," ebai ef, "yw cofio ei bod yn wraig i *bregethwr*. Nid yn wraig i *lord*, na syr, na sgweier; ond i un o swydd uwch, i un o ddegree ac *order* uwch o lawer: yr oedd yn wraig i *bregethwr*; canys yr oedd Lot yn *bregethwr* cyfiawnder. Chwi wyddoch am y cyhoeddiad melltingedig sydd yn ein plith, yn erlid ac yn cablu pregethwyr. Cyhoeddiad ofnadwy o felltingedig yw hwn; ond ni all dynu pregethwyr lawr pe byddai yn fwy melltingedig."

Yr oedd Wil yn dyweyd yn ffyrnig ac yn cyhoeddi ei reg yn uchel ar yr HAUL; a pha ryfedd? Chwareu teg i'r Jacks; y mae eu bara a'u caws yn "wrtrychau" o bwys iddynt: "Croen am groen, a'r hyn oll a fedd gwr a rydd efe am ei einioes."

"Mae'r dynion mwyaf ac enwocaf fu erioed ar y ddaier wedi bod yn *bregethwyr*," ebai Wil. "Yr oedd Solomon yn *bregethwr*, ac y mae bod yn *bregethwr* y swydd uchaf dan yr holl nefoedd. Y mae y parch mwyaf hefyd wedi cael ei roddi i *bregethwyr*. A ydych chiwi yn cofio am y tri *pregethwr* hyny ddaeth at Abraham? Gwelodd Abraham y *pregethwyr*, dri o honynt, o draw. Mae *pregethwyr* erioed yn arfer bod bob yn ddau, neu dri, neu bedwar gyda'u gilydd; ond gwelodd Abraham dri pan oedd yn eistedd wrth ddrws ei dy, a rhedodd i'w cyfarfod, ac a fowodd hyd lawr iddynt, ac a'u dygodd hwynt i'w dy. Dyma barch

i bregethwyr! Dyma Abraham yn rhedeg at Sarah ac yn ei hordro i grasu bara can i'r tri phregethwr, ac yntau ei hun yn rhedeg at y gwartheg; ac wedi dal y llo goreu, yn ei ladd ac yn ei barotoi i'r pregethwyr. Ac wedi cymmysgu ymenyn â laeth i'w dodi ar y cig llo, gosododd y cwbl o flaen y pregethwyr, a thendodd arnynt ei hunan wrth y ford. Dyma siampl nodedig o dendans ar bregethwyr. Nid rhyw dafell fach deneu o'r dorth wrth blât pob un; ond tair torth o fara can, a'r llo, a'r laeth, a'r ymenyn iddynt gymmeryd llonaid eu boliau. Cofiwch, wrth fod yn wraig i Lot, yr oedd yn wraig nid i esgob, nac i ddeon, nac i offeriad, nac i glochydd, ond un mwy o lawer; yr oedd yn wraig i bregethwr."

Yr oedd Wil, wrth draddodi'r pethau yna a dyrchafu ei swydd, yn edrych o hyd ar Miss Williams; a phan glywodd hi ei fod yn anrhydedd mawr i fod yn wraig i dipyn o Jack, gwnaeth wên, a gwelodd Wil hi yn gwenu. Gyda hyn, fe waeddodd nerth ei gegen, "Un o'r breintiau mwyaf a all pendefigesau a boneddigesau gael yw bod yn wragedd i bregethwyr. Ond," ebai Wil, "rhag i neb feddwl mai amcan y bregeth hon yw dyrchafu ein swydd orchel ni fel gwainidogion a phregethwyr, mi adawaf y dull yna o ymadroddi, os gellwch ddyoddef yr ymadrodd, ac a ddeuaf at gommand neu orchymyn y testyn: 'cofia.' Nid oes dim yn neillduol yn y gair Cymraeg cofio neu cofia, ond yn y Sysneg y mae yn fôr: 'remember.' Mae rhyw ffordd ryfedd gan y Seison i gryfhau'r iaith Sysneg trwy roddi geiriau bychain o flaen eu geiriau; megys, *re-member*, *re-pentance*, *re-surrection*, yng nghyd â channoedd o eiriau ereill; ond y mae'r tri gair yna yn ddigon i osod allan fy *idea*. Mae *re* yn dyfod â'r cof yn ol. Ym moreu yr adgyfodiad, bydd Abraham yn diuno yn ogof maes

Macpelah; ac wedi iddo ddiuno, fe ddaw y *re* ag ef i gofio am Sarah ei wraig, a dyna lle bydd ef yn ei phwtian hi â'i benelin yn ei hochr, gan waeddi wrthi, 'Dihuna Sarah fach; dihuna bellach.'

Cafodd yr ymadroddion hyn ryw ddyllanwad rhyfedd ar y dorf, ac yr oedd pob ystumiau i'w gweled ar eu cegau.

"*Re*," meddai Wil, "y mae yn rhoi *courage* mewn dyn. Yr wyf fel pe bawn yn gweled yr adgyfodiad: dyn duwiol wedi ei gladdu ac wyth neu naw o annuwilion arno; ond efe ddihuna gyntaf, ac wrth godi ac ymwithio trwyddynt, fe ddyweda, 'Yr oeddych chi yn llenwi pob lleoedd gynt; ond y mae wedi dyfod yn dro arnoch heddyw: *elbow room* i mi, os gwelwch chi fod yn dda, dd——d.'"

Yr oedd Wil wedi dechreu poethi erbyn hyn ac yn agor ei geg gyflod wrth waeddi, fel y gallesid tafu pellen ddwy-dwysg yn hawdd iddi. Soniodd am Dioclesian a Mahomet, ynysodd Môr y De a Madagascar, Constantine ac Affrica, y blynyddoedd wrth y drws, y weinidogaeth yn galw am fwy o *support* oddi wrth y bobl, bod dydd dial yn dyfod; i wraig Lot lingran a loitran ac edrych yn ol, ac iddi gael ei gwneuthur yn golofn o halen yn y fan; y dylai dynion fyned i'r nefoedd ar y *quick march*, fod y *black boy* am eu tynu oddi ar y ffordd, bod yr achos yn galw am i' ddynion stretcho o'i blaid, ac y dylent fod mor selog nes llorïo pob peth o'u blaen.

Yr oedd Wil erbyn hyn yn tafu ei freichiau ac yn edrych mor wyllt a phe buasai newydd ddyfod allan o'r gwarchae, ac yn ielpan yn ofnadwy. Dywedai fod Lot a'i ferched yn rhedeg ar drot, ac yn gwaeddi ar ei wraig, "Dere oddi yna; smarta dipyn; tafu dy esgidiau ymaith; a weli ddim o'r tân yn ennill tir? a glywi di'r powns yna? Dere oddi?"

'na, yr hen sogâ; onid e, ti fyddi yn wenfflam dân mewn mynyd.

Yr oedd Wil yn awr yn yr hwyl fawr, a phobl Wil yn yr hwyl hefyd gydag ef, ac yn neillduol Tomos y diacon, ewythr Wil, yr hwn oedd â'i geg yn llydan agored fel geneu toll-graig. Yr oedd Pali'r Pant a Sion a Nansi Troed y Foel a Siencyn hefyd yn yr hwyl, yng nghyd ag amryw ereill, a llawer iawn yn edrych mewn syndod ar eu gilydd, ac ar Wil, ac ar y rhai oedd dan ddylanwadau Wil bob yn ail.

"Yr oedd Lot a'i ferched," ebai Wil, "yn ei rhedeg yn anwyl; nid oedd dim ond eu cwtau i'w gwelod, gan fel yr oeddynt yn ei gwanafu tua'r mynydd; nid oedd dim amser ganddynt i dynu wy poeth o'r tân, fel y dywedir. Ond yr oedd yr hen lances yn lled *slow* yno, a chlywid yr hen Lot yn gwaeddi arni o hyd, 'Carca, carca, dyna'r tân wrth dy gwt di, lodes.' Ond yr oedd yr hen fenyw yn lwrcau ar ol, ac nid oedd fawr o flas ganddi i fyned ym mlaen. Ond wedi galw, a galw, a galw, mi glywaf Lot yn dywedyd wrth ei ferched, 'Ni alwaf fi ddim rhagor ar yr hen ———; rhyngddi hi a'i busnes.' Ond ym mhen ychydig, dyma un o'r merched yn dywedyd wrtho, 'Nhad, 'nhad, mae 'mam yn sefyll â'i phen ar gam, ac yn hwdwch gwyn, heb gyffro na llaw na throed.' Yr oedd hi, druan, wedi cael ei throi yn golofn halen, neu *saltpetre*, neu rywbeth hallt."

Wedi i Wil ddymuno bendith ar yr ychydig sylwadau a wnaeth, gorphenodd ei bregeth.

Pan oedd y canu ar gerdded, daeth Wil lawr o ben yr horsplog, a sisialodd rywbeth yng nghlust Nansi Troed y Foel; ac yn uniongyrchol dyma Nansi yn croesi trwy'r bobl at Miss Williams y Berllan, a chlywyd hi yn dywedyd rhywbeth yng nghlust y foneddiges ieuanc yng nghylch aros "i gacl disied o dè." Dywedodd Miss Williams bod yn

rhaid iddi fyned adref, ac nad oedd dim amser ganddi i'w golli am fod y Gwasanaeth yn yr Eglwys yn dechreu am chwech o'r gloch.

Erbyn bod y canu drosodd, a chyn hyny, yr oedd Nansi a Phali'r Pant yn ymwthio trwy'r bobl yma ac acw i wahôdd blaenoriaid y fradwriaeth, yn wŷr ac yn wragedd, i aros i dè, â'r hyn y cydsyniodd pawb a wahoddid ond Miss Williams. Y mae cwrdd a chinio, ac yn neillduol cwrdd a thê, mewn annedd-dy yn yr ardal yn dal cyssylltiad anwahanedig â'u gilydd. I mewn i'r ty ac i barlawr Troed y Foel â'r gwahoddedigion, ac yn eu plith rai merched jim anghyffredin yn eu cnotiau goreu; ac yn fuan gwelid Wil yn dyfod allan o'r bwtri, a Nansi ar ei ol. Ef allai fod Wil wedi cael dyferyn bach o'r botel yn y bwtri, ond nid oes neb yn gwybod pa beth a gymmerodd le oddi gerth Nansi ac yntau.

Yr oedd tecil y Pant a thecil Troed y Foel ar bob o bentan, â'u pigau at lawr y gegin, ac yn chwythu'r mwg mawr allan. Mor gynted ag y gallwyd, gwnawd pob peth yn barod; ac at y têt yr aed, a Siani'r Pant a Martha Troed y Foel yn tendio yn eu ffedogau gwynion megys ag yr oeddynt ar ginio. Ni welwyd erioed y fath fanners ag ar y têt hwn; nid oedd dim yn naturiol ond yn annaturiol: *manners* gwneuthur, ac felly allan o'u lle. Wil yn fanners o'i sodlau i'w goryn. Tomos y diacon yn llawn *manners* hwrdd y mynydd, Sion y Pant a Siencyn Troed y Foel a'r brodyr yn fanners dau fwhc gafr; a'r gwragedd yn a chan eu *manners* yn colli'r têt. yn cracio'r *dishes* a'r saseri, a chyn y diwedd, yn tori pig tepot y Pant a drontol tepot Troed y Foel. Ar ddiwedd, neu fel yr oeddid yn tynnu tua diwedd y dapas, ac yn cymhellu ychwaneg o dè, gofynodd Nansi i ferch ieuanc jim, yr hon oedd wedi bod yn yr ysgol wniö am ddau fis

yn Llaulludw, a gymmerai hi ddim yn ddisied yn ychwaneg.

"*Half a cup more, os gwelwch chwi fod yn dda,*" ebai hi; "*I am very boldyn, thanki.*"

Gorphenwyd â'r tè, a chadwyd tipyn o gyfeillach ar ol rhwng y brodyr i drefnu'r fradwriaeth yn erbyn Mr. Evans. Penderfynwyd doddi Wil i bregethu y Sul ym mhewn yr wythnos pa un a ddeuai Mr. Evans yn ei ol o'r North neu beidio; yna aethant ymaith i'r cwrdd gweddi am rhwng chwech a saith o'r gloch. Esgusodwyd Wil am ei fod yn rhy flinedig ar ol llafurio mor galed.

Wrth ffarwelio yn serchog â'u gilydd, rhoes Pali'r Pant sypyn o rywbeth yn llaw Wil, a rhoddodd Wil ef yn ei boced; a pha beth oedd y sypyn ond pwys o fligys; ac wedi cael y lle iddo ei hun, ni fu Wil fawr o amser cyn eu llimpro i'w geudod.

Y noson hōno, ar ol crafu yr esgrynach i swper, aethant i'w gwelyau yn Nthroed y Foel; ond ni anghofiodd Nansi roddi llymaid i yfed yn weddol i Wil, a chafodd Siencyn lasaid bychan; ond nid oes dim sierwydd pa un a yfodd Nansi lasaid neu ddau, mewn ffordd o iechyd da iddi ei hun, gyda bod Martha yn dywedyd iddi yfed. Ni ellir dywedyd ym mhellach ar y mater hwn: ac felly y mae yn rhaid i ni ei adael lle mae, ond yn unig crybwyll bod Martha yn arfer bod yn lodes eirwir.

Cododd teulu Troed y Foel yn eu hamser arferol boreu dydd Lluu. Ond am Wil, fe gymmerodd ef ei amser da ei hun; ac y mae yn ddiareb am Jack, nad oes dim braidd yn bosibl ei gael i'r gwely, ac yn fwy anhawdd o lawer i'w gael o'r gwely; canys ni ddaw Jack o'i wely mwy nag yr ä bwch i'r ody. Ond yn ei amser da ei hun daeth Wil lawr; ond yr oedd ei frest yn dost iawn, ac yr oedd Nansi wedi deall hyny rywfodd neu gilydd cyn iddo ddyfod lawr: ac yr oedd wedi compwindo *drugs* iddo yn barod, y

rhaf a gymmerwyd gan Wil heb ymholi dim yng nghylch natur yr *ingredients*; o blegid yr oedd ei ffydd a'i ymddiried gymmaint yn Nansi, ac yr oedd erbyn hyn yn brofiadol o'i deheurwydd at y *mistures*. Wedi i Wil gymmeryd ei freewast, aeth at y gorchwyl o ysgrifenu llythyr, a bu oriau yn ysgrifenu hwn. Mae yn debyg i Wil, o ben yr horsplog, syrthio mewn cariad â Miss Williams y Berllan, yr hon oedd yn eistedd ar y gadair fihogani ar ei gyfer; ac ysgrifenu llythyr caru at y foneddiges ieuanc hon ydoedd y gorchwyl mewn llaw ganddo. Bu mewn *study* galed wrtho, canys yr oedd am iddo fod yn llythyr campus, doniol, a thalentog, er mwyn iddo gyrrhaeddyd calon y ferch ieuanc, a thaenu ei wely yn ei serchiadau, fel na buasai na dwr na than yn ei rhwystro i'w gymmeryd ef yn gydmar bywyd. Wedi ysgrifenu'r llythyr a'i osod mewn *envelope*, rhoes geiniog i Dai bach, Ty Twmpath, am ei gymmeryd i'r Berllan. A thyma fe:—

"In the trod y fol, june

"My deer yung and luvin ledi

"The dispensations of providence are most wonderful and however reluctant we may be disposed to submit to their over-ruling operations we are bound to confess that the finger of our lord is in them all you was at the trod y fol in the mitting when I preach There from the horsplog iesterday you sit on the mihogani chere opposite me and i lwk at you And in my think i think i was lwkin in the face of a angel from paradise the arro go to my hart in A moment and I luv you at wans We cannot controul the decrees of heaven and instead of oposing what in the course of divine providence must come to pass it is our individual duties to pray that we may be led in the right way You com to heer i preach from the horsplog and the lord bring you there

to see i and bring Me there to brech the gosbel to see you and in a moment i luv you and i hope you Luv i you lwk at i many times and I lwk at you when in the spirit i prech and i hope you have the blessing under my prech you think i am the servant of the lord and give a plase in your Hart to luv i and be my wyfe in the lord and i wil make a good husband house to you and behav wel to you in the gosbel if you Dont like i to be preacher your father must go to the bishop and the bishop make a breest of i to be Grete man i dreme abowt you last nite and see you sit under the apbl stick and give i big ielow apbl and i eat it it was very sweet like huny or shugar and you lwk very tender at i i want to Speke to you and if you wil come to cod y ffynon to moro to meet i we can sett All and I tel you my hart and you tel your hart to i and i and you be Wan in the lord i be your husband and you be my wyfe i make good breest in the jurch and come up in the jurch dont you luv any wan but i and i think by your lwk you do luv me as I see you smile all the whyle when I brech iesterday From the hōrsplug of trod y fol when you reseve this leter rite bak to tel i you luv i as I luv you and Direct to revrend William Morgans minister of the gosbel so No more but i luv you and i am your humbl sarvant revrend William Morgans minister of the gosbel to miss Williams berllan by dai bach ty twmpath and want anser very bad."

IX.

Yr oedd seiet i fod yn y capel hwyr y dydd Mercher, ar ol *performances* Wil yn y ty ewrdd ac yn Nhroed y Foel; ac yn ol y cynllun a dynwyd y nos Sul hwnw gan Tomos y diacon, a Sion y Pant, a Siencyn Troed y Foel, yng nghyd â dau neu dri ereill, yr oedd *ring-leaders* plaid Wil i weithio yn ei ffafr i'r byw.

Y cynllun oedd casglu a chrynoi cymmaint ag a ellid o rai newyddion i'r seiet nos Fercher, a bod i bob un o'r rhai hyn dadogi eu hargyhoeddiadau a'u dwysbigiadau i bregethau Wil, a'i fod wedi cael y fath afael nerthol ar eu cyffyrâu nes eu plygu o'u hanfodd at yr achos. Barnwyd y buasai hyn yn myned ym mhell iawn o blaidd Wil, ac yn brawf eglur fod ei weinidogaeth dan fwy o arddeliad na gweinidogaeth Mr. Evans, y gweinidog. Mor gyfrwys yw plant Satan, onid e?

Dydd Llun, dydd Mawrth, a dydd Mercher dyma hi yn helpa wyllt am bechaduriaid i'r seiet trwy yr holl ardal, ond yn unig ei bod yn helpa

ddystaw; hyny yw, mor ddystaw ag y gellid. Yr oedd y prif fradwyr, sef y rhai ag fyddai â rhyw ddylanwad ganddynt ar ryw bersonau, trwy ryw foddion i guro pob llwyn a pherth, i gael cymmaint ag a allent i'r seiet. Yr ydym wedi gweled hela llwynogod lawer gwaith: un yn rhedeg i fyny i'r frou, y Hall yn cyfeirio tua'r cwm, ac arall yn cymmeryd ffordd y dyffryn: pob un yn cymmeryd ei lwybr ei hun er bod yn bresennol os gallai yn y lladdfa. Dyna, ym mron yn gywir, fel yr oedd gyda'r bradwyr ar ddechreu'r wythnos. Yr oedd pob un wedi gwisgo ei ffon, a'i whiwgwans, ac yn ei ddillad canol, wedi troi i'r helfa: rhai y ffordd hon, a rhai y ffordd acw, ac ereill i ffordd arall; pob un yn ymdynu at y fan a'r lle yr oedd yn meddwl fod dylanwad ganddo, a'r lle hefyd y gallasai ddefnyddio'r 'seryw os buasai galwad am hyny.

Pan fyddo dynion wedi ymgorffoli at ryw ddyrgau mwy nag arferol er

mwyn cyrhaeddyd eu hamcanion, y maent yn myned yn ddynion hollol rydd at bob dim. Nid ydynt yn ymgadw rhag, ond yn gwneuthur defnydd o bob rhagrith, twyll, hocoed, a chelwydd y gallont feddwl am danynt; ac yn hyn oll credant nad ydynt yn pechu. Maent yn egniol, yn ymdrechgar, ac yn selog dros ben bod yn selog, pan fyddo rhyw ysbryd drwg ar gerdded ganddynt gwaeth na'u gilydd. Dyma fel yr oeddynt yn achos Wil, neu yn fwy priodol yn eu hachos eu hunain: canys troi Mr. Evans o'r capel oedd eu prif bwnc hwy, ac nid oedd Wil ond offeryn yn eu dwylaw i gyrhaedd eu hamcanion.

Yr oedd y gymmydogaeth o'u blaen, ond nid gwiw iddynt alw mewn rhai manau, ond yn unig yn y lleoedd hyny y gwyddent y gallent ddefnyddio'r 'seryw yn llwyddiannus. Aethant ati yn egniol ac yn benderfynol i gyrhaeddyd eu hamcanion trwy y tew a'r teneu. Os nad oedd y gweithiwr yn arfer bod yn y seiet, yr oedd yn rhaid iddo ddyfod nos Fercher, amgen yr oedd yn colli ei waith; ac os na fyddai gwraig y gweithiwr yn arfer bod yn y seiet, yr oedd yn rhaid iddi ddyfod nos Fercher, dan berygl i'r gwr golli ei waith. Yr un modd yr oeddynt yn myned ym mlaen gyda'r erefftwyr, y seiri, y gofaiad, y cryddion, a'r teilwriaid; a chawsant gryn sypyn o addewidion; ond yr oedd rhai o'r pechaduriaid yn lled anhywaeth, eithr nid oedd help am hyny.

Ond eu cyfwrwsdra penaf oedd gyda'r bobl ieuainc; canys wedi eu canmol, a gwenieitho fwy na mwy iddynt, dywedent wrth y baclgen ieuanc bod hon a hon wedi addaw dyfod, ac y byddai yn sier o ddyfod; ac wrth y ferch ieuanc bod hwn a hwn wedi addaw dyfod, ac y byddai yn sier o ddyfod; a chafwyd cryn lawer o addewidion trwy ddefnyddio y ffordd gyssegredig hon i lwyddo achos Wil.

Nos Lun a nos Fawrth nid oedd dim trwy yr holl ardal ond ystwr y cŵn yn cyfarth, enocio ffenestri, yng nghyd â holl fusnes y caru yn myned ym mlaen, er mwyn i'r cariadau gael cyfleusdra i weled eu gilydd a siarad â'u gilydd yng nghylch busnes y seiet nos Fercher. Ac er bod llawer o groesineb ym meddyliau rhai o'r bobl ieuainc i fyned i'r seiet mewn un modd, ac yn neillduol ar y telerau a gymnygid iddynt; eto, yng nghymdeithas y naill y llall ac o dan ddyllanwadau darbwylgar y naill y llall, cytunasant i fyned i'r seiet, bid a fyno, er mwyn gwelod beth oedd yn myned ym mlaen.

Pan glywodd Robert y Lan pryd-nawn dydd Mawrth am yr ysgogiad hwn, a bod y bradwyr yn fusi iawn wrth eu gorchwylion, "Gocliaf fi," ebai ef, "nad af finnau i'r seiet nos Fercher nesaf. Cerdda heno i'r Fron Uchaf, Moeyn, a dywed wrth Styfyn am fod yn sier o ddyfod i'r seiet nos y fory, a myned heibio i'r Dolau a dyfod â Dafydd gydag ef. Y *sprats* annuwiol a drygionus fel ag ydynt! Ond mi wnaf fi beth gofid iddynt."

Aeth Wil adref i dy ei fam yn weddol fore dydd Llun; a phrydnawp dydd Llun dyma gosyn bychan trwy ei hufen yn dyfod iddo o'r Pant, a chern poreyn o Droed y Foel, a rhyw fan bethuach at y bola o fanau ereill. Arosodd gartref hyd nos Fercher, canys yr oeddidd wedi cytuno y buasai hyn yn well iddo ef. A gartref y bu, weithiau â'i draed yn y lludw a'r bibell yn ei ben, yn ysmocio yn wastad yn y ty, a phan fyddai allan. Difyrari ei hun weithiau i shishwrno ambell flewyn stray o'i farf, sheino ei wallt â phomatum ac *oil*, edrych arno ei hun yn y drych, ac yna i'r gongl i cistedd a darllen tipyn ar "*Siencyn Penhydd*" er mwyn cyrhaeddyd purdeb *style*, a goreuon geiriau ac ymadroddion yng nghyfansoddiad ei

bregethau. Yn niwrnodau dechreuol yr wythnos hon, yr oedd hefyd yn edrych bob mynyd trwy y ffenestr ar lwybr y cae oedd yn arwain tua'r ty, megys pe bai yn dysgwyl am rywun; a digon tebyg ei fod yn dysgwyl atebiad i'w lythyr Seisoneg at Miss Williams; ond yn ofer.

Ond nos Fercher ddaeth; a Wil, wedi ymdaclu ac ymdrwsio yn briodol, a gyfeiriodd ei ganrau tua'r seiet, ond rwyfodd yn amsenwyth yn ei feddyliau. Dichon ei fod yn credu ei fod yn croesi Rubicon yr hwyr hwnw.

Daeth y bobl yng nghyd i'r seiet, a braidd nad oedd yr holl aelodau yno, a llawer iawn o rai newyddion, nad oeddynt wedi bod yn y seiet erioed o'r blaen. A phan ddaeth yn bryd i ddechreu, dyma Tomos y diacon yn rhoddi ei lasar allan ac yn galw ar William Morgans i ddarlhen pennod a myned dipyn i weddi. Wedi i Wil ymgymmeryd â'r Beibl, gwelid ef yn doddi ei law yn ei boced ac yn tynu rhywbeth allan o honi; a pha beth oedd ganddo ond spectral â llygadau gwyrddion iddi, yr hon a osododd efe ar ei drwyn; a rhwng ei farf a'r spectral werdd, a'i olwg flewog, anifeilaidd, a mwneiaidd, yr oedd rhyw olwg ryfedd o annynol arno: yr oedd yn debycach i fabŵn hirgul blewog wedi ei roddi i eistedd, nid yn unig i ddynwared dyn, ond i fod yn *garicature* ar ddyn, nag i ddyn. Ymddengys fod rhyw flas mwy na chyffredin gan y bradwyr ar ddarllen Wil, er ar yr un pryd na ddarllenodd gymmaint ag un adnod agos yn gywir. Pan oedd Wil yn hacian darllen, yr oedd un â'i "wel, wel," y llall â'i "ha," a'r llall â'i "he," ac ereill â'u "hw," a hyny i ddim yn y byd ond i ddangos eu bod hwy yn cael blas ar y Gair, a bod y Gair yn ymallyd ynddynt. Pa fodd yr ymlusgodd yr arferiad isel a gorwael hwn i Sectyddiaeth, nid wyf yn gwybod; ond y mae yn arferiad ag sydd yn uchel iawn mewn

rhai manau, ac nid oes dim ynddi ond twyll a rhagrith crefyddol. O dan y pregethau, mewn rhai capeli, mae rhai o'r aelodau yn gwneuthur lleisiau irad, ac ni chaiff y pregethwr braidd agor ei ben na bydd y personau y cyfeirir atynt â'u penau yn agored, ac naill ai "O wel," neu "hae," neu "ia," neu "*is indeed*," neu bob un o honynt bob yn ail! Dim yn y byd ond rhyw falchder neu ragrith er mwyn dangos eu rhagoroldeb eu hunain—eu bod hwy yn deall, yn derbyn, yn mwynhau, a than argraffiadau a dylanwadau, gan nad pa fodd y bydd ereill. Mae yr arferiad gapelaidd hon nid yn unig yn anhrefnus ac afreolaidd, ond yn wrthun, yn iselwael, ac yn annheilwng hollol o dy yr Arglwydd, ac yn gwneuthur y rhai a'i harferant yn debycach i rai yn chwareu, ac yn gwneyd cellwair o grefydd, nag i ddynion fyddai yn addoli yr Arglwydd mewn parch, ac yn ymgeisio at feddiannu y sancteiddrwydd hwnw sydd yn perthlyn i'r gwaith.

Yr wyf yn meddiannu y parch mwyaf at addoliad Cristionogol ac at weddio yr Arglwydd ym mhob man, a chan bawb sydd yn galw eu hunain yn Grigionogion. Ond, hawyr anwyl, y mae gweddio wedi myned yn fath o *free trade* mewn crefydd; a'r naill ddwlyn yn dilyn dwlyn arall, fel mai ffregod disail a disynwyr hollol, a geiriau ac ymadroddion ammhertlynasol hollol a ddefnyddir, fel ag y mae y rhan fwyaf yn gorphen eu gweddian cyn dechreu gweddio! Gweddi o'r un natur oedd gweddi Wil wrth ddechreu'r seiet. Nid gweddi, yn briodol felly, ydoedd, ond rhyw guro perth a llwyn, a rhyw rwbwlian yma ac aew, a gwaeddi, ac ysgrechain, a snwffian, a rhochian yn ei wddf, a'i bleidwyr yn cadw cymmaint o ystŵr ag yntau. Yr oedd y meginau ar gerdded fel *fly wheels*, er mwyn chwythu'r tân yn mhlaidd Wil, a chreu diwygiad â gwynt carthen, er

mwyn cael seiliau da i fyned yn mlaen yn llwyddiannus yn eu bradwriaeth. Yr oedd rhyw gymmysgedd rhyfedd pan oedd Wil yn gweddïo, neu yn hytrach yn cymmeryd arno ei fod yn gweddïo: Tomos y diacon â'i "O wel, wel," fel y gwew yn ddibaid; Sion y Pant yn rhoi ysgrech giach pan yn cyfodi ar ei aden o'r gors; a Siencyn Troed y Foel â'i "gwhw, hw, hw," fel dylluan ar lwydrew, yn ddigon i fyddaru clustiau y rhai a'i clywent. Ac nid oedd Pali'r Pant, na Nausi Troed y Foel, yng nghyd â bageidach ereill o'r chworydd, yn fyr o wneuthur lleisiau, ond chwarent eu rhan yn lled dda yn y *play* oedd ar gerdded.

Wedi i Wil fyned trwy ei fusnes, ac wedi dystewi a llongyddu o'r bobl oedd dan ddylanwadau Wil, dyma Tomos y diacon yn cyfodi yn gyssegredig iawn ar ei draed, ac wedi gwên ragrithiol, gan bwyso ar ddrws ei gôr, dyma fe yn dechreu sebon-eiddio yn rhagrithiol a thwyllodrus, yn ol ei arfer, ac yn dywedyd ei fod ef braidd er ys llawer o ddyddiau wedi anobeithio am dipyn o fywyd ac adfywiad yn y lle, gan ei bod wedi myned mor oerllyd a marwaidd yno; ond bod Rhagluniaeth wedi gofalu yn dirion am danynt trwy anfon William Morgans yn amysgwyladwy i'w plith a'r nefoedd gydag ef, a bod yr arwyddion yn amlwg nid bod y wawr ar dori, ond ei bod gwedi tori arnynt. Ac yng ngwyneb fod y profion mor amlwg, mai rhodd iddynt hwy o'r nefoedd oedd William Morgans, mai eu dyledswydd oedd gwerthfawrogi y rhodd a'i derbyn, ac nid ei hesgeuluso a'i gwrthod.

"Beth ydych chiwi yn feddwl, John Jones, y Pant?"

Cyn i Sion y Pant gael amser i ateb, clywid Robert y Lan yn rhoddi math o besychfa chwyrnlyd yn ei gorn chwyth, nes oedd ei swm yn cyrhaedd holl gonglau y capel fel bäs isel cryf.

"Fu erioed y fath altrad arnaf fi," ebai Sion y Pant, "ag sydd wedi cael ei deimlo genyf er pan y mae Morgans wedi dyfod yn llaw'r Ysbryd i'n plith ni."

"Pa ysbryd ydych chiwi yn feddwl ddaeth â Wil yma i gadw ei reiets a'i anties?" meddai Robert y Lan. "Mi gynmeraf fi fy llw, fel Cristion didwyll, na ddaeth un ysbryd da a'r whiwgi drygionus i'n plith."

"Gormod, Robert!" ebai'r diacon. "Yr ydych yn myned yn rhy bell pan yn myned mor bell a chondemnio gwas yr Arglywydd fel yna. Gobeithio y dewch yn nes at William Morgans ym mhen amser. Beth ydych chiwi yn feddwl, a pha fodd yr ydych chiwi yn teimlo, Siencyn Williams, Troed y Foel, er pan y mae William Morgans wedi dyfod i'r ardal?"

"Teimlo," ebai Siencyn, "yr wyf yn teimlo fel y ericsyn. Nas cyffro'i, ni fuais i erioed yn well wrth fy modd, na chael cymmaint o flas gyda chrefydd. er pan yr wyf wedi joino â chrefydd yma, ag ydwyf yn gael yn bresennol. Mae Mr. Morgans yn pregethu wrth fodd fy nghalon i."

Rhoes Styfyn y Fron ryw ebychiad go effeithiol, fel y byddai yn arferol o wneuthur pan fyddai rhywbeth yn myned yn mlaen heb fod wrth ei fodd.

Aeth Tomos y diacon ym mlaen i ofyn i frodyr ereill y fradwriaeth, pa fodd yr oeddynt hwy yn ymdeimlo dan weinidogaeth Morgans, a pha beth oedd eu profiadau ysbrydol hwy yn lesaru.

Y brodyr oll, yn eu hatebion, a dystiolaethant fod pregethau Morgans wedi trin eu cyflyrau yn odiaethol. Yr oedd y gwirioneddau ag oedd Morgans wedi draddodi wedi effeithio yn rhyfedd o fawr ar un, wedi bod yn adeiladaeth fawr i'r llall, wedi bod yn gysur tu hwnt i bob peth i un arall, ac oll wedi profi bendithion ar gofn bendithion trwy bregethau Wil.

Troes Tomos y diacon yn awr at y chwiorydd; ac wedi taenu'r mēlar eu brechdanau yn rhagrithiol, trwy ganmol eu duwioldod a'u ffyddlondeb, gofynodd i Pali'r Pant pa fodd yr oedd hi yn ymglywed dan weinidogaeth William Morgans.

"Ni fuais i erioed yn ymglywed yn well," atebai Pali. "'Rwyf wrth fy modd pan fyddo Morgans yn pregethu; ni flinwn pe byddai iddo barhau i bregethu trwy'r dydd neu trwy'r nos. Mae ei bregethau yn myned at fy nghalon. Ni wnaeth dim erioed fwy o lesâd i mi er pan yr wyf yn b'longo gyda chrefydd. O, mae e'n bregethwr bach neis. Yr wyf wrth fy modd pan yn meddwl am y cwrdd yn awr."

"Arwydd dda iawn; arwydd dda anghyffredin. Mae yn dda genyf eich clywed. Pa beth sydd genych chi, Nansi Troed y Foel, i ddywedyd am eich profiad o dan bregethau William Morgans?"

"Yr wyf yr un shwt yn gwmws a Pali'r Pant," atebai Nansi. "Yr wyf yn clywed fy mynwes wedi gwresogi o dan bregethau Morgans anwyl. Mi debygwn, os nad wyf yn twyllo fy hun, y gallwn farw'n dawel dan bregethau Morgans."

"Da iawn, da iawn," ebai Tomos y diacon; a rhoes Robert y Lan ei chwyniad a Styfyn ei 'sgrêch.

"Mae'r amser yn myned heibio ac yn cael ei fwya," ebai Tomos y diacon, "ac y mae yma lawer o waith i'w wneuthur eto. Mi welaf lawer o wneubau newyddion wedi dyfod i'r seiet heno na welais i lwynt o'r blaen. Mae William Morgans wedi creu rhyw gyffro adnewyddol yn yr ardal, ac ymddengys bod y Gair wedi cwrdd â llawer yn barod, a gobeithio y gwna eto gyffwrdd â mwy trwy eneu ei was yn yr amser dyfodol."

Cytunwyd y byddai yn well siarad â'r bobl newydd, a bod Tomos y diacon i ymgymeryd at y gorchwyl. Gan y byddai yn rhyfaith i adrodd

gyda manylrwydd yr holl siarad, ni roddaf ger bron ond y enewullyn yn unig. Cododd Tomos o'i eistedd a dechreuodd holi y rhai newyddion oedd wedi dyfod i'r seiet.

"Wel, Twm bach, beth a'th duoddodd di i ddyfod yma? Beth ymaffodd yn dy gyflwr di?"

"Pregeth y *wheel*," atebai Twm.

"Wel, John, mae yn dda genyf eich gwelod chi yma. Pa beth yn neillduol ddaeth â chi yma?"

"Pregeth y *wheel*," atebai John.

"Daniel, yr wyt ti wedi bod yn fachgen go wyllt: beth ddaeth â ti yma?"

"Pregeth y *wheel*," atebai Daniel, mor iach a cheiliog rhedyn.

"Enoch, pa beth dy dynodd di yma?"

"Jini'r Llwyn ddywedodd wrthyf fi neithiwr ei bod hi yn dyfod i'r seiet heno; ac os na ddeuwn innau iddi, na chadwai hi ddim o 'nghwmni i yn rhagor."

"Hi ddywedodd yn dda iawn wrthyf, Enoch; ond a gafodd pregeth y *wheel* ddim gafael ynot?"

"Ni chlywais i mo'r bregeth," atebai Enoch. "Yr oedd 'meistr wedi fy ngyru y Sul hwnw i ymofyn am y bwtsiwr i ddyfod i brynu'r tarw dydd Mawrth."

Yr oedd meistr Enoch yn aclodd hardd yn y capel.

Fel hyn pregeth y *wheel* oedd wedi dylanwadu ar y rhyw wrywaidd, neu, fel y dywedai Wil ar ei bregeth, ar y "*masculine gender*;" ond nid felly ar y rhyw fenywaidd, neu y "*feminine gender*," ys dywedodd ef.

Wedi darfod â'r *masculine gender*, dyma Tomos y diacon yn troi at y *feminine gender*. Yr oedd yn llawn gweniaith at ferch tipyn o ffermwr—yn ei chanmol ac yn palafro iddi; ond yn myned yn slic heibio i ferched mewn gwasanaeth. Yr oedd yn ddifyrus i glywed yr atebion.

"Beth ymaffodd yn eich cyflwr chi, Mary Jones?"

"Pregeth gwraig Lot, dydd Sul."

“Beth effeithiodd arnoch chi, Anne Williams?”

“Pregeth gwraig Lot, dydd Sul.”

“Beth ddaeth â ti, Hariet, yma?”

“Pregeth gwraig Lot, dydd Sul.”

“Beth ddaeth â tithau, Anna, yma?”

“Pregeth gwraig Lot.”

Yn gyffelyb i hyn yr oedd y seict ryfeddol hon yn cael ei chario ym mlaen. Yr oedd Tomos y diacon yn myned â hi ym mlaen â llaw uchel; ac yr oedd wrth fodd ei galon, ac yn gwenu wrth weled ei hun yn myned ym mlaen mor llwyddiannus, ac mor debyg o ennill ei amcan i gael y capel i Wil. Yr oedd trwy'r seict ar ei wên, ac yr oedd y wên hon yn llawn o bob twyll; i.e., yr oedd lladd ynddi. Wedi gorphen holi dyma fe yn dechreu eu hanereh fel eglwys; ond gyda'i fod yn dechreu, dyma Robert y Lan yn codi ar ei draed yn ei gôr, ac yn dywedyd,

“Tomos, beth, a oes neb i gael siarad gair yma heno ond chi eich hun? Yr oeddwn bob amser yn eich ofni fel crefyddwr. Yr oeddwn yn ofni mai rhagrithiwr oeddych, a dyn drwg. Ond os oedd rhyw ammheuaeth yn bod am danoch o'r blaen, y mac eich ymddygiadau er ys ychydig, ac yn neillduol heno, yn profi mai dyn twyllodrus a drygionus i'r eithaf ydych. Chwi wyddoch mai wedi chwarae a chrefydd yr ydych heno. Yr ydych yn gwybod hyny. Mac eich calon a'ch cydwybod yn gwybod hyny. Yr ydych wedi crynoi y bobl ienaine hyn heno i ateb dyben drygioni eich calon eich hun, yng nghyd â chalonau rhyw nifer o rai creill cyffelyb i chi eich hun mewn drygioni. Yr ydych wedi dysgu'r bobl ienaine hyn i chwarae â chrefydd, a'i gwneuthur yn watwar! Yr wyf mewn gwth o oedran, ac ni welais y fath beth erioed o'r blaen; ac ni chlywais fod dyn ar y ddaiar, yn cymmeryd arno ei fod mewn gafael â chrefydd, a allasai fod yn euog o'r annuwioldeb ag yr ydych

chi wedi bod yn euog o hono heno. Yr ydych yn ddyn drygionus, ac wedi twyllo ereill â'ch fialsder a'ch geiriau denu i joino â chi yn eich drygioni.

“A thithau, Wil; dyn drwg wyt ti. Yr oeddyt yn fachgen o'r goreu ddwy neu dair blynedd yn ol; a phan aethost oddi yma, yr oeddyt yn burion. Ti aethost ymaith oddi yma, a thra buost *off* ti gefaist grefydd, meddi di; ond buasai yn llawer gwell i ti fod heb yr hon sydd genyt. Yr wyt yn sewlpyn eithaf drygionus, ac wedi rhoi dy hun yn dwlsyn yn nwyllaw dynion drygionus; ac nid ydyw eich busneson cydrhyngoch heno ond chwarae halogedig a chabl-eddus. Os wyt ti, Wil, allan o nodwyddau, a llawes goch i'w dal, a gwniadur, a haiarn, a sliwrt, a llinyn mesur, mi rof fi fodd i ti i'w prynu. Cerdd at dy waith priodol, Wil, yn lle lwrcan o dy i dy yn y gymmydogaeth i stwffo dy fola, ac yfed whisgi a *rum* ym mhob man lle bydd y menywod mor ffol a'u rhoddi i ti. Seren wib wyt ti, Wil; cwmwl diddwfr, twyllwr, spwnjer; ac y mac nodau y llwyth jackyddol yn amlwg arnat. Melltith gwlad ac eglwys wyt ti a hwythau; gelynion y gwirionedd a chrefydd; yr ydych yn dodwy wyau seirff a gwiberod, ac yn gwenwyno pob man a lle y gosodwch eich traed arnynt. Mac yma fradwyr i Mr. Evans; maent am ei gael oddi yma; ac y mac e'r gelyn wedi dy gynhwysu, ac wedi dy roddi di yn offeryn yn eu dwylaw, er mwyn iddynt gyrhaeddyd yr amcan hwn; ac y mac yn rhaid i mi gyfaddef fod dy bleidwyr, os oes modd, yn waeth na thi.

“Ac am danoch chwithau, y rhai y buwyd yn eich hela i ddyfod yma heno, er mwyn gosod cryfder ym mynydd y fradwriaeth, y mac yn ddrwg gan fy nghalon o'ch plegid. Yr ydych yn ddfeddwl, ac yn eich anystyriaeth wedi cymmeryd eich perswadio i ddyfod yma i wneyd

chwareu o grefydd; a pha beth ond mater o gellwair, ynyfdrwydd, a chwerthin i'r wlad fydd clywed eich bod yn tadogi eich argyhoeddiadau i ffregodau dwl ac is na phlentynaid! Wil yng nghylch *wheel* Eseciel a gwraig Lot? Gwn mai rali a *sport* yw'r fusnes hon genych o'r bou i'r blaen, ac ni all fod yn ddim arall. Ond yr wyf yn ceisio yn garedig genych i anghofio'r cynnyg drygionus ac annuwiol sydd wedi ei wneuthur i ddinystrio eich eneidiau, trwy eich gwneyd yn offerynnau yn llaw Satan a'i weision i gyrhaedd amcanion dynion drygionus. Peidiwch byth â gwneuthur hyn eto, a pheidiwch â meddwl bod dim crefydd yn ein plith ni yn bresennol. Yr ydych yn gweled beth y mae dynion humanol yn wneuthur—yn mynu pob peth yn eu ffyrdd eu hunain, ac wedi dinystrio braidd pob olion crefydd o'n plith. Ewch adref a meddyliwch mai rhywbeth nag sy yma ar hyn o bryd, ac na welsoch yma heno, yw crefydd. Er mai Ymneilldŵr ydwyf fi o'm mebyd, eto, o blegid bod Ymneillduaeth wedi ymlygru i'r fath raddau, yr wyf yn benderfynol i ymadael â hi. Y mae rhyw bethau yn yr Eglwys Sefydledig nad wyf fi yn eu hoffi; ond y mae yr athrawiaeth sydd yn ol duwioledd yno, ac nid oes yno ddim cyfleusderau i ddynton humanol a Jacks i chwareu eu pranes a'r cyn-

nulleidfaoedd, ac i greu terfysgoedd o'r fath ag sydd yn awr trwy Ymneillduaeth. Ac yr wyf yn dywedyd wrthywch chwi, y terfysgwyr a'r bradwyr, eich bod wedi camsynied: ni welwch chwi byth mo Wil yn y capel hwn. Cerddwch tuag adref i gyd ac ystyriwch yn ddifrifol beth sy genych mewn llaw."

"Yr wyf yn peri i chwi fyned allan o'r capel," ebai Tomos y diacon yn awdurdodol wrth Robert.

"O, y scrwbyn," ebai Pali'r Pant.

"Yr hen Scalbrat," ebai Nansi Troed y Foel.

"Ymatted rhywun yn ei ysgwydd, yr hen fwnci gwellt, a thafled ef dros y trothwy," ebai Sion y Pant.

"Ie, ar gorn ei wddf," ebai Siencyn Troed y Foel.

"Mi leicswn weled rhai o honoch yn cwrdd â Robert y Lan," gwaedai Dai Luke, y gof: "fe gai *salute* gan fy nwrn i tua bou ei glust o'r cyfryw natur, fel na fyddai fawr flas ganddo i feddwl derbyn y Hall."

"Cliria'r capel, Dai," ebai Robert: "dyma ni yn myned allan."

"Arosweh, arosweh, rhag cywilydd i ni gyd," meddai gwr y Llwyn, "nes i rywun orphen y cwrdd trwy weddi."

"Grogî weddi yn ychwaneg yma heno," ddywedai Dai Luke: "*clear, clear the chapel*, ac onid e, — dyma chwi yn ei chael hi."

X.

GALLESID meddwl y buasai ymadroddion Robert y Lan, ar derfyn y seiet ryfedd a gadwyd yn y capel, yn peri rhyw gymmaint o attalfa ar gymniweirfa cerbyd terfysg crefyddol: ond yn lle hyny, ymffyrnigo wnaeth y blaidd fwyfwy. Nid ydwy ffyrnig-rwydd y natur ddydol yn eael eithaf cyfleusdra i ddangos ei hun yn ei wir anianawd gythrenlig nes byddo ffanaticiaeth grefyddol, fel *volcano* mawr, yn agor ei safn anferth i

chwythu allan fwg a than, megys yr ydym yn ei weled yn fynych yn holl arswydau ei gynddaredd yn tori allan yn y gwersylloedd sectyddol. Yr oedd y mynydd taulltyd yn ardal Wil erbyn hyn yn rhuo yn gryfach gryfach yn ei goluddion, yn chwyruu gyda mwy o roch yn ei wddf, a'i agweddau yn myned yn fwy bygythiol ar ei gopa a'i lechweddi o ddydd i ddydd, a hyny er mwyn i "Ymneillduaeth ymburo," ys dywedodd

un o'i doctoriaid ryw flynyddoedd yn ol.

Dydd Iau, dydd Gwener, a dydd Sadwrn oeddynt ddiwrnodau gwylltion iawn gan blaid y Parchedig Wil; canys yr oeddynt â'u holl egnion yn ymosod yn bybyr at y gwaith o'i osod yng nghadair weinidogaethol y capel yn lle yr Evans; ac yr oedd y Sul nesaf eto yn eu dwylaw, i osod eu cynlluniau a'u mesurau ar waith er mwyn cyrhaeddyd eu hamcanion. Yr oeddynt, yn frodyr a chworydd, yn gwanafu yma ac acw ar hyd yr ardal, yn llafur, yn lludded, ac yn chwys mawr, yn hau eu ffalsder, eu henllib, a'u celwydd ym mhob man ac wrth bawb, ac yn troi'r 'sgryw i wasgu yn ddirugaredd ar bawb y gallent wneuthur hyny. Yr oedd rhai yn gwaeddi am gael pleidleisio wrth y balot; ond gwrthwynebydd hyny yn ffyrnig gan flaenoriaid y fradwriaeth, am ei fod yn annheilwng o grefydd ac o Sectyddiaeth.

Yr oedd Wil y diwrnodau hyn allan bob dydd yn hilwm babwnaidd ar hyd yr ardal o dy i dy, a'r olwg fwyaf lwrcaidd arno a welwyd ar unrhyw Jack erioed, o Jack Micah, ar Fynydd Ephraim, hyd y Jack fu yn cyssegru *lock-up* Aberystwyth am ledrata hosanau yng nghorff y flwyddyn ddiweddaf. Yr oedd yn ostyngedig iawn ar hyd y tai, yn edrych fel pe buasai dan wasgfaon trymion, a'i deimladau yn ddrylliedig iawn; ac yn uchel ei gwynion o blegid yr erlidigaeth yr oedd efe yn bersonol oddi tani, am sefyll o blaid egwyddorion Ymneillduacth. Efe a achwynai yn fawr o blegid yr iselder ysbryd oedd yn ei gymmeryd yn fynych, ond ei fod ar y cwbl yn ystyried ei hun yn llaw yr Arglwydd, ac yn foddolawn cymmeryd ei arwain ganddo Ef, gan nad faint a ddyoddefai yn yr achos; ac mai dyma oedd ei gysur. Nad ydoedd wedi meddwl wrth ddechren ei daith grefyddol bod y fath beiriau yn ei aros; "Ond ar yr un pryd," meddai

Wil, "yr wyf yr un brofiad a Iob, a gallaf ddywedyd yr un fath ag yntau, mai wedi fy mhrofi mi, a ddeuaf allan fel aur." Yr oedd y ——— mor haerllug a dywedyd hyn, ac wrth ddywedyd hyn yn cymmeryd arno i snwffian llefain; a phan ddechreuai snwffian llefain, yr oedd y benywod yn rhedeg i'r cwppwrdd cornel i ymofyn dyferyn iddo yn ei big!

Yr oedd y bradwyr, gallesid meddwl, mewn gofid mawr o blegid y cynhwrf oedd Mr. Evans a'i blaid wedi ac yn ei wneuthur, a chwyrent yn anghyffredin o blegid bod y fath beth wedi cymmeryd lle! Y fath ydyw haerllugrwydd erioed, canys ar creill y mae y bai am yr llyn a wneir ganddynt hwy.

Daeth Mr. Evans adref o fod yn claddu ei frawd yng ngwlad y Gogledd, a chafodd wybod yr holl helyntion gan ei wraig.

Boren dydd Sul a ddaeth; a phan ddechreuodd y bobl ddyfod yng nghyd erbyn yr oedfa ddeg, yn lle bod yn agored fel arfer, yr oedd llidiard y fynwent a drws y capel yng nghlo. Deuai y bobl yno fel arferol: daeth Mr. Evans yno, Robert y Lan, Tomos y diacon, Sion a Pali'r Pant, Siencyn a Nansi Troed y Foel, yng nghyd â'r holl gynulleidfa, a phawb yn sefyll yn dyrau ar yr heol â'u penau yn agored, ac yn siarad gymmaint ag a allent.

"Pa beth ydyw y mater?" ebai Robert y Lan. "Pa ham y mae llidiard y fynwent yng nghlo?"

"Mae Mari'r widw yn dywedyd bod rhywun wedi dwyn yr allweddi o'r ty neithiwr."

"Galwch ar y widw yma ataf fi," ebai Robert, "i mi gael newid rhywfaint o eiriau â hi."

Ffwrdd â rhyw fachgen nerth ei garnau tua thy'r widw, ac yn ol ag ef â'i anadl yn ei wddf, ac yn gwaeddi ar Robert fod y widw yn pallu dyfod.

"O dyna fel y mae yn bod, aie?" ebai Robert. "A ydyw Twm y diacon, ewythr y pregethwr newydd

Wil, yma, mi a chwennychwn wybod?"

"Ydyw," gwaeddai rhywun yng nghanol y dorf, "y mae efe yma; ac y mae braidd yn fwy gweflog, gwengar, a rhagrithiol nag y gwelsoch ef erioed."

"Mi chwennychwn gael gwybod genyt ti, Twm," ebai Robert, "ym mae le y mae allwedd y lliardiard, ac allwedd y capel? canys nid wyt ti, cyflawn o bob anwiredd, heb fod â'th fys yn y fusnes hon."

"Nid ydynt genyf fi, Robert," atebai Tomos y diacon; "a chan mai fel hyn y mae, yr wyf yn cynghori pawb i fyned adref yn dawel, i beidio tynnu gwarth ar yr achos."

"Mae yr achos yn gwasgu llawer ar dy foddwl di, Twm," ebai Robert: "os nad yw yr allwedd yn dyfod i glawr, mi fynaf fi ffordd rydd i'r capel."

"Gwell i chwi ymswyn, Robert," ebai Tomos, "amgen chwi gewch glywed, os na chewch ddyoddef hefyd, am eich gwaith."

"Fy musnes i yw hyny, Twm, ac nid dy fusnes di. A ydwyf ti yma, Dai Luke y gof?"

"Ydwyf, Robert," ebai Dai Luke.

"Y mae braich go dda yn arfer bod genyt ti, Dai; a gad i ni gael dy weled yn actio fel *pioneer*, i wneuthur ffordd rydd i ni fyned i'r capel; a chofia fy mod i yn sefyll wrth dy gefn."

"Y mae hanner eich gair yn ddigon, Robert," ebai Dai; a thyma ef yn ei brasgamu tua'r efail oedd yn ymyl cyn gynted ag y gallai.

Yr oedd erbyn hyn wedi myned yn gyffro mawr ym mhllith y bobl; a thyma Tomos y diacon, Sion y Pant, a Siencyn Troed y Foel yn dyfod ym mlaen ac yn gosod eu cefnau ar y lliardiard, fel na chelai neb ar ei berygl gyffwrdd ag ef.

"Dyma Dai Luke yn dyfod â'i ordd," ebai tua dwsin; a gwir y llwedd, dyma ef yn dyfod â hi; ac wedi cyrhaeddyd y lle, dyma ef yn

gwaeddi allan, "Pa beth yn nesaf, Robert?"

"Dim byd ond i actio yn ol dy ddoethineb, i agor y ffordd i ni fyned i'r capel," atebai Robert.

"Edrych ti beth yr wyt yn myned i'w wneuthur," ddywedai Tomos y diacon; "o blegid ni chyffrwn ni o'r fan hon."

"Ni gawn weled pa un a gyffwrch ai peidio," meddai Dai; a chyda hyny dyma'r ordd i fyny, ac erbyn ei bod i fyny dyma Tomos, Sion, a Siencyn yn cilio draw, a thyma'r ergyd yn disgyn nes oedd y lliardiard led y pen, a thyma floedd weddol gref allan, yn gwaeddi, "*Well done*, Dai Luke; hwrâ."

"Dewch ym mlaen, Robert," gwaeddai Dai; ac ym mlaen â Robert; ac wedi cyrhaeddyd drws y capel,

"Dai," ebai ef, "gad weled nertholdeb gwynau dy fraich unwaith eto."

Gyda bod yr ordd i fyny, a chyda bod Dai yn gwaeddi, "*Present, fire*," dyma'r drws drachefn led y pen, ac aeth Robert a Mr. Evans i mewn, a'r bobl ar eu hol, ac aed ym mlaen â'r gwasanaeth yn y capel.

Ni ddaeth Wil na'i blaid i'r capel; ac wedi i'r prif fradwyr ymgynghori ychydig â'u gilydd ar y fynwent, dyma Tomos y diacon yn darllen pennod; ac wedi canu a gwe—, nag e, nag e, wedi rhagrithio yn gableddu o flaen ei Greawdwr, a dywedyd celwyddau yn ei glyw, dyma fe yn galw ar Wil i bregethu. Wedi i Wil droi ei gynffon am ychydig yn ol ac ym mlaen ar hyd y fan, i ba le yr ydych chwi yn meddwl yr arweiniodd yr ysbryd drwg ef i gael pulprud, ond ar gareg bedd ei dad! Yr oedd Wil, pan ar ei draed ar dŵm ei dad, y peth tebygaf ag a welsoch erioed i fopstick, yn bolyu hirfain penfflwb, neu i gropyn eithin ar ben llathen bietingwr. Edrychai Wil yn *expressive* anghyffredin; ac wedi clustfeinio ar y bobl yn y capel am

ychedig, dyma fe yn rhoi y pennill canlynol allan:—

“Ceir gwel'd Amalec ar y llawr,
Haleliwia,
Yn chwareu i' faglau, er mor fawr,
Haleliwia;
Caiff ei lorio, caiff cyn hir,
Haleliwia;
Israel ddaw i ennill tir,
Haleliwia.”

Yr oedd Tomos y diacon, Sion y Pant, a Siencyn Troed y Foeil yn hwylus iawn yn canu'r pennill yna, ac yn beichad mor aflafar a phe buasai asynod Pencarneiddi, yn sir Fon, wedi dyfod yng nghyd i gadw sol yn y lle. Yr oedd Pali a Nansi hefyd dan wlith yr hymn i raddau mawr iawn, ac yn ysgrechain megys pe buasant ar drancedigaeth yn amddiffyn achos Wil.

Mae yn drueni dyfod â'r gair i mewn i'r fath gabledd annuwiol oedd yn myned ym mlaen yn y man a'r lle: y dynion yn sathru ar feddau y meirwon i gynnal eu ffair, a Wil fel ffwl y ffair yn actio ei brancs a'i gwafers ar dŵm ei dad! Mae hyn yn ffaith, a pheidied neb ag ammhau y ffaith hon! Testyn Wil oedd, “Eithr o diflasodd yr halen, â pha beth yr helltir ef?” Yr oedd Wil erbyn y Sul hwn, i ryw amcanion cyssegredig, wedi newid sain y llythyren s i sain y llythyren z; ac yn lle darllen “o diflasodd yr halen,” dywedai, “o diflazodd yr halen.” Dywedai cyzur yn lle cysur, canyz yn lle canys, oz yn lle os, ffigeizbren yn lle ffigysbren; ac ymddangosai yn ofalus iawn iawn i roddi y sain hon i'r hen lythyren, druan, ag oedd Wil am gigyddio allan o'r egwyddor.

Wedi darllen ei destyn, dywedodd ei bod yn galed iawn arno, a bod ei *feelings* wedi cael eu woundo yn rhyfedd wrth weled y fath annuwioldeb yn cael ei gario ym mlaen ar y Sabbath; a bod hyn yn rhoddi y fath achos i elynion i gablu crefydd; ond nad oedd ganddynt hwy ddim i'w wneuthur ond suffro pob ammharch ac erlid yn amyneddgar,

a phlygu ger bron yr Arglwydd, a waito am ei wenau a'i fendith Ef. Gallesid meddwl wrth glywed Wil yn siarad, ei fod ef a'i blaid yn lân iawn; ac yr oedd ei ewythr Tomos â'i “wel, wel,” yn dyferu yn aml aml o'i weflau, ac megys yn selio yr hyn oedd Wil yn ddywedyd, er y gwyddai o'r goreu mai celwyddau a ddywedai bob gair.

“Yr wyf yn cwmpo yn awr at fy nhext,” ebai Wil. “Ni rof fi ddim am bregethwyrz oz na chadwant at eu *text*. Mi gwmpaf yn awr ar fy nhext, a gweddiwch chwithau, frodyr a chwiorydd, drozof. Halen, halen. Oz diflazodd yr halen: oz aeth yr halen yn ddiflaz, â pha beth yr helltir ef? Mae pwnc fy nhext yn bwnc mawr iawn; ydyw, y mae yn bwnc trwm iawn; ac y mae yn bwnc expansive ryfeddol. Dewch chwi â'ch cyflyrau at yr halen, ac mi ddof finnau â'r halen i gwrdd â'ch cyflyrau. Halen yw pwnc y *text*, ac y mae yn bwnc mawr, yn bwnc uchel, ac mae yn bwnc ag zydd yn galw am fanylwch mawr. Yr wyf yn gyntaf yn gozod ger eich bron halen naturiol a halen yzbrydol. Mae dau fath o halen: oez, oez, mae dau fath o halen—halen naturiol a halen yzbrydol. Gwnewch chwi gofio hyn. Nid yr un peth yw'r halen naturiol a'r halen yzbrydol; nag e'n ziwr; ond maent yn wahanol iawn i'w gilydd. O'r ddaiair y mae yr halen naturiol yn dyfod; ond y mae yr halen yzbrydol yn dyfod o'r nefoedd; mae'n dyfod o *above*. Mae yn rhaid piwrifffio llawer ar yr halen tymmorol; ond ni wn i ddim zwt y mae yr halen yn cael ei biwrifffio, ond mi wn gymmaint a hyn, a gwnewch chwi zylwi, nid oez dim eizieu piwrifffio yr halen zy'n dyfod o *above*; canyz y mae wedi cael ei biwrifffio yn barod.”

Wedi myned dros y pen hwn, dyma Wil yn ymaflyd yn yr ail ben, ac yn dywedyd, “Yn ail, dyma fi yn dyfod at yr ail ben ar bwyz fy nhext; zef, diflazdod yr halen. O diflazodd yr halen: 'doez dim blaz

ar lawer o bethau heb halen. Cawl heb halen zydd yn ddifflaz iawn, a'r un modd y mae llawer o bethau creill. Mae'r halen naturiol yn difflazu; ac wedi i'r halen ddifflazu, nid oez dim modd halltu. Yr halen yzbrydol zydd yn halltu pechadur. A ydyw'r fuwch yn cael ei halltu yn y cae? Na, y mae'n rhaid ei lladd yn gyntaf. A ydyw'r fuwch yn cael ei halltu wedi iddi gael ei chnoco yn ei phen a'i lladd? Na, mae'n rhaid ei blingo. A ydyw'r fuwch yn cael ei halltu wedi iddi gael ei blingo? Nac ydyw; y mae'n rhaid iddi gael ei hagog, a thynu ei pherfedd allan. A ydyw'r fuwch yn cael ei halltu wedi iddi gael ei hagog a thynu ei pherfedd allan? Nac ydyw; canyz y mae'n rhaid ei thori'n bizinau, a dryllio'r ezyrn. Zylwech, dyma bwne mawr y tezdyn: cyn halltu'n iawn mae yn rhaid dryllio'r ezyrn. Mae'n rhaid i bechadur gael ei gnoco fel â bwyall yng nghniwllyn ei dalcyn, a'i ladd: mae yn rhaid ei flingo; mae yn rhaid ei agor, ac megыз i dynu ei berfedd allan; ac y mae yn rhaid ei dori megыз yn bizinau, a dryllio ei ezyrn, cyn ei halltu â'r halen nefol. Yn ddryllio'r ezyrn yr elo hi ar y fynwent yma yn awr, a phechaduriaid gaffo eu haclub."

Aeth yn floedd anghyffredin ym mhilith gwrandawyr Wil ar y fynwent pan oedd yn manylu ar ddryllio yr ezyrn; ac yr oedd y prif fradwyr yn gwenu yn anghyffredin pan oedd yn son am y fwyall ysbrydol oedd yn taro'r pechadur yn ei dalcen, ac am y gyllell ysbrydol oedd yn ei flingo ac yn ei agor, ac am y cleifer ysbrydol oedd yn ei gwartero, ac am yr ordd ysbrydol yn dryllio ei ezyrn. Cydrhwng lleisiau'r bobl ac ysgrechföydd asynaidd Wil yn gwaeddi am iddi fyned "yn ddryllio'r ezyrn ac yn halltu yzbrydol" yn y man a'r lle, gallesid penderfynu bod ewn annwn wedi tori allan o'r cynllwst. Yr oedd pob ymdrech-iadau yn cael eu gwneuthur gan Wil

a'i gwsmeriaid i gyfodi'r gwynt ac i wneuthur hwyl; ond oernad ddifflaz oedd, ac yn darfod twp dan eu dwylaw.

Terfynodd oedfa Wil ychydig fyndau cyn oedfa'r capel; a phan ddaeth plaid Mr. Evans allan o'r capel, yr oedd pobl "dryllio yr ezyrn a'r halltu" wedi ymadael, ond Guto'r cynydd. A phan welodd Robert y Lan Guto yn sefyllan yn y fynwent, efe a ddywedodd rywbeth yn ddystaw yng nghlust Dai Luke, ac aeth Dai yn ei ol, ac eisteddodd yn yr ystôl dan y pulpud. Ym mhen ychydig dyma Guto yn dyfod i mewn, ac yn cistedd yn y sêd fawr, yr ochr arall i'r bwrdd, gyferbyn â Dai Luke.

"Mi wn dy neges di yma," ebai Dai wrth Guto.

"A minnau a wn dy neges dithau yma," ebai Guto wrth Dai; ac aeth y ddau i siarad yn ddigon diddyg â'u gilydd yng nghylch y peth hwn a'r peth arall.

Ym mhen ennyd dyma Malen, gwraig Dai, yn dyfod â'i ginio iddo, gan chwertthin; ac ar ei sodlau dyma Siani, morwyn y Pant, yn dyfod â chinio i Guto, ac yn edrych yn lled ffyrnig.

"Wel," ebai Siani, "yr wyf yn deall ei bod yn amser gwllithog arnoch tua'r capel yma. Yr oeddym yn clywed ysgrechföydd, ac ubain, a beichadau mwlsynaidd Wil o'r Eglwys! Y mae crefydd yn uchel ac yn barchus genych ar hyn o bryd! Fe ddeallodd y ficer, pan oedd yn pregothu, ei bod wedi tori allan yn rebeldod yn eich plith; ac ar ddiwedd ei brêgeth, cynghorodd ni yn ddwys i beidio â chymmydd rhan mewn un modd yn eich rhyfel gydag un blaid mwy na'r llall, ond bod i ni rodio mewn prydfertthwch sancteiddrwydd yng nghanol eich 'stŵr. Ond ar yr un pryd yr oedd pawb yn dywedyd ar y fynwent mai Wil a'i blaid sydd wedi gwneyd yr holl 'stŵr; ond ar yr un pryd, dywedant na all Sectyddiaeth fyw heb derfysg-

oedd cyffelyb i'ch terfysg chwi. Ac atolwg, Guto, beth yw dy fusnes di i fod yn y capel yn awr, a minnau, yn lle myned i'r ysgol yn yr ysgoldy, yn gorfod dyfod yma â chinio i dy hen fola?"

"Y mae meist'r arnaf fi, Siani fach, ac y mae yn rhaid i mi ufuddhau iddo. Yr wyf fi yma i gadw posesiwn yn erbyn Dai Luke; ond 'does dim eisieu i ni ffræo â'n gilydd."

Yn yr hwyr am chwech o'r gloch, dyma'r ddwy blaid yn cyfarfod â'u gilydd yn y capel. Yr oedd Mr. Evans wedi aros gartref, ond yr oedd Wil yno yn blaenori ei blaid. Aeth Wil, Tomos y diacon, Sion y Pant, a Siencyn Troed y Foel i'r sê't fawr dan y pulpud; ac yr oedd bageidach o *supporters* Mr. Evans wrth droed grisian'r pulpud.

Ebai Tomos y diacon ym mhen tipyn, "Mae'n llawn bryd i ddechreu: ewch i'r pulpud, William Morgans."

Dyma Wil yn symmud ei berson yn gyssegredig tua throed y grisiau; ond cyn iddo roddi ei droed ar y grisyn isaf, dyma un yn gofyn iddo, "I ba le yr wyt ti yn meddwl dy fod yn myned, Wil? Cerdd di i'r fynwent i ddamsang tŷm dy dad heno eto; canys ni chei di fyned i'r pulpud." Erbyn hyn dyma hi yn *struggle*, ac yn *struggle* fawr; gwthio ym mlaen, tynu yn ol, rhwygo dillad eu gilydd, ac ambell ergyd, a'r ystŵr a'r bloeddio mwyaf trwy'r capel; i fyny aeth Wil rywfodd neu gilydd i'r pulpud.

Yr oedd Dai Luke allan ac heb ddyfod i mewn pan oedd y cythrwff hwn ar gerdded; a phan ddaeth i mewn, y peth cyntaf a welai oedd Wil yn y pulpud.

"Dyna lle yr wyt ti, Wil, aie? A oes un lle yn ddigon da i ti ond y pulpud ai nag oes? Mi dy waka' i di oddi yna yn lled fuan."

"Yr wyf fi yma yn enw a than brotecsiwn y Frenines," ebai Wil, "a gwae i'r neb a gyffyrddo â mi."

"Aros di dipyn," ebai Dai; "mi wn i dan brotecsiwn pwy wyt ti yna;" a chyda hyny dyma fe ar ris uchaf y pulpud, a'i grafanc yn sier ym marf cern Wil, ac yn ei lusgo allan o'r pulpud, gan ddywedyd yn Seisoneg wrtho, "Please to walk down this way, Reverend William Morgans, minister of the Gosbel."

Ac wedi i Dai Luke ei lusgo i'r llawr, efe a aeth i *reconnoitro* o'r tu ol iddo; a chan i'r cyfleusdra ymgynnyg iddo, aeth y brofedigaeth yn drech na Dai, ac efe a roes y fath *salute* â blaen ei droed ddeheu i *ablative case* Wil nes yr oedd whiw draw ym mhen arall y capel, fel nad oedd ond braidd ei lun yn myned.

Yr oedd yn eithaf *topsy-turvy* erbyn hyn; ac yng nghanol yr ystŵr a'r terfysg mwyaf, dyma Tomos y diacon yn dyrchafu ei lais, ac wedi dywedyd ei "O wel, wel" arferol, yn gwaeddi, "Ni gadwn gwrdd gweddi yma."

"Dim o dy gwrdd gweddi di yma heno," ebai pump neu chwech gyda'u gilydd.

Ond wedi cryn wthio eu gilydd, dyma Tomos y diacon a'i blaid yn myned i oriel y capel, ac yn dechreu cadw cwrdd gweddi; a thyma'r blaid arall ar y llawr yn cadw sol, ac yn ei chanu yn benbres yno—y cownter, y tenor, y bâs, a chymmaint oll ag a wyddent am *notes y gamut*. Hwyl fawr ar gwrdd gweddi y *gallery*; hwyl fawr ar y sol ar lawr; a Sect-yddiaeth yn ymburo, a than addurniadau penaf ei hordors!

"Mae arnaf fi ofn i'r farn ddisgyn arnom," ebai rhyw hen wraig â llais dolefus; "ac os caf fi gymhorth i fyned allan, nid yw yn debygol y gwel neb fi yma eto. Hawyr bach! hawyr bach!"

Aeth amryw o'r hen wŷr a'r hen wragedd allan ar ei hol, a'r dagrau gloewon yn rhedeg dros eu gruddiau.

Gorphenodd y cythrwff mawr o'r diwedd, wedi iddynt ffino cynnal eu hachos neu yn hytrach eu hachosion.

ac aethant i'w ffyrdd, ond Dai Luke a Guto'r cynydd, y rhai a arosasant yn y capel, er mwyn cadw posesiwn i'r gwahanol bleidiau. Dyna lle y bu y ddau am oriau, nid yn ffræo â'u gilydd, ond yn adrodd hen ystorïau i ddyddanu y naill y llall. Rhyw awr neu ddwy wedi hanner nos, cododd eisieu ar Guto i fyned allan, ac mor gynted ag yr aeth

allan, dyma Dai at y drws ac a'i bariodd yn erbyn Guto. Dyma Guto yn curo ac yn galw ar Dai i agor y drws; ond wele leferydd Dai yn ateb, "No, no, Mr. Griffith; no admittance into these premises without the permission of the proprietors. Cerdda adref i dy wely, Guto, a gwna dy hun mor gysurus ag y gelli yno."

XI.

MAE haerllugrwydd sectyddol yn fawr iawn, ac ym mhllith y niferi lluosog o brofion sydd yn profi hyny y mae un yn dra eglur, sef bod hanes Wil Brydydd y Coed yn cael ei wadu gan lawer o Sectwyr. Ond y gwirionedd ydyw, bod chwareu a chwareuon Wil wedi cael eu hactio drosodd a throsodd laweroedd o weithiau yn y capeli sectyddol. Yng nghorff y flwyddyn ddiweddar, aeth allwedd lliardiard mynwent capel yr Independenciaid yn Glandwr yn eisieu, a hyny trwy ystrywiau plaid ag oedd wedi cyfodi yn erbyn un o weinidogion parchusaf y corff yng Nghymru. Yn y cythrwfl mawr fu yng nghapel yr Independenciaid yn Llanedi, er ys yng nghylch chwe mlynedd ar hugain yn ol, mwy neu lai, bu y Parch. David Rees, Capel Als, Llanelli, yn pregethu yn y capel, a'r Parch. John Joseph, Llangennech, yn pregethu ar yr un pryd ar gareg fedd ei dad yn y fynwent. Ac am rwygiadau, cynhyrifiadau, terfysgoedd, ac ymladdau crefyddol, *policemen*, cyrddau dwbl, &c., yr un pryd yn y capeli, y maent i'w cael ym mron mor lluosog a mwyar duon yn yr hydref. Mae wedi bod yn fater ustusiaid yn ddiweddar yn Rhaiadr Gwy, o blegid terfysg fu yng nghapel yr Independenciaid, lle yr oedd rhyw ddyn a benyw dan ddiarddeliad, wedi aros yn ol yn y cwrdd cymmunedeb; a chan iddynt wrthod myned allan, dygodd y gweinidog *summons* ar y

dyn am *disturbance*, ac a'i llusgodd i'r *Petty!* Dyma fel y mae yn myned ym mlaen wrth liw dydd; ond y cyfryw ydyw haerllugrwydd sectyddol, fel y gwedir pob peth; ac nid yw yn gymmaint rhyfeddod bod hanes Wil yn cael ei wadu, er ei fod yn seiliedig ar ffeithiau.

Wel, wrth fyned adref o'r chwareuon halogedig fu yn cael eu hactio yn y capel ar hwyr y Sul dan sylw, yr oedd y ddwy blaid yn ymferwi yn y teimladau mwyaf ofnadwy at eu gilydd; ond plaid Wil oedd yn gwreichioni ac yn chwydu fwyaf o losgwy allan. Yr oedd y benywod, yn neillduol Pali'r Pant a Nansi Troed y Foel, yn gwichian allan, "Yr hen scrws, y sprats, yr hen gŵn," a phlethau cyffelyb, mewn rhyw leisiau elyllaidd yn eu gyddfau, ac ym mhob ystyr yn gyffelyb i gathod yn ymladd yn eu ffynigrwydd mwyaf.

"Ymaflyd yn locsen Morgans, druan, a'i lusgo o'r pulpud, tra gwelai yr holl ddynion. Yr oeddwn yn clywed fy hun yn ysu bob tipyn, fel pe buasai rhywbeth yn fy ngherdded. Mi dynsw'n berfedd y filain Dai Luke allan pe buaswn ddim ond gallu," meddai Pali'r Pant.

"Ie," meddai Nansi Troed y Foel, "a rhoi cic yn — fach y dyn gwirion, nes yr oedd yn saethu fel llycheden i'r pen draw. Pe bai ddim ond hyny, mi grogwn Dai Luke â'm dwylaw fy hun, ac mi ganwn

yn iach fy ngwala wrth ei weled yn dawnsio yn yr awyr."

"Mae mor ffited crogi yr hen Robert y Lan a Dai Luke," meddai Pali'r Pant: "yr hen whiwgi melyn; canys ni fuasai neb yn gallu sefyll diu o'n blaen ni, oni buasai hen 'sgerbw'd y Lan."

"Byddai yn beth o'r goreu i chwi, Pali, i adael eich gwell yn llonydd," ebai Dic, gwas y Bryn.

"Fe fuasai yn well i tithau adael Sal y Dderwen yn llonydd: mae magu dy fastardd yn ddigon i ti."

"Mae magu bastardd," ebai Dic, "yn llawn mor anrhydeddus a meddwi mewn neithior, a chwydu am draws y tecil a thraed y dynion ar yr aelwyd."

"Taw son, rhag cywilydd i ti, Dic, â dy gelwydd," ebai Nansi Troed y Foel.

"Ym mhoced pwy y cafwyd y napeyn sidan symmudliw yn y Siop Fawr, Nansi? pa un ai yn eich poced chwi neu yn fy mhoced i, Nansi? A ellwch chwi ateb y cwestiwn yna?"

Ar hyn dyma Twm, nai Nansi, yn dyfod yn mlaen fel blaidd wedi ffyrnigo, ac yn dywedyd, "Dic, os nad wyt ti yn dal dy dafod, a'i ddal yn fuan, mi rof fi fy nwrn yn dopyn yn dy geg."

"Mi fyddai yn dda genyf dy weled yn treio," ebai Dic; a chyda bod yr ymadrodd o'i geg, dyma nai Nansi yn ei gyfarch a'i ddwrn; ac mor gynted ag y gallodd, dyma Dic yn ei gyfarch yn ol; ac yn ymladd yr aeth, a Pali a Nansi yn gwaeddi ac yn ielpan "iwbwb," ac ar yr un pryd yn gwallto Dic, ac yn ei grafu, ac yn ei gicio yn ddirugaredd; ond daeth ffyrndiau Dic yn mlaen i'w achub; ac yn y ffrwgwd, rhwygwyd dillad y ddwy santes mor ofnadwy fel braidd y gallent eu cadw yng nghyd i gyrrhaeddyd cartref.

Yr oedd Tomos y diacon, Sion y Pant, a Siencyn Troed y Foel wedi myned gyda Wil i dy ei fam

i gadw seiet ar y pwnc o fod Wil wedi cael ei *assaulto*, ac i ymgynghori yng nghylch myned â Dai Luke o flaen ei well, naill ai i gael ei grogi, neu ei dransportio, neu roddi pedair neu bum mlynedd o garchar iddo. Dywedent nad ydoedd yn un rheswm yn y byd i grefydd gael ei sathru fel yr oedd; a phan yr oeddynt hwy â'u bryd ar godi yr achos goreu, bod rhai ereill yn ei dynu i lawr hyd ag yr oedd modd iddynt. Nad oedd pethau fel hyn i'w dyoddef; llusgo pregethwr o'r pulpud, ac wedi ei gael i lawr, rhoddi eic iddo nes oedd yn y pen arall i'r capel. Bod dyledsdydd orphwysedig arnynt hwy i amddiffyn yr achos, ac yr ymddygent yn anffyddlawn at grefydd os na wnaent hyny; a bod yn rhaid iddynt hwy fyned boreu tranooth i dynu *summons* ar Dai Luke, o blegid nad oedd yn beth gweddus i adael William Morgans fyned i'w hymofyn ei hunan: ac felly y cytunasant i ddyfod heibio i Wil, er mwyn myned at yr ustus.

Yr oedd y cawl yn berwi yn anwyl dranoeth, a'r arwyddion braidd yn erbyn Wil a'i blaid, canys yr oedd yr holl ardal yn gweled b'le yr oedd y cynhwrf wedi dechreu; ond yr oedd y rhai ag oeddynt yn gwbl dan ddylanwad ellyll Sectyddiaeth yn ffyrnigo fwyfwy, ac yn llawn cynddaredd ac ysbryd dial ar yr Evans a'i bobl, er y gwyddent mai hwynt-hwy eu hunain oedd wedi dechreu'r fusnes ac yn ei chynnal yn y blaen.

Boreu dydd Llun gwelid Wil, Tomos y diacon, Sion y Pant, a Siencyn Troed y Foel yn myned tua thy yr ustus, a'u gwedd mor ddialgar a phe buasai pedwar o ddiaboloniaid wedi eu gollwng yn rhydd i dywallt eu lliid ar feibion a merched y ddaiar.

Yr oedd Dai Luke erbyn hyn yn dechreu ofni ei fod wedi cario'r fusnes dipyn ym mhell; ond gwyddai fod Robert y Lan yn gefn ganddo, ac mai cefn da oedd ef.

Prydnawn dydd Llun daeth Robert i'r efail, ac wedi myned â Dai i'r ty, dywedodd wrth ei wraig ac yntau, "Wel, Dai, yr wyt yn sicr o gael *summons*; ond peidiwch â hidio dim yn y byd am dani, canys ni allant wneuthur dim i ti. Yr ydwyf fi rhyngot ti a phob taro yn y mater hwn. Mae hyna yn ddigon i chwi eich dau yn bresennol: ond cofia di, Dai, ddyfod i'r Lan pan wasan-aethir di â'r *summons*."

Cafodd Wil y *summons* ar Dai Luke, a dydd Mawrth dyma *bolice-man* yn ei wasanacthu â hi; ac yn yr hwyr, wedi gadael ei waith, dyma Dai, druan, yn ei ofid yn myned â'i anadl yn ei wddf tua'r Lan, ac erbyn ei fod dros y trothwy, dyma fe yn gwaeddi braidd nerth ei geg, "Robert, yr wyf wedi cael y *summons*."

"Pa bryd y mae yn dy ordro yn mlaen, Dai?" gofynai Robert.

"Dydd Sadwrn nesaf, yn y dref," atebai Dai.

"Gad di y mater yn bresennol i mi," ebai Robert, a dere di i'r dre' mor fore ag y gallot: aros, na, mi ddeuaf fi â'r gambo fach heibio i ti, ac ni awn gyda'n gilydd. Ond y mae yn rhaid i mi fyned i'r dre' dydd Iou i siarad â Mr. Sharp, y cyfreithiwr, i roddi dy fater di iddo; os nad wyf fi dan ryw ddallineb a chamgymeriadau rhyfeddol, ni fydd Mr. Sharp fawr o amser yn myned trwyddynt; a chânt weled, goeliaf fi, y buasai yn well iddynt danio eu pibellau â'r *summons* na'th wasan-aethu di â hi."

Boreu dydd Sadwrn yr oedd yr holl ardal mewn cyffro, a'r bobl, yn wŷr, gwragedd, meibion, a merched yn myned tua'r dref i weled ac i glywed cyfraith Wil a Dai Luke; rhai ar geffyllau, rhai mewn gamboau, a rhai ar draed. Disgynodd Wil a'i blaid yn y Fflam an' Fflam, ac i mewn i'r parlwr â hwynt; ond nid oeddynt yn edrych yn neillduol o galonog. Wedi tipyn o siarad â'u gilydd yn y parlwr, anfonwyd cenad i'r Ffarmer's

Arms i geisio gan Dai Luke ddyfod yno i settlo, am fod hyny yn well na myned â'r mater ym mlaen.

Wedi i'r genad draddodi ei genadwri, ebai Robert y Lan, "Wel, Dai, ni awn i gael clywed beth sy ganddynt i'w ddywedyd;" ac ymaith â hwynt tua'r Fflam an' Fflam.

Wedi myned i mewn i'r parlwr, yr oedd Tomos y diacon yn wenau ac yn llonder o glust i glust ac o'i en i'w dalcen. Wedi gofyn yn serchog-aidd i Robert pa fodd yr oedd, estynai ei bawen i Dai Luke, a gofynai iddo yn llon anghyffredin,

"Wel, wel, Dafydd bach, pa fodd yr ydych chwi yn ymglywed heddyw? Mae yn ddrwg iawn genyf fi dros y cyflwr tlawd yr ydych chwi ynddo o blegid eich byrbwylltra, a'r gwarth mawr yr ydych wedi ei dafu ar yr achos goreu. Yr oeddwn i bob amser yn meddwl yn dda ac yn uchel am danoch; ond dyma fel y mae wedi myned arnoch. Ond er mwyn eich achub o'r perygl yr ydych ynddo, a gwneuthur daioni i chwi, yr ydym ni wedi perswadio William Morgans i basio heibio i chwi am y tro hwn, dim ond i chwi fegian ei bardwn, a thalu y costau, a galw cwpwl o gwartau i wneuthur ffrynds. Bydd hyn yn fwy anrhydeddus o lawer i ni, fel crefyddwyr, na rhoi achos i'r byd annuwiol i erlid ac i wawdio crefydd. Yr ydych chwi eich hun, Dafydd Luke, yn gweled mai hyn sydd oreu; o blegid yr ydych chwi yn ddyn call, ac y mae genyf gryn olwg arnoch. A wnewch chwi hyn, Dafydd Luke, i ni gael settlo yn y fan yma?"

"Os oeddych chwi ac os ydych chwi dros anrhydedd crefydd, pa fodd na ystyriasech hyny cyn rhedeg yn eich lliid a'ch cynddaredd i ymofyn *summons*?" meddai Robert y Lan. "Ië, wedi i chwi ddeall fod eich cawl yn drewi, yr ydych am i Dai Luke ei yfed er mwyn gogoniant crefydd. Tyred, Dai, mae yn bryd i ni ddechreu ymlawlio tua'r llysty."

"Aroschwch, Robert, aroschwch," ebai Tomos y diacon; "y mae yn fwy dewisol gan William Morgans i beidio myned o flaen ei well ar yr achos presennol. Setlwn, setlwn."

"Ysgatfydd y bydd iddo byth fyned o flaen ei waeth," ebai Robert.

"Beth pe byddai i William Morgans dalu'r costau, ebai Tomos; "a fyddech chwi yn foddllawn i hyny?"

"O ble mae gan y croenllwm fodd i dalu?" meddai Robert. "Dere odd' 'na, Dai: fe setla y justusiaid pwy sydd i dalu."

Ac ymaith tua'r llydsy yr aeth Robert a Dai Luke.

Nid ydyw o un dyben i fod yn fanwl yma. Galwyd ar fater *assault* Wil ym mlaen, a gosodwyd ef yn y *witness box*. Yr oedd Wil wedi dresso ei hun i'r eithaf, ac wedi addurno ei hun â'i bluf goreu, er mwyn ymddangos mor *respectable* o flaen yr ustusiaid ag oedd modd iddo, er mwyn tynu eu sylw ac ennill eu parch. Yr oedd wedi troi ei wallt yn *doupé* o ryw ffasiawn newydd uwch ben ei dalcen, ac yn edrych o holl bethau'r byd fel nyth pioden, ac ambell gydyn yn *strayo* tua'i fochgernau a bonau ei gyrn. Yr oedd ei wddf yn *stiff*—mor *stiff* a chynronyn wedi ei ferwi; a'i wyneb, gwarchod pob dyn byw, fel cropyn eithin wedi hanner crino. Yr oedd rhyw olwg ryfeddol o *original* arno, fel gwas yr Arglwydd, pan yn sefyll fel polyn yn y *witness box*.

Rhodod Wil ar ei lw, a thyngodd iddo fyned i'r pulpud gyda'r bwriad i ddechreu'r cyfarfod a phregethu. Tyngodd i Dai Luke ddyfod ar ei ol i'r pulpud, ac ymafyd ym mlew ei gern, a'i lusgo o'r pulpud i lawr dros y grisiau; ac iddo, wedi cyrhaeddyd y llawr, roddi cic yn ei *ablative*, nes yr oedd yn rhedeg ar hyd y capel. Tyngodd Tomos y diacon, Sion y Pant, a Siencyn Troed y Foel yr un pethau; a meddyliodd pawb fod Wil yn myned â'r treial yn un llinyn gydag ef.

Edrychai yr ustusiaid yn daer iawn ar Wil, ac ni thynent eu llygaid oddi arno; a pha ryfedd? Nid oedd y fath hilwm wedi bod ger eu bron erioed o'r blaen! Yr oeddynt wedi clywed son am y Jacks a'u cnaciau, ond nid oeddynt wedi cael eu breintio â chyfleusdra i weled a chlywed Jeckyn yn siarad hyd yn bresennol. Ond yr oedd Mr. Sharp, y cyfreithiwr, yn edrych yn fwy blaenfain na neb arall ar Wil pan yr oedd yn cael ei holi; ac wedi i'r ustusiaid ddarfod â'u holiadau hwy, dyma Mr. Sharp yn codi ar ei draed, a chau edrych yn llym arno, gofynodd iddo,

"Well, Mr. Morgans, I have a few questions to trouble you with; you can have no objections, I suppose, to answer me in English?"

Wil. I understand the English very well, and I can talk and breach in the English in the bargain.

Mr. Sharp. That will do nicely, Mr. Morgans. Pray, Mr. Morgans, were you regularly trained for the ministry?

Wil. Train, train; soldiers train, and not breachers.

Mr. Sharp. I must be plain with you, it seems, Mr. Morgans. Pray, where did you obtain your learning to prepare you for the ministry?

Wil. In the British School in England?

Mr. Sharp. Was it not in Glamorganshire you were at a British School?

Wil. Is Clamorgan Shire in England. Is in the map of England on the wall in the British School.

Mr. Sharp. How long were you in the British School, Mr. Morgans?

Wil. Was there one year, and then I leave for to breach.

Mr. Sharp. Are you a licensed preacher or minister, Mr. Morgans? or, in other words, are you qualified to preach according to the requisitions of the law?

Wil. No license but the license

of the jurch by the Britis School, and the license of hwnewl Tomos.

Mr. Sharp. By what authority did you enter the pulpit last Sunday evening, when you say you were assaulted by David Luke?

Wil. My-hwnewl Tomos y deiacon, and Shon the Pant, and Siencyn Troed y Foel, they tell I to go there to breach the gosbel.

Mr. Sharp. And David Luke dragged you from the pulpit?

Wil. Is; Dai Luke hold my locsen with his hand and drag I down the stairs, and then kick I.

Mr. Sharp. On what part of your body did David Luke give you the supposed kick?

Wil. On the end of my back.

Mr. Sharp. On the upper or the lower end of your back?

Wil. On the lower end of the bottom of my back.

Mr. Sharp. And you swear it was David Luke that gave you the supposed kick?

Wil. Is, I swear it.

Mr. Sharp. Did you see him kick you?

Wil. No; he was behind I; but I am sure he kicked I.

Mr. Sharp. Whoever did it he served you very right.

Bu mwy o lawer o groesholi na hyn ar Wil, a Tomos, a Sion, a Siencyn; ond dymchwelodd Mr. Sharp yr holl dystiolaethau yng nghylch y cicio, oddi eithr bod llygaid yng ngwegil Wil, a bod Tomos y diacon yn gweled trwy y pulpud, a Sion y Pant a Siencyn Troed y Foel yn gweled trwy'r bobl. Ac i'r dyben o derfynu'r ddadl, rhoes Mr. Sharp weithred y capel o flaen yr ustusiaid, a dywedodd bod y *trustees* wedi marw oll ond Robert Roberts, y Lan, ac nad oedd Robert wedi rhoddi caniatâd i Wil fyned i'r pulpud; a'i fod wedi awdurdodi Dai Luke, yr hwn oedd yn gwnstab, i fwrw Wil o'r pulpud; ac am y cic, nad oedd un prawf o'u blaen

mai David Luke a'i rhoes. Y canlyniad fu, i'r *summons* gael ei dismisio yn y fan.

Troes Wil o'i focs i fyned allan, ond dyma'r *clerk* yn galw arno i ddyfod ym mlaen at y bwrdd; ac ym mlaen â Wil, ac ym mhen ychydig dyma fil y costau yn cael ei roddi iddo. Nid oedd dim arian gan Wil i dalu; a phan alwyd Tomos y diacon ger bron, nid oedd ganddo yntau ddim arian, o leiaf fe ddywedodd ei bod wedi dygwydd ar y pryd ei fod felly; ond dyweyd celwydd a wnaeth; a bu gorfod ar Sion y Pant a Siencyn Troed y Foel i dalu; a Dai Luke yn y fan draw yn chwerrthin. Cyn i Wil ymadael, gorchymynodd yr ustusiaid iddo am ofalu na byddai iddo ond hyny droseddu y gyfraith; ac mai tiriondeb Robert Roberts, y Lan, tuag ato ydoedd na buasai *summons* yn cael ei rhoddi iddo yn y fan i sefyll ei brawf fel *disturber*; ac os oedd efe yn myned i bregethu, am iddo fyned yn rheolaidd, a pheidio gwneuthur rali o'r fusnes.

Erbyn bod plaid Wil allan o'r llydsy, dyma'r celwyddau mawr yn rholian ganddynt o faintioli meini melinau, a'r celwyddau hyn yn cael eu haeru yng ngwynebau y dynion oedd wedi gweled ac wedi clywed y cwbl. Dywedai Tomos y diacon, yr hwn oedd y mwyaf fforddiol, rhagrithiol, dauwynebog, a chelwyddog o'r blaid, iddynt hwy, o gariad at grefydd ac at yr achos goreu, i attal y mater i fyned yn mlaen; ac oni buasai iddynt hwy mewn ffordd roddi fyny, y buasai Dai Luke yn sier o gael ei dransportio. Dywedai hefyd bod y gwŷr boneddigion yn barchus iawn o William, ei nai, a bod Mr. Sharp, cyfreithiwr Dai Luke, mor barchus o hono a galw Mr. Morgans arno bob tro y byddai yn gofyn rhywbeth iddo. Dywedai hefyd mai fel *matter of form* yr oedd Wil wedi talu'r costau, ac iddo gael yr arian yn ol yn y fan bob dimai. Haerai Twm

hefyd bod y gwŷr boneddigion yn dywedyd mai twyll i gyd oedd y weithred ag ydoedd ym meddiant Robert y Lan, ac y mynent hwy y capel i Wil, ac na chlywsant hwy erioed well siaradwr Seisoneg na'i nai. Mae ym mron yn anghredadwy i feddwl faint o gelwyddau a ddywedid gan y diacon; ac yr oedd ganddo y fath ffordd i'w dywedyd fel yr oedd braidd yn cael ei hanner gredu, er y gwyddent yn eithaf da am ei gelwydd a'i ragrith twyllodrus.

Ond yr oedd Wil a'i blaid yn edrych yn fflat iawn, er eu bod yn gwneuthur eu goreu i guddio eu siomedigaethau, trwy fod mor gwtws lon a phe buasant wedi derbyn pob o focsaid o arian Llundain. Yr oedd Pali'r Pant a Nansi Troed y Foel yn edrych fel dwy ellylles ar yr heol; a phan fyddent yn pasio rhai o ffryndiau Mr. Evans, gostyngent eu haeliau, nyddent eu gyddfau, a chyfodent eu trwynau fel pe buasai y dref a'r wlad yn drewi oddi amgylch ogylch iddynt. Cawsant afael yn Wil ar yr heol, ac a'i gwahoddasant i fyned gyda hwy i'r *Star*, lle yr oeddynt yn disgyn. Wrth fyned tua'r *Star*, cyfarfuasant â dau Jack oeddynt ar gerdded yn prowlo, a gwahoddasant y ddau hyn gyda hwynt i'r *Star*. Ond cyn cyrhaeddyd y *Star*, cyfarfuasant â dau Jack arall, a throdd y rhai hyn hefyd yn ol i fyned i'r *Star*. Gwedi myned i barlwr bach y cefn, dyma'r ddwy wraig yn ordro pob o lasaid i'r pum pregethwr; ac wedi bod o'r neilldu am fynydd neu ddwy, aethant allan. Ond ym mhen ychydig amser dyma hwy yn ol, ac un yn gosod carn fawr o deisenau brenon a *buns* ar y bwrdd; a'r llall tē a siwgr, a hyn i gyd er mwyn dangos i'r Jacks mor selog yr oeddynt dros yr achos goreu. Beth dâl chwalu ymadrodd? at y tē yr aed, ac ni welwyd cwm newynllyd erioed yn ymaflyd yn fwy awchus yn eu hysglyfaeth nag yr

oedd Wil a'r pedwar Jack yn bwrw at y trugareddau oedd ger eu bronau. Yr oedd y Jacks yn selog yn achos Wil a'i blaid, ac yn cwyno yn fawr fel yr oedd crefydd yn dyoddef o blegid y blaid clynol. Yr oedd y teisenau breuon a'r *buns* yn diflanu o'r golwg yn fuan lawr ar oriwaered gyddfau y Jacks; ac wedi i Pali roddi awgrym, dyma Nansi allan ar ffrwst, ac ni fu fawr o amser cyn dyfod yn ei hol, ac yn tywallt ail ffedogaid braf o ddanteithion drachefn ar y bwrdd i foliau y bolgwn. Yr oedd yno lwfian anwyl; y Jacks yn ei boehiau; a rhwng y tameidiau, yn siarad fel yr oedd plaid yr Evans yn gwarthruddo yr achos; ac yn canmol Pali a Nansi am eu sel grefyddol a'u caredigrwydd iddynt hwy fel gweision annheilwng yr Arglwydd, ac y byddai bendithion lawer ar eu penau am eu caredigrwydd hwn; neu yn Gymraeg noeth, y byddai bendithion ar benau Pali a Nansi am stwffo boliau lwrnod annuwiol a segur, y byddai ffitiach eu crogi na'u gadael yn rhyddion i fyned ar hyd y wlad. Yr oedd y *run* yn cael ei dywallt i'r cwpancidiau olaf, a phob o lasaid gyda'r bibell cyn ymadael i fyned ar ol eu cyhoeddiadau erbyn tranoeth. Wrth ymadael dywedai y Jacks y byddai iddynt ymweled â hwynt mor gynted ag y clywent fod achos newydd wedi cael ei sefydlu yn yr ardal, ac y gwnaethent eu goreu i gynnorthwyo y brawd Morgans i fyned ag ef ym mlaen. Sylwer bod un o'r Jacks hyn wedi bod dan ddiarddeliad am feddwi, y llall wedi bod dan ddiarddeliad am ymladd; y trydydd Jack wedi bod dan ddiarddeliad am blentyn ordderch, a'r pedwerydd Jack wedi bod lawer gwaith yn ymylu â'r creigiau, ac wedi cael llawer crymogiad gas.

Yr oedd Tomos y diacon a'i frodyr wedi myned o'r llysyd i'r Fflam an' Fflam, a Mr. Davies, gweinidog Salem, gyda hwynt. Cynghorai Mr

Davies hwynt i beidio â llwfrhau dim, ond myned ym mlaen yn galonog i sefydlu achos newydd, a gweddio llawer ar iddynt, gael arddeliad; y byddai iddynt gael eu supporto, ac y gwnelai ef ddyfod atynt i dori bara hyd nes y byddai i Morgans gael ei ordeinio: ei fod yn wir fod rheol y Gymmanfa, a phenderfyniad yr Undeb Sirol, yn erbyn rhwygiadau, ond nad oeddynt yn werth gwellten, ac yr actiai ef drostynt. Yr oedd Mr. Davies yn ddig wrth Mr. Evans am na chafodd bregethu yn y cwrdd chwarter diweddaf fu yng nghapel yr Evans, ac ni chafodd gyfleusdra i dalu iddo hyd yn bresennol.

Dygwyddodd i ddau neu dri o'r ardal droi i mewn i'r Fflam an' Fflam, a gwelodd Tomos, Sion, a Siencyn hwynt yn union, a galwyd hwynt ym mlaen, a rhoddyd ordors am bob o beint iddynt; a phan ddeallwyd eu bod ym mlaid Wil, dyma'r gloch yn canu am bob o beint arall iddynt. Slipiodd un o'r rhai hyn allan; ac wedi cyfarfod â'i gyfeillion ar yr heol, dywedodd ei bod hi *off* yn y Fflam an' Fflam, a'i bod wedi myned yn dretio yno, ac am iddynt ddyfod i mewn o un i un a dangos eu bod o blaid Wil; y cawsent ddigon o gwrw. Yn ol ag ef wedi rhybuddio ei gyfeillion.

Ym mhen tipyn dyma un o'r rhai hyn yn myned i mewn i'r parlwr, ac yn gwaeddi, "*Morgans for ever.*" Galw ym mlaen ar hwn, canu'r gloch, ac ordro peint iddo. Un arall ar sodlau y cyntaf, yn brathu i mewn, ac yn gwaeddi, "*Morgans for ever.*" Galw arno ym mlaen ac ordro peint iddo; ac felly i bob un ddeuai i mewn o blaid Wil. Morgans a'r achos newydd oedd i fyny ac i waered, a'r peintiau yn myned yn weigion, ac aelodau y gyfeillach yn myned yn fwy selog a bywiog fel yr oedd y peintiau yn cael eu llenwi a'u gwaghau. Yng nghanol y 'stŵr, a'r yfed, a'r "*Morgans for ever,*" dyma Wil yn un *pike* i'r parlwr, a thyma wŷr y peintiau yn uniongyrchol ar eu traed ac yn siglo dwylaw ag ef, ac nid oedd dim i'w glywed ond Morgans i fyny a Morgans i waered; ac hi aeth mor belled yn y gwresog-rwydd, fel yr aeth y cyfeillion i ordro eu peintiau eu hunain a'u doddi yn yr un cyfrif. Beth dâl siarad? fe'i cnapiwyd hi i'r byw wrth adeiladu achos Wil; a chostiodd y daplas bob o dri swllt ar ddeg i Sion y Pant a Siencyn Troed y Foel; canys nid oedd yn gyflêus i Tomos y diacon i dalu dim y noswaith hōno. Gwr oedd Tomos yn hoffi byw a llanw ei geubal ar gost ereill yn hytrach nag ar ei gost ei hun.

XII.

FFLAT fflat y troes y *summons* ar Dai Luke y gof allan, ac nid oedd rhialtwch y cwrw a'r ystŵr yn y Fflam an' Fflam ond rhialtwch arwynebol a ffugiol trwyddo oll. Pan elo hi yn ffyrnig, ac yn neillduol felly mewn perthynas i ffanaticiaeth grefyddol, y mae'r Sectwyr yn myned yn ffyrnig iawn. Yr oedd plaid Wil yn ffyrnig o'r dechreu; ond wedi iddynt fethu, ac wedi cael eu troi yn ol ym mater y *summons*, aethant yn saith ffyrnicach, a dihunodd eu holl gythreuliaid,

ac yr oeddynt yn chwythu mwg ac yn chwydu tân yn arswydus. Bob tro y byddo ffanaticiaid crefyddol yn ymrafaelio ac yn ymladd â'u gilydd, a phan y byddont yn ymrwygo ac yn myned yn ddarnau oddi wrth eu gilydd, ac yn debycach yn eu hymddygiadau i wylltflod yr anialwch nag i ddynion gwarediedig, chwaethach i Gristionogion, y maent yn cymeryd arnynt eu bod dros eu penau a'u clustiau yn grefyddol. Ac y mae yn deilwg o sylw hefyd mai

terfysgwyr bob amser sydd ar yr iawn, yn cael eu herlid, yn gorfod dyoddef, ac yn ferthyron yn achos crefydd. Fel hyn yr oedd gyda'r "ddwy fil," pan y trowyd hwynt allan o'r Eglwysi am eu hanghydfurfiaeth, clod y rhai a gorgenid mor uchel pan werthid eu crwyn trwy yr holl wlad ar ddydd gwyl nodedig Jolly! Nid oedd dyoddefaint yr esgobion a garcherid, a'r miloedd offeiriaid a wnaed yn grwydriaid, gan ddyoddef noethni a newyn, ddim yng ngolwg ffanaticiaid; o blegid y "ddwy fil" oedd y crefyddwyr cywir a'r gwir ferthyron, a hyny am na chaent dderbyn a defnyddio degymau yr Eglwys, a gweinyddu mewn cysgreoedd ag oeddynt hwy am ddi-ddymu yr hyn oll a berthynai iddi, ond ei chyflogau yn unig.

Yr un yw Sectyddiaeth ym mhob oes, a'r un ysbryd hefyd sydd yn ei llywodraethu. Pan aeth Corah a'i gymdeithion i gadw gwyl Jolly yn yr anialwch, cyhoeddent, er eu bod yn derfysgwyr ac yn rhwygwyr o'r fath waethaf, mai hwy oedd dan erlidigaeth am na chwastent fyned i gysgreoedd yr Arglwydd i weinyddu. Cyhoeddai Corah a'i gymdeithion, ar ddydd eu gwyl Jolly, eu bod yn cael cam, a'u bod dan erlidigaeth fel crefyddwyr o egwyddor, yn actio yn ol eu cydwybodau.

Fel Corah a'i ganlynwyr, ac fel holl rwygwyr crefydd trwy yr holl fyd, yr oedd plaid Wil; canys er nad oedd ganddynt unrhyw achwyniadau cyfreithlawu i'w dwyn yn erbyn Mr. Evans gyda golwg ar ei fuchedd a'i athrawiaeth—dim yn y byd ond ei fod yn rhwystr ar eu ffordd hwy i ddangos eu hunain ac i fod yn feistriaid y gynnulleidfa; er hyny, cyfodasant derfysg i'w ddisodli ac i'w ddinstrio; ac wedi creu'r cythrwff, cymmerent arnynt eu bod yn ofidus ac yn drallodedig iawn o herwydd bod y fath beth wedi cymmeryd lle, a thafent yr holl fai ar yr ochr arall, a dywedent mai dan orfod yr oeddynt

hwy i amddiffyn egwyddorion Ymneillduaeth, ac i sefyll dros eu hiawnderau fel crefyddwyr; a'u bod yn ystyried mai eu dyledswydd oedd sefyll ym mhlaidd eu hegwyddorion, a sefydlu achos newydd yn yr ardal, ac y byddai i'r Arglwydd edrych arnynt a'u bendithio. Yr oeddynt yn grefydd hyd eu hewinedd, a Tomos y diacon wedi cael gwledd wrth ei fodd; canys ei fol oedd ei dduw, ac ar fyrddau dynion ereill yr oedd yn cael y blas mwyaf i fwyta ac i yfed; ac yr oedd ar fyrddau dynion ereill braidd bob Sul, ac yn talu am y *grub* â gras bwyd rhag-rithiol, a hwnw e'yd a braich.

Daeth Robert y Lan, a Dai Luke gydag ef, tuag adref yn gyunar o'r dref ar ol y treial; ac wedi cyrhaeddyd y pentref, galwodd Robert gyda ficer y plwyf. Adroddodd yr holl hanes wrth y ficer, a dywedodd mai efe ydoedd yr unig *trustee* oedd ar y capel, a bod y weithred yn ei feddiant ef. Dywedodd hefyd ei fod yn Ymneilldŵwr o'i febyd—wedi cael ei ddwyn i fyny felly.

"Ond," meddai, "y mae Ymneillduaeth wedi myned yn gawdelog oll trwyddi, ac wedi ymlygru trwyddi draw; ac yr wyf yn benderfynol, er mwyn tawelwch, ac er mwynhau tangnefedd a llonyddwch, i ymadael â'r capel a dyfod yn aelod eglwysig atoch chwi. Y mae hyn yn fy mwriad er ys llawer dydd; ond yr oeddwn yn aros i weled cynnyg y terfysgwyr, ac i roddi Mr. Evans â'i draed ar dir diogel gyda golwg ar y capel yn gyntaf. Mi a elwais gyda chwi, syr, er mwyn cael eich cynghor a'ch cyfarwyddyd chwi; canys chwi sydd o hyn allan i fod yn fugail ysbrydol i mi a'm teulu."

"Yn y lle gyntaf," ebai'r ficer wrth Robert, "y mae yn rhaid i chwi roddi gweithred y capel a'ch hymddiriedolaeth i fyny i Mr. Evans yn gyfan-gwbl, ac iddo ef wneuthur fel y myno â hi."

“Eithaf boddllawn, syr,” meddai Robert.

“Yn nesaf, Robert,” ebai'r ficer, “y mae yn rhaid i chwi a'ch teulu fyned i'r capel y fory fel arferol; a'r wythnos nesaf, mae yn rhaid i chwi siarad â Mr. Evans, ac ymadael ag of mewn heddwch; ac y mae porth yr Eglwys yn agored i chwi. Nac anghofiwch weddio am gyfarwyddyd yr Arglwydd yn y mater.”

“Diolch i chwi,” syr, ddywedai Robert; “mi wnaf fel y dywed-asoch.”

Boreu dydd Sul aeth Mr. Evans i'r capel ac i'r pulpud, ac yr oedd y capel yn llawn, fel yr oedd yn naturiol dysgwyl; canys pan fo rhyw rialtwch crefyddol mewn capel, y mae holl sectwyr yr ardal yn dyfod yn un pentwr i bob oedfa fel haid o weny. Yr oedd Tomos y diacon, Sion y Pant, Siencyn Troed y Foel, a'r chwirydd Pali a Nansi, a'r holl blaid braidd yno; ac yr oedd Wil yno hefyd, yn un mwnci main llygad-frith, yn sefyll yn *front y gallery* gyferbyn â'r pulpud, os gwelwch chwi fod yn dda. Yr oedd plant yr Evans dipyn yn wllthog yn yr oedfa, lawer yn fwy gwlithog nag arferol, a Dai Luke yn neillduol yn cyn-northwyo yr Evans yn lled fynych ag “amen” go gryf. Yr oedd mynywet-ach plaid Mr. Evans hefyd, chwareu teg iddynt, yn derbyn gwlith, neu o leiaf yn cymmeryd arnynt eu bod yn ei dderbyn; canys yr oedd ambell wich yn dyfod oddi wrthynt, a llawer iawn o snwffian dystaw. Yr oedd yn amlwg fod cryn sel ym mhlaid yr Evans.

Yr oedd plaid Wil yn edrych mor oer a phe buasant, bob un o honynt, wedi rhewi yn *Archangel* a *Nova Zembla*, ym mhewgn y gogledd. Tomos y diacon, fel delw fochog a gweflog, yn ddi gyffro yn ei gôr, â'i ben yng nghau fel broga yn y cyn-auaf, heb nag “O wel, wel,” na “bw,” na “be,” na “*very good*,” nac “*is indeed*” yn dyfod dros ei wefusau, ond yn hollol fel pe buasai dan y

cloion yng Nghastell Dystawrwydd. Sion y Pant—dim gwlithyn yn syrthio arno; Siencyn Troed y Foel—dim cwarter dyferyn yn syrthio arno; a'r chwirydd yn edrych mor sych a chras a phe buasant wedi bod naw diwrnod a hanner ar odyn y felin.

Wedi i Mr. Evans ddarfod â'i bregeth, cyhoeddodd bod yr ysgol i fod yn y capel am ddau, yr oedfa am chwech, cwrdd gweddi nos Fawrth, a seiet nos Iou. Mor gynted ag y dystawodd, dyma Tomos y diacon ar ei draed, ac wedi pwyso fel arferol ar ymyl y côr dyma ef yn cyhoeddi bod William Morgans i fod yn pregethu yn y Pant am ddau, cwrdd gweddi yn Nbroed y Foel nos Lun, a seiet yn Nbroed y Foel nos Fercher; “ac y mae William Morgans,” meddai ef ym mhellach, “i fod yn pregethu yn 'sgubor Troed y Foel am ddeg o'r gloch boreu Sabboth nesaf. Yr ydym yn bwriadu reparo tipyn arni yr wythnos nesaf i'w gwneuthur yn lle gweddol gysurus i ni addoli a chynnal ein hachos ynddi, o blegid nid oes yma ddim cysur mwyach i ni.”

Dyma hi! Dyma Sectyddiaeth yn ei gwir anianawd ei hun wedi tori allan! Dau achos gan yr un enwad yn yr un ardal! Dyma *spring* fawr llwyddiant Ymneillduaeth a Sectyddiaeth yn ein gwlad! Ymffrost ein Sectwyr yw rhwygiadau!

Wedi sefyll yn ol yn y capel am ryw hyd, ar ol i'r bobl ymadael, daeth Mr. Evans a Robert y Lan allan, ac wedi myned allan i'r heol trwy borth y fynwent, ymadawsant yn heddychol â'u gilydd, gan siglo dwylaw yn wresog. Ymddangosai Mr. Evans yn brudd ei olwg.

Chwi ellwch wybod am Tomos y diacon, ei fod ef wrth gynffon Sion y Pant; canys yr oedd llanw ei hen fola melyn yn fwy na dim arall yn ei olwg ef, yn neillduol ar draul pobl ereill—gwidwod a phawb: yr oedd rhyw grafion yn eu pedyll o werth iddo ef ddodi ei drwyn ynddynt.

Mor gynted ag y cyrhaeddwyd y Pant, aed at ginio yn uniongyrchol, er mwyn clirio'r cwbl oddi ar y ffordd erbyn yr oedfa ddau o'r gloch.

Pan ddeallodd Siani'r forwyn y fusnes oedd yn myned ym mlaen, a bod cwrdd i fod yno am ddau o'r gloch, dywedodd wrth Pali, ei meistres,

"Wel, Pali, mae yn debyg eich bod chwi yn cael plaser mawr ym musnes a busneson Wil, ac o'm rhan i yr wyf yn foddolawn iawn i chwi eu cael; ond nid wyf fi yn ymofyn am yr holl benbleth a'r ystŵr mawr yma bob Sul fel hyn, ac yr wyf yfory yn rhoddi mis o notis i chwi. Ac yr wyf yn dywedyd ym mhellach wrthyh, chwi gewch dendio Wil eich hun, a chwi a gewch dendio yr hen Dwm, ei cwythr, eich hun; canys yr wyf fi yn myned i'r ysgol i'r Ysgoldy Cenedlaethol am ddau o'r gloch. Dyna fi wedi dywedyd, a dyna fel y gwnâf."

Clywodd Tomos y diacon a Wil leferydd Siani, ac yr oedd Tomos yn gollwng ei fochau yn hwy na chyffredin, ond ni pheidiodd â chyfarch ei hun â'r pethau ag oedd ger ei fron. Edrychai Wil hefyd yn ddi-flas; a chafodd yr Eglwys ei chyfran o'u tafodau am feiddio cadw Ysgol Sul mewn un modd. Sectyddiaeth, mae yn debyg, biau yr holl ddydd Sul.

Bu gorfod ar Pali droi'r llestri heibio heb eu golchi i rywle o'r tu cefn, a pharotol gyferbyn â'r cwrdd; canys yr oedd yn gyru ar ddau o'r gloch.

Dywedodd Wil yn ddystaw yng nglust Pali, "Os daw Miss Williams y Berllan i'r cwrdd, gelweh arni ym mlaen, a threiweh, os gellweh, ei chael i de."

Canfuwyd yn fuan nad oedd yr arwyddion yn arddangos y buasai yr oedfa hon mor boblogaidd i Wil ag oedfa Troed y Foel; a phan ddaeth yr amser i fyny, nid oedd cegin y Pant dros hanner llawn.

Aeth Tomos y diacon i ben yr ystôl, wrth dalcen y bwrdd: darllenodd bennod; hyny yw, aeth dros bennod; ac wedi canu, aeth i weddi, mewn ffordd o ddechreu y cwrdd o flaen Wil.

Rhyw feichad oedd arfer Tomos y diacon pan ar weddi, ac yr oedd yn cymmeryd arno ei fod yn gall iawn hefyd ar weddi; ond rhyw rwmwliwr sychlyd ydoedd, mor sychlyd a'r sychaf fu ar ben deulun; ond heddyw yr oedd ar amcan i wneuthur gwynt carthen, er mwyn cael dylanwad ar y bobl i listio eu cydymdeimlad ym mhlaidd Wil a'r achos newydd. Dywedai Tomos wrth yr Arglwydd ei bod yn drallodus iawn arnynt hwy fel cwpl bach o frodyr a chwiorydd, dan erlidigaeth fawr, wedi ymuno i sefydlu ac i godi achos newydd yn yr ardal. Dywedodd hefyd wrth yr Arglwydd eu bod hwy yn gydwybodol, er maint yr erlid oedd arnynt; a bod llawer yn clyniion iddynt ac yn eu herlid, ond eu bod yn credu ei fod Ef gyda hwynt, ac y gwnai eu llwyddo: ei fod wedi rhoddi un o'i genadon anwyl iddynt, a'u bod wedi clywed ei lais Ef, yn llais ei was, yn llefaru wrth fodd eu calon. Codai Tomos ei lais asynaidd yn uchel wrth weddio dros Wil, ar ei fod dan arddeliad neillduol yn yr oedfa hono, er mwyn dangos i'r wlad a'r ardal ei fod wedi cael ei anfon mewn gwirionedd at y gwaith. Cyn diwedd, dywedodd wrth yr Arglwydd am un neu ddau oedd wedi marw yn yr ardal, a chrybwyllodd am ryw newydd trist oedd-ynt wedi glywed am rhywun, ond efe a gadwodd y newydd hwn iddo ei hun, ac ni ddywedodd ef wrth yr Arglwydd. Aeth dros yr un pethau lawer gwaith, ac yr oedd yn brefu yn enbyd, a'r brodyr a'r chwiorydd yn brefu hefyd gydag ef; ond mewn gwirionedd, yr oedd yn oer ac yn sychlyd tu hwnt i bob peth. Yn swm Tomos a swm y bobl, aeth y cwm i wneuthur swm a hanner udo,

ac o hyny cyrhaeddasant gam yn mlaen i ymladd; a dechreuodd y crytiaid eu cicio, ac wrth gicio y cŵn ciciasant eu gilydd, ac yn y cicio rhoes rhyw labwstyn gic i'r badell bres oedd ar ei hochr wrth y wal, a lawr â hōno yn glwriwns, a 'stwe neu ddau hefyd, yng nghyd â mân lestriach ereill, fel cydrhwng y clwriwns a beichadau Tomos, yng nghyd â beichadau y frawdoliaeth a'r cŵn, nid yn aml y clybuwyd ei fath. Gôrphenodd Tomos yng nghanol y terfysg a'r swm.

Dyma Wil i ben y 'stôl, ac erbyn ei fod ar ei phen cododd ei law i drwsio ei *doupé* a'i gydynau, a dygwyddodd fod hen wagr croen mawr yn hongian ar fach o'r tu cefn iddo, a bwriodd Wil y gwagr croen oddi ar y bach, a disgynodd ar y bwrdd; ac fel y bu gwaethaf y modd, yr oedd hen wraig yn eistedd ar y faine wrth y bwrdd, ac yr oedd wedi agor ei *box snuff* i gael pinshed, a phan oedd yn agored yn llaw yr hen wreigan, hopodd y gwagr croen oddi ar y ford, a disgynodd ar y *box snuff* nes oedd y *snuff* yr holl hyny o le, a thasgodd ar draws gwyneb yr hen wraig nes llenwi ei thrwyn a'i llygaid, ac ni chlybuwyd erioed y fath disian; a bu Wil yn hir cyn gallu rhoddi gair allan i ganu gan y tisian oedd yno, ac wedi ei roddi ni allai neb ar y ddaiar hon roddi darluniad o'r lleisiau a wnaed.

Cymmerodd Wil yn destyn yr "asen wyllt" y crybwyllir am dani yn yr ail bennod o Brophwydoliaethau Ieremiah.—Ier. ii. 24.

Yn ei ragymadrodd dywedai Wil fod y *text* hwn yn dext dwfu iawn; "ac y mae yn dext *impressive* iawn," meddai, "heb law ei fod yn dext anhawdd iawn i'w analysis, a'i ddivido, a'i subdivido, ac i wneuthur *applications* ac *inferences* priodol oddi wrtho. Nid oes dim yn y *text* hwn wrth edrych arno yn *superficial*, ond yn y *depth* y mae ei sylwedd. Er fy mod wedi studio y *text* hwn yn

galed iawn, ac wedi preparo *propositions*, ac *interlocutions*, a *circumnavigations*, yr wyf yn ofni na allaf fyned trwy fy mhregeth gyda grân y prydawn yma o blegid yr erlid mawr sydd arnaf yn y dyddiau rhai'n. Gweddiwch drosuwf ar i mi fod dan arddeliad."

Gyda ei fod yn dywedyd hyn, dyma yng nghylech dwsin a hanner o "amenau" drosto yn y man a'r lle.

"Yn ysbrydol," meddai Wil, "y mae y *text* hwn i gael ei drin; ac wrth yr asyn, yn ysbrydol, y mae i ni ddeall, pechadur. Wedi rhoi y goleu hwn arno, yr wyf yn cwmpo ar unwaith ar y *text*, ac mi sylwaf yn gyntaf ar y pechadur fel asyn; yn ail, fel asyn gwyllt; yn drydydd, fel asyn gwyllt yn yr anialwch; yn bedwarydd, fel asyn yn yfed gwynt; yn buumed ac yn olaf, fel asyn gwyllt yn cael ei ddal yn ei fis."

"Ond yn gyntaf," ebai Wil, "y mae dyn trwy bechod wedi myned yn asyn; y mae yn asyn gwreiddiol, o blegid y mae yn bechadur gwreiddiol. Adda aeth i fod yn asyn cyntaf, ac ni aethom ninnau oll yn asynod yn asyn ein tad cyntaf. Mae yn anhawdd credu hyn, meddai rhywun: ond mi a'i profaf i foddlonrwydd pob un o honoch. Mae y pechod gwreiddiol gawsom ni fel asynod oddi wrth yr asyn cyntaf, yn ymddangos mor oleu a'r haul fel hyn:—Pan drychodd Adda ar yr afal, ninnau a ddrychasom arno; pan whantodd Adda'r afal, darfu i ninnau ei whantu; pan gododd Adda ei law i dynu'r afal, ninnau godsom ein dwylo i'w dynu; pan blwedd Adda'r afal oddi ar y pren, darfu i ninnau ei blwco; pan roes Adda damed o'r afal yn ei ben, ninnau roisom damed yn ein penau; a phan fytodd Adda'r afal, ni bytsom ninnau fe. Yr ych ch'i 'nawr yn gwel'd y pechod gwreiddiol yn eithaf da, fel yr wy' i yn ei ddangos i ch'i. Fel hyn yr aethom ni yn asynod, ac asyn yw pob pechadur. 'Does fawr o barch

yn cael ei roi i asyn; a phwy barch y mae pechadur yn ddysgwyl? Ar hyd ochor y ffordd y mae'r asyn yn 'mofyn tamed—yn cropo'r ysgall, a dail drysi, a phethe cyffelyb; ac felly hefyd y mae'r pechadur; ar grwydr y mae e, yn cropo ysgall ysbrydol, a dail drysi ysbrydol, ac y mae asyn yn barod i fyta pob lapin, sôg, crafion tatws, ac eisinach; ac felly y mae'r pechadur yn asyn ysbrydol.

“Yr wyf yn awr yn dyfod at yr ail ben, sef fod pechadur yn asyn gwyllt. Wyddoch chi yn y byd mawr b'le i gael gafael yn y pechadur. Mae e 'nawr yma yn y cwrdd; fe fydd heno'n caru, nos y fory yn y cwrdd gweddi, nos Fawrth yn y sol, nos Fercher yn y cwrw bach, nos Iou yn cicio pèl ddu, nos Wener yn feddw, a nos Sadwrn yn ymladd ei chalon hi. Y mae'r pechadur yn asyn gwyllt ofnadwy—yn rhedeg ac yn corneito o fan i fan, yn whindo ac yn tafu ei draed ol i fyny, yn cnoi ac yn cicio, fel y mae yn ddan-sherus bod yn agos ato. Asyn gwyllt wyt ti, bechadur: dyma dy enw, a dyma beth wyt ti hefyd mewn gwirionedd! Asyn gwyllt! Asyn gwyllt!”

Nid oedd Tomos y diacon yn gadael i gymmait a gair basio heibio yn ddisylw, ac yr oedd ei “wel, wel,” a'i “o wel,” a'i “o ho” cuwch bob tipyn a lleferydd Wil; ac yr oedd y brodyr a'r chwiriorydd yn gwichian cryn dipyn, ac yn ymddangos megys pe buasant yn hoff iawn o fod yn berthynasau i asynod.

“Ond,” meddai Wil, “yn y llen-llen a welodd Peder, yr oedd pob creaduriaid. Yr oedd y bobl heb wneuthur breuwast i Peder yn ddigon bore, ac efe a aeth i ben y ty, a chododd cymmait o whant byyd arno fel y ffeintodd yu y fan; ac wedi iddo ffeinto, fe welodd weledig-aeth y llenllen, ac ynddi bob creadur. Y llew yn noethi ei ddannedd, y teiger yn curo ei ochre â'i gynffon, yr asen wyllt yn neidio ac yn pranco;

a'r ceiliog, os gwelwch chi fod yn dda, yn canu 'goco-go-gô,' a'r iâr fach yn ei ymyl yn dodwy wy bach rownd mor berted ag un wy a welsoch erioed, ac wedi dodwy'r wy, yn clochdran mor falch a phe buasai ganddi wy aur.

“Yn drydydd,” meddai Wil, “y mae dyn fel pechadur yn asyn yn yr anialwch. Diengodd Adda o Eden yn asyn gwyllt i'r anialwch, a diengsom ninnau ynddo o Eden yn asynod gwyllt i'r anialwch. Yn y *wilderness* ysbrydol y mae dynion fel asynod gwyllt yn beichad ar eu gilydd, yn rhedeg yma ac acw, yn codi eu cyffonau ar eu cefnau, ac yn myned fel y gwynt. Yn yr anialwch y mae y llewod, y teigers, yr arthod, a'r bwffilos, ac ni fynant ddyfod o'r anialwch. Dyma lle mae pechaduriaid hefyd, sef yr asynod gwyllt ysbrydol, yn cwato yn eu gwalau nes byddo eisie bwyd arnynt, ac yna y maent yn dyfod o'u gwalau i ladd, i larpio, ac i fwyta eu gilydd. Ond y mae'r amser yn myned heibio, ac y mae yn rhaid i mi ddyfod at y

“Pedwerydd pen, sef fod y pechadur yn asyn gwyllt yn yr anialwch yn yfed gwynt. Yr wyf fi yma heddyw, fel gwas yr Arglwydd, yn dweyd geiriau gwirionedd a sobriwydd wrth yr asynod gwyllt sydd yma yn fy ngwrando; ond yn lle gwrando arnaf fi, nid ydynt ond sniffian gwynt. Codi eu penau a throi at y gwynt ydyw eu gwaith hwy, a sniffian y gwynt yn barhäus.

“Ond diolch,” gwaeddai Wil nerth ei geg, gan ymsythu ar ben yr ystôl; “diolch am y pummed pen oddi wrth y *text*; mae'r asynod gwyllt yn cael eu dala, canys yu eu mis y cânt hi.”

Dyma'r *electricity* yn dechreu myned trwy gegin y Pant, a'r “O wel, wel,” a'r “*Very well*,” a'r “*Is indeed*,” a'r pecco pen, a'r gwneuthur dannedd, a'r chwerrthin cyssegredig, a'r llygaid ar Wil, a'r dysgwyl wrth ei ymadroddion fel pe buasai ei ciriau

yn werth hanner coron y gair, yn ol pris marchnad Llundain.

“Mae hela yn cael ei wneuthur ar bechaduriaid yn yr anialwch,” gwaeddai Wil eto nerth ei ben. “Hela asynod gwylltion ysbrydol yw ein gwaith ni, weinidogion a phregethwyr y Gair. Mae pastynau mawr gan yr helwyr i ffysto'r cloddiau, a'r perthi, y drysi, a'r cropynau cithin, i godi'r 'sgwarnogod a'r pryfed o'u gwalau. Felly ninnau, y gweinidogion a'r pregethwyr; y mae pastwn hela y ddeddf genym, a'r hwn yr ydym yn curo y perthi a'r llwyni, er mwyn starto yr asynod gwylltion ysbrydol o'u gwalau. Yn starto asynod gwylltion o'u gwalau yr elo hi yma y prydawn hwn.”

Ar hyn dyma wawch arddeliadol yn cael ei rhoddi gan Tomos y diacon, a'r brodyr a'r chwirydd hefyd yn cocio eu clustiau yn enbyd.

“Mae cŵn hefyd gan helwyr,” bloeddiar Wil, “i redeg ar ol 'sgwarnogod a phryfed i'w dal. Felly hefyd y mae gyda ninnau, y gweinidogion a'r pregethwyr, ein cŵn i redeg ar ol asynod gwylltion a'u cwrso yn yr anialwch. Mae enwau hefyd ar y cŵn, megys Jowler, Tapster, Driver, Bluecoat, Bowman; ac y mae genym ninnau hefyd, yn ein helfa ysbrydol, Jowler ysbrydol, Tapster ysbrydol, Driver ysbrydol, Bluecoat ysbrydol, a Bowman ysbrydol. Yn eu mis y mae yr asynod gwylltion ysbrydol yn cael eu dala. Ie, yn eu mis—ym mis etholedigaeth; nid cyn y mis ac nid wedi y mis, ond yn eu mis y maent yn cael eu dala. Pan ddelo blwyddyn, a mis, ac wythnos, a diwrnod, ac awr, a mynydd etholedigaeth i ben, y mae yr asynod gwyllt ysbrydol yn cael ei ddala; ac yn ofer y treir ei ddala cyn delo y flwyddyn, y mis, yr wythnos, y diwrnod, yr awr, a'r synyd i ben. Mae yn rhaid cael yr amser i ben, a phan ddelo i ben y mae'r asynod gwyllt ysbrydol yn sicr o gael ei ddal. Yr amser ddelo i ben! yr

amser ddelo i ben! Y mis ddelo i ben! Llefwech, bobol, am i'r mis ddyfod i ben. I ben, i ben; i ben y delo'r mis, fel y byddo yma lawer iawn o asynod gwylltion yn cael eu dala!”

Yr oedd Tomos y diacon a'i gynghreiriaid yn benderfynol i gynneu tân diwygiad yn y Pant, a chafodd Wil y gwynt o'i ochr yn lled dda, a'r tân a gynnewyd; ac yng ngwres sel ffanaticaid, torodd y tân allan yn fflam, ac hi aeth yn waeddi “diolch,” ac yn dafu breichiau, ac yn 'sgrechain, ac yn ymaflyd yn eu gilydd, ac yn ffusto'r bwrdd a'r *dresser*, nes oedd y llestriach yn clindarddach trwy'r holl hyny o le. Nid canu oedd yno, ond lleisiau, ysgrechfŷydd, ac ebychiadau gwallgofiaid pechadurus yn erbyn sancteiddrwydd adoliaid Duw a moesoldeb dynion. Aeth un ferch ieuanc i'r *hysterics* mor belled ag y bu gorfod ei chario allan a dattod ei dillad, a thynodd rhyw hwleyn mawr o lanc ei gyllell allan i dori llinyn ei *stays*. Gwir bob gair. Llofft isel oedd llofft y Pant; ac yr oedd Pali wedi hongian cwdyn â blawd gerfydd ei ochr wrth fach dan y llofft, ac wrth fod y brodyr yn codi eu dwylaw yn eu gwallgofrwydd, dattodwyd cwllwm ceg y cwdyn, ac i lawr a'r blawd o hono ar ben y bobl nes yr oeddynt yn wynion fel melinyddion: ond ym mlaen yr aed a'r rebeldod nes yr aethant yn rhy weiniaid i gynnal yr achos ym mhellach. Wedi i Wil ddyfod o ben yr ystôl, aeth i'r pen isaf, ac aeth Pali ar ei ol; ond daeth yn ol i'r rali yn union. Dichon iddi fyned ar ol Wil i roddi dyferyn bach o'r botel ar ei fin. Cyhoeddwyd bod cwrdd gweddi yn Nhroed y Foel y noswaith hono.

Daeth Siani'r forwyn yn ol o'r ysgol cyn i'r daplus ddarfod, a bu ym mron myned i sit rhwng a glywai ac a welai. Arosodd llawer yn y Pant i dde, er bod yn fwy cyflus i fyned i'r moddion hwyrol yn Nhroed

y Foel, a chymmaint a allasai Siani wneyd oedd sleiso brechdanau; canys heb law ystumog at fwyd ysbrydol Wil, nid oedd yno neb yn fyr iawn o ystumog at drugareddau addas i'r corff; a sylwyd yn neillduol fod Tomos y diacon yn ei bochian hi nes oedd y chwys yn ddyferynau mawrion yn syrthio oddi wrth ei gernau.

Yr oedd hen wr tlawd yn byw yn yr ardal hono o'r enw Ifan Marc, yr hwn yntau oedd yn aelod ac yn hen wr call anghyffredin; ond am nad oedd ganddo ond ei dlodi i facio ei synwyr, nid oedd ond ychydig o wrandawriad yn cael ei rodidi iddo gan y nifer luosocaf. Ond beth bynag, wrth fyned o'r cwrdd, gofynodd rhywun iddo,

"Wel, Ifan Marc, beth yw eich meddwl a'ch barn chwi am y pethau sydd yn myned ym mlaen yn ein hardal ni yn bresennol?"

"Fachgen," ebai Ifan Marc, "ys-twr a bloeddio prophwydi Baal ar fynydd Carmel oedd yn y Pant, beth bynag, ac nid swn cerddorion Sion yn cadw gwyl i'r Arglwydd. Fe dderfydd hyn mewn gwarth a chy-wilydd mawr eto."

"O! yr hen erlidiwr mawr a phechadurus," meddai tri neu bedwar ar y pryd.

Wedi i'r frawdoliath ymgynnull

ying nghyd am chwech o'r gloch i gwrdd gweddi Troed y Foel, y gor-chwyl cyntaf a gynmerodd Tomos y diacon mewn llaw (a Wil yn ei gynnorthwyo) oedd, gwneuthur eu hunain, gymmaint o honynt ag oedd yn ymadael â chapel Mr. Evans, yn eglwys reolaidd, a'i gallu a'i hawdurdod ynddi ei hun, i weithredu ym mhob dim fel yr ewyllysient hwy, ac heb fod yn gyfrifol i neb am eu hymddygiadau. Gwnaeth Tomos y diacon hwynt yn y fan "yn eglwys, yn ol y Testament Newydd, i Iesu Grist," meddai ef; a rhoes y siars gyfammodol neu glybiol iddynt, a cheisiodd Wil fendith ar y gwaith a llwyddiant ar yr eglwys newydd.

Cyrhaeddodd y newydd aelodau Mr. Evans fod tân diwygiad wedi tori allan yn y Pant dan weinidogaeth Wil; ac ar y fynwent, cyn myned i'r capel, siaradodd amryw o honynt â'u gilydd, a phenderfynwyd fod yn rhaid iddynt hwythau i gynneu bieting diwygiad, amgen y collent y dydd. Ac mor wir a'i ddywedyd, yr hwy'r hwnw dyma'r fflam yn tori allan yng nghapel yr Evans, a'r rebeldod yn fwy o lawer yno nag ydoedd yn y Pant, yn gymmaint a bod yno fwy o bobl. Ac felly, cafodd y ddau achos gelymol hyn bob o ddiwygiad! Pa beth na all dynion wneuthur?

XIII.

Y MAE yn llawer hawddach, yng ngwyneb rhai amgylchiadau, i gyfansoddi eglwys sectyddol na chyfansoddi a ffurfio *Benefit Club* neu *Building Society*; ac y mae hyn braidd yn rhyfedd, ond fel hyn y mae; canys yr ydym yn gweled y dull o fyned ym mlaen ger bron ein llygaid. Tua Gwent a Morganwg, yn ein trefi poblogaidd, ac yn fynych ar hyd y wlad yma ac acw, yr ydym yn gweled y capeli splitaidd braidd mor aml a blodau'r dydd yn eu

tymmorau; a nodir y capeli splitaidd hyn allan fel profion amlgw o lwyddiant Sectyddiaeth, ac ymfrostir ynddynt fel colofnau amlgw o ymlodaeniad gwir grefydd, ac nid o ymlodaeniad rhwygiadau yn y capeli. "Eglwys yn cael ei chreu, ei chyfansoddi, a'i ffurfio!" "Yr ydym ni wedi gwneuthur ein hunain yn eglwys newydd!" "Yr ydym ni wedi cyfansoddi ein hunain yn eglwys newydd ar ein penau ein hunain!" "Nid oes dim a fynwn ni â'n hen

eglwys mwyach, canys yr ydym wedi cael ein corffoli yn eglwys newydd!" Dyma y siarad sydd yn myned ym mlaen yn fynych rhwng dynion â'u gilydd ar hyd y wlad, a'r dynion ar y pryd â'u Beiblau yn eu dwylaw; ac nid hyny yn unig, ond dynion ag sydd yn cymmeryd arnynt eu bod yn deall eu Beiblau, a gwae y neb a ddywed nad ydynt yn eu deall! Mae dynion yn siarad am gyfansoddi a ffurfio eglwys fel gorchwyl cyffelyb i "This is the house that Jack built;" rhywbeth yn gyffelyb i gaban unnos, neu wneuthur aerwy, ysgubell, neu fwnci brwyn! Dim ond meddwl am haid o ysgymmuniaid drygionus wedi meddwl am rali yn y capel, ac yna yn ymgynhyrfu ac yn troi allan, ac yn ffurfio eu hunain yn eglwys newydd yn ol egwyddorion y Testament Newydd, a dyna hi ar ben, ac yn eglwys i Grist Iesu'r Arglwydd! Syndod a rhyfeddod fod dynion erioed wedi cofleidio y cyfryw egwyddorion ac adeiladu eu crefydd arnynt, a'r cyfryw egwyddorion mor groes i natur yr Eglwys a sefydlwyd gan yr Arglwydd a'r Apostolion! Mae yn ymddangos, yn ol fel y mae y Sectwyr yn myned ym mlaen â'u crefydd, mai rhwygiad ar rwygiad di-ben-draw, yn ol mympwyon terfysgwyr crefyddol, ydynt egwyddor llwyddiant crefydd ar y ddaiar! Wil a'i ewythr, Tomos y diacon, yn cyfansoddi ac yn ffurfio eglwys yn Nhroed y Foel! Pa beth oedd hyn ond gwneyd gwawd a caricature o grefydd? A pha beth a geir yn fynych ar hyd y teiach a'r capeli ond y gwawd a'r caricature hwn?

Dydd Llun troes Wil allan yn fore o dy ei fam ar gefn ei lwrcraeth, a thrwy gydol y bore bu yn myned o dy i dy i fusnesa ac i drin ei achos. Yr oedd Wil yn gofalu galw gyda'i bobl ei hun, ac nid gyda neb ereill; a phan welodd Dai Luke y gof ef yn myned yn sly heibio'r efail, aeth i'r drws gynted ag y gallodd, ac waeddodd,

"Aros Wil, y mae arnaf fi eisieu newid rhyw gwplw o eiriau â thi."

Ni chymmerai Wil arno ei glywed, ond myned yn ei flaen, a Dai Luke wedi carthu ei wddf yn gwaeddi yn uwch,

"Aros, Wil, i fi gael tipyn o hanes dy lwyddiant yn hela'r asynod neithiwr, a pha gynnifer a ddaliaist, ac a oedd yno ryw asyn dwlach na thi dy hun."

Ond nid oedd Wil yn cymmeryd arno ei glywed, a brasgamai ym mlaen mor brysur a phe buasai yn myned i achub dyn rhag trancedig-aeth. Yr oedd croesawiaidau Wil yn wresog iawn yn nhai aelodau yr eglwys newydd oedd Tomos y diacon ac yntau wedi greu yn Nhroed y Foel; ac wedi ei weled wrth y drws, nid oedd dim i'w glywed ond

"Morgans, dewch ym mlaen; pa fodd yr ydych yn ymglywed heddyw? A ddarfu i chwi beidio cael annwyd ar ol chwysu wrth bregethu mor dda neithiwr? Eisteddych i lawr; mi wn nad ydych wedi bwyta eich breewast; mae'r tecil heb oeri; mi wnaf gwpanaid o dê i chwi. A fynwch chwi olwythyn a chwplw o wyau gyda'ch tê? dywedwch chwi, a chewch un peth sydd yma gyda phob ewyllys."

Yr oedd Wil dipyn yn gryglyd, fel y mae y Jacks yn gyffredin, ac yn gyffredinol ar y Lluniau ar ol pregethu y Suliau; ac y mae yn deilwng o sylw hefyd fod crygni gwneuthur yn perthyn i Jackyddiaeth, ac ystyrir cadw y llais i chwaraeu yn y gwddf yn bregethwraidd a chyssegregidig. Yr oedd Wil hefyd wedi cael gafael lled gadarn yn yr iaith; neu â dywedyd ychydig yn fwy ysgolheigaidl, yr oedd wedi cael gafael gref yn y *dialect* a'r *emphasis* jackyddol. Pan ddywedid rhywbeth wrtho, "Felly'n siwr," meddai Wil mewn atebiad; ac ym mhob dim, hyd y gallai, dilynai yr iaith ysgrifenyddol ac nid ein hiaith siaradol ni. "Pa fodd yr ydych

chwi yn ymglywed y boreu newydd hwn, y prydawn newydd hwn, neu yr hwyr newydd hwn?" ac ni all dim fod yn fwy lledchwith nag arfer y Gymraeg ysgrifenyddol yn lle y Gymraeg siaradol, ond pan fyddo un yn siarad yn gyhoeddus. Cymmerodd Wil ei frecwast, y golwythion, yr wyau, a'r cwbl; ac wedi brecwasta, eisteddodd ar gyfer y tân i ysmocio, a'i faglau wedi eu lledu bob ochr i'r tân, fel y mae yn achos o syndod na buasai wedi llosgi gan y gwres a ddyoddefai! Wrth ysmocio yr oedd yn siarad ac yn gwenieitho i wraig y ty, gan ddyweyd ei bod yn cadw ei hoedran yn dda, ei bod yn cadw y ty yn drefnus, ei bod yn cadw y plant yn gryno; ac mai plant braf oeddynt, ac yn rhagori ar blant yr ardal; yn codi un ar ei arffed, yn tynu ei law dros ben y llall, ac yn canmol y trydydd, ac yn gwelod rhyw rinweddau mawrion ar bob un; a chan ei fod wedi dysgu "*physiagogomy*" yn yr ysgol yn Lloegr, meddai Wil,

"Nid dan fy nwyllaw yr wyf fi yn dywedyd hyn; a phwy bynag fydd byw, gwelant eich plant chwi yn rhagori."

Yr oedd siarad Wil yn dotio'r fenyw fach, fel ag yr oedd yn corcio fel pioden ar hyd y llawr, ac yn edrych arni ei hun, yn edrych ar y plant, yn edrych ar y ty, yn edrych ar y celfi; ac wedi edrych gyda boddhad ar y cwbl, rhedeg i'r cwpwrdd bach ac arllwys eithaf glasaidd, a'i estyn i Wil, ac mewn ciliad dyma fe lawr trwy wddf Wil cyn attal dim yn ei redegfa!

Yr oedd Wil wedi tynu ei gynllun gyda golwg ar ei fol am y diwrnod, canys gwyddai yn dda ddiagon ym mha le yr oedd y tamaid goreu. Yr oedd gwidw yn cadw tipyn o siop ar ffordd Wil, ac yn chwaer wedi ymgyfammodi yn yr eglwys newydd; ac yr oedd Wil wedi clywed iddi ladd mochyn dydd Gwener, ac yr oedd pryfedyn ei wanc wedi meddwl

rhywbeth am y *sparerib*. Gwedi ymadael o'r "Reverend William Morgans, minister of the gosbel," a'i dy brecwasta, galwodd mewn amryw dai bychain, lle yr oedd brodyr a chwiorydd yr eglwys newydd yn preswyllo, er mwyn eu cadarnhau yn y ffydd; ond nid hir yr arosai ynddynt, canys yr oedd ei lygad ar dy y siopwraig. Nid oedd y widw yn ieuanc nac yn hen, ond rhywbeth rhwng y ddau—rhywbeth megys yn y canol—a dau neu dri o blant ganddi. Yr oedd yn fenyw serchogaidd, lon, a charedig, a phob amser ar ei gwên; ac yr oedd mynywetach a chrytsach yr ardal yn dyweyd dan eu dannedd fod tipyn bach o garu ar y widw, ac yr oedd rhyw arwyddion bychain yn cyfiawnhau y dyb hon hefyd. Ond gan nad beth am garu'r widw, yr oedd yn selog iawn dros Wil; a "Morgans" oedd y cwbl. Pan elai mam Wil i'r siop i ymofyn rhyw negeseuach, er pan ddaeth Wil adref o'r ysgol o Loegr, yr oedd hanner pwys o siwgr a dwy wns o dè yn fynych yn cael eu taflu ganddi i'w ffedog, a hanner cwarter o ddybaco *shag* Franklin i Morgans yn cael ei daflu bob amser i mewn. Yn odfaon Wil hefyd yr oedd y widw yn sefyll yn lled agos ato, yn canu yn selog anghyffredin, a gair Wil yn cael dylanwad mawr arni; ac er pan ddaeth Wil yn ol o'r ysgol o Loegr, sylwid ei bod yn gwisgo ei phluf goreu. Pan gyrhaeddodd Wil siop y widw, yr oedd hi yr ochr draw i'r *counter*; a phan welodd hi ef dyma ei llygaid yn dechreu gloewi, ac yn edrych mor flaenfain a nodwyddau, ac yn wên o glust i glust, a chan estyn ei llaw dros y *counter* i Wil, gofynai yn serchog ac mewn llais per a swyngar,

"Morgans bach, pa fodd yr ydych yn ymglywed? Gynnen yr oeddwn yn meddwl am danoch, ac yn beeso yn dost am danoch, rhag ofn eich bod yn glaf ar ol eich llafur caled.

Dewch i mewn, Morgans bach;" a chan ei arwain gerfydd ei law trwy fwlch y *counter*, hi aeth ag ef i'r *room* bach o'r tu cefn, ac a'i gosododd i eistedd yn y gadair freichiau, ac yno gollyngodd law Wil yn rhydd.

"Yn awr," meddai'r widw, "glasaid o beth yfwech chwi, Morgans? Gwedwch ch'i beth i ch'i'n leico, canys y mae yn rhaid i ch'i gym'ryd cwpwl o laseidiau, a nhw wna't ddaioni i ch'i sy'n llafurio mor galed. Ac 'rw'i 'n gweyd wrthoch ch'i fod yn rhaid i ch'i aros yma gyda fi i ginio a thrwy y prydawn, ac mi ddof fi gyda ch'i i'r cwrdd heno i Droed y Foel. Fel yr w' i'n gweyd y mae hi i fod, Morgans; a dyna llyna wedi cael ei settlo."

'Y machgen byw i, dyma Wil megys ar unwaith yn gweled amrantau gwawr ysblenydd yn ymagor o'i flaen, a themlodd ar unwaith ryw gryfder adnewyddol yn cael ei roddi yn ei fywyd. Wedi cymmysgu glasaidd da i Wil, ac wedi dyfod â phibell a dybaco iddo, perodd y siopwraig yn serchog iddo enjoyo ei hun, a'i bod yn myned i'r siop, ac na byddai yn hir cyn dyfod yn ol ato i ddala pen rheswm. Bu Wil am ennyd yn y *room* bach wrtho ei hun yn 'smocio ac yn cynmeryd dyferyn o'r glas, a'r widw yn twmbran yn y siop. Ym mhen ennyd daeth y widw yn ol i'r *room* bach â bwndel yn ei llaw, a chan edrych yn llon anarferol ar Wil, dywedodd wrtho,

"Wel, Morgans, gan fod Rhagluniaeth wedi eich rhoddi i ni, y mae yn rhaid i ni wneuthur yn fawr o honoch, ac ymdrechu eich cadw yn fyw; ac y mae yn rhaid i chwi ofalu rhag cael annwyd ar ol poethi a chwysu wrth bregethu mor dda ac mor galed ag yr ydychu chwi. Dyma ffwllwr cynhes i chwi roddi am eich gwddf pan fyddwch yn myned allan i'r awyr, a dyma bar o fenyg cynhes i chwi i roddi am eich dwylaw, a dyma *guff's* cynhes i chwi roddi am eich garddwrnau, a dyma neisied

sidan du i chwi i fynych wisgo, a dyma bedair neisied wen erbyn y Sabboth, a dyma dri hangcitsher poced i chwi—dau yn gyffredin ac un sidan erbyn y Sabboth; a dyma gwarter o ddybaco i chwi i ddfyru eich hunan gartref, a dyma hanner pownd o dc i'ch mam: ni allwch chwi ddim meddwl mor dda genyf eich gweled yma; a chofiwch chwi bod pob groesaw i chwi ddyfod yma pryd y mynoch, fel pe baech yn myned adref, ac y mae gwely segur i chwi pryd y mynoch."

Bless me, dyma lefel fawr yr holl drysorau o flaen Wil; ond er y cwbl, Miss Williams, y Berllan, oedd uchaf ar feddwl Wil; ond mewn gwirionedd yr oedd y siopwraig wedi estyn hirgam rhyfedd ym mlaen i'w serchiadau, ac wedi tynnu ei sylw yn neillduol felly.

Yr oedd y darpariadau gyferbyn â chinio yn dechreu arogi erbyn hyn—y fflowlyn a'r *sparerib*, yng nghyd â'r petheuach ereill oedd wedi cael eu parotoi i fol Wil.

"Mae'n rhaid i fi eich gadael eto am ychydig, Morgans," ebai y widw wrth Wil; "rwyf yn myned i'r loft i lanhau tipyn arnaf fy hun. Yr wyf wedi bod yn y siop trwy'r boreu, ac yr wyf yn gywilydd i fy ngweled; ni fyddaf yn hir cyn dyfod atoch;" ac ymaith â hi i fyny i'r grisiau mor droed ysgafu fel braidd y clywai Wil ei swu.

Rhy faith, ie rhy faith o lawer i fanlyu mewn maes mor eang a maes Wil a'r siopwraig, er ei fod yn orlawn o dywysenau breision a melusion: gwnaed y darllenwyr ddilyn eu myfyrdodau eu hunain a rhoddi eu dychymygion ar waith.

Ym mhen ennyd dyma'r widw yn rhwsianu lawr i'r grisiau, ac i'r *room* bach at Wil; a gwarchod pob dyn byw, yr oedd ei gwyneb yn dysgleirio, ei gwallt yn lloewthau trefnus, ei gwisgoedd yn hardd, a hithau yn edrych mor siriol a'r seren foreuol yn dyfod trwy borth y dwyrain.

"Now to the parlour, please, Mr. Morgans; dinner is waiting;" a fwrdd â hwynt i'r parlwr, dim ond Wil a'r widw ar ginio, a'r forwyn yn tendio arnynt.

Beth dâl chwalo? nid oes dim amser i adrodd helyntion y ginio, na *chit chat* y prydawn a'r tē, ond yn unig i'r prydawn gael ei dreulio yn llwyr gan Wil a'r widw yn y parlwr. Pan ddaeth yn amser i fyned i'r cwrdd gweddi i Droed y Foel, dywedodd Wil,

"Ni awn gyda'n gilydd i'r cwrdd."

Ond yr oedd y widw yn gyfrwysach na Wil, ac hi ddywedodd,

"Na, na, Morgans, y mae'r byd yn gegog, ac nid oes dim pen draw i siarad cleciod; mi ddeuaf fi ym mhen tipyn ar eich ol; ac am na chawn gyfle i siarad â'n gilydd eto heno, cofiwch i beidio â bod yn ddyeithr."

Wedi i'r widw osod y mwffler am wddf Wil, dywedodd,

"Morgans, mae rhywbeth wedi cwrdd â'ch gwyneb; mae man du arno, ac y mae eisieu ei lanhau."

Ymaith a'r widw, a dyma hi yn ol â dwfr mewn *basin*, a thowel gwyn ar ei braich, a thelpyn bychan o *perfume soap* rhwng bys a bawd. Rhwbiodd y *perfume soap* ar fan du Wil, ac wedi gwlychu y towel aeth i'w lanhau, a sychodd y fan. Mae rha'i yn barnu i'r weithred hon gael ei selio â chusan, os nad ag ychwaneg; ac y mae y forwyn yn gryf o'r farn hon; canys dywedodd wrth Twm i'r Bryn, yr hwn oedd yn y siop yn ymofyn gwerth ceiniog a dimai o hoelion cloes, iddi weled Wil yn cusanu ei meistres trwy dwll oedd yn y palis. Ond nid ydyw hyny yn fater o unrhyw bwys; canys yr oedd Wil a'r widw â'u dwylaw yn rhyddion i gusanu faint a synent. Mae dynion yn fusi iawn, ac yn rhy barod i wisgo'r bais goch a'r pastwn yng nghylech materion eu cymydogion, fel cusanu Wil a'r widw. Ffitiach i ddynion gau eu penau,

yn lle brathu eu tafodau i fusneson nad yw yn perthyn iddynt.

Pan gyrhaeddodd Wil Droed y Foel, yr oedd amryw o'r frawdoliaeth wedi dyfod yng nghyd; yr oedd Tomos y diacon wedi dyfod yno erbyn cinio, ac wedi bod yno ar dē, canys ni bu neb erioed yn y byd hwn â mwy o ofal am ei fol na Tomos y diacon; canys Sul, gwyl, a gwaith yr oedd efe â'i ben yn rhyw gafn heb ei gafn ei hun. Gwedi ymgynnull yn weddol gryno yng nghyd, darllenodd Tomos bennod ac acth i weddi; ac wedi iddo orphen, dywedodd fod ganddynt orchwyl mawr ac o bwys rhyfeddol i'w wneuthur y noson hono, ac mai y cam cyntaf oedd y cam goreu iddynt i'w wneuthur; eu bod yn barod wedi cyfansoddi eu hunain a ffurfio eu hunain yn eglwys yn ol y Testament Newydd, ond nad oeddynt yn eglwys gyflawn am eu bod heb swyddogion; nad oedd ganddynt eto un swyddwr rheolaidd yn eu plith ond efe ei hun; ei fod ef yn cynnal dwy swydd, sef ei fod yn henuriad llywodraethol, neu bresbyter, ac iddo gymmeryd y ddiaconiaeth drachefn yng nglŷn â hi; bod arnynt eisieu penodi gweinidog yn rheolaidd; gyda hwy yr oedd yr awdurdod nid yn unig i roddi galwad i weinidog, ond ei fod hefyd wedi cael ei ddarganfod yn ddiweddar mai galwad yr eglwys, a'i derbyniad gan yr hwn a elwid, oedd yn gwneuthur gweinidog; bod hyn yn dechreu cael ei ddeall yn awr; a chan fod yr awdurdod hon yn eu meddiant, y dylent ei dwyn i weithrediad, am fod angylchiadau yn galw am hyny, ac na ddylent mewn un modd oedi dim; ei fod ef yn cymyg ar fod i William Morgans gael ei alw i fod yn weinidog ar eu heglwys newydd hwy i'w bugeilio yn yr Arglwydd, ac i fyned mewn ac allan o'u blaen fel gweinidog ei gyfammod yn y lle. Ac os oeddynt hwy yn galw ar, ac yn penodi William Morgans

i fod yn weinidog iddynt, am iddynt ddyrchafu y llaw ddeheu.

I fyny â'r dwylaw deheu trwy holl gegin Troed y Foel, a sylwyd bod braich y siopwraig braidd yn uwch nag un fraich arall.

Dywedodd Tomos y diacon drachefn, os oedd yno neb yn erbyn i William Morgans fod yn weinidog arnynt hwy, fel eglwys newydd, am iddynt arwyddo hyny trwy godi eu dwylaw aswy.

Dim llaw aswy i fyny, mwy na phe buasent oll wedi cael eu hoelio â hoelion wyth wrth eu cyrff.

"Wel, wel," meddai Tomos y diacon, "dyma hi yn braf a chysurus iawn; a ydych chiwi, William Morgans, yn derbyn galwad unfrydol yr eglwys hon?"

"Ydwyf," meddai Wil, mor iach a'r cricsyn.

"Dyma William Morgans yn weinidog i ni," meddai Tomos y diacon; "yn weinidog rheolaidd i ni yn ol y Testament Newydd, a chaiff ei gydnabod felly eto pan fyddom yn agor ein capel newydd. Ni awn yn awr i weddi i ofyn bendith yr Arglwydd ar ein gwaith;" ac felly aeth yr hen Dwm yr ail waith i weddi.

Erbyn ei fod ar ei draed dyma Tomos y diacon drachefn yn agor ei eneu, ac yn dywedyd ei fod ef mewn angen o gynnorthwywyr i fyned ag achosion yr eglwys newydd ym mlaen, a bod eisieu dau ddiakon yn ychwaneg; a'i fod wedi bwrw golwg o amgylch am ddau addas i lanw y swydd ddiaconaidd o ran eu gwybodaeth, eu profiad, eu pwyll, a'u cynhwysderan. "Ac yr ydwyf hefyd wedi bod yn ymofyn yn daer am feddwl yr Arglwydd, ac yr wyf wedi cael fy arwain mewn modd neillduol at y brodyr John Jones, y Pant, a Jenkin Jenkins, Troed y Foel, fel cynnorthwywyr i mi yn y swydd ddiaconaidd. Beth ddywedwch chiwi, William Morgans? canys chiwi yn awr yw ein gweinidog."

Atebai Wil eu bod ym mhob ystyr yn bersonau addas, ac y dylasant fod yn y swydd er ys blynyddoedd.

Ond y gwir yw, dau lo oedd Sion a Siencyn, ac ni allai Sion ddarllen un gair, na Siencyn braidd un gair yn briodol.

Gofynai Tomos i Sion a oedd ef yn foddllawn i fod yn ddiakon.

"'Rw' i yn ddigon boddllawn," meddai Sion.

"'Rw' innau felly," ebai Siencyn.

"William Morgans," ebai Tomos, "neillduwch y ddau trwy weddi i fod yn ddiaconiaid i'r eglwys newydd hon."

Ni fu Wil fawr o dro cyn neillduo, a gwneuthur y ddau fwnci yn ddau lordyn o ddiaconiaid: aeth trwy'r gorchwyl gyda'r fath fuandra a phe buasai yn rhifo ugain am y cyntaf.

"Wel, wel," meddai Tomos y diacon, "y mae pethau yn myned ym mlaen yn hwylus, yn gysurus, ac yn unfrydol iawn yn ein plith; ac y mae yn amlwg iawn bod yr Arglwydd gyda ni fel eglwys newydd. Ond y mae eisieu settlo swyddwyr ereill eto."

Yr oedd yr hen Domos yn gall yn ei genedlaeth, canys yr oedd yn ei gweled hi; a gwyddai o'r gorreu mai swyddogaethau ydoedd seiliau myned a llwyddiant Sectyddiaeth, ac efe a benderfynodd roddi yr eglwys newydd ar y seiliau hyn.

"Mae yma bethau eto," meddai Tomos, "i'w settlo;" ac yn settlo yr aeth, ac yr oedd yr holl *settlement* ganddo ef ei hun. Yr oedd Wil, y gweinidog, a'r ddau ddiakon newydd, yn ddynion yr hen Domos. Etholwyd a settlwyd crydd *number one* i fod yn arolygydd yr Ysgol Sabbathol, a'r crydd *number two* i fod yn holwr ac yn esboniwr, yr hyn a gredai efe ei hun ei fod. Rhowd y swydd o ddechreu canu i un, y swydd o gyhoeddi i'r llall, a gosodwyd un arall yn y swydd o ysgrifenydd, a phenodwyd y teiliwr i fod yn *drotting man* i'r swyddogion creill.

Wedi y penodiadau i'r swyddog-aethau hyn, "O wel, wel," meddai yr hen Domos, "y mae cisieu cael trysorydd eto, ac nid wyf fi yn gwled neb yn fwy addas i'r swydd hon na ———, fy mab i;" a phenodwyd ei fab yn uniongyrchol i'r swydd.

"Wel, wel," ebai Tomos drachefn, "dyma ni wedi myned ym mlaen mor belled a hyn yn rheolaidd ac yn gwbl ysgrythyrol, ac y mae arwyddion amlwg o foddlonrwydd yr Arglwydd arnom; ac yn awr ni awn ym mlaen â'r cyfarfod gweddi. Jenkin Jenkins, a welwch chwi fod yn dda i fyned i weddi?"

Ni chlybuwyd Siencyn erioed yn beichad yn gyffelyb i fel y gwnaeth yn y teimlad o'i swydd ddiaconaidd newydd, ac odid i neb erioed glywed y fath gabarlas o eneu dyn; ond yr oedd ocheneidiau gydag ef, er bod yn ddigon hawdd adnabod mai rhai oeraidd a rhai gwneuthur oeddynt. Ar ol Siencyn, perwyd i John Jones, y Pant, fyned dipyn i weddi gan Tomos y diacon o hyd; a thyma Sion yn bwrw arni yn ffyrnig, ac yn cadw mwy o 'stŵr o lawer na Siencyn, ac yn son braidd bob yn ail air am y "mawr lwyddiant gymmerodd le heno yn ein heglwys newydd," ac am i'r cwbl fod dan fendith, ac iddynt hwythau, fel swyddwyr newydd, i gael llawer o nerth i actio fel y dylent actio. Gorphenodd y cwrdd, ac fe aeth pawb adref; ond arosodd Tomos y diacon i gael ei swper yn Nhroed y Foel.

Yr oedd y swyddogion newyddion yn myned adref o gyfarfod Troed y Foel dan y teimlad o'u bod yn ddyinion; i.e. yn ddyinion pwysig—yn ddyinion trymion, ac yn swyddogion o bwys yn yr eglwys newydd. Yr oeddynt yn lloned eu brethynau o ddyinion, ac wedi ymlenwi o wynt, ac yn siarad â'u gilydd am y pethau mawr oedd wedi cymmeryd lle yn Nhroed y Foel; eu bod yn rheolaidd

ac yn ysgrythyrol anghyffredin; na elai eglwys erioed ym mlaen yn fwy rheolaidd ac ysgrythyrol; ac y byddai yr eglwys newydd hon yn llwyddiannus yn fuan, ac y byddai gwawr rhyfeddol arni.

Wedi cyrhaeddyd adref, eisteddodd Sion y Pant yn lordaidd iawn yn ei gadair wrth y tân; ond nid oedd yn siarad fel arferol, ond chwythu, llanw ei fochau, ac yn gwneuthur rhyw swm cau yn ei wddf. Dywedai rywbeth yn ddoctoraidd iawn am swyddogion eglwysig, a bod eu gwaith yn fawr, a llawer o ddysgwyl wrthynt. Yr oedd Siani y forwyn yn taflu golwg yn fynych arno; yr oedd hi wedi deall bod rhywbeth wedi cymmeryd lle gyda golwg ar Sion, am ei fod wedi myned yn gymmair pwmp o ddyn ar unwaith. Gofynodd i Pali pa beth oedd wedi cymmeryd lle mewn perthynas i'w meist; "o herwydd y mae rhyw altrad disymmwrth arno."

"Dim byd yn neillduol," atebai Pali, "ond bod llawer o bethau wedi cael eu settlo heno yn Nhroed y Foel; mae swyddwyr newydd wedi cael eu gwneuthur, ac y mae Sion wedi cael ei wneuthur yn un o'r diaconiaid yn yr eglwys newydd, ac y mae hon yn swydd bwysig iawn, ac y mae yn gwasgu yn drwm ar feddwl dy feistr."

"O felly," ebai Siani, "ac y mae 'meistr wedi cael ei wneuthur yn lordyn yn eglwys Wil! Nid rhyfedd ei fod wedi altro ar ol cael *office*. Hawyr anwyl, hawyr anwyl! pa beth ddaw o'r byd? Yr ydych yn ffitiach gyda'ch gilydd i fod mewn *asylum* na'ch gadael yn rhyddion i fyned o fan i fan ac o dy i dy i gynnal eich *rallies* fel yr ydych. Cofiwch chwi, 'meistres, fy mod i yn eich gadael ym mhen y mis, canys yr wyf fi wedi blino yn llwyr ar eich cawdel chwi a Wil."

Yr oedd Wil yn methu yn lân â chysgu cydrhwng pob peth y nos-waith hōno yn Nhroed y Foel. Yr

oedd yn gweled Rhagluniaeth yn amlwg eto yn chwareu o'i blaid; ond y pethau uchaf ar ei feddwl oedd Miss Williams, y Berllan, a'r widw. Yr oedd yn gweled y widw yn ei law; ond yr oedd yn well ganddo gael Miss Williams yn ymgeledd gymhwys iddo. Dim cysgu ond troi a throi yr oedd yn ei wely trwy gydol y nos, yn planio fel hyn ac yn planio fel arall; ond erbyn y boreu, penderfynodd ysgrifenu llythyr drachefn at Miss Williams. "Canys pwy wŷr," meddai Wil, "na lwyddaf y tro hwn?"

Wedi codi boreu dranoeth ac wedi brechwasta, ymgymmerodd Wil â'r gorchwyl o ysgrifenu at Miss Williams, a dyma gopi o'r llythyr:—

"At troed y fol march

"My deer Splended yung ledy

"i Rite to you agen For i cannot Stop the luv of my hart From Spring up. luv my ledy is like the well near the jurch caled ffynon fair, Spring up in the winter spring up in the Sumer and spring up always thro the ise when Frost and every Thing. i heer luv to you in my hart poking and poking i in the Bed in the hows and in the Pwlpid. i sea you before i every where and never end of see you now i am coming on Splended and they make i minister of the new jurch at the trod y fol and so i have now A jurch myself and they wil bild a jappel to me and until the jappel is bild i breech at the barn of pant. so you see my ledy that i am in the way of coming a big man. but my lov to you is bigger than any thing and every Thing is nothing By the side of my luv to you. you nho sumthing of the twthac is the twthac always in the twth. And my lov to you is for ever in my heart. i Be good husband to you my loving ledy and no disgras to you to be the wife of a Minister of the gosbel. and if you Marri i you can go to the

jurch as before if you dont joyn and belong to my new jurch. i wil not say won wurd against you go to jurch, and if you want i beter to be breest i go brist in a minit For i lov you like a jild luv his mother. luv i my ledy and i be happy then. And dont care a Nut for any won in the whwl world. send to i to tel i that you luv i And be the wife of i and i marri you at wans in silens in the offis of the register and this is best and your father wil forgiv us after the nhot is safe and sound. send a line to i saying you luv i and marri i the reverend William Morgans minister of the gosbel in the new jurch."

Anfonodd Wil y llythyr hwn i'r Berllan yn uniongyrchol ar ol iddo ei ysgrifenu, gan gredu y buasai yn llwyddo yn ei amcanion; ond yr oedd gan y dydd Mawrth hwn ddrwg yn 'stôr i Wil cyn y buasai ei haul yn machludo.

Ar ol cinio, ymadawodd Wil â Throed y Foel, ac a wynebodd tuag adref. Yr oedd yn myned trwy heolan a'i feddwl a'i fyfyrdod yng nghylech llwyddiant ei lythyr at Miss Williams; ond â phwy y cyfarfu yn ddisymmwrth yn yr heolan gul, ond â Mr. Williams y Berllan ei hun. Brawychodd Wil oll trwyddo, canys gwelai wrth wyneb-ryd Mr. Williams fod drwg yn y nyth. Cynnygiodd Wil fyned heibio iddo yn lled ddiseremoni; ond nid felly, canys trodd Mr. Williams ei geffyl yn groes fel na ellai fyned heibio.

"Wil," ebai ef, "a oes genyt ti dim i gwneyd ond hala dy llythron impudent at 'merch i? Cas un heddyw ac un o'r blaen oddi wrthyt ti, y whiugi segur; a gallaf i dy gymmeryd fyny am dy gwaith, ond nid wyt gwerth dy gym'ryd fyny, ac yr wyf yn myned i talu di ffordd arall."

A chyda fod y gair allan o eneu

Mr. Williams, dyma'r *horsewhip* yn disgyn ar gefn y "*minister of the gosbel*," ergyd ar ol ergyd yn dyludo arno, ac yn dolenu am ei fol, a Wil yn gwaeddi ac yn ysgrechain fel ellyll, nes oedd ei uban yn ddychrynllyd i'w glywed!

"Dim digon o tâl i ti eto, Wil, am 'sgrifenu dy *impudence* at 'merch i, a chymmer cwppwl eto."

Gwanafu ar ol gwanafu yn ddi-drugaredd yr oedd Mr. Williams ar gefn Wil, ac o dan y fflangellau dringodd i ben clawdd yr heol er mwyn diengyd trwy'r berth; ond yn

anffodus, aeth Wil yn sownd yn y berth fel na allasai na myned yn ei flaen na dyfod yn ei ol. Yn ei gyfwnng hwn, rhoes Mr. Williams yr *horsewhip* drachefn i'w gyfarch, ac yntau yn udo ac yn brefu fel asyn. Wedi i Mr. Williams ffino, ac wedi iddo feddwl fod Wil wedi cael digon o'r moddion yr oedd efe yn eu gweinyddu iddo, efe a beidiodd, ac wrth ffarwelio â Wil, dywedodd wrtho,


"Dyna, Wil, i ti flas y moddion gei di eto os bydd i ti hala llythyron at 'merch i."

XIV.

CHWAREU teg i amynedd, dyoddefgarwch, pwyll, a rhinweddau Cristionogol Wil, efe a gymmerodd y grasfa a gafodd gan Mr. Williams o'r Berllan yn ddystaw anghyffredin, ac ni agorodd ei foch wrth neb am dani, ond gymmaint a ddiengodd allan o eneu Mr. Williams ei hun.

Yr oedd yr ardal erbyn hyn mewn berw anghyffredin cydrhwng y ddau achos sectyddol perthynol i'r un enwad—y ddwy eglwys, sef hen eglwys Mr. Evans ac eglwys newydd yn ysgubor y Pant, ac yn neillduol yr oedd y berw crefyddol yn fwy am fod diwygiad mor nerthol wedi hopo allan yn y ddwy eglwys ar yr un pryd! Yr oedd casineb, dygasedd, a llid dieffig ynddynt at eu gilydd, ac hwy chwennycent ysgyrioni, bwyta, a llyncu eu gilydd yn fyw; ond ar yr un pryd yr oeddynt yn selog iawn, pob plaid dros ei hachos ei hun, ac yn barod i wneuthur pob aberthau dros ei llwyddiant. "Yr achos, yr achos" oedd yng ngeneuau y ddwy blaid, ac hwy erlidient eu gilydd yn ddiarbed, a dirmygent a gwawdient eu gilydd, ac a ddywedent gelwyddau ar y naill y llall yn frydiau diorphwys; ac yr oeddynt ar yr un pryd yn y teimladau, a'r blinderau, a'r gwasgfeunon mwyaf, o

blegid fod y byd annuwiol yn cymmeryd achlysur, oddi wrth eu bod hwy yn methu cydweled, i wawdio crefydd. Yn eu cyrddau hwy ddiolchent am dipyn o wawr, am dipyn o lewyrch, ac am dipyn o lwyddiant ar yr achos; ac am y pleser oeddynt yn gael gyda'r gwaith, ac am fod y nefoedd yn gweled bod yn dda i roddi bendith arnynt! Yr un gân oedd gan y ddwy blaid gyda'u gwa-hanol achosion, a gallesid meddwl wrth eu clywed mai y dynion duwiolaf a mwyaf cydwybodol ar y ddaiar oeddynt. Y mae Sectyddiaeth yn arswydus i feddwl am dani yn ei rhagrith!

Yr oedd Wil wedi dygwydd cyfarfod yn rhywle, yn yr wythnosau blaenorol, â Mr. Jones o'r Garth, un o aelodau Mr. Davies, gweinidog Salem, ac yr oedd wedi cael cyhoeddiad Wil i bregethu yn y Garth y nos Wener canlynol. Y mae llawer o ddirgeledigaethau mewn ceisio a chael cyhoeddiad heb law derbyn yr arch i'r ty, a chynnal yr achos, yng nghyd â phethau cyssegredig ereill; ac ym mhlith y dirgeledigaethau hyn, nid y lleiaf yn fynych yw speito y gweinidog sefydlog yn y lle. Yr oedd Mr. Davies yn fyfyrwr yng Ngholeg , a rhoed galwad

braidd unfrydol iddo i ddyfod yn weinidog i Salem. Yr oedd yn ddyd ieuanc *smart*, glân, a thipyn o'r gwr boneddig ynddo; bob amser ar ei wên, ac yr oedd dipyn yn ddawnus yn. nosbarth y *small talk* yng nghymdeithas y *ladies*. Rhoddwyd galwad i Mr. Davies, ac efe a ymsefydlodd yn Salem; ac yr oedd yn boblogaidd yn yr ardal a'i hamgylchoedd, a derbyniodd gwresog a serchogaidd iddo yn nhai yr aelodau, ac nid oedd dim i'w glywed yng ngeneu y Salemiaid ond "Mr. Davies ni" i fyny, "Mr. Davies ni" i waered, "Mr. Davies ni" yn pregethu yn y cwrdd cwarter, "Mr. Davies ni" wedi ffusto gweinidog Kirjathjearim i bregethu yn y fan a'r fan; mewn gair, nid oedd un gweinidog na phregethwr ar wyneb yr holl ddaiar yn werth son am dano, ond "Mr. Davies ni!" Wel, yr oedd gan Mr. Jones y Garth ferched ieuainc ar ei law yn y Garth; yr oedd gan William y Fron dair o ferched ieuainc ar ei law yn y Fron; yr oedd gan Dafydd y Dolau hefyd ddwy neu dair o ferched ieuainc ar ei law yn y Dolau, ac yr oedd amryw o aelodau ereill â chanddynt ferched ieuainc ar eu dwylaw, ac yr oedd yr hen *fathers* yn gweled cyfheusdra braf i un o honynt fod yn wraig i Mr. Davies; ac y mae yn fwy na thebyg nad oedd gan yr un o ferched Salem y gwrthwynebiad lleiaf i fod yn reverendes Salem, ac felly i gyd-ddwyn y iau gyda Mr. Davies, heb law dwy neu dair o widwod a edrychent dan eu bargodion arno. Ond Mr. Jones o'r Garth oedd y ffermwr cryfaf oedd yn belongo i Salem; efe a flaenorodd yn yr alwad i Mr. Davies, ac yr oedd yn bleidiwr gwresog iddo; ac yr oedd Mr. Davies yn treulio diwrnodau yn y Garth, ac yn ddiau wedi meddwl ei gynnysgaeddu ag un o'i ferched i fod yn ymgeledd gymhwys iddo; ac os gwir y chwedl, yr oedd pob un o ferched Mr. Jones

am fod yn ymgeledd gymhwys iddo yn ei daith trwy yr anialwch. Yr oedd merched Salem rywbeth yn ofnus o herwydd dylanwad merched y Garth, ond ni wyddent pa un o honynt oedd yn nesaf ym mlaen. Aeth yng nghylch tair blynedd hebio fel hyn heb un argoel yn y byd fod Mr. Davies â dim pwys arno i fyned i'r ystâd briodasol, er cymmaint a ddywedai y chwiorydd ieuainc wrtho yr elai yn hen lanc, a'i bod yn ddiflas iawn arno mewn lletty gyda dyeithriaid; ac y byddai yn well iddo gael ty ac aelwyd ei hun, a phriodi, na bod yn y cyffwr diflas ac unig yr oedd ynddo. Ond meddent, "Nid oes neb yn yr ardal hon wrth eich bodd, mae'n debyg, er cymmaint sydd yma o honom; shwt yr ydych mor anhawdd eich pleso? Mae merched go *smart* yma."

Ym mhen ychydig, dyma'r newydd yn tori allan, ac yn ymdaenu fel tân gwyllt trwy yr ardal, fod Mr. Davies wedi priodi â merch ieuanc o sir —; ac yn nhwrf y newydd, dyma rhyw gynnifer o dadau, a mamau, a merched yn gweddnewid, a pheth siarad gwawdlyd a dirmygus yn dyferu o'u geneuau am y *lady* bell oedd Mr. Davies wedi briodi. Daeth Mr. Davies adref nos Sadwrn; a phan aeth i gapel Salem boreu'r Sul, oerllyd iawn oedd penaethiaid a phendefigion y gynulleidfa ato—y gwragedd yn edrych dipyn yn sur a'r *ladies* yn *scornful* iawn. Dim gwllhyn yn syrthio ar neb trwy yr holl gyfarfod; pawb yn ymadael yn gwta ar derfyn yr oedfa; neb yn ei wahôdd i ginio nac i'r Garth, nac i'r Dolau, nac i un man arall. Yr wythnos ganlynol, rhyw siarad fel y canlyn oedd rhwng y brodyr a'r chwiorydd pan gyfarfuent â'u gilydd:—

"Garw y fath wr boneddig y mae Mr. Davies wedi myned! Mae wedi anghofio mai ni a'i gwnaeth yn gymmaint o ddyd! Y mae wedi anghofio mai ni sydd yn ei gynnal!

Ni fuasai fawr iddo ddyweyd wrthym ei fod yn myned i briodi! Rhyfedd y fath dalment y mae wedi roddi i ni am ein holl garedigrwydd iddo! Ond gallwn ni fywystal hebddo a byw gystal ef! Mae rhai ereill i'w cael cystal, os nid gwell, pregethwr nag ef! Siawns na chaiff ef weled tro yn fuan! Rhaid i ni blygu a gostwng hyd lawr i'r *lady* pan ddaw yma."

Ni theimlodd neb yn fwy siomedig na Mr. a Mrs. Jones o'r Garth, a'r *ladies* ieuainc, o blegid priodas Mr. Davies, ac efe a benderfynodd ymddial; ac ar yr un pryd, yn ei gyfrwysdra, efe a benderfynodd i wneuthur Mr. Davies yn dwlsyn er rhywddhau y ffordd i'r dial fod yn sicr o'i gyrrhaeddyd. Anfonodd Mr. Jones wahoddiad at Mr. Davies i ddyfod i'r Garth nos Wener i gyfarfod â Morgans, am fod arno eisieu mawr i'w gweled eill dau gyda'u gilydd. Aeth Wil i'r Garth, aeth Mr. Davies i'r Garth, a llanwyd cegin fawr y Garth o bobl; ac o ddiffyg lle yn y gegin fawr, yr oedd y parlwr wedi cael ei agor, a'r goreuon yn cael eu gwahôdd yno, a'r *handboards*, a'r llestri têt, a phob *ornaments* yn y golwg.

Wel, dechreuodd Mr. Davies yr oedfa, a gweddiodd yn serchog a charedig dros Wil, a rhoes garacter anghyffredin odda iddo i'w Greawdwr, ac a ddiolchodd yn wresog iddo am yr holl gythrwfl a'r terfysgoedd annuwiol yr oedd Wil wedi eu gwneyd yn barod, ond yn unig ei fod yn galw cythreuldeb Wil yn lwyddiant ar yr achos goreu! Pregethodd Wil bregeth y *wheel* iddynt, a gwaedda fel asyn, a chafodd gryn ddylanwad; aeth y bobl yn fywiog ac yn gynhes; rhoid yno amenau yn fynych; dyblwyd y canu yn dda ar y diwedd, a deuai y bobl, yn frodyr a chwiorydd, yn mlaen i siglo llaw yn serchog â Wil; ond rhywbeth yn sychlyd, yn oerllyd, ac oddi draw â Mr. Davies. Deuai y *ladies*

ieuainc ym mlaen a siglent law yn serchog â Wil, ond troent eu cefnau at Mr. Davies fel pe buasai pla y gwahanglwyf arno ar ol ei briodas. Yr oedd yn amlwg bod Wil wedi ymwithio i raddau i serchiadau y bobl, a bod "pregeth y *wheel*" wedi ymaflyd yn eu cyflyrau. Yr oedd Mr. Davies, yn awr ac yn y man, yn dyrchafu ei lygaid ac yn edrych ar Wil pan fyddai yn wheelo dipyn yn hwylus; ond yr oedd myn'd yn y bregeth, ac nid yw pregethu yn boblogaidd ond pan fyddo digon o wheelo yn cymmeryd lle.

Trefnwyd y noson hônno, gan fod eglwys ysgubor Sion y Pant wedi cael ei ffurfio a'i chyfammodi, a Wil wedi cael ei wneuthur ac wedi cael ei awdurdodi i fod yn weinidog iddi ac yn fugail arni, ac er mwyn dangos i fyd ac Eglwys fod yr hyn a wnaed yn ysgrhythrol ac yn apostolig, a phenderfynwyd fod Mr. Davies i fyned i dori bara i ysgubor y Pant dydd Sul, a bod Morgans i aros yno i dori bara yn Salem. Ni welodd Mr. Davies ddim o ewin fforchog cynllun Mr. Jones, canys unig ddyben y Jones o'r Garth oedd cael gwared o'r Davies tra fyddai efe yn blaenllymu y fradwriaeth yn ei erbyn.

Yr oedd Mr. Davies yn llidus wrth Mr. Evans, ac yr oedd am gael cyfle i ddial arno. Mae llawer iawn o bregethwyr, mae'n debyg genyf, yn digio, yn chwythu, ac yn chwyrnu yn enbyd os na byddant hwy yn cael pregethu yn y cyrddau cwarter ac yn y cymmanfaoedd, a dywedir eu bod yn chwarcu pêl y pregethu yn y cyrddau cwarter a'r cymmanfaoedd yn lled gyfrwys. Dywedir mai fel y canlyn y mae'r chwareu hwn yn myned ym mlaen:—Gŵyr y gweinidog lle byddo y gymmanfa yn cael ei chadw y flwyddyn ddyfodol, yr ail flwyddyn, a'r drydedd flwyddyn; ac yn ol y *speculation* hyn, bydd gweinidog y capel y bydd y gymmanfa yn debygol o gael ei chadw ynddo,

i gael ei benodi gan y gweinidog i bregethu yn ei gymmanfa ef eleni. Y canlyniad fydd, i'r gweinidogion y naill ar ol y llall i'w benodi yntau i bregethu yn eu cymmanfaeodd hwythau. Digiodd Mr. Davies wrth Mr. Evans am na chawsai bregethu yn ei gwrdd cwarter, a phenderfynodd i ymddial y cyfle cyntaf a gawsai. Boddlonodd yn rhwydd i fyned i dori bara i'r eglwys newydd yn ysgubor y Pant; a phrydnawn dydd Sadwrn efe a gyfrwyodd ei asyn, a thua'r Pant ag ef, lle y derbyniwyd ef a'i asyn yn llon ac yn serchog gan Sion a Phali.

Ni chymmerodd dim yn neillduol le yn ysgubor y Pant; yr oedd yr eglwys gyfammodol newydd yn y lle; Tomos y diacon fel rhyw Wellington yn ei holl fawredd ym mhlith ei swyddogion, a Sion y Pant, a Siencyn, Troed y Foel, yn edrych fel pe buasant mewn rhyw serchiadau mawrion â hwy eu hunain, a'r ddau yn myned trwy eu swyddau fel dau fabŵn! Yr oedd eglwys newydd ysgubor y Pant yn falch iawn bod Mr. Davies, Salem, wedi dyfod i dori bara iddynt fel hyn y Sul cyntaf ar ol iddynt ymgorffoli yn eglwys; a bod Wil yn cael ei gydnabod fel gweinidog gan eglwys Salem, ac yno yn tori bara yn lle Mr. Davies. Yr oedd pob peth yn myned ym mlaen yn rhagorol o lwyddiannus, a holl aelodau eglwys ysgubor Sion y Pant wrth eu bodd y noswaith hono ond y widw, sef y siopwraig, yr hon a ddywedasai y buasai yn well ganddi glywed Morgans yn pregethu na chlywed Mr. Davies, am fod y Morgans yn drymach pregethwr na'r Davies.

Yr oedd amryw o wags y dref yn y llysdyn pan oedd treial Wil a Dai Luke yn myned ym mlaen; ac wedi gweled ei fod yn dwlsyn pwrpasol megys yn eu dwylaw i gael rali iawn, aethant ar ei ol i'r Fflam an' Fflam. Wedi ychydig o siarad, dywedasant fod eisieu arnynt hwy ac ereill i gael

darlith, ac nad oeddynt yn gwybod am neb yn gymhwysach nag ef i'w thraddodi, os byddai efe mor gymmwynasgar a gwneuthur hyn. Fe addawodd Wil i draddodi darlith; ac argraffwyd yr hysbysiad canlynol, yr hwn a welid yn aml ar y drysau a'r parwydydd:—

“A Lecture will be delivered at the Town Hall, Llanuchllethpan, on Friday Evening, the — day of —, in the year 186—, on LOGIC, by the Reverend William Morgans, Minister of the New Church now assembling at the Barn of Pant.”

Aeth Wil i'r dref ac i'r Town Hall, yr hwn oedd wedi ei lenwi o'r pen bwygilydd, canys dim ond ceiniog y pen oedd y pris am fyned i mewn. Wedi dewis cadeirydd a myned trwy y defodau arferol, galwyd ar Wil i draddodi ei ddarlith; a chyfododd Wil ar ei draed, a dechreuodd:—

“I very hot here, and windows is shut. I will not keep you long— Now then suppose we do begin by sing a *englyn*—sing all on you—in every hole and corner, sing long and loud—It is a little *englyn* i did compose myself in praise of the Great Logikian, Thomas Morgans: so sing all—

Tomos in him grave timid—am was he
Say him prayers liquid;
On mam's lap his sap is hid,
He was prop death stop stupid.

“There, very good you sing uncommon! and I do like to hear the Messo Sopranos of our strength men mixing so genteel-like with the Basso relieves of the nice little girls that I do see round about me on the present lively meeting. Now then, my dear friends, as you be aware, the point of my Lecture to-day is LOGIC. Now you do know all on you what is logic—praps—and praps you don't—the odds is that iss more nor praps you don't—well, i will tell you what is logic—logic is the

science of reasoning. It was first discovered by Potiphar's wife, on the banks of the Nile, in the County of Tiperary, two days after the dispute between Methusaleh and Confucius about a little house. Now I will give you a instance. You do know that a house has not the power to move itself—a chappel is a house, *ergo*, the chappel cant move itself. A man has the power of move, the chairman is a man, *ergo*, the chairman can come to the Town Hall, but the Town Hall can't move and walk after the chairman—you do understand now?—I dare say you don't, for you cannot hold splendid ideas; but you come to hold them *bye and bye*—Now as I do give this Lecture in the Town Hall for the good of you every one, I will stretch to be plain with my text—I will also call your observe to the 30th Chapter of the Prophecise of the king and prophet Solomon, and in the 26th verse: you will find (if you look) these words:—'Coneys is a feeble folk, but they do make their houses in the rock'—Now then, you people of this town, I dare say you do not know what is Coneys! well, I be sure you don't—so I will tell you at once in few following words what is Coneys—Coneys is Rabbits—you do know what is Rabbits, don't you? Well, Rabbits is little creature that do run on the top of the mountains—when they are on mountains—and don't run there when they are not there! There now, that's what is Rabbits—

“Now for the further light of my subject, and to prove by logic what is Rabbits, it is need to tell you what is not Rabbits. Well, now a rabbit is not a helephant! there is a great ods between a rabbit and a helephant. There is a three ods between them: 1st, there is a od in make of them; 2nd, there is a od in size of them; 3rd, there is

a od in their ways. Now, my dear friends, follow me close and don't lost a word of what I speak. 1st, there—there is a od in make of them. Rabbit is not so kind a hanimal nor the helephant—for the helephant do bend his behind legs in and go on his knees like a man,—but the rabbit do sit on his behind legs on the top of his bottom! So you see that in the point of make, a rabbit is not a helephant. Again a rabbit is not a helephant, or as the immortal Greek bard Pythagoras says in his Christian Elementary Philosophy—

‘Helephantus biggerus nor rabisus.’

Helephant is bigger nor the pony Jack I come on his back here; iss, bigger nor Barclay and Perkins' horse—Indeed, some time ago I did see Van Amburgh is helephant go on the way in a town in England with two men on the top of him—one man on the top of his head and one man on the top of his tail, and on that night I was go to supper to a friend—and I did eat myself a rabbit, and it was nice go down to my belly—I could not eat a hanimal who can carry two men on the top of him head and one man on the top of him tail; and eat a rabbit is enough to prove for ever that rabbit is not helephant.

“Again there is a ods in their ways—rabbit go to his hole, but helephant got no hole to go; and indeed helephant is very wise hanimal, for whether he do lie down to sleep, or get up to wake, he always carry his trunk before him—never behind him. I do know some people when they come to your town here to market on the Saturday—they come to the public, to the Plough, and Angel, or to the Welcome, and take drop here and take drop there, until they forget trunks and tails; but helephant never forget, so you now do see how is that logic go to

prove the great point that rabbit is not a helephant.

"Rabbit is not orse. There is a big ods between a rabbit and an orse: an orse is a baste to carry things, by which I do mane to say that an orse is hanimal that can carry a big bag of malt on his back to make ale and porter for people to drink to one anothers; or again, a orse is a creature than can carry farmers with butter, and apples, and heggs, and ducks, and gooses, and other things, and the wives of the farmers to sit on it to go to the market to sell; and so to have the money to go to the shop to buy calico, starch, sugar, Bath bricks, gimlets, tregle, ribbons, soap, shawls, testaments, and lollypops, and then go home with them for the use of the people at home. Now then you put the panniers on the back of the rabbit—he do whip away, and run jumping until the hind part is up, and you go until you catch him again. Well after katch him, tie him under panniers—let farmer's wife sit on him and she will bend him down, and double him up, and brokit his bones—She can't brokit the bones of an orse—but be able to brokit the bones of rabbit is prove logically that rabbit is not an orse. Not a bull, nor an oxen, nor a dog, nor a cat, nor a *llygoden* is rabbit; but rabbit is rabbit, and I do hope that every body in this great meeting do believe these big matters, that rabbit is rabbit.

"There is a little hanimal very like the rabbit—the hare. There is with the hare two long ears on the top of his head so long as the rabbit. The rabbit got a little tail turn up white on the top of his bottom—so got the hare. The hare got two short very leg before and two long

behind leg, so got the rabbit; but the rabbit is not a hare—nor is a hare a rabbit—indeed to goodnes there is a very great ods between a rabbit and a hare; for the one do make his house in the rock, and the other do make his bed on the field or on the hedge, &c. When the hunting people do come, the little rabbit will be in his hole while they do ketch the poor hare. Same marks on people who look to be good as on those who is good-wicked people take on them to believe as good people, the same as we the good people; but on the last day when the huntsman of the land and the ten greyhounds of Sinai do come to hunt, when they be let loose from the ropes, and the huntsman to cry, 'See ho,' they will run down the hare and kill him for ever. But when the dogs come to the rocks, where will be the little rabbit? On that tuft of dock leaves on the top of the rock? No, in the hole! What, don't see I her there on that bed of flowers? No, is in the hole!! Don't see I her there eat that clovers? No, is in the hole!!!—Well, my dear friends, mind whatever you do, keep the hole open for you to run to it. The Lord make you rabbits every one of you. So good bye now whatever—and you Shôn, Glan Corgi, go and get my pony Jack out, for I be in a hurry to go to supper."

Darfu i'r ddarlith hon goroni Wil ag anrhydedd yng nghymydogeath, ac yn neillduol o fewn cylch, eglwys ysgubor Sion y Pant. Yr oedd wedi traddodi y fath ddarlith yn Seisoneg na chlywodd boneddigion Llanuchllethpan y fath Seisoneg mor odidog erioed! Yr oedd yn ddyn mawr, heb ei gyffelyb ar y ddaiar.

XV.

Yr oedd gan Wil nifer o gyhoeddiadau i'w dilyn yr wythnosau canlynol, ac nid oedd i ddychwelyd yn ei ol am ddau neu dri Sul ar ol bod yn Salem. Ond chwareu teg iddo, yr oedd wedi gofalu am ddigon o Jacks i gyflawnu ei le tra fyddai yn absennol oddi wrth yr eglwys newydd yn ysgubor Sion y Pant. Ac mewn gwirionedd, y mae digon o Jackach wrth law pan fyddo rhyw dwll yn y pulpud ag eisieu ei dopio; canys dim ond cyfodi bys, y maent mor barod i'r pulpud ag ydyw y gigfran i'r gelain. Maent ar hyd ardaloedd, yn neillduol felly mewn rhyw *by-places*, yn cawcian ac yn ysglyfaethu mewn rhyw gynulleidfaocdd bychain, ac yn melltithio ac yn gwywo pob manau y disgyntant amynt â'u hymffrost, a'u drygioni, a'u celwydd. Mae y Jacks hefyd, yn gyffredin felly, yn rhoddi eu gwasanaeth am bris isel i'r cynulleidfaocdd fydd yn ymofyn am eu gwasanaeth Sul neu ddau o bob mis; ond y maent yn cael lwrcau digon, a'r bol yn cael ei gyflenwi yn dda, canys y mae pob Jack, yn ddieithriad, yn gyfaill mawr ac yn gyfaill neillduol i'w fol.

Aeth Wil, megys ag y dywedwyd, ar ol bod y Sul y crybwyllwyd am dano yn Salem, ar ol ei gyhoeddiadau; a chredwch fi, yr oedd y dysgwyliadau yn fawrion am dano, canys yr oedd y son am Wil ym mhlith y werin fel seren o'r maintioli mwyaf ag ydoedd wedi cyfodi yn ddisymmwrth yn ffurfafen yr eglwys. Sonid am dano fel *comet* fawr gynffonog yn ysgubo trwy ser yr eglwys; ac fel *phenomenon* fawr yn goleuo holl ffurfafen yr eglwys, ac nid anfynych y gelwid ef hefyd ar hyd cymmydogaethau ac ardaloedd yn Welsh Spurgeon. Yr oedd Wil yn tori allan ar ol ei gyhoeddiadau gyda mantais fawr iddo ei hun; canys yr oedd ei glod wedi

myned o'i flaen ac yn adseinio o ddyffryn i ddyffryn, o gwm i gwm, ac o fryn i fryn, nes yr oedd enw Mr. Morgans yn gyffredin hyd yn oed yng ngeneuau plant wrth chwareu! Dywedid gan rai ei fod wedi gorfod dychwelyd adref o ryw goleg mawr yn Llundain, neu Loegr, neu ryw le arall, am ei fod wedi myned yn ormod o ysgolhaig i'r tudoriaid, a bod y tudoriaid am gael ei wared yn ddystaw, ac wedi ei berswadio i ddyfod yn ol i Gymru er gwneuthur llesâd i'w gygenedl. Dyma fel y dywedai rhai; ond dywedai ereill ei fod wedi myned yn ben ysgolhaig yn Rhydychain a Chaergrawnt, ac o blegid na throai yn Eglwyswr, i bob drws gael ei gau yn ei erbyn, ac iddo ddyfod yn ei ol i Gymru er mwyn ymgyrfhau ychydig yn ei gorff cyn myned ymaith i fod yn ben ar y coleg mwyaf yn Germani, neu Bersia, neu yr Aipht, neu ryw wlad fawr ym mhell o ffordd dros y moroedd. Dywedai ereill ei fod ef wedi myned trwy holl golegau Ysgotland, ac wedi clirio yr holl *brizes* aur ac arian ynddynt, ac i'r *professors* o wir eiddigedd ato gyfodi rhyw 'storom o ragfarn ato; ac wedi iddo eu sialens yn yr holl ieithoedd, ac iddynt hwythau wrthod y sialens, iddo ddyfod oddi yno â'i goron ar ei ben. Dywedai ereill i'r Frenines anfon am dano a chynnyg ei wneyd yn esgob, os gwnelai gydymffurfio; ond iddo osod ei law ar ei galon pan o flaen y Frenines, ac wylu, gan ddywedyd, "Cydwylod, cydwylod;" ac i'r Frenines hefyd wylu'r dagrau gloewon, a dywedyd wrtho, "Chwi, Mr. Morgans, sydd yn eich lle!" Dywedid pob math, i'e pob rhywogaethau o gelwyddau noethion i ddyrchafu Wil. Yr oedd yn gwybod pymtheg, deunaw, ugain, a dwy ar bymtheg ar hugain o ieithoedd. Yr oedd yn cael ei gydnabod fel yr

ysgolhaig penaf yn y deyrnas, yn Ewrop, trwy yr holl fyd! Nid oedd neb yn Rhydychain, a Chaergrawnt, a'r Ysgotland a allasai bregethu yn yr ieithoedd Hebraeg, Arabaeg, a Phersiaeg, ond Mr. Morgans yn unig! Nad oedd wedi ymarfer â phregethu dim yn Gymraeg hyd nes y daeth yn ei ol yn bresennol i Gymru, a'i fod wedi gwneuthur y cynnydd mwyaf erioed mewn mor lleied o amser, yr hyn sydd yn profi ei fod yn ddynd digyffelyb o fawr!

Fel hyn y mae y celwyddau mwyaf yn fynych yn cael eu dywedyd a'u credu am bersonau cyffelyb i Wil; a gwaie y neb a'u hammheuo.

"Dyna ysgolhaig! Y mae yn gwybod mwy na mwy o ieithoedd! Bu yng nghyfeillach esgob — unwaith, a dywedodd yr esgob wrth gyfaill mai dyna y dyn mwyaf gwybodus a welodd efe erioed! Cynnygiodd yr esgob ei wneuthur yn offeiriad, ac anfonodd lythyron ato yn cynnwys yr un cynnygion; ond efe a'u gwrthododd!"

Mae storïau celwyddog fel hyn wedi cael eu dywedyd ac yn cael eu credu gan y werin grefyddol anwybodus; ac y mae yn rhaid bod eu tywyllwch yn fawr cyn y gallent gredu celwyddau fel hyn. Ond fel hyn, a chwi wyddoch chwi, ddarllenwyr, mai fel hyn y mae, a bod y wlad yn llawn o gelwyddau o'r natur hyn—celwyddau cysegredig, celwyddau i godi'r achos ym mhlith yr enwad, a chelwyddau ag y mae y werin grefyddol yn eu hanwybodaeth yn credu yn gwbl! Ceir yn fynych glywed dynion, gwrywod a benywod, anwybodus hollol yn siarad am y ieithoedd y mae eu pregethwyr hwy yn eu gwybod; a haerant fod llibyn o hen Jackyn yn deall Groeg a Hebraeg na w'yr y cyfryw ddim am danynt; hyny yw, dim!

Yr oedd Wil ar ei daith hon, yn neillduol yn y tai lle yr oedd yn lettya, yng nghlyw y teulu ac ereill fyddent wedi myned gydag ef i'r

lletty er mwyn cael y fraint o ymgyfeillachu ag ef, nid yn unig yn siarad am ieithoedd, ond yn darllen ieithoedd iddynt; hyny yw, yn cymeryd arno ei fod yn eu darllen. Yr oedd ganddo Destament Groeg a Thestament Lladin yn ei boced, a chymmaint ag oedd wedi ddyngu o'r iaith Roeg, a chymmaint ag ellai ddarllen o honi oedd, "*En archen en o Logos*," ac yna yr oedd yn gorfod creu Groeg o'i ben â'i bastwn ei hun, megys "*Proto, maffage, sacharam, ptrw, ptru, jophelos, pharabara, archlamastra*," yng nghyd â chyffelyb eiriau. A dygwyddodd ar uchaf un tro, pan oedd Wil yn ei Roeg, ac yn ei ddarllen yn rhigl a di-stop, i ryw walch ag oedd ym mhlith y rhai a fendithid â'i Roeg i geisio ganddo ddarllen yr un peth drosodd drachefn er mwyn iddo gael craffu yn fwy manwl arno. Gwelodd Wil y *trap*, a pha beth a wnaeth y cythraul twyllodrus ond diengyd rhag y *trap* trwy ddywedyd,

"Yr un faint a ddeallech pe darllenwn ef ddwywaith ar hugain drosodd yn eich clyw."

Fel yr oedd Wil yn myned unwaith at ei gyhoeddiad, disgynodd wrth ffermdy, ac wedi myned i'r ty dodwyd ef i eistedd ar gyfer y tân. Yr oedd yn lled dywyll tua'r aclwyd dan fantell y sinnai, fel na ellid gweled dim yn y lle yn eglur. Yr oedd offeiriad (curad) yn lettya yn y ffermdy, a'r diwrnodau hyny heb fod yn iach; ac yr oedd yr offeiriad yn eistedd yn y gongl â hen got fawr am dano a *shawl* am ei ben, a'r olwg y cyfryw arno fel yr oedd yn hollol is law sylw Wil. Dechreuodd Wil heb fod yn faith i siarad am yr ieithoedd dysgedig, yn neillduol y Lladin a'r Groeg, ac efe a awgrymodd rywbeth yn lled amlwg ei fod yn hyddysg hollol ynddynt. Wedi myned ym mlaen am ryw amser yn y dull hwn, dyma yr offeiriad o'r gongl, yr hwn ydoedd wedi ei ddeall, yn dywedyd wrtho.

"Y mac yn dda genyf gyfarfod â dyn o'ch bath chwiri er mwyn cael eglurhâd ar y ddwy linell hyny sydd yn Homer fel hyn," ac efe a'u hadroddodd. Dyma Wil yn delwi; dyma Wil yn diharffo; dyma Wil yn myned yn ddwr, yn faidd, ac yn ddim, gan edrych fel gwag ysbryd ar y gwr claf oedd yn y gadair yn y gongl! Edrychai Wil fel dyn *marble*; chwythai, pesychai, ac attaliai ei anadl, ac yna chwythai, pesychai, ac attaliai ei anadl drachefu. O'r diwedd dywedodd,

"Ni wn i ddim, syr, am yr iaith Roeg, ond fy mod yn dywedyd ar ol ereill."

Dyma fel yr aeth ar Wil a'i Roeg a'i ieithoedd pan ddygwyddodd iddo daro wrth ei feistr; ond er i'r anffawd hon ddygwyddo i Wil, yr un peth oedd efe drachefu ym mhlith anwybodusion.

Yr oedd y son am Wil, fel y crybwyllwyd, wedi myned o'i flaen, ac yr oedd tyrfaoedd lluosog yn cyrchu i'w wrando er mwyn gweled a chlywed yr ysgolhaig rhyfeddol hwn. Atebodd Wil ddysgwyliadau y werin yn gyflawn; canys ar swn yr oeddynt wedi arfer, ac yr oedd rhyw fath o swn yn rhoddi boddlonrwydd cyflawn iddynt. Yr oedd gan Wil amryw branciau yn y pulpud nad oeddynt wedi eu gweled erioed o'r blaen; o ganlyniad, yr oeddynt yn rhai newyddion iddynt hwy, ac felly yn fendithiol iddynt. Yr oedd ei ddull o bregethu hefyd yn newydd iddynt hwy, ac felly yr oedd yn fendithiol iddynt. Ond yr oedd rhai personau wrth ei wrando yn edrych rywbeth yn ddiflas ar eu gilydd, a'r edrychiad hwn yn dywedyd, "*No go.*" Dygwyddodd fod ei gyhoeddiad mewn capel a elwir Bethlem, lle yr oedd cynulleidfawr wedi ymgynnull yng nghyd, a Wil a bregethodd iddynt ar y "march gwyn." Sylwodd mai ffugr ardderchog ydoedd y march gwyn, a dywedodd fod y cyfieithwyr wedi gwneuthur yn dda iawn i gyf-

ieithu y ddau air Groeg i "farch gwyn" yn hytrach nag i geffyl gwyn. Sylwodd hefyd fod gwendid mawr iawn yn y Seison wrth gyfieithu y Testament Newydd o'r Groeg i'r Seisoneg. Iddynt gyfieithu y geiriau hyn o'r Groeg yn *white horse* yn lle yn *white stallion*. Bod *white stallion* yn gryfach geiriau o lawer na *white horse*, y rhai oeddynt yn eiriau gweinion, fel yr oedd y Seison a'u Seisoneg; ac nad oedd efe wedi gweled, ym mhlith yr holl ieithoedd a ddysgodd, iaith mor wan a'r iaith Seisoneg. Ond fod cryfder iaith yn y geiriau "march gwyn" yn fwy o lawer felly nag mewn ceffyl gwyn. "Yr Efengyl," meddai Wil, "yw y march gwyn;" ond pa fodd y daeth efe i ddeall hyny, y mae yn anhawdd gwybod.

"Yr Efengyl," meddai Wil, "yw y march gwyn; y mae y march gwyn â golwg foneddigaidd arno; ac felly y mae'r Efengyl. Mae march gwyn yn hardd iawn; ac felly mae'r Efengyl. Mae march yn gryf; felly y mae'r Efengyl. Mae march yn gallu carlamu yn gyflym; felly y mae'r Efengyl. Y mae march yn neidio dros gloddiau, lliidiardau, a ffosydd; felly hefyd y mae yr Efengyl. Ac," meddai Wil, "y mae march yn gwhwrad; felly hefyd y mae'r Efengyl. Y march ddelfo i'r ardal a'r ardaloedd i whwrad tipyn nes cyffro yr holl wlad."

Yr oedd bywiogrwydd mawr trwy'r capel, a'r werin yn credu na chlywsant y fath bregeth erioed ag yr oedd pregeth Wil; a 'stŵr amryw o'r brodyr gwyddfodol wrth ymborthi arni y cyfryw na chlywir yn fynych mo'i fath, a hyny gan benboethiaid. Yr oedd hon yn oedfa wresog iawn o'i dechreu i'w diwedd, ac ni chafodd Wil trwy ei holl daith bregethwraidd ar ol ei gyhoeddiadau mo'i gwresocach.

Ond y mae rhyw aflwydd yn dilyn rhai dynion yn fynych, ac nid oedd Wil bob amser yn diengyd rhagddo.

Gorphenodd Wil ei bregeth yng nghanol tân a gwres mawr; ond dygwyddodd bod ym mhlith y gwrandawyr ryw lfff o brydydd hanner cadd, ac fe ddinystriodd hwn holl ddylanwad pregeth Wil ar unwaith. Yr oedd y werin, yn frodyr a chwirydd, mewn eithaf *temper* at y canu; ond dinystriodd y crach brydydd ei holl lafur ar unwaith trwy roddi y pennill canlynol allan:—

“Dos ar gefn dy farch gwyn
Tua'r Bedlem;
Paid â dweyd rhyw lol fel hyn
Wrth wŷr Bethlem:
Tebygu mai rhyw ful neu farch
Yw'r Efyngyl;
Haeddai hon gael mwy o barch
Na hen geffyl.”

Gwedi i'r prydydd hanner dwl roddi y pennill hwn allan, hi aeth yn “wha, wha, wha” trwy'r holl gapel; ac nid yn unig methwyd canu, ond ni chynnygiwyd at ganu mewn modd yn y byd; ac ymadawodd y gynulleidfa yn yr ynfyrwydd mwyaf, ac edrychai Wil yn ryfeddol o fflat yn y pulpud. Yr oedd yn gywilydd mawr i'r bobl i adael i ynfyrwydd i'w trechu fel hyn; a dylasant gael eu ceryddu yn llym am dano, am iddynt ddangos eu hunain mor weiniaid, a gadael i ddwldod tipyn o brydydd i'w trechu. Aeth Wil yn fflat iawn, fel y dywedwyd; ond erbyn dranoeth yr oedd wedi ymwroli, ac a adroddai hanes am ryw bregethwr yn sir Fynwŷ, yr hwn rywfodd neu gilydd a gafodd yr enw Ebol, ac ar gefn yr Ebol hwn ymdrechai Wil ddiengyd ar ei gywilydd. Dywedai Wil am y pregethwr hwn, y gelwid Ebol arno, i rywun wneyd pennill iddo i'w rhoi allan i'w chanu o faen y bregeth fel hyn:—

“Cymhorth mawr a ddole im',
Egwan Ebol,
I gael dweyd mawr nerth a grym
Wrth y bobol:
Digon im' o geirch a gwair
Yn yr anial,
I beidio byth â thrin y Gair
Yn ddiotal.”

“Ac fel hyn,” meddai Wil, “y mae pregethwyr gobeithiol, a thalent ynddynt, ac yn debyg o ddyfod yn ddyinion mawr, bob amser dan erlidigaeth oddi wrth fath o ddyinion gwenwynllyd na fyddont yn chwennych gweled neb yn dringo ffin ysgol poblogrwydd ac anrhydedd ond hwy eu hunain. Ond,” meddai Wil, “y mae rhyw greaduriaid erlidgar fel yna ym mhell is law fy sylw i, ac nid ydwyf yn teimlo dim oddi wrth yr hyn a ddywedant. Dechreuodd ficer y plwyf gartref fy erlid a'm gwaradwyddo, a dywedyd nad oeddwn ddim ysgolhaig, ac na wyddwn yr icithoedd dysgedig, ac na allwn bregethu Seisoneg; ond mi a'i cymmerais is law sylw, canys gwyddwn mai eiddigedd at fy llwyddiant oedd arno, am fy mod yn dwyn y bobl o'r Eglwys. Ond o'r diwedd, cyfarfuais ag ef mewn angladd, a dyma fe yn dechreu tynu ei Ladin, a'i Roeg, a'i Hebraeg allan, a hyny yng nghlyw llawer o bobl; eithr druan ag ef, buasai yn well iddo ganwaith i beidio, canys ni fŷm dros bum mynyd cyn ei wneuthur mor fud a'r bedd, fel nad oedd ganddo un gair i'w ddywedyd drosto ei hun. Ac ar ol hyn y mae y ficer a minnau yn eithaf ffryndiau; yr wyf yn cael fy ngwahôdd braidd bob wythnos i giniawa gydag ef; ac y mae yn cynnyg fy ngwneuthur yn offeiriad, ac y caf fod yn gurad iddo ef hyd nes y caffwyf ddyrchafiad uwch gan yr esgob: ond yr wyf wedi gwrthod ei holl gynnygion.”

Celwyddau Wil bob gair oedd yr holl faldardd hwn; ond yr oedd yn cael ei ddywedyd, a braidd y deuai gair o'i eneu na fyddai yng nglŷn ag ef, “Fe gynnygiwyd fy ngwneyd i yn offeiriad ond i mi ymuno â'r Eglwys; mi allwn fod yn offeiriad y fory pe chwennychwn y swydd; mae digon o gymhell wedi bod arnaf i fyned yn offeiriad;” ond celwydd Wil bob gair ydoedd, canys ni chafodd y cyfryw cynnyg erioed. Ond

y fath oedd hygoledd anwybodusion fel y credent holl gelwyddau Wil, a dywedent am dano,

“Dyma ddyn sydd wedi gwrthod myned yn offeiriad, ac mae yn ddigon tebyg y buasai yn myned yn esgob yn y pen draw.”

Pan ar ei daith ar ol ei gyhoeddaiadau, nid oedd dim ond y celwyddau yn ffrydiau yn pistyllio allan o safn Wil; yr oedd yn rhydd i ddywedyd pob celwyddau. Yr oedd wedi trechu proffeswyr uchaf a blaenaf y colegau; yr oedd wedi gwrthod y swyddau uchaf er mwyn ei wlad a'i genedl; yr oedd yn gydnabyddus ac mewn gohebiaeth â dysgedigion penaf Ewrop; yr oedd yn derbyn llythyron oddi wrth archesgobion ac esgobion; yr oedd yn gohebu ag Arglwydd Palmerston ac Iarll Russell, ac nis gellid enwi braidd neb uchelion y tir nad oedd llythyron yn pasio rhyngddynt â Wil. Dichon y bydd i rai, ie llawer o ddarllenwyr yr Haul, anghredu hyn; ac y mae braidd yn anghredadwy fod neb yn gallu bod mor rhydd a rhaffo celwyddau o'r natur hyn. Ond y mae yn ffaith fod Wil yn eu dywedyd, ac y mae yn ffaith hefyd fod Jacks yn dywedyd y celwyddau mwyaaf a glywyd erioed, ac y mae yn ffaith hefyd fod llawer iawn o bobl mor ffol a disynwyr a chredu y celwyddau hyn a'r cyffelyb a adroddir o dy i dy gan segurwyr ac oferwyr sydd yn myned ar hyd ac oddi amgylch y wlad dan yr enw o bregethwyr.

Nid oedd dim pen draw i ymffrost Wil o hono ei hun ar hyd y tai pan ar y daith hon. Yr oedd yr achos wedi gwywo ac yn marw yn ei gymmydogaeth ef pan ddaeth efe yn ei ol o'r coleg; “ond gwelodd yr Arglwydd fod yn dda i wneuthur defnydd o honof fi, fel llwch gwael ac annheilwng, i roddi bywyd newydd yn yr achos yn yr ardal, ac i gynneu y cyfryw dân ynddi na bydd yn hawdd ei ddiffodd. Gartref yng nghanol fy llafur y

dylaswn i fod yn bresennol,” meddai Wil, “ond fel yr oeddwn yn teimlo rhyw dueddiad dirgelaidd ynof, a hwnnw yn deimlad anwrthwynebol, i fyned i ymweled ag ychydig nifer o'r eglwysi, gan obeithio y byddai i'r Arglwydd fy arddel ym mhellach fel offeryn yn ei law i fod o les i'r eglwysi a'r byd.”

Pan fyddai y siarad yn myned am weinidogion da a pharchus, yr oedd gan Wil ryw ergyd neu ergydion maleisus i'w rhoddi ar eu penau; yr oedd rhyw feiau a rhyw goliadau, a rhyw bethau allan o le ym mhob un o honynt. Yr oedd Wil yn sicr o daro yn faleisus at wendid pob un; a phan ganmolai efe rywun, efe a'i canmolai er mwyn ei dynu lawr a'i ddamsang dan draed. Dywedai y *scandal* a'r celwydd mwyaf ar hwn a'r llall, a hyny i'r dyben i ddyrchafu ei hun a gwneuthur ei hun yn fawr. Yr oedd fel hyn yn gadael rhyw lys celwydd a *scandal* ar ei ol ym mhob ty, ac yn taflu surni i fynwesau y personau a wrandawent arno at ddynion mil myrdd gwell nag ef ei hun. Mae Sectyddiaeth mewn cyflwr isel iawn pan yn rhoddi derbyniad i gymmeriadau cyffelyb i Wil i fyned ar hyd a lled ei gwersylloedd i'w llygru ac i wneuthur iddynt ddrewi fel y maent yn y cymmydogaethau hyny y mae gan Wil a'i frodyr ddylanwad arnynt ac ynddynt.

Yr oedd Wil yn llygredig ac yn halogedig, ac mi allwn nodi llawer iawn o ffeithiau gwirioneddol i brofi hyny; ond y maent yn rhy ofnadwy i'w hadrodd. Maent yn rhy gywilyddus i geisio eu gwisgo mewn geiriau; ond gall y darllenwyr gredu bod llygredigaethau Wil a'i frawdoliaeth yn arswydus, megys ag y maent, yn ysgafn felly, wedi cael eu cyhoeddi lawer gwaith; ond mwy wedi ac yn cael eu cuddio er mwyn peidio codi godre yr achos, fel y mae rhai crefyddolion yn arfer dywedyd, ond yn gamsyniol; canys yn lle

celu a chuddio y cyfryw bersonau llygredig, y mae crefydd yn gorchymyn ar fod iddynt hwy a'u gweithredoedd gael eu hysbysu.

Yn y daith hon, dygwyddodd fod cyhoeddiad Wil i fod ar y Sul yng nghapel Omri, sef ar y Sul yr oedd tair o ysgolion i gyfarfod â'u gilydd i gael eu holi; ac yr oeddynt yn falch iawn fod Rhagluniaeth wedi gofalu yn y cyfryw fodd am ogoniant yr achos ag i ddwyn yn ddygwyddiadol iddynt ar yr achlysur ddyn mor enwog a dysgedig a Wil i holi yr ysgolion! Ond nid oedd Wil yn hidio fawr am y fusnes, canys yr oedd rhywbeth bychan yn whispran o'r tu mewn iddo y gallasai ddal Tartar yn ei ymwneuthur â'r gwaith hwn; canys er mor ddwl ac er mor ddall oedd Wil, nid oedd yn gwbl mor ddwl a dall na wyddai o fewn ychydig beth oedd ei hyd a pheth oedd ei led, ac amcan da gaunddo am ei bwysau hefyd.

Rhyw Sul rhyfedd yw Sul yr ysgolion. Y mae dan enw o fod yn gyssegredig at yr achos; mae yn creu cyffro mawr; mae yn Sul pobl-ogaidd; ac y mae yn Sul, yn fynych iawn, fynychaf felly, yn Sul llygredig a halogedig iawn oll trwyddo. Ond y mae yn gyssegredig, a gwae y neb a ddywedo air yn erbyn ei orchwylion. Mae addysgu yr ieuentyd mewn pethau crefyddol yn dda, ond nid hwn yw pwnc Sul yr ysgolion; canys y mae ffordd i wneuthur hyn heb gyssylltu *rallies* â hi. Yr oedd tair o ysgolion i gael eu holi yng nghapel Omri y Sul yr oedd cyhoeddiad Wil i fod yno. Yr oedd cymmydogaethau yr ysgolion yn fore iawn y Sul hwn yn y cyffro mwyaf—trotian a rhedeg allan o'r tai, trotian a rhedeg yn ol i'r tai; gwaeddi, ielpan, brathu trwy eu gilydd ar hyd y llawr; rhedeg i fyny'r grisiau, rhedeg lawr i'r grisiau; gwichian ar eu gilydd, a chymmaint eu 'stŵr a phe buasai y French a'r Rhwssians wedi dyfod i oresgyn a meddiannu y wlad.

Gwneuthur eu hunain yn barod, troi allan yn fechgyn a merched, rhai ar geffylau a rhai ar draed; a'r rhai hyn yn dysgwyl am eu gilydd ar groes ffyrdd ac yn galw ar eu gilydd, ac fynychaf y siarad mawr a'r chwerthin mawr; ac wedi teithio milltiroedd, yn fynych trwy gymydd, dros rosydd a mynydd-dir, cyrhaeddyd capel Omri yn chwys a lludded, a llawer o honynt yn edrych mor wyllt a phe buasant newydd gael eu gollwng yn rhydd o Yemen, draw yn nhir Arabia!

Wedi i'r tyrfaedd a'r ysgolion ymgynnull yng nghyd yng nghapel Omri, dyma Wil yn dyfod gyda'r lordyn i mewn yn holl rwysgfwredd ei swydd weindogaethol newydd, ac yr oedd golwg ryfeddol arno yn ei ddyn oddi allan. Yr oedd pob llygad yn edrych ar Wil—yn edrych ar yr ysgolhaig mawr ac enwog, ac yn edrych ar y pregethwr a'r gweinidog; yr oedd y fath awdurdod a llwyddiant yn cydfyned ag ef i ddychwelyd pechaduriaid. Chwi welsoch Jeckyn lawer gwaith yn holl fawredd ei swydd jackyddol; ond ni welsoch Jeckyn erioed yn rhoddi cymmaint o *importance* arno ei hun ag a roddid gan Wil ar ei berson boreu Sul yr ysgolion. Yr oedd yr hilwm main hir, o ran dull ei gorff, yn gyffelyb i forgrugyn o faintioli mawr, yn ddau os nid yn dri hanner, a'i aelodau yn gyffelyb i draed y pryfedyn y gelwir lleidr y ganwyll arno. Yr oedd yn hynod yn y cwbl: ei wallt, ei farf, a'i flew, a'i wddf yn y mwffler brith oedd y widw wedi ei bresentio ag ef. Ond i fod yn fyr, aeth Wil i'r pulpud; ac wedi tynu ei got fawr oddi am dano, ac wedi tynu ei fenyg oddi ar ei ddwyllaw, ac wedi rhyddhau ei wddf o fwffler y widw, ac wedi sychu ei drwyn ag un o napeynau poced y widw, dyma fe yn troi ac yn ffrontio ar y gynulleidfa, ac yn edrych yn ddoctoraidd oddi amgylch, ar y llawr, a holl gonglau y capel, ac wedyn dyrchafodd ei olygon i'r

oriel oddi amgylch; ac wedi hyny tynodd ei oriawr allan o boced ei wasgod i gael gweled beth o'r gloch ydoedd, ac wedyn a edrychodd ar glod y capel; ond yr oedd hwnw, fel y mae y cyfryw glaciau yn fwyaf cyffredin, wedi sefyll, ac wedyn efe a roes ei *watch* yn ol yn ofalus ym mhoced ei wasgod. Erbyn hyn dyma un o *officers* capel Omri ar ben gris-iaiu y pulpud yn rhoddi papyr i Wil ac yn mwmlad rhywbeth yng nghlust Wil, ac wedyn yn dyfod lawr mewn serch mawr ag ef ei hun yn holl bwmp ei *officieraeth*.

"Adroddwch y bennod," ebai Wil, "sydd wedi cael ei phreparo at yr achos; gosodwch yr *accents* ar y geiriau *proper*, ac obserwch i gadw *stops*, ac adroddwch hi â *voice* glir."

Wedi adrodd y bennod, dyma Wil â'i bapwr yn ei law ac yn dywedyd bod un o'r ysgolion yn myned i ganu anthem, ac a ddechreuodd ddarllen geiriau yr anthem; ond dyma hi yn myned yn *stop* yn uniongyrchol ar Wil, o blegid ei fod yn methu darllen yr ysgrifen.

"Yr ydych yn 'sgrifenu mor ddrwg ar hyd y wlad," meddai Wil, "fel, rhwng bod eich *writing* mor ddrwg a'm llygaid innau mor ddrwg, wedi gwanhau wrth syllu ac astudio mor galed, ni allaf fi ddarllen y papwr; am hyny, ewch ym mlaen â'r anthem."

Canu yr anthem a wnaed; ac wedi canu yr anthem, yr oedd yno yn barod rhyw *champion* o weddiwr, yr hwn yntau, wedi myned trwy ei wasanaeth, a ddystawodd, a chafwyd anthem, neu ryw diwn, neu ryw gorant dycethriol nad oes genyf unrhyw enw i'w roddi arno.

Dyma Wil eto yn ffrontio'r gynulleidfa ac yn rhagymadroddi'r gwaith. "Yn *certain* i chwi," ebai Wil, "dyma fel yr oedd yn nyddiau'r *Apostles*; yr oedd yr Ysgolion Sabbothol yn gaddro at eu gilydd yn nyddiau'r *Apostles*. Ysgol Sabbothol Rhufain yn myned i ateb pwnc

i gapel Ephesus, ac ysgol Ephesus yn ei thro yn myned i ateb pwnc i gapel Rhufain. Ysgol Sabbothol capel Corinth yn myned i ateb pwnc i gapel Thessalonica, ac Ysgol Sabbothol capel Thessalonica yn ei thro yn myned i ateb pwnc i gapel Corinth. Yr oedd yr Ysgolion Sabbothol fel hyn, yn *certain* i chwi, yn myned i ateb pynciau ar eu tro i'r capeli yn nyddiau'r *Apostles*. Yr wyf yn undderstando mai ysgol y capel hwn, sef ysgol capel Omri, sydd i gael ei holi yn gyntaf."

"Nag e, nag e," meddai rhyw swyddwr awdurdodol, "ysgol capel Hamath."

"O felly," meddai Wil, "mae'r *writing* yn annealladwy."

"Ioseph a gwraig Putiphar yw y pwnc," ebai Wil, yr hwn sydd wedi ei gymmeryd o'r *Cronicle*; ac chwi gewch chwi fyned drwyddo fel y mae; ond mi osodaf ambell gwestiwn eglur i chwi yn awr ac yn y man, ac ni wnaif mewn un modd eich dyrysu â chwestiwns caled. Ym mlaen â chwi."

"Stopwch," meddai Wil; "pwyr oedd Ioseph?"

Ysgol. Mab Iacob.

Wil. Ac fe ddarfu i wraig Putiphar ei ffansio?

Ysgol. Do.

Wil. Hi ymaflodd yn ei wisg, ond do?

Ysgol. Do.

Wil. Beth ddywedodd hi wrtho?

Ysgol. "Gorwedd gyda mi."

"Ic'n siwr," meddai Wil; "yr ydych yn ateb yn dda. Mi a allaswn roddi llawer o gwestiwns trymion i chwi; ond nid gwiw hala amser na'i fwyta, canys y mae yma ddwy ysgol arall i gael eu holi ar eich ol y boreu newydd yma. Am hyny, mi'ch gadawaf i fyned heibio'n rhwydd. Stopwch eto," meddai Wil, "mi chwennychwn gael gwybod genych ym mha bart o Asia mae'r Aipht."

Ysgol. Nid yn Asia ond yn Affrica mae'r Aipht.

Wil. O ië, yn Affrica mae'r Aipht; yr wyf yn barod iawn i anghofio pethau ac i wneuthur camsyniadau ar ol bod yn astudio mor galed. Ewch chwi ym mlaen a'ch gwaith."

Pan aeth ysgol Hamath trwy y pwnc, "Da iawn, da iawn," ebai *Wil*; "*very good, very good indeed*; diolch yn fawr i chwi; *very good*; yr ydych yn flit i fyned i'r *exhibition*. Deued ysgol capel Omri, sef ysgol y capel hwn, ym mlaen."

"Wel, fy nghyfeillion," meddai *Wil*, "dyma chwi a minnau wyneb yng ngwyneb; nid oes arnaf fi ddim o'ch ofn chwi, ond yr wyf yn dirgel gredu bod arnoch chwi beth o'm hofn i. Cymmerwch chwi galon; mi fyddaf fi yn dirion iawn wrthyeh; ond mi allwn eich swampo ar unwaith, eithr ni wnaf hyny, canys y mae yn well genyf eich helpu na'ch bwrw lawr. Y pwnc yw, 'Y gwar-edigaethau tymmorol y crybwyllir am danant yn yr Ysgrhythrau.'"

Ar gwirionedd yw, yr oedd hwn yn bwnc da anghyffredin, ond fel y dinystriodd *Wil* ef â'i fwnceiddiwch.

Wil. Pa beth a ddywedasoeh yn awr? Dywedwch eto.

Ysgol. A meibion Israel a aethant trwy ganol y môr ar dir sych.

Wil. Trwy ymyl bychan o'r môr?

Ysgol. Trwy ganol y môr.

Wil. Rowndio tipyn wnaethant?

Ysgol. Trwy ganol y môr.

Wil. Trwy ganol y llyn?

Ysgol. Trwy ganol y môr.

Wil. Trwy ganol yr afon?

Ysgol. Trwy ganol y môr.

Wil. Ar hyd lle gwlyb?

Ysgol. Ar dir sych.

Wil. Yr oedd yno beth bwllacs?

Ysgol. Ar dir sych.

Wil. Yr oedd yno ambell lysŵen fach?

Ysgol. Ar dir sych.

Wil. Yr oedd y sand yn llaith?

Ysgol. Ar dir sych.

Dyna fel yr oedd y parchedig *Wil* yn cael ei gario gyda golwg ar oleuo yr ysgolion, ac yr oeddynt yn cyddeb

yn anwyl ac yn cydgorio'n bert yn eu *roarings*. Aed fel hyn trwy y gwasanaeth boreuol; ac wedi dyfod allan o'r capel, yr oedd y bobl yn brathlu ac yn gwanafu trwy eu gilydd, fel yn ffair Barnet, i ymofyn y dy-eithriaid i ginio; canys yr oeddid wedi darparu digon o efrau ar eu cyfer, chwareu teg i bobl capel Omri. Nid oedd *Wil* wedi ateb dysgwyl-iaidau y bobl fel holwr; ond cafodd pob drygdybiaeth am ei alluoedd, â'i gymhwysderau, eu cwasio ar unwaith, pan ddywedodd rhai o'r athrawon mai dyna fel yr oedd dynion gwir ddysgedig yn arfer holi.

Am dri o'r gloch ymgynnullwyd drachefn i'r capel i wrando ar ac i weled ysgol capel Merari yn chwareu ac yn actio *interlude* ar y llanciau yn cael eu taflu i'r ffwrn dân, a Daniel yn cael ei fwrw i ffau'r llewod! Un yn actio Nebuchodonosor, y llall yn actio un arall, ac felly yn y blaen hyd nes y coronwyd yr *interlude* â'r cabledd ofnadwy o actio dull y pedwerydd! Actiwyd Daniel yn gweddio ac actiwyd pob halog-rwydd arswydus, nes yr oedd ofn ar rai i'r capel syrthio yn farnedig-aethol ar eu penau! Ar ol cyfarfod tri wedi tē, aeth y dyeithriaid tuag adref, gan gadw yr unrhyw rebeldod ag a gedwir yn gyffredin ar y cyfryw achlysuron. Am chwech dyma bregeth y *wheel* allan yn holl ogoniant *corrections, emendations, ac improvements y sixteenth edition*, ac yr oedd yn myned, a *Wil* yn gwaeddi,

"Mae y *wheel* gyda ni yma heno, ac nid oes eisieu dim ond digon o *steam* i droi y *wheel* hon, bobol fach, bobol fach. Digon o *steam* i droi y *wheel*, ac yna ni gawn bethau rhyfedd yma. Digon o amenau weithia'r *steam* i droi'r *wheel*; ac wedi cael tro unwaith arni, stopa hi ddim yn hir iawn."

"Fachgen," meddai un wrth y llall pan yn myned tuag adref nos Sul, "nid oeddwn i yn cael dim yn fawr yn y dyn yna y mae cymaint

o son am dano. Nid yw ond dyn bychan iawn yn fy ngolwg i."

"Taw, taw," meddai ei gyfaill wrtho, "canys y mae yn ddyn mawr; dyna fel mae pawb yn dywedyd am dano: nid wyt ti yn gallu senso

dim yng nghylch dynion mawr dysgedig."

"Sensoneu beidio, yr wyf fi'n barnu yn gydwytbodol fod Shoni Abram Dafydd, ein hen Jack ni, yn fwy ac yn drymach dyn o'r hanner nag ef."

XVI.

MAE Wil Brydydd y Coed ysbrydol yn drech ei wala na'r sectau Ymneillduedig, ac yn neillduol felly na'r Independiaid a'r Bedyddwyr. Mae *Seren Cymru a'r Byd Cymreig*, er ys misoedd a misoedd meithion, yn hela, yn tracio, yn canu cyrn, ac yn gwneuthur pob ymdrechiaidau i ddal un o'r Wilod a elwir ganddynt yn *Turpin*; ond y mae eu helpa yn gwbl ofer, os nad ydynt wedi ei ddal o fewn i ychydig wythnosau. Ymddengys fod y creadur hwn wedi bod ar ben ystolau ac yn cyssegru pulpudau er ys dwy neu dair blynedd bellach; ac er iddo fod mewn rhyw helbul a dyryswech yng nghylch rhyw bar o hosanau a lynasant wrth ei ddwyllaw ar y ffordd at ei draed yn sir Aberteifi, ac iddo, yn ol yr hanes a adroddir am dano, gael y fraint o gyssegru carchar Aberteifi â'i bresennoldeb, y mae eto ar hyd y wlad yn dilyn ei lwrcaeth crefyddol. Nid oes unrhyw lwyth o ddyinion, y mae yn debygol, i'w gael yn bresennol ar wyneb yr holl ddaiar ym mhob ffalsder, direidi, a drygioni yn gyffelyb i'r llwyth jackyddol! Maent yn felltith ym mhob manau lle y maent; byddent hwy yn Jacks cyssegredig neu anghyssegredig, canys yr un peth—yr un anianawd sydd yn y Jack, bydded ef yn *reverend* neu yn *expectant reverend*. Yr oedd ynt dan yr hen oruchwyliaeth; yr oedd Jacks dan yr hen oruchwyliaeth; ysbryd jackyddol oedd ysbryd Corah yn yr anialwch, a chwi welwch hyn yn amlwg wrth ddarllen yr unfed bennod ar bymtheg o Lyfr Numeri, lle mae Jackyddiaeth yn

cael ei dangos yn ei lliw a'i llun priodol ei hun. Dyna Jack arall dan yr hen oruchwyliaeth oedd y Ionathan hwnw y crybwyllir am dano yn yr eilfed bennod ar bymtheg o lyfr y Barnwyr yn ei berthynas â hanes Micah. Yr oedd Ionathan, sef y Jack hwn, yn Lefiad, ond fel Wil yn llawn lwrcaeth; ac er mwyn cael digon o gyfleusdra i ddilyn ei lwrcaeth, efe a drodd allan o Bethlehem Iwdah i drigo, meddai'r hanes, pa le bynag y caffai le; ac y mae hwn yn un o nodweddiadau penaf Jackyddiaeth, sef gwanu'r big mewn i ba le bynag y ceir lle. Ond yn a than deyrnasiad Ieroboam fab Nebat, yr hwn a wnaeth i Israel bechu, y daeth Jackyddiaeth i'w bri a'i huchder mwyaf, ac ni welodd Jackyddiaeth y fath gynauaf mor llewyrchus a thoreithiog erioed ond yn amser Cromwel, pryd yr actiwyd yr un *farce* drosodd yn ei pherffeithrwydd mwyaf. Yn hanes Ieroboam, dywedir iddo wneuthur offeiriad o'r rhai gwaelaf ac o wehilion y bobl; canys y neb a fynai, efe a'i cyssegrai yn offeiriad. Fel hyn drachefn y bu yn nyddiau Cromwel, pryd y gwnaed Jackyddiaeth Ieroboam fab Nebat yn *rampant* trwy yr holl deyrnas, pryd ni feiddiai neb ddringo pulpudau, nac agor eu penau mewn pulpudau, heb ymgrymu a thalu moes i'r ddelw fawr jackyddol na bu ei mwy erioed ar y ddaiar, yn ei pherthynas â Jackyddiaeth, na hi. Sonir tua llyfr cyntaf y Breninoedd am niferi lluosog o Jacks Iesebel, ac am y pen Jack, sef Sedeciah Cenaarh, yr hwn, yn ol natur y

swyddogaeth jackyddol ym mhob oes, a fu mor haerllug a tharo Micah, prophwyd yr Arglwydd, dan ei gern, gan ddywedyd wrtho, "Pa ffordd yr aeth ysbryd yr Arglwydd oddi wrthyf fi i ymddyddan â thydi?" Yr ydych yn gweled mai yr un yw Jackyddiaeth o'r dechreuad trwy yr holl oesau, ac nad oes ond y felltith fawr yn y Jack. *Fi*, meddai y Jack Sedeciah, a *fi* ydyw hi a neb arall, gan bob Jack a chan Wil erioed!

Jacks a Wilod oedd y gau athrawon y mae yr Apostolion yn cwynfan mor athrist o'u plegid, ac yn cyhoeddi eu nodweddiadau mor amlwg, fel na all neb ond y dall bwriadol i beidio â'u gweled! Mae amrywiol enwau yn cael eu rhoddi arnynt gan yr Apostolion; gelwir hwynt yn gau apostolion, yn gau athrawon, yn weithwyr twyllodrus; a dywedir ym mhellach am danynt eu bod yn waed-wyllt, ac y mae pob Jack a Wil yn *naturus*; dywedir eu bod yn chwyddedig, a pha greadur sydd â'i ben a'i fol, a'i gwbl, â mwy o wynt ynddynt na Jackach yr oesau? Dywedir eu bod yn caru melus chwant yn fwy nag yn caru Duw, ac y mae llwybrau y Jacks yn ein hoes ni yn profi hyn mewn tref a gwlad. Dywedir eu bod yn ymlusgo i deiau, ac fel hyn y maent; a dywedir eu bod yn ddiöfn yn eu pesgu eu hunain; ac y mae Jack yn dysgwyl y tamaid a'r llymaid goreu ym mhob ty, ac onis caiff hyn bydd yng nghanol y pwdu yn uniongyrchol. Dywedir eu bod yn halogi'r cnawd, ac fel hyn y maent yn gwneuthur; canys y mae llefain A, a B, ac C, a D, yng nghyd â llefain yr holl lythyron, yn cydgyhoeddi ag uchel lais nad oes yn perthyn i'r hiliogaeth ddynol greaduriaid fel *class* yn fwy llygredig a halogedig na Jacks yr oes oleu hon! Ac fel prawf o haerllugrwydd mawr rhyfeddol y Jacks, erbyn bod eu ysgredigaethau a'u halogedigaethau wedi peri iddynt dasu *summersaults* i'r pulpudau, a chyn i'r edrychwyr

braidd gael eu hanadl, beth welir ond y burgunod a'r carenod hyn cyn iddynt oeri, ond yn eu drewdod a'u ffeidd-dra, yn curo yn haerllug wrth byrth cymmanfaoedd a chyrrdau cwarteri, gan gymmeryd arnynt weflau eu hedifeirwch am gael eu hadferu i'r *stages* i actio drachefn yr un chwareuon halogedig!

Y Sul cyntaf wedi i Wil ymadael â'i eglwys newydd yn ysgubor Sion y Pant ar ol ei gyhoeddiadau, yr oedd golygfa lled ryfedd yn yr ysgubor. Yr oedd Wil wedi *engagio* un Jack i ddyfod yno i lanw ei le; a chan fod y Jack hwn yn cysgu yn y Pant, nid oedd yn gymmaint rhyfeddod i weled hwn yn dyfod i'r ysgubor wrth gynffon Sion. Ond gyda bod y Jack hwn i mewn, dyma Siencyn Troed y Foel i mewn, a Jack wrth ei gynffon yntau! Ni chafodd hwn ond prin eistedd cyn bod y widw, sef y siopwraig, yn rhwsian i mewn yn ei gŵn newydd, a'i *shawl* newydd, a'i *bonnet* newydd, ac yn *smart* anghyffredin; ac erbyn edrych yr oedd hwlcyn o Jack wrth gwt hon yn dyfod ym mlaen at ford y pulpud, yr hwn oedd wrth dalcen y 'sgubor! Ond beth dâl chwala geiriau, dyma Tomos y diacon yn dyfod i mewn i'r ysgubor â Jack wrth ei gynffon yntau, a rhoed y Jack hwn drachefn i eistedd yn rhes y Jacks wrth y bwrdd! Yr oedd y Jack diweddf hwn wedi clywed bod Wil wedi myned oddi cartref, a meddylodd mewn myned am lanw ei le. Yr oedd llygad da, os nid dau, gan y Jack hwn, a chwyddi ar un foch; *scrap* ar y foch arall, a'i wefl uchaf yn fawr anferth, ac fel [ymyl] padell gochen yn syrthio dros y wefl isaf. Sylwid hefyd fod y Jack hwn braidd yn gloff, ac megys pe buasai yn gochelyd ei ysgwydd chwith; ar y cwbl, ymddangosai ei fod wedi bod mewn rhyw galedi neu gilydd. Yn awr, wedi clywed o'r Jack hwn fod Wil wedi myned ar ol ei gyhoeddiadau i ymweled â'r eg-

lwysi, cychwynodd o'i gartref ryw dro dydd Sadwrn er mwyn myned i'r Pant; a phan yr oedd o fewn i ddwy filltir i'r Pant, troes i dafarn-dy oedd yn ymyl y ffordd i gael peint o gwrw. Pwy ddygwyddodd fod yn y tafarn dy hwn, ar ryw fusnes neu gilydd, ar y pryd, ond Dai Luke y gof a dau neu dri o ddynion ereill o'r gymydogaeath. Nid oedd y Jack yn eu hadnabod, ac nid oeddynt hwythau yn adnabod y Jack. Ym mhen ennyd, ar ol eistedd, dechreuodd y Jack holi rhywbeth am y Pant—pa faint o ffordd oedd i fyned yno, a pha fodd yr oedd yr achos newydd yn dyfod ym mlaen. Deallodd Dai Luke erbyn hyn beth oedd y gwr, ac a siaradodd yn barchus iawn am Wil, ac am y llewyrch mawr oedd yn yr eglwys newydd a ymgynnullai yn ysgubor Sion y Pant. Twymasant yn rhyfedd at eu gilydd—y Jack a Dai Luke; ac ym mhen ennyd, rhoes y Jack a Dai eu peintiau heibio, a galwasant am gwart a dau gwpan, a dechreuasant fyned yn lled ffraeth a gwresogi at eu gilydd, a siglo dwylaw braidd bob mynyd, a chwart ar ol chwart yn dyfod i mewn. Wedi cryn yfed, ac wedi cryn siarad, dechreuodd y Jack ei rhoi yn enbyd ar Mr. Evans, a dangosodd gydymdeimlad neillduol â Wil yng ngwyneb yr erlidigaethau yr oedd danynt.

“Fe gafodd gam mawr,” meddai, “yn achos yr hen flagard Dai Luke, a pheth sy'n rhyfedd yw i'r hen leidr gario'r gyfraith arno! Yr oedd yn dda i'r hen whiwgi, Dai Luke, mai nid fi oedd yno, canys buan y buaswn i yn ei dwmlo o'r pulpud dros y grisiau ar gorn ei wddf i lawr y capel. Gwae fi na chwrrddwn â'r filain, ac iddo fy nharo yn gyntaf; mi wnawn iddo chwythu peth.”

“Fe wnelet?” ebai Dai Luke. “Fi yw Dai Luke;” ac wedi cyfodi ar ei draed, “Saf ar dy *defence*,” ebai ef, “canys dyma ti yn ei chael;” a chyda'r gair, wele *salute* dwrn Dai

ar ei lygad nes oedd y Jack â'i *ablative* ar y tân. Yr oedd *pluck* hefyd yn y Jack: canys wedi ymuniawnu o'r tân, yntau a roes *salute* i Dai, fel oni buasai'r wal mesurasai ei hyd a'i led ar lawr y ty. Ond yr oedd ergydion Dai Luke mor drymion ag ergydion Fwlcen pan yn gwneuthur taran-fyllt i Ion yn ynys Lemnos; a gorfu ar y Jack o'r diwedd ildio a gwaeddi am *quarters*, yr hyn, fel gwr boneddig, a ganiatodd Dai Luke iddo.

Ar ol y flag, ac wedi ymolch, ac wedi ymlanhau, eisteddodd y gwrolion lawr; ac wedi yfed ac ychydig o ymddyddan, barnwyd mai gwell oedd iddynt ymhedychu, gan fod y ddau yn broffeswyr—y Jack yn bregethwr a Dai yn aelod trwm; ac heb law hyny, bod y *scuffle* a'r cwbl i gael drogo er mwyn anrhydedd yr achos, ac nad oedd neb i son fod dim o'r fath wedi cymmeryd lle, er mwyn peidio rhoddi lle i elynion crefydd gablu! Ond agorodd Dai Luke ei geg y noswaith hono, ac ymfrostiodd fel yr oedd wedi ei rhoddi i'r Jack oedd i bregethu dranoeth yn ysgubor Sion y Pant. Arosodd y Jack yn y tafarn dy y nos Sadwrn hwnw, a gosodwyd cig llo ammrwd ac afalau pwdr wrth y craciau ar ei wyneb. Ystori'r Jack dranoeth oedd, iddo daro ei droed wrth ryw gnepyn oedd ar y ffordd, ac iddo syrthio ar garn o geryg, ac felly i anafu ei hun yn dost. Wedi gweled o'r eglwys newydd a ymgynnullai yn ysgubor Sion y Pant fod pedwar o Jacks wedi eu bendithio a'u hanrhydeddu â'u presennoldeb, dyma y swyddogion yn bwrw eu penau at eu gilydd; a galleid meddwl wrth weled pwysigrwydd eu hymgyngoriadau eu bod yn penderfynu rhywbeth yng nghylch y *balance of power* yn Ewrop, eithr beth oedd ganddynt i'w benderfynu ond pa fodd i fyned â'r oedfa jackyddol hon ym mlaen!

Un o attegion cadarnaf Sectydd-

iaeth yw busnes a busnesa, canys trwy fod mewn busnes a chael busnes a mae'r brodyr a'r chwirydd yn cael cyfleusdra i ddangos eu hunain eu bod yn ddynion trymion gyda'r achos. Dim byd ond i'r siopwraig, sef y widw, i gael gafael mewn lwrceyn o Jack oedd yn chwilio am letty nos Sadwrn, ac iddi hitheu roddi elwyd iddo a'i arwain boreu dranoeth i ysgubor y Pant, yr oedd yng nghanol busnes, a chydnabyddwyd hi megys yn ei *official character* pan aeth i mewn i'r ysgubor; canys gwnaed lle iddi hi a'r Jack i fyned ym mlaen at y ford dan y pulpud, a rhoddwyd hi i eistedd ar y faine dan y pulpud, ac felly yr oedd yn cael ffrontio y gynnulleidfa, a dangos ei hun yn ei holl addurniadau i bawb a chwennyhent edrych arni. Wedi cryn gwmsela â'u gilydd, dyma un o'r Jacks i fyny i'r pulpud â golwg lwrcaid, ddioglyd, a rhai yn dywedyd ym mhellach, sef bod golwg leuog arno, ac yn dechreu darllen pennod, ond braidd y darllenai gymaint a gair yn gywir. Gwnaeth labyddiadau a llofruddiaethau ysgeler ar ddwseni o eiriau ynddi; ac mewn gwirionedd, y mae yn drueni fod Gair yr Arglwydd yn cael ei sarnu mor ysgymmyn gan y rhai ni fedrant ei ddarllen. *Adeiliadu* oedd adeiladu, *annuwolion* oedd annuwolion, *Argludd* oedd Arglwydd, *damneg* oedd dammeg, *blynyddodd* a *nefodd* oedd blynyddoedd a nefoedd, *cymyle* oedd cymylau, *crôn* oedd croen, *pôn* oedd poen, *trâd* oedd traed, *gwâd* oedd gwaed; ac fel hyn ni ddarllenai nemawr o air yn ei le, ond basdarddio geiriau y Llyfr Sanctaidd yn ei gyfer. Aeth y Jack i weddi, neu yn hytrach at y peth y gelwir gweddio arno! Y casgliadau naturiol allesid dynu oddi wrth weddi

Jack hwn oeddynt y rhai canmol:—yn gyntaf, na wyddai y cawdwr ddim am ei bridoleddau i Hun, ond fel yr oedd y Jack yn i hysbysu o honynt! Yn ail, na

wyddai ddim am y dygwyddiadau oedd yn cymmeryd lle mewn cymmydogaethau, ond fel yr oedd y Jack ac ereill yn ei hysbysu! Yn drydydd, na wyddai pa fodd i ymddwyn a gweithredu at ei greaduriaid ar y ddaiar, ond fel yr oedd y Jack ac ereill yn ei gyfarwyddo! Yn bedwerydd, na wyddai pa rai o'i greaduriaid i dderbyn i'w ffafr, ond fel yr oedd y Jack yn ei hysbysu am danynt! Yn bummed, mai ar y mwyaf eofn a haerllug y mae Efe yn gwrando! Yn chweched, mai yr iaith waelaf a mwyaf bratiog, na ddefnyddia dynion hi at eu gilydd, sydd fwyaf effeithiol mewn gweddi!

Gwedi i'r Jack hwn fyned trwy ei waith, daeth lawr o bulpud gwernen eglwys ysgubor y Pant; ac wedi cety'n o ymdrech rhwng dau o'r Jacks oedd ar y faine dan y pulpud, dyma un o honynt, wedi ymryddhau o afaelion ei frawd, yn esgyn i'r pulpud yn *jim* anghyffredin; ac wedi sychu ei wyneb, ac wedi gwneuthur amryw ystumiau ar ei wefusau, rhoes yr hen hymn sylweddol a molianus ganlynol allan:—

"Awn gyda Ruth i loffa
I feusydd Boas lawn;
Mae yno dywysenau,
Foreuddydd a phrydnawn," &c.

Jack Sion y Pant oedd hwn; ac wedi darfod canu, cymmerodd yn destyn, "Y byd a ddaw," neu fel y dywedai fod y geiriau yn yr iaith Seisonig, "*The wordle to come.*" Yr oedd yn gwybod y cwbl am y byd arall, ac nid oedd unrhyw ddirgelwch yn perthyn iddo nad oedd y Jack hwn yn ei wybod! Dywedai fel y byddai corff y dyn annuwiol yn yr adgyfodiad yn melltithio yr enaid, ac fel y byddai yr enaid yn melltithio'r corff! Mewn gair, yr oedd yn arswydus i ddyn yn ei synwyr a'i bwyll i wrando ar yr ymadroddion rhyddion a arferai! Dywedai mai dysgu mapiau oedd plant bach yn gael i'w wneyd gyntaf wedi iddynt fyned i'r byd arall! Dywedai hefyd y byddai rhai

o'r brodyr a'r chwirydd yn y byd arall yn gofyn i'r naill y llall os oeddynt yn cofio am yr odfaon melus a gawsant yn ysgubor y Pant. Dywedodd hefyd na byddai na degwm na threth Eglwys yn cael eu gofyn nac yn cael eu talu yn y byd arall! Ond anghofiodd y gwr da i ddyweyd gyda llaw na fyddai gwyl Jolly yn cael ei chadw i subscribo ugain mil o bunnau at adeiladu coleg rhwng gogledd a deheu y byd arall i wareiddio tipyn ar y "*wild hammals*" yno. Ac anghofiodd hefyd i ddywedyd na byddai rhwygiadau crefyddol yn cymmeryd lle yno, a reverendiaid a Jacks yn eu cefnogi, ac na fyddai eglwysi yn cael eu ffurfio cyffelyb i'r eglwys newydd a ffurfiwyd yn ysgubor Sion y Pant. Ond chwareu teg i'r Jack hwn, gwingodd, curodd, gwaeddodd, ac ysgrechodd lawer er mwyn cyfodi'r *steam*, a diolchai lawer am fod yr achos goreu yn ymhelaethu, a bod cymmaint o wawr ar achos yr ysgubor, ac am fod yr arwyddion mor amlwg fod yr Arglwydd yn foddllawn iddynt yn y man a'r lle hwnw, ac yn eu bendithio.

Gwnaeth hwn dipyn o 'stŵr; ond 'stŵr a hwyll wneuthur oedd y cwbl: Sion y Pant yn rhoddi ambell i ysgrêch cyffelyb i ysgrêch giach yn codi o'r gors; Siencyn yntau yn rhoddi ambell i chwyrniad fel ci yn y crochan a'r cawl; ond yr oedd 'stŵr wylan Tomos y diacon mor affafar fel ag yr oeddynt yn ddigon i wneuthur canol haf yn ganol gauaf!

Wedi i'r Jack guro pant a thalar, dywedai ei fod yn ofni ei fod yn "byta" amser ei frawd; ac er ei fod yn teimlo ei hun yn gynhes wrth dreio dyweyd tipyn wrthynt, eto ei fod yn ei theimlo yn ddyledswydd arno i beidio trespasu ar amser gwas yr Arglwydd, yr hwn oedd i lefaru ar ei ol, ac y cai glywed ei amen yn union. Felly hefyd y bu; gorphenodd gyda y dymuniad ar fod i'r Arglwydd i arddel ei was ym

mhellach, pa ddymuniad a arwyddai ei fod ef dan arddeliad! Y cyfryw yw balchder a rhyfyg y Jacks!

Dyma Jack y widw yn brwsio ei hun i fyny i'r pulpud yn llawn hunanoldeb a hunanymddiried, ac yn rhoddi y *riddle* neu y ddammeg ganlynol allan i'w chanu yn glod a mawl i'r Arglwydd:—

"Yng ngwydd yr haul yr hoeliwyd
Yr Haul ar ben y bryn;
Gwnai Haul i haul dywylly;
Bydd cof o hyd am hyn," &c.

Rhyw adnod â'r gair "ffydd" ynddi oedd testyn Jack y widw; ac fe ddywedodd bob peth am dani, ond yr hyn ydyw! Dywedodd am dani fel llygad, fel llaw, fel troed, fel aden, ac fel pob peth; ond rywfodd neu gilydd, fe anghofiodd ddywedyd yn ymadrodd yr apostol, "Ffydd yn wir yw sail y pethau yr ydys yn eu gobeithio, a sicrwydd y pethau nid ydys yn eu gweled." Ond i ddangos beth oedd y Jack hwn yn ei ddeall am ffydd, gwel yw defnyddio ei ymadroddion ef ei hun:

"Wel, gredadyn bach, daw ffydd gyda ti i bob man; daw ffydd wrth dy ochor i bob man hyd lan yr afon. Daw, daw; hi ddaw gyda ti i bob man hyd lan yr afon. Ar lan yr afon, hi fydd yn dyweyd wrthynt, 'Mi fuais gyda ti ym mhob man yn yr holl dywydd, a dyma fi wedi dy ddwyn yn fy llaw hyd lan yr afon. Yr wyf fi yn awr yn ffarwelio â thi; dyna'r afon; ni ddof fi ddim cam ym mhellach gyda thi. Mae'n rhaid i ti fyned trwy'r dw'r—trwy'r afon dy hun, canys ni ddof fi gyda ti i'r dw'r. Ffarwel i ti yn awr, canys yr wyf fi yn troi yn ol i ymofyn am ryw un arall!'"

Dyma i chwi ddiffinity y llethban jackyddol hwn; ond cyn pregethu ei ffwlbr i eto ar ffydd, gwnelai o'r goreu i ddarllen yr hyn ddyweda yr apostol am y pererinion boreuol: "Mewn ffydd y bu farw y rhai hyn oll." Ni chafwyd gan hwn ond cruglwyth o *nonsense* ac anghysson-

derau; ond fe aeth tu hwnt hyd yn oed i Jackyddiaeth ei hun pan ddywedai fod y Gwardwr mawr wedi bod yn niclo *marbles!* Hawyr bach, aeth y cwrdd hwn drosodd, ac yr oedd yn jackyddol hollol, fel y gellwch farnu oddi wrth yr ymadroddion jackyddol canlynol a frithent y ddwy bregeth. Pan yr mygrhaeddent am *style*, ni chlywid dim ond "crogi'r gogledd ar y gwagle," a "trwy dewdwr torai ei darianau," a "berw brigwyn y môr," a "megys y mae y bydyssawd yn crogi ar ddiddym." Mae Jackyddiaeth, yn ei chabarlatash bregethwrol, yn gyffelyb i ryw *idiot* yn gwaeddi ac yn ysgrechain o ben careg, "*Oxmolopharetacality*," ac yna "*fric; rorumlapsorumcornere*," ac yna "*bic; adamsamathapentruhafsta*," ac yna "*sa*." Dyna yn gywir y *style* jackyddol! Yr oedd y ddau Jack yn "cwmpo ar eu testynau," yn peidio "hala amser," ac "yn eich cylch," ac "yn myned ym mlaen yn llithrig," ac yn "ofni byta amser;" a'r "boreu newydd hwn," a'r "nos newydd hon," a'r "oriau rhai'n," a'r "dyddiau rhai'n," a'r "blynyddoedd rhai'n," yng nghyd â dwseni o eiriau jackyddol ereill. Ac er mwyn dangos dysgeidiaeth uchel yn y Gymraeg, clywid y geiriau, "cystrawen, gwarogaeth, safon, destlus," yng nghyd â'u cyffelyb, nad oedd y bobl cyffredin, mwy nag yr oedd y Jacks eu hunain, yn eu deall! Nid oes mewn gwirionedd gan Jackyddiaeth unrhyw *style*, ond cymmysgedd o bob peth, ac y mae yr holl gymmysgedd yn isell! Yn destyn: "Pa le mae dy hen drugareddau?" "Ie'n siwr; nid pa le y mae dy drugareddau? Nag e'n siwr, nag e; nid dyna fe; ond pa le mae dy hen drugareddau? Ie'n siwr; pa le mae dy hen drugareddau? Oedd yn siwr, yr oedd y Salmydd yn troi yn ol at yr hen drugareddau? Trowch at yr hen drugareddau, bobl fach; ie'n siwr, trowch at yr hen drugareddau!"

Dyma y *style* wir jackyddol; a dyna y *style* sydd wedi dwlian y werin Gymreig; canys y maent wedi cael eu perswadio, ac yn perswadio eu hunain, mai humbug rhagrithiol fel yna ydyw y wir *style* grefyddol o bregethu ac o fagu a meithrin crefydd yn y wlad!

Diweddwyd y cyfarfod yn ysgubor Sion y Pant, a chyhoeddwyd ysgol am ddau o'r gloch, a bod dau yn pregethu yn yr hwyr. Cyhoeddwyd y cwrdd gweddi nos Lun cyntaf o'r mis, cyhoeddwyd y seiet nos Fercher, cyhoeddwyd y sol nos Wener, a chyhoeddwyd y bregeth boreu wythnos i heddyw. Wedi myned dros y cyhoeddiadau perthynol i eglwys ysgubor y Pant, dyma ryw labwst tua phen uchaf yr ysgubor, â llais cryf, cruglyd mawr ganddo, yn cyhoeddi fel y canlyn:—

"Yr wyf fi yn dyweyd wrthych chwi fod Llwyd y Fron yn dyfod i hela cadno i'r ardal dydd Mercher a dydd Iau nesaf; ac y mae yn ceisio genych chwi, y ffarmers, i dopo'r tyllau nos Fawrth, ac y mae y cŵn i aros yn yr ardal nos Fercher; ac y mae yn ceisio gyda chwi i barotoi bwyd ar eu cyfer hwy a'r cynydd. Dyna fi yn rhydd; mi wedes y gwedsw'n."

Ac yn sw'n y cyhoeddi hwn, ymadawodd yr addolwyr.

Aeth Tomos y diacon, yn ol ei hen arferiad, gyda'r cyntaf a'i gwahoddoddi i ginio, a Sion y Pant a'r widw a'u Jacks gyda hwythau; ond fel ag yr oedd pob un yn hwdog o Jack Dai Luke, penderfynwyd rhoi swllt o ddegwm cildwrn iddo, a'i anfon yng nghylch ei fusnes. Ni fu fawr o lewyrch ar yr ysgol am ddau, canys aeth llawer iawn o'r bobl i'r Eglwys i wrando ar y ficer yn pregethu pregeth angladdol un o'i hen blwyfolion, ac ym mhlith y rhai hyn yr oedd y siopwraig; ond nacaodd y Jack fyned gyda hi, a dywedodd,

"Mi w'rantaf nad oes gan yr hen offeiriad ddim i ddyfogu i fi."

Cyfrôdd y widw dipyn wrth glywed llypyn o Jeckyn diddysg a dwl yn cyrhaeddyd ei well mor ddiseremoni, ac a'i hatebodd gan ddywedyd wrtho,

"Mi allwn i feddwl oddi wrth eich pregeth chwi heddyw fod gan ficer ein plwyf ni lawer iawn i ddysgu i chwi. A ydych chwi yn rhyw grefftwr?"

"Yr wyf yn daeliwr wrth fy nghalwedigaeth," ebai y Jack, "ond fy mod er ys cryn dipyn wedi rhoddi fy nghreffth heibio er pan ddechreuais bregethu."

Aeth y widw allan o'r ystafell gyda hyn ac i'r siop, ac ym mhen ychydig daeth yn ei hol, a dywedodd wrth y Jack,

"Y peth goreu allwch chwi wneyd ydyw myned yn ol at eich crefft: dyma becyn o nodwyddau i chwi, a dyma lawes goch i chwi i'w doddi ynddi, a dyma wniadur i chwi ddodi am eich bys, a dyma linyr i chwi fesur ag ef, a dyma sialc i chwi i farcio'r defnydd, a dyma shishwrn i chwi i dori'r dillad; ac nid oes dim yn awr ar ol ond yr wydd a'r sliwburt, ac nid yw y rhai hyn genyf. Ac yn awr, *good bye* i chwi: chwi gewch dê gan y forwyn; ond y mae rhaid i chwi ymofyn am ryw le arall i lettya heno. Yr wyf wedi ffeiddio Jackyddiaeth heddyw, ac yn ei gweled mewn lliw nas gwelais erioed o'r blaen."

Aeth y widw i'r Eglwys ac a adawodd y Jack ar ol; a phan y daeth yn ei hol, yr oedd y Jack wedi ymadael cyn cael tê, ac yn ol a ddywedai y forwyn yr oedd yng nghanol y pwd mawr! A chyn myned ym mhellach, gellir sylwi mai y creaduriaid mwyaf pwdlyd yw y Jacks o bob creaduriaid, yn y rhai dwy droediog a phedwar troediog. Mi allwn enwi Jack aeth i'r pwd o blegid iddo gael rhy fach o siwgr yn ei dê! Mi allwn hefyd enwi Jack arall bwdodd yn anghyffredin wrth ryw lordyn am iddo alw John arno yn lle Davies! Ac

mi allwn hefyd enwi Jack aeth dros ei ben a'i glustiau i'r pwd am i un ddywedyd ei fod yn ddeheuach yn tafu'r wennol nac yn gwau ei bregeth. Pan ddaeth y widw yn ei hol, yr oedd y Jack wedi ymadael yn ei bwd, fel y gwedspwyd yn barod; ac nid aeth hi i gwrdd yr ysgubor y noswaith hono, ond a arosodd gartref.

Yn ysgubor y Pant y nos Sul hwn, rhoed Jack i ddechreu a dau i bregethu yn olynol ar ei ol. Yr un actio ag a wnaed yn y boreu, a wnaed yn yr hwyr, a'r unig wahaniaeth oedd bod y swyddogion newyddion lawer fwy eu 'stwr nag yn y boreu, a Tomos y diacon yn cadw mwy o 'stwr nag a gadwodd erioed; a'r amcan mewn golwg oedd creu diwygiad, canys nid oeddynt yn llwyddo mor belled ag y dymunent. Lladd Mr. Evans a'r hen achos oedd eu pwnc mawr yn bresennol; ac er sefydliad eu heglwys newydd yn yr ysgubor, yr oeddynt yn siarad lawer yn fwy parchus am y ficer a'r Eglwys nag y siaradent am Mr. Evans a'r hen achos. Wedi diweddu o'r cyfarfod pregethu, cyhoeddwyd seiet i fod ar ol; ond ni arosodd fawr o'r bobl wylltion, eithr myned allan a wnaethant. Yn awr yr oedd *whippers-in*, gwrywod a benywod, wedi cael eu paratoi i fyned allan i ddwyn cymmaint ag a allent yn ol. Yr oedd y *whippers* gwrywaidd yn myned yng ngafael â'r bechgyn, a'r *whippers* benywaidd yn myned mewn gafael â'r merched. Pan welai'r bachgen yr eneth yn cymmeryd ei whipo yn ol, yr oedd yntau hefyd yn cymmeryd ei whipo yn ol; a thrwy y moddion hyn, cafwyd gan fageidach i ddychwelyd yn ol i'r ysgubor! Y fath chwareu a'r fath gellwair wneir o grefydd gan y rhai a alwant eu hunain yn grefyddwyr, er mwyn ateb eu dybenion eu hunain!

Hawyr anwyll! yr oedd Wil ar hyd y wlad ac o gapel i gapel ar

ol ei gyhoeddiadau, a thyrfaoedd lluosog yn myned i wrando arno ym mhob man a lle! Mae yn rhaid i Sectyddiaeth gael pregethwr a phregethwr mawr, ac ni all fod yn llewyrchus ac yn enwog heb bregethwr a phregethwr mawr. Mae ambell un, yr hwn a elwir yn bregethwr mawr, yn naturiol felly; ond y mae mwy yn cael eu gwneuthur gan y sect yn bregethwr mawr nag sydd yn naturiol felly! Mae rhyw bethau yn dygwydd cyd-daraw yn fynych i wneuthur yr abwyd, i e y lledogyn a'r ielstyn gwaelaf a distadlaf ym mhlith yr holl Jacks, yn bregethwr mawr. A chan fod pregethwr mawr yn enaid, yn fywyd, yn asgwrn cefn, ac yn ogoniant sect, fe'i gwneir ac fe'i cedwir yn bregethwr am ryw hyd o leiaf. Un yn dywedyd wrth y llall, y siarad yn myned yn gyffredinol, yn myned yn fwy cyffredinol, yn cael mwyfwy o afael, a'r bobl yn credu fod y cyfryw un yn bregethwr mawr; ac wedi ei glywed, er mwyn dangos eu hunain, a'u bod yn gallu barnu pwy sydd fawr a phwy sydd fychan, yn ei gyhoeddi y pregethwr mwyaf yng Nghymru. Ac y mae rhyw ffordd ryfedd ganddynt i'w gadw yn ei fawredd; o blegid pan ddywedir wrthynt, "Tlawd iawn oedd hwn a hwn yn pregethu yn Gibeon pa ddiwrnod; pa fodd yr ydych yn rhoi cymmaint o ddyrchafiad iddo?" "Yn siwr, yr oedd yn anhwyfus, ond fe bregethodd yn rhyfeddol yn Iericho; ni chlybuwyd erioed y fath beth; yr oedd dan arddeliad mawr ac anarferol yno. Ac yn Hebron yr oedd tu hwnt iddo ei hunan; yr oedd y bobl yn gwildasad trwy'r holl le, ac wedi dotio yn hollol gan y fath arddeliad oedd arno: ond yr oedd yn anhwyfus yn Gibeon, eithr y mae yn rhyfeddol o fawr fel pregethwr."

Dyma y logwm pan ddyrchefir ffwlcyn i lefel uchel fel pregethwr i'r dyben i'w cadw yn eu lefel!

Gwyddys am bregethwr gwir fawr eu bod yn cyrhaeddyd eu lefel yn naturiol; ond am Wil a'i gyffelyb y maent yn cyrhaeddyd y lefel uchel ar bob 'stwr, ffrost, a chelwydd, ond yn benaf ar ymdrechion anwybodusion pan fyddont yn benderfynol o greu pregethwr mawr o ddim!

Yr oedd Wil yn dal yn ei boblogrwydd wrth ddilyn ei gyhoeddiadau; yr oedd yn cryfhau braidd yn ei ysgrechfeydd yn hytrach nag yn gwanhau; ac yn neillduol yr oedd ei wawchiadau disymmwth yn ielpan y ffolineb disylwedd a ddeuai i'w ben gwag yn hynod o dderbiniol, canys yr oeddynt yn starto yn y cyfryw fodd, fel ag yr oeddynt yn credu eu bod yn ymaffyd yn eu cyflyrau. Yr oedd Wil hefyd ar ryw achlysuron o bwys yn gallu troi swch ei geg braidd i ymyl ei glust, ac yna yn gollwng rhyw rwsch allan nad oedd neb yn ei deall, fel rhyw hen gwdd, ac yr oedd y bobl yn ystyried bod hyn yn dylanwadu mewn modd neillduol ar eu cyflyrau. Yr oedd yn sefyll weithiau ar un droed yn y pulpud neu ar ben ystôl fel hen geiliogwydd ar ben y ddomen pan fyddo yr wydd yn deori; ac ystyrid hyn gan anwybodusion yn un *ingredient* yng nghompowndiad pregethwr, ac yr oedd yn cael yr effaith fwyaf dymunol ar gyflyrau gwŷr y *gallery*! Yr oedd Wil hefyd weithiau yn codi y Beibl o hyd braich uwch ei ben a'i ddai yn troi ar ol eu gilydd fel gwyntell melin; ac yr oedd hyn yn un *step* at ei wneuthur yn bregethwr! "A welsoch fel yr oedd yn codi y Beibl uwch ei ben?" Weithiau yr oedd Wil yn ymythu, fel y galledd meddwl ei fod ar ymddiwel o'r pulpud i lawr y capel! Byddai weithiau yn plygu ac yn estyn ei ddwyllaw a'i freichiau lawr dros ymyl y pulpud megys pe buasai â'i fryd ar gribo penau y *lords*, neu ddifa y llau o'u penau, ac yr oedd hyn yn ei wneuthur yn bregethwr

mawr! **Yr** oedd yn curo'r Beibl hefyd **weithiau** yn ofnadwy, nes byddai ei **ddail** yn hofran ar hyd y capel fel **arcutanod** papyr!

Fe gafodd ryw hwyl ryfedd unwaith ar **y daith** hon, pan yn pregethu ar **y secina** yn ymadael â'r deml, ac fe **stampodd** ei boblogrwydd ar unwaith; a dywedai y bobl na chlywsant **erioed** bethau mor wir fawr.

"Yr oedd y gogoniant," meddai Wil, "yn **wafo**, yn wafo, yn wafo uwch ben **yr arch**; a symniodd, a'r bobl yn **edrych** arno ac ym mron â **thori** eu **calonau**; ond fe safodd uwch ben **rhiniog** y ty, ac yno y

bu yn hir yn wafo, yn wafo, yn wafo. Aeth oddi yno yn wafo, yn wafo dros y dyffryn; a phan gyrhaeddodd droed y bryn, arosodd, yn wafo, yn wafo, yn wafo. Esgynodd i'r bryn, ac wedi cyrhaeddyd pen y bryn, fe safodd yn hir yn yr awyr, yn wafo, yn wafo, yn wafo. Arosed yn y capel hwn i wafo, i wafo, i wafo, nes wafo llawer pechadur sydd yma."

Yr oedd pregeth y wafo dan arddeliad rhyfeddol, mor effeithiol felly nes gwneuthur i'r bobl wafo yn eu corau, a siglo fel y byddai yr hen Fethodistiaid gynt yn gwneuthur pan yn hwyliu y canu.

XVII.

MAE cynniweirfa ambell un o ddynionach y **ddaiar** hon yn rhyfedd, ym mhell felly tu **hwnt** i gynniweirfeydd **dynionach** ereill! Ac nid yn unig o fewn **cylch** eang a mawr y mae canfod y rhyfeddod hwn, yn ei berthynas â **dynion** gwir fawr, ac yn berchen ar **eneidiau** mwy o lawer na **dynion** yn **gyffredinol**; ond y mae y rhyfeddod yn **fwy** yn ei berthynas â **chylch** cyfyng a bychan, ac â **dynion** nad yw eu heneidiau yn **fwy** na **hadau** persli! Ac o bob **cylch** yn ein byd **presennol** ni, **cylch** y **pulpud** ydyw y sicraf i **ddynion** dienaid i wafo eu **hunain** i sylw, ys dywedodd Wil Brydydd y Coed am wafo!

Arferai y diweddar hybarch Ddoctor Thomas Phillips, Neuadd Lwyd, **ddywedyd**, "Ni chrogwyd pregethwr erioed, ac ni chrogir pregethwr byth!" "Pa fodd hyn, doctor?" meddai y rhai a'i **gwranda**wai. "Am," meddai yntau, "na chytuna y **jury** byth ar y **sentence**!" Nid yn unig y mae llawer iawn o wirionedd yn hyn, ond y mae yn wir oll trwyddo; canys yr ydym yn **gwybod** am bregethwyr a **Jackach** sydd yn myned ar hyd y **wlad**, ac yn cael dringo **pulpudau**, ac yn cael **actio** mewn **pulpudau** y

byddai yn drugaredd â'r Efengyl, ac â phregethu, ac â chrefydd, ac â gwybodaeth, ac â phob peth sydd yn perthyn i gynnydd ysbrydol dyn mewn sancteiddrwydd, iddynt, mewn ystyr foesol, i gael crogi pob un o honynt, na chael bod â'u traed yn rhyddion i browla ar hyd ardaloedd; ond ni chytuna'r **jury** ddim ar eu **sentence**!

Ni all dim fod yn amlycach nad y **pulpud** yw yr unig le y mae **lobiaeth**, a **lowtiaeth**, ac **anwybodaeth** yn sier o **fyned** yn fawr, a chael **cefnogrwydd**; canys yr ydym yn **gweled** creaduriaid o bregethwyr a **Jackach**, trwy eu haerllugrwydd, a'r pres a'r haiarn sydd ar eu **talcenau** a'u **gwynebau**, wedi myned yn **ddynion** mawr, ac yn cael eu hystyried yn wir fawr gan y werin, a gwae i gyflwr **presennol** a **thragwyddol** y neb a feiddia **ddywedyd** gair yn erbyn **cyfundraith** ag sydd yn **bwdr** trwyddi o'r bon i'r brig, yn y dull **presennol** o'i rhodd mewn **gweithrediad**! Pa beth yn well o fod yr **HAUL**, *Seren Cymru*, a'r **Byd** yn hela'r **Jacks**, a'r **pregethwyr** anwybodus, er mwyn eu llorio yn **nyffryn** marwolaeth? Pa beth yn well fod **cymmanfaeod**, **cyrddau**

cwarterol, yng nghyd â chyrrddau ereill, yn plethu rhaffau, ac yn saer-nio coelbrenau i grogi Jacks? Mae y Jacks trwy y tew a'r teneu yn *rampant* ar hyd y wlad ac yn y pulpudau! Ac erbyn ystyried pob peth, pa ryfedd yw hyn? Nid yn unig y mae y werin anwybodus yn cadw y gyfundraith ar ei thraed, ond hefyd y gweinidogion, y reverendiaid, y rabiniaid; i.e., y rhai sydd â'u hergydion ar ben y Jacks, ac yn eu cyfarth, ac yn eu hela o faes i fynydd, ac o fynydd i faes; ac o dwll i gongl, ac o gongl i dwll: i.e., y rhai hyn, yn y pen draw, yn fywyd i'r Jacks ac yn enaid i Jackyddiaeth! "Pa fodd felly?" meddai rhywun. Y mae mor amlwg a dim sydd yn yr amlwg; canys nid yw y gweinidog yn fynyeh yn gallu bod yn y capel ond dau Sul yn y mis, o blegid y mae ganddo gorlan arall i fod ynddi am ddau Sul yn y mis; ac yng ngwyneb hyn, y mae yn rhaid cael *supply*, ac er mwyn cyflenwi y Suliau, y mae yn rhaid *employo* Jacks; ac felly, y gweinidogion eu hunain sydd yn rhoddi y cryfder, ac yn cynnal y cryfder yn y mynydd jackyddol, ac yn gwneuthur yr agerdd sydd yn troi y peiriant jackyddol!

Yr oedd Wil yn myned ym mlaen yn hwylus yn ei gygniweirfa jackyddol ar ol ei gyhoeddiadau, a Jacks yr eglwysi yn suppleio yr eglwys newydd yn ysgubor Sion y Pant, bob yn ddau a phob yn dri; a chydrhwng pob peth a'u gilydd, nid oedd y sefydliad newydd hwn yn gyffelyb i ddim, ond i'r hyn a allwn ei ddychymmygu am dy Ieroboam fab Nebat, yn ei annybendod! Ond yr oedd Wil, fel y dywespyd, ar ol ei gyhoeddiadau, yn ei ymweliad cyntaf hwn â'r eglwysi, a'r bobl yn dyrfaoedd yn ymdynu i wrando arno, gan fod ei enw wedi myned yn fawr, a'r son am dano wedi cyrhaeddyd hyd ym mhell. Yr oedd Wil yn deimladwy o'i gollodion. Gwyddai mai humbug, *farce*, a *sham* ydoedd,

a dim ar wyneb clawr y ddaiar ond hyny! Gwyddai mai haerllugrwydd oedd yr unig brop oedd ganddo i sefyll arno. Gwyddai fod ei fywyd, fel geneu cyhoeddus dros y Diafol, yn ymddibynu yn gyfan-gwbl ar ei *outwards* ac nid ar ei *inwards*! Yr oedd digon o frawl ganddo, a'i lais yn gwella beunydd, ac yr oedd yntau yn gwneuthur y defnydd goreu o hwn. Yr oedd ei farf a blew ei gernaau hefyd ganddo; ac yr oedd Wil wedi deall fod barf a blew wedi myned yn un o anhebgorion y weinidogaeth yn y "dyddiau rhai'n" (*phrase* gyssegredig jackyddol, cof-iwch), ac yr oedd Wil yn gwneuthur y goreu o'i farf a'i flew, gan wybod yn dda am eu nerth gweinidogaethol mewn perthynas i'r genadwri oedd ganddo i'w thraddodi i bechaduriaid!

Un go annyben a difedr wyf i ysgrifenu hanes o fath yr un sydd genyf mewn llaw; a chan fod y darllenwyr yn deall hyn, gwn y gwnânt faddeu i mi am grwydro ychydig yn awr ac yn y man megys oddi wrth fy mhwn, pe byddai yn grwydro hefyd. Yr wyf fi, chwi welwch, yn condemnio tipyn arnaf fy hun yn ysgafn felly; canys y mae braidd yn fwy cyd-ddygol â'm teimladau i mi gondemnio llawer ar fy hun nag ydyw i chwi gondemnio ond ychydig arnaf. I.e., mater barf Wil oedd genyf mewn llaw. Yr oedd pob math o gymmeriadau yn myned i wrando ar Wil, ac ym mhlith ereill, yn un o'r capeli yr oedd efe yn *performo* ynddo, dygwyddodd fod yn eu plith laslencyn â mwy yn ei ben nag a dybid gan rai a feddyl-ient eu bod lawer yn gallach nag ef. Adnabuodd y glaslencyn hwn Wil; a chan nad oedd yn gwbl o'r un farn a'r werin am ddull ac agweddiadau pregethwyr, a natur pregethu, efe a gyfansoddodd y pwnc byr a bychan canlynol, a chafodd y cyfenw o erlidiwr am ei wasanaeth a'i drafferth; ond nid oedd yn hidio flewyn am hyny. Trwy eich can-

iatâd chwi, fel darllenwyr *Wil Brydydd y Coed*, mi osodaf y pwnc ger eich bron, gan ddymuno y bydd o ryw faint o lesâd, os nid i chwi, i ereill.

“PWNC NEWYDD, OND GWIRION-EDDOL.”

“*Holiad*. Wel, fy mhlant i, a fedr-wch chwi ddyweyd beth yw y peth rhyfeddaf ar hyn o bryd sydd yn dwyn perthynas â'r weinidogaeth yng Nghymru yn 'y dyddiau rhai'n'?”

“*Ateb*. Medrwn.

“*H*. Wel, 'mhlant i, chwi atebwch yn dda, canys plant yr oes oleu hon y'ch chi'; rhowch glywed i mi a'r dorf beth yw y peth rhyfeddaf ar hyn o bryd sydd yn dwyn perthynas â'r weinidogaeth yng Nghymru yn 'y dyddiau rhai'n'?”

“*A*. Y peth rhyfeddaf ag sydd yn dwyn perthynas â'r weinidogaeth yng Nghymru yn 'y dyddiau rhai'n' yw, bod bychod geifr yn cael myned i bulpudau i bregethu!

“*H*. Peidiwch erlid, 'y mhlant i; peidiwch erlid. Peidiwch â galw gweision yr Arglwydd yn fychod geifr. A oes gyda chwi, 'y mhlant i, ddim enw mwy priodol arnynt na bychod geifr?”

“*A*. Ni drewn grafu enw arall mor briodol.

“*H*. Da iawn, 'y mhlant i, da iawn. Gobeithio fod hwn yn enw mwy priodol iddynt na bychod geifr; gadêwch i mi a'r dorf fawr sydd yn gwrandao ei glywed.

“*A*. *Draenogod y coed*; canys y maent yn bigau o glust i glust ac o'r talcen i'r ên!

“*H*. *Wfft i ch'i*, 'y mhlant i. Os drwg o'r blaen, gwaeth yn bresennol. Yr ydych ym mron â'm tentio i fyned i natur ddrwg. A wyddoch ch'i ddim mai oes oleu iawn yw yr oes hon, ac mai dyddiau goleu iawn yw 'y dyddiau rhai'n'?”

“*A*. *Gwyddom o'r goreu*; ac yng ngoleuni yr oes oleu hon, ac yn llewyrch 'y dyddiau goleu rhai'n'.

yr ydym yn gweled gwrthddrychau yn eu hagweddau priodol, ac yn eu galw wrth en henwau priodol.

“*H*. 'Does bosib' eich bod yn fy ngalw i yn fwech gafr ac yn ddraenog y coed. A ydych chwi, 'y mhlant i?”

“*A*. Yr ydych yn debyg iawn i bob un o'r ddau.

“*H*. Wel, 'dyna glamp o gelywydd,' beth bynag.

“*A*. Nid i gyd, nid i gyd.

“*H*. A wyddoch ch'i ddim fod Abraham, Isaac, a Iacob, a Moses, ac Aaron, a Dafydd, a duwiolion yr Hen Destament yn gwisgo barfau? Ac a gawn ni, pregethwyr yr oes hon, ddim gwisgo ein barfau yr un fath a'r hen dduwiolion?”

“*A*. Os ydych am ddilyn yr hen dduwiolion, dilynwch hwynt yn eu ffydd yn hytrach nag yn eu barfau. Ië, yn hytrach hefyd na gwisgo eich barfau a'ch blewach nes yr ydych yn debycach i owtangiaid yr anial-wch, a goriliaid a mwncïod y diffaethleoedd, nag i bregethwyr Gair yr Arglwydd; gwisgwch fwy o'r dyn newydd, yr hwn yn ol Duw a grewyd mewn cyfiawnder a gwir sancteiddrwydd; a'r hwn hefyd a adnewyddir mewn gwybodaeth, yn ol delw yr Hwn a'i creodd ef.

“*H*. Barn gul iawn felly sydd ganddoch am danom, fel pregethwyr, a hyny o blegid ein barfau.

“*A*. Barn go gul sydd genym am danoch chwi, y pregethwyr barfog; ond nid yn gymmaint am eich bod yn gwisgo barfau, eithr am fod eich gwaith yn gwnenthur hyny yn dangos beth sydd i mewn ynoch, a'ch bod chwi mor barod, neu yn hytrach yn barotach na'r parotaf, i fyn'd ar ol ffasiynau newyddion, ac i wenthur â'ch hunain ym mhob ystyr, yn eich dulliau a'ch agweddiadau allanol, mor annhebyg i bregethwyr ag y gallwch. Ond digon tebyg mai *index* cywir o'ch agweddiadau mewnol yw eich agweddiadau allanol.

“*H*. Yr ydych yn myned yn gas iawn, 'y mhlant i.' Y mae yn rhaid

i chwi beidio gwrando ar y pethau y mae erlidwyr a chablwyr gweision yr Arglwydd yn eu dywedyd am danynt. Yr ydwyf yn rhyfeddu am danoch chwi eich bod yn gwneuthur hyny yn yr oes oleu hon.

“A. Y mae yn rhaid cael rhywbeth heb law yr hyn sydd oddi allan arnoch—heb law eich barfau a’ch blew mwnciaidd, yng nghyd â’ch cwavers gwisgo, i brofi eich perthynas â’r Arglwydd; canys y mae eich lifre presennol fel mynegfys yn pointio at feistr arall na hoffech glywed ei enw, dichon, yn ei berthynas â chwi.”

Wel, yr oedd y parchedig William Morgans, gweinidog yr eglwys newydd yn ysgubor Sion y Pant, ar ol ei gyhoeddiadau yn llewyrchus iawn, ac yn cael ei foddhau yn fawr yn ei boblogrwydd, a’r parch mwyaf yn cael ei roddi iddo ond gan y rhai hyny oedd wedi ei ddeall, a’r rhai a elwid ganddo ef yn gablwyr crefydd ac yn erlidwyr gweision yr Arglwydd. Yr oedd wedi dyfod ym mlaen ym mhell tu hwnt i’w ddysgwyliaid, ac wedi dringo yr ysgol weinidogaethol yn uwch o lawer nag y dychymmygodd y gallai byth wneuthur. Yr oedd yn gweled yr anialwch wedi troi yn ardd flodeuog iddo. Yr oedd wedi gweled y mynyddoedd uchel a chribog wedi diflanu allan o’r golwg o’i flaen. Yr oedd yn gweled ei hun yng nghanol ei gynauaf, ac nad oedd pen draw i’r maes, ond medi, medi, a medi a chasglu clod a mawl byth; Morgans i fyny, a Morgans i lawr; Meistr Morgans ar y llaw ddeheu, a Meistr Morgans ar y llaw aswy; a Wil yn meddwl ac yn dychymmygu ei fod yn lloned byd ac eglwys, ac nad oedd neb ond efe o werth yn y pulpud nac allan o’r pulpud! Teml iddo ef ei hun yn gyfan oll oedd teml Wil, allor iddo ef ei hun yn gwbl oll oedd delw Wil, a dim ond arogl-darth iddo ef ei hun yn gwbl oll oedd arogl-darth Wil! Yr oedd ar

gefn ei farch, ond wedi gollwng dros gof yr hen *adage* gwirioneddol hōno, sef “*Set a beggar on horseback, and he will ride to the devil;*” ac anghofiodd hefyd ei fod wedi dygwydd weithiau i dymmestl arswydus o fellt, taranau, a gwlaw i oddiweddyd y teithiwr yn ddisymmwrth ar ddiwrnod tesog o haf, pan yn ymdeithio rhwng mynyddoedd uchel y ddaiar. Yr oedd Wil wedi anghofio pob peth yn nhyddor ei lwyddiant, yng nghanol ei gynauaf o glod, mawl, bri, anrhydedd, a phoblogrwydd. Bu yn derbyn ei glod gyda diolchgarwch, ac ystyriai y canmoliaethau a roddid iddo fel ffafr. Ond wrth eu bod yn cael eu pentyru yn ddibaid gan ffyliaid arno, aeth Wil i’w hystyried nid fel ffafr, ond fel talment ag oedd yn ddyledus iddo; ac felly nid oedd ganddo ddiolch yn y byd am danynt, canys efe a ystyriai ei fod yn gyfiawn wedi ac yn eu hennill.

Ond pan yr oedd Wil ar ol ei gyhoeddiadau, yn ymweled â’r egwysi er mwyn eu hadeiladaeth ybrydol, ar uchaf hwyr un prydawn, dyma ferch ieuanc weddol lân a thrwsiadus yn dyfod i mewn i’r tafarndy lle bu Dai Luke a’r Jack yn saluto eu gilydd â’u dyrnau, ac yn gofyn os gellai hi gael lletty yno y noswaith hōno; ei bod wedi blino, ac nad oedd yn gwbl iach, ac y chwennychai yn ddirfawr gael lle i orphwyso yno y noswaith hōno heb ei bod dan orfod myned ym mhellach. Atebodd gwraig y ty yn eithaf serchogaidd bod yno le iddi, ac yr ymdrechai hi ei gwneuthur mor gysurus ag yr oedd modd iddi. Yr oedd yn y ty tafarn ar y pryd dri neu bedwar o ddynion wedi troi i mewn i gael pob o beintyn, ac yn eu plith Mr. David Luke y gof a Mr. Sion y Pant, diacon newydd yr eglwys yn ei ysgubor ei hun. Yr oedd Dai Luke a Sion y Pant wedi chwyrnu cryn dipyn ar eu gilydd cyn i’r ferch ieuanc ddyfod i mewn; ond pan ddaeth hon i’r ty, tawsant son â’u

chwyrnu, a'r dynion a gynnygiasant lymaid i yfed i'r ferch ieuanc, yn ol ein harfer ni o wneuthur ar hyd y wlad. Wedi i'r ferch ieuanc eistedd a siarad ychydig, deallwyd wrth ei hiaith ei bod yn enedigol naill ai o Went neu Forganwg, am fod eu hacen a'r dullwedd yn llawn ganddi. Wrth ddyweyd i hyny gael ei ddeall, yr wyf am i'r darllenwyr ddeall hefyd mai gwraig y ty a Dai Luke ddeallodd hyny; o blegid ni wyddai Sion y Pant, a'r rhai ereill oedd yno, ddim wrth ei siarad o ba barth o'r ddaiar yr oedd wedi dyfod.

Yr oedd y ferch hon yn weddol landeg, ond yn lled lwydaidd yr olwg arni, ac yn edrych rywbeth yn wasgaredig, megys pe buasai yng ngafael afiechyd; ac heb law hyny, ymddangosai hefyd bod rhyw lwyth trwm ar ei meddwl ac yn gwasgu yn drwm ar ei hysbryd. Yr oedd ei hanadl braidd yn fyr, ac ocheneidiau yn dilyn eu gilydd yn ei mynwes.

Ond wedi i'r ferch ieuanc eistedd a gwneuthur y lle yn gartref am y noswaith hōno, dyma Dai Luke a Sion y Pant yn myned i newid geiriau ac i chwyrnu ar eu gilydd drachefn, fel y gwneleant cyn iddi hi ddyfod i mewn. Dechreuodd Dai Luke â gwneuthur gwawd ofnadwy o urddiad Wil gan Tomos y diacon, a chreadigaeth ffurfiad yr eglwys newydd yn Nhroed y Foel, yng nghyd â saerniaeth y swyddogion newydd; a chymmaint oedd doniau Dai, fel nad oedd gan Sion nemawr air i'w ddywedyd ei amddiffyn ei hun. Yr unig beth oedd Sion yn ei wneuthur oedd, rhoi peint i Dai am gael llonydd; a thra yr oedd y peint yn parhau, yr oedd Sion yn cael llonydd gan Dai, ond dechreuai arni drachefn pan fyddai y llymaid diweddaf wedi cael ei yfed o hono. Ac felly yr oedd Sion yn gorfod galw a thalu am beintiau yn barhäus iddo. Ond er cael ei gwrw am ddim gan Sion, aeth y *steam* o'r diwedd yn drech na Dai Luke, a thyma hi yn

ymarllywsfa fawr allan yng nghylch Wil.

"Ië," ebai Dai Luke, "gwneuthur Wil yn weinidog! yr hen Dwm y diacon yn ei wneuthur yn weinidog! Ym niha le ar wyneb claw y greadigaeth y ceir gwaeth dyn na'r hen Dwm y diacon! Nid oes dim ond y twyll, y rhagrith, yr hoced, a'r Satau trwy groniel ei fuchedd! Yr oedd yn rhaid fod y gelyu Diafol a'i awdurdod yn gyflawn arno pan y buasai, er mwyn ei fola a dial ei lid, yng nghyd ag er mwyn cyrhaeddyd rhyw amcanion ereill dichon oedd ganddo mewn golwg, berswadio gwidw na arwyddodd efe *settlement* priodas, y gŵyr y nefoedd, y gŵyr dynion ac yntau, y cnaf drygionus, iddo dori ei enw wrtho; ac yn y pen draw, i bwy y gwnaeth efe y drwg, ond i'r widw ei hun; ië, hyd i gannoedd lawer o bunnau! A hwn, nad oes dim ond pob twyll a rhagrith, a'i fola, a'i weniaith ganddo, yw eich blaenor! yw eich heglwys! yw eich pob peth yn eich cawdel mawr yn eich hysgubor chwi? Yn sier, fe atebai ddyben yn anwyl i chwi i grafu eich crochanau ar y Suliau, a diwrnodau ereill, pan fyddo yn gyflëus ganddo i wanu ei drwyn i'ch tai! Och fi! rhag cywilydd i chwi!

"A dyna Wil, y scamypyn celwyddog! y Jack diegwyddor, y trampyn drygionus, a'r *locust* boliog, yn weinidog i'r *concern* halogedig sydd yn cael ei gynnal yn eich hysgubor chwi! Buasai yn fwy anrhydeddus yn y pen draw i chwi i wneuthur y cythraul ei hun yn weinidog i chwi na Wil; canys, a'i gymmeryd ar bob tir, y mae'r cythraul yn fwy o wr boneddig na Wil! Ië, Wil wedi bod yn yr ysgol yn Lloegr! Wil yn ysgolhaig! Bu yn cymmeryd arno ei fod mewn *British School*; ond dim wnaeth efe gyda iolan; ac wedi iddo ddyfod yn ei ol, chwi ac ereill yn rhoddi eich hunain yn dwlsynod yn llaw yr hen

Dwm y diacon i'w bleidio er mwyn dial Mr. Evans! Peidiwch chwi â rhyfeddu nad dechreu gwaith sydd genych chwi mewn llaw; ac ni ryfeddwn i un tipyn na ddaw storom o'r Gweithiau i chwythu arnoch yn achos Wil, canys y mae wedi myned yn greadur rhydd ofnadwy er pan y dechreuodd jackydda! Cofiwch chwi y peth yr wyf fi yn ei ddywedyd wrthyich; yr ydych wedi tynu drwg i'ch nyth, canys ni fu gwaeth scampyn erioed na Wil!

"Mae rhai o honoch yn barod i ddywedyd fy mod yn myned yn rhy bell, ac nad ydyw yn gredadwy fod dynion crefyddol—dynion dan enwau profleswyr—erioed wedi arfer y fath iaith. Mewn atebiad i hyn, yr wyf finnau yn dywedyd nad ydyw yr ymadroddion a nodwyd ddim mewn ysgelerder at yr ymadroddion sydd wedi cael eu defnyddio mewn ymrafaelion capelaid, y rhai sydd tu hwnt i ddim a all y rhai ni chlywsant feddwl am danynt."

Yr oedd y ferch ieuanc yn gwranddo yn astud ar y bregeth, neu yn hytrach ar bregethau Dai Luke, a sylwai gwraig y ty hefyd fod ei eiriau yn cael effeithiau dwys arni. Newidiai liw; gwyneb-lasai; gwelid dyferynau yn dilyn eu gilydd ac yn rhedeg dros ei gruddiau lawr, ac ymddangosai megys pe buasai ym mron â llewygu. Yr oedd arwyddion gofid, a hwnw yn ofid trwm iawn, arni; ond ni ddywedai air, eithr yr oedd yn amlwg ei bod yn gwranddo yn ddyfal ar yr hyn ddywedwyd gan Dai Luke, ac megys pe buasai yn siomedig am fod Sion mor ddystaw, ac yn ymddangos megys pe buasai wedi cael ei daro â mudandod ac heb air ganddo i ddywedyd dros ei gyfaill, a'r cyfaill hwnw yn weinidog yr Efengyl.

O'r diwedd, aeth yn rhy boeth ar Sion y Pant i aros yn hwy, ac wedi gwneuthur tri neu bedwar o gynnygion, efe a gyfododd; ac wedi tynu cam rhedynen o un pen i'r llall i'r llawr, aeth y diacon trwy y drws

wedi cyfarch y ddau gynor, ac allan ag ef yn gnapp mawr i chwilio dwy ffos yr heol wrth fyned adref.

Wedi cael gwared o'r diacon, symudodd Dai Luke ei 'stôl, a daeth i eistedd yn gyfagos i'r ferch ieuanc; a hi a ofynodd i Dai os oedd rhyw wirionedd yn yr hyn a ddywedai efe am y pregethwr, ac os oedd yr hanner a ddywedai am dano yn wir, mai dyn drwg iawn ydoedd.

"Mi ddywedaf gymmaint a hyn wrthyich chwi, fel merch ieuanc ddy-eithr; yng nghylch y Wil yr oeddym ni yn son am dano, nid yw'r diawl (maddeuwch i mi am arfer y gair, canys nid wyf braidd byth yn ei arfer; maddeuwch i mi)—ond y peth yr oeddwn i yn gyru ato yw hyn—nid yw'r diawl ddim yn y byd yn ei gnaciau at y Wil y clywsoch ni yn son am dano, a gobeithio y bydd i'r Arglwydd gadw pob lodes ieuanc rhag adnabod y bwystfil: onid e, gwae hwynt."

Rhoes y ferch ieuanc *start* anghyffredin; ymliwiodd, a bu agos iddi syrthio oddi ar y gadair.

Ymaffodd Dai Luke ynddi i'w rhwystro i syrthio; a gwaeddodd ar wraig y ty am ddyfod â dyferyn o ryw *spirits* iddi—ei bod yn glaf iawn, ac ym mron â myned i *fit*.

Wedi iddi yfed y dyferyn oedd yn y gwydr, dadebrodd, a daeth iddi ei hun; a phan ofynwyd iddi beth oedd y mater arni, atebodd mai y tân drodd arni am ei bod mor wan.

Ym mhen ennyd, pan oedd wedi myned yn grynn hwy, dechreuodd Dai Luke, a'r ddau oedd gydag ef, son am fyned ymaith, ac yr oeddylt oll mor llawn fel y gallasant deimlo'r cwrw yng nghyrrn eu gyddfau â'u bysedd dim ond eu gwanu i lawr dipyn yn *sharp*. Ond cyn iddynt fyned ymaith, gofynodd y ferch ieuanc i wraig y ty, a fyddai yn gyflêus iddi gael lletty yno yng nghylch wythnos, mwy neu lai, iddi gael tipyn o awyr y wlad er mwyn ei hiechyd, ac y gwnai dalu ei gofyn

ym mlaen, os ydoedd mewn un modd yn ei drwg dybio.

“Cewch yn rhywydd,” ebai gwraig y ty, “ac os gellwch wno a rhoi tipyn o help i mi at daclu dillatach i'r merched bach yma, mi dalaf fi i chwi yn lle i chwi dalu i mi.”

Aeth yn fargen yn y fan; a rhyw-fodd neu gilydd, ymgymmerodd gwraig y ty at y ferch ieuanc; yr oedd rhywbeth yn debyg ynddi at ferch ydoedd hi wedi gladdu: yr oedd hyn yn ddigon.

Yr oedd Wil yn myned ym mlaen yn ei nerth trwy yr eglwysi, yn ei dro ymweliadol â hwynt, a ffyliaid yn corganu ei ddawn a'i ddyseidiaeth; a'r gweinidogion oedd yn gweled trwyddo, a'r bobl wybodus, yn cymmeryd yn gynnil i ddyweyd eu barnau am dano, am ei fod yn ffwl anwybodus fel yr oedd, yn gryfder i fynydd yr achos—i'r enwad; ac wedi bod eisoes yn offeryn i helaethu ei derfynau, ac nid oedd a wyddai nad ellai ei helaethu ym mhellach eto.

Pan ag yr oedd Wil yn llettya yn nhai y lordach, yr oedd yn gwneuthur o'r goreu; canys y mae y rhai hyn, yn gyffredin felly, mor ddyled ac mor anwybodus a'r dylaf o'r anwybodusaf. Mae yr amser wedi cyfnewid yn fawr oddi wrth fel y bu; canys gwelwyd amser ar Sectyddiaeth, mai crefydd a duwioldeb oedd yn rhoddi addasrwydd i'r lordaeth a'r flaenoriaeth; a'r pryd hyn, Dafydd, Edward, Robert, ac Evan oedd y lordiaid a'r blaenoriaid. Ond aeth yr oruchwyliath hon heibio ar Sectyddiaeth; ac yn bresennol, yn gyffredinol felly, y tir, y *stock*, y ceffyl, y tarw, y fuwch, yr hwrdd, y ddafad, y siop, y fusnes fawr, a Mammon sydd yn cwaliffeio dynion i'r lordaeth a'r flaenoriaeth; ac felly y mae swyddogaethau capelaidd wedi syrthio i ddwyllaw Meistriaid Davies, Jones, Williams, Evans, Roberts, Richards, Griffiths, Thomas, & Co. Mae'r llywodraeth eglwysig wedi

myned i ddwyllaw *aristocracy* neu bendefigaeth y capel; ac nid yw y *Salique Law*, sef y gyfraith sydd yn cau benywod oddi wrth y goron, ychwaith mewn grym yn y capeli, canys ceir fod y bais â'i llywodraeth yn awdurdodol iawn ynddynt, ac nid anfynych y gwelir y clos yn gorfod ildio i'r bais.

Yr oedd Wil fynychaf yn gwneyd o'r goreu â'r lordach, canys nid oedd dim yn eu penau ond gwynt; ac ond iddo ef ddyrchafu digon arnynt, a'u canmol fel colofnau yr achos, a rhoi ei amenau fel seiliau ar bob peth a ddywedent, a chydergydio gyda hwynt ar ben gweinidog y lle, a chyd-ddifrio yr Eglwys ac offeiriaid y plwyf, yr oedd Wil yn dyfod trwyddi yn anwyl, ac yn ennill ei barch ar *gallop!* Ac am y lordesau, yr oedd Wil yn ddigon ffalst, ac yn ddigon hen ym mon ei gern, i wthio ei hun dan eu ceselliau trwy ei weniaith iddynt, a hwythau yn barod i lyncu yr abwyd, ac felly yn cael eu dal gan y bach! Ond yn yr arferiad o gadw'r mis, sef pob un yn cadw'r preseb jackyddol yn ei fis, yn ei dro, y mae yn dygwyrddo weithiau fod rhyw un neu ddau mewn ambell i deulu yn weddol wybodus; ac y mae y cyfryw rai yn ddrain pigog yn ystlysau y Jacks, o blegid natur eu siarad a natur eu holiadau. Yr oedd y rhai hyn yn ofidus ac yn brofedigaethus iawn i Wil, ac yr oedd yn gas gan ei enaid i feddwl am danynt. Yr oedd yn ymdrechu hyd y gellai i guddio ei anwybodaeth; ond yr oedd ar ei waethaf yn gorfod dangos ei hun yn ei benbwleiddiwyd yn fynych. Pan ofynodd gwr y ty lle yr oedd yn llettya unwaith iddo, ym mha barth o'r byd yr oedd Japan, atebodd Wil, “Y mae Japan yn ymyl *banks* Newfoundland.” Gofynwyd iddo unwaith mewn ty lle yr oedd yn dygwyrdd ymglwydo, pwy oedd Titus Vespasian. Yr atebiad a roes oedd, “Yn ol yr wyf wedi darllen am dano, Gwyddel o'r

Iwerddon oedd!" Gofynwyd iddo unwaith beth oedd y *Julian Calendar*; a'r ateb a roes Wil oedd, "Y mae y dysgedigion yn methu â chytuno beth oedd; ond y farn gyffredin yw, mai rhyw fath o gawl oedd yr hen Gymry yn ei wneuthur rhag y ddryton!" Nid oedd dim ynddo ond yr anwybodaeth fawr—dim yn y byd ond tywyllwch hanner nos am bethau tymmorol ac ysbrydol—am bethau y byd [hwn a'r byd] a ddaw; ac nid oedd ganddo i'w marchogaeth a'i gario yn mlaen yn ei gynniweirfa, ond yr hen *phrases*, "Yr achoz goreu, llwyddiant yr achoz goreu, ie yn ziwr, felly yn ziwr, cyzur mawr iawn, neiz iawn, llewyrchuz iawn," yng nghyd â rhyw *small talk* fel hyn a ystyrir gan anwybodusion yn siarad gwir grefyddol; a thyma sylwedd eu holl siarad crefyddol, ond pan fyddo eu rhagfarn yn dyfod allan o adgof eu lliidiogrwydd i ladd a llosgi, a dymchwelyd i'r iselion bob sect ond eu sect eu hunain, a phob sect yn cytuno i osod yr Eglwys yn yr iselion dyfnaf!

Ond er hyn oll, yr oedd Wil yn gyfrwys; ac y mae rhyw gyfrwysdra ofnadwy yn perthyn i bob Jack, bydded ef urddedig neu anurddedig. Pan ddygwyddai i Wil fyned i ambell dy, a deall o hono fod yno hen *foxes*, yr oedd yntau yn chwareu'r *fox* ei hun; yr oedd yn myned yn glaf; yr oedd y *bile* arno yn enbyd; yr oedd naill ai y colig gwynt neu y colig *gravel* arno, wedi dechreu ei daro yn ddisymmwth pan ddaeth allan o'r capel, neu yr oedd y *cramp* yn ei frest, neu yr oedd ei fowels yn *gripo*, neu rywbeth neu gilydd; ac yr oedd yn rhaid iddo fyned i'r gwely yn union, canys yr oedd y gwely yn cytuno yn rhyfedd ag ef bob amser y byddai yn dost; ac wedi taflu dim llai na dau dwmbler-aid lled *stout* dros olwg, ffwrd â Wil i'r gwely. Diengodd lawer gwaith oddi ar y ffordd trwy ei gyfrwysdra hwn.

Daeth tro Wil i ddychwelyd yn ei ol at ei eglwys newydd yn ysgubor Sion y Pant, ac yn ei ddychweliad yr oedd ganddo ambell gyhoeddiad yma ac acw yn rhai o'r capeli y bu o'r blaen ynddynt; a rhywfodd neu gilydd, yn lle bod y torfeydd yn lluosog fel y tro cyntaf, yr oeddynt lawer yn deneuach, ac mewn ambell gapel yn deueu iawn, a bu hyn yn achos i feddwl Wil gythryblu ac ymofidio i raddau cryn fawr.

Ym mhen tuag wythnos neu ddau, neu dri diwrnod dros ben wythnos, dyna geffyl yn aros wrth ddrws y tafarndy y crybwyllwyd am dano yn flaenorol, pan yr oedd yn dechreu tywyllu, ac yr oedd Dai Luke ac un neu ddau arall wedi dygwydd bod yno ar y pryd. Rhedodd gwraig y ty i'r drws, yn ol â hi ar ffrwst; ac wedi dyweyd gair yn ddystaw yng nghlust y ferch ieuanc, dyna hono yn brysio i'r parlwr, a phwy ddeuai i mewn i'r gegin ond y Parchedig William Morgans, wedi galw wrth ddyfod yn ei ol o'i daith bregethwraidd, ar ol bod yn ymweled â'r eglwysi, i gael dyferyn bychan ar ei eneu. Pan ddaeth Wil i'r gegin, fe startodd beth pan welodd efe Dai Luke, a startodd Dai Luke dipyn pan welodd yntau Wil; ond yr oedd y ddau yn sefyll, fel y dywedir, wyneb yng ngwyneb. Wedi sefyll yn edrych ar eu gilydd,

"Croesaw adref, Mr. Morgans," ebai Dai Luke; "pa gymmaint o bechaduriaid ddarfau i chwi ddal ar eich bach ar y daith bregethwrol hon a roddasoch?"

"Nid wyf yn chwennych siarad dim â chwi, Dafydd Luke, yn y ffordd yna, canys nid ydyw ceccraeth o'r natur yna yn taro fy swydd i fel gweinidog yr Efengyl, ac yr wyf am i chwi dewi yn hytrach na myned ym mlaen ym mbellach; ond os yfwech chwi beint neu gwart ar fy nghost i, Dafydd Luke, y mae i chwi roesaw i wneuthur hyny."

"Ie," ebai Dai Luke, "yfed paint

neu gwart ar dy gost di, Wil! na, na, er crystal genyf lymaid o gwrw, mi fyddaf heb ddyferyn am fy oes cyn yr yfaf ddim ar gost scwrlwm o Jack mor llawn o felltith ag wyt ti."

"Edrychwch beth yr ydych yn ei ddywedyd, Dafydd Luke," ebai Wil, ac onid e, ef allai y cewch syffro am eich tafod."

"Syffro am fy nhafod, ai e, Wil! Atolwg, Wil, pwy syffrodd pan lygais i ti gerfydd dy fwng o'r pul-pud, ac y cyferchais dy *ablative* ar y llawr? Cofia di, Wil, y mae yr

un fraich a'r un droed yn fy meddiant heno, a phaid di â gwahôdd eu gwasanaeth, amgen ti a'u cei."

"Gwell i chwi, William Morgans, i ddyfod gyda mi i'r parlwr," ebai gwraig y ty; a chan gymmeryd y ganwyll, hi aeth ym mlaenaf i mewn, a Wil ar ei hol. Wedi gosod y ganwyll ar y bwrdd, dywedodd,

"Dyma ferch ieuanc o'r Gweithiau sydd â gair neu ddau ganddi i siarad â chwi, ac nid wyf i syflyd o'r fan hyd nes y gwelwyf fod yn dda fy hun i wneuthur hyny."

XVIII.

Y MAE yn anhawdd iawn gwybod beth yw eglwys ac eglwysi, wrth glywed y nifer amlaf o'n crefyddolion yn son am danynt; canys y maent yn bob annybendod, afreolaeth, a rebeldod yn yr agweddau yr ydym yn eu gweled yn dryfrith ar hyd a lled y wlad! Mae yn drueni mawr, ië, yr wyf yn barnu nad ydwyf yn myned dros derfynau y gwirionedd wrth ddywedyd bod llawer o gymdeithasau a elwir yn grefyddol yn cablu wrth alw eu hunain yn eglwys ac yn eglwysi Iesu Grist! Gadëwch i ni dafu golwg dros ychydig nifer o ddosbarthiadau o eglwysi, a elwir felly, â'r rhai yr ydym yn gydna-byddus, ac yn ogyffelyb, yn ol yr hanes, y ceir y lleill. Wel, ynte, at No. 1; eglwys pwy yw hon? Eglwys Mr. Davies a'i gefndr Jones yw hon. Eu gair hwynt yw'r gyfraith; eu penderfyniadau hwynt sydd yn sefyll, ac nid gwiw i neb ddywedyd cwec yn eu herbyn. Am No. 2, eglwys teulu y Dyffryn yw hon; canys y maent yn wŷr mawr, ac y maent yn cael taplasu a chnapo, a *roaro*, a difrio, ac estyn eu tafodau ar hwn a'r llall, ac ni feiddia yr aelodau ddywedyd mai hwy biau eu hunain, ond ymostwng yn ddystaw, yn weinidog ac yn gwbl, i awdurdod penderfigaeth y Dyffryn! Drachefn,

am No. 3, y tri lordyn sydd yn llywodraethu hon, sef Mr. Williams o'r Plas Isaf a Dafydd a William; y ddau lordyn hyn yn gosod seliau ar gŵyr coch y Williams, ac yn cadarnhau y cwbl ddaw o'i eneu â'u hamenau. No. 4, Mrs. Thomas a Mrs. Evans yw yr eglwys; canys heb law eu bod yn gyfoethog, y maent yn haelionus iawn at yr achos; maent yn derbyn y cenadon; y maent yn ddiwyd yn tendio'r moddion; ac felly y maent yn bendefigesau y capel, yn cael trafod a threfnu, com-mando ac ordro fel y mynont, fel ag y mae eu teyrnas yn gyffredinol yn No. 4, a'r chwirydd am y blaenaf yn gwyro garau iddynt, a'r brodyr *cap in hand* iddynt pan fyddant yn rhodio ac yn rhwsian rhagddynt wrth fyned i mewn i'r deml. Am No. 5, 6, 7, hyd No. 10, y mae yn rebeldod mawr ynddynt; a dim ond y llid, y malais, y genfigen, y cnoi, a'r traffyncu mawr gan yr aelodau, a hyny o blegid eu bod â'u trosolion dan wadnau eu gilydd, yn ceisio dymchwelyd y naill y llall er mwyn cyrhaeddyd swyddogaethau. Yn eglwysi y dosbarthion a nodwyd, y mae beilchion hunanol; ië, rhai llawn o bob hunanoldeb, yn siglo eu cynffonau ac yn ymwithio ym mlaen i'r flaenoriaeth, fel y mae

yn rhyfel tragwyddol yn y dosbarth hwn.

Wel, ym mlaen eto yn y dosbarth-
iadau. *No. 11*, rhwyg o *No. 10*, a'r
gynhen wedi dechreu yng nghylch
tarw! *No. 12*, *split* o *No. 11*, a'r
ymrafael wedi dechreu yng nghylch
côr. *No. 13*, *split* o *No. 8*, a'r
cynhwrf wedi dechreu yng nghylch
y "sol." *No. 14*, *split*—eglwys wedi
nobo allan i fod yn eglwys anni-
bynol o blegid rhyw ymrafael yng
nghylch *harmonium*! *No. 15*, *split*
o *No. 14* o achos bod rhyw lordyn
yn arfer cuddiad ceiniogau yr elfenau
yn llawes ei got pan yn myned â'r
plate o ddeutu! *No. 16*, *split* o
No. 13 yng nghylch caru a lled-
chwithdod meibion a rhai o ferched
y lordach â'u gilydd! *No. 17*, *split*,
a'r achos o hono oedd ymrafael
rhwng y gwragedd yng nghylch
rhanu y briwfyd gweddill ar ol
ciniawa y gweinidogion a'r Jacks
mewn rhyw gwrdd cwarter; sef y
gweddillion cig llo, a chig myharen,
a phadellaid o bwddin *rice* oedd rhai
o honynt wedi gadw yn ol rhag
dyfod i'r bwrdd! Beth dâl siarad
ym mhellach ar y mater hwn? canys
rhwgiadau ydyw sail Sectyddiaeth;
dyma ddirgelwch ei llwyddiant;
dyma ei bywyd; a thyma ei henaid!
Pa beth yw y capel newydd hwn?
O, capel y rhai ymadawsant â chapel
Rehoboth yn yr ymrafael mawr fu
yno yng nghylch y cyfrifon, pan
ddywedodd rhywrai fod cryn symiau
o bryd i bryd wedi myned ar goll
rhwng llaw a llawes rhai o'r swydd-
ogion! Hawyr anwyl, pa beth yw
yr eglwys newydd acw? Dyna capel
y *split* dasgodd allan o gapel Iesreel
am fod gwraig y gweinidog wedi
gwisgo yn grandach na gwraig y
lord y Sul y bu yr ysgolion yn cael
eu holi yn yr hen gapel yr haf ddwy
flynedd yn ol! Mae y capel newydd
yn awr wedi cael ei dderbyn i'r gym-
manfa, ac fe glirir y ddyled yn fuan!
Mae *splits* yn helaethu yr achos yn
fawr iawn; canys y mae capel yn

esgor ar gapel, ac yn myned nid
yn dad ond yn daid, ac yn hendaidd,
ac yn orhendaidd i nifer luosog o
gapeli splitaidd yn y pen draw! Ac
y mae *rebels* y capeli hyn, yn *retorts*
ac yn *alembics* Sectyddiaeth, yn cael
eu transmogriffeio yn eglwysi Iesu
Grist! Ac nid oes dim cywilydd
ar ddyinion eu galw felly.

Mae yn gof genych i Mr. Jones
o'r Garth anfon gwahoddiad i Wil
i ddyfod i'r Garth i bregethu, ac
hefyd iddo anfon cais at Mr. Davies,
gweinidog Salem, i ddyfod i gyfarfod
ag ef, a hyny er mwyn cael Wil i
dori bara i Salem, ac i Mr. Davies
fyned i dori bara i eglwys newydd
ysgubor Sion y Pant; ond yn y pen
draw, ei wir amcan oedd disodli ac
anfon Mr. Davies, *bag and baggage*,
o Salem am iddo feiddio yn rhyfygus
i ddewis gwraig o draw, yn lle dewis
un o blith ei ferched ef, fel yr oedd
efe wedi arfaethu i'r gweinidog
wneuthur. Nid oedd Mr. Jones o'r
Garth wedi meddwl am brysuro y
fusnes ym mlaen yn uniongyrchol;
ond yn gymmaint a bod yr hen Ddie
â'i fys mor fynych yn y pasteiod
capelaidd, a'i fod mor hoff o bob
rebeldod capelaidd, fe ddylanwadodd
yn y fath fodd ar Mr. Jones a'i blaid
fel ag y penderfynasant roddi yr *home*
stroke ar unwaith i'r fusnes. Boreu
dydd Sul a ddaeth—boreu hyfryd
—boreu yr oedd yr haul wedi dyfod
allan trwy borth y dydd yn llonach
nag arferol, ac yn esgyn yn ei gerbyd
i'r cyhydedd yn ei ogoniant mwyaf,
a'r Creawdwr mawr o'r uchelion fry
megys yn gwenu ar y greadigaeth!
Boreu y Sul hyfrydol hwn, yn gynt
nag arferol, gwelid Mr. Jones o'r
Garth a'i deulu yn ymhwylio tua
chapel Salem, a gwelid hefyd y
brodyr a'r chwirydd sanctaidd o
draw yn dyfod â rhyw arwyddion yn
eu cerddiad eu bod yn llemain am
ryw yspri. Wedi cyrhaeddyd y
capel, cymmerai yr addolwyr (neu
os mynir, rhoir enw mwy priodol
arnynt, sef flugaddolwyr) eu heis-

teddleoedd; a sylwid bod arolygwr yr Ysgol Sul wedi gosod ei berson yn y côr oedd dan y pulpud, ac eisteddodd wrth droed grisiau y pulpud. Ym mhen ychydig dyma Mr. Davies yn dyfod i mewn, ac i'r côr dan y pulpud, ac wedi ymdroi ac edrych dipyn o'i amgylch, dyma fe yn cynnyg at risiau y pulpud i'w dringo; ond dyma yr arolygwr yn cyfodi ar ei draed ac yn sefyll rhyng-ddo â'r grisiau, ac yn dywedyd wrtho nad oedd efe i gael myned i'r pulpud hwnw ond a gafodd. Fel y mae yn naturiol i bob dyn o enaid feddwl, cymmerodd Mr. Davies yn chwith iawn fod llyfegyn o swyddwr mor ddistadl ar ei beiddio ei wrthsefyll mewn modd mor gyhoeddus; a chan ei fod yn ddyn lled chwimmwth, efe a roes i'r arolygwr lebyn mor *smart* yn ei gern nes yr oedd yn troi fel *top* yn y sêt fawr, a chlywodd glychau'r Mwythig yn canu yn ei glustiau am o leiaf o gwarter awr i ugain mynyd ar ol derbyn y *salute!* Ar ol cyfarch yr arolygwr, whiw â Mr. Davies i'r pulpud; ac wedi i Mr. Jones y Garth a'i deulu, a mwy na hanner y gynnulleidfa, fyned allan, pregethodd Mr. Davies i'r pechaduriaid a arosasant ar ol.

Ond dranoeth, cyn yr hwyr, sef dydd Llun, dyma *boliceman*, yn ei lifre a'i *orders*, yn galw gyda Mr. Davies ac yn ei wasanaethu â *summons* am *assault and battery* ar, neu yn erbyn ysgogyn balch o sigl-dy-gwt, arolygwr Ysgol Sul nad oedd ynddo fwy o gymhwysder at y gwaith na'r babŵn mwyaf babwnaidd yng ngwlad y babwniaid. Dydd Iau yr oedd y *summons* yn gorchymmyn i Mr. Davies ymddangos o flaen yr ustusiaid i edrych i mewn ac i ymholi i fater yr *assault and battery* a wnaed, a weithredwyd, a ddygwyd oddi amgylch, neu a gyflawnwyd, a hyny mewn lle cyssegredig! Dadl-euodd Mr. Davies ei hawl i'r capel, ac o ganlyniad i bulpud y capel, a bod yr arolygwr yn ei rwystro

ar y pryd i gyflawnu ei swyddogaeth sanctaidd yn y lle. Ni wnai yr ustusiaid dderbyn unrhyw ble yng nghylch yr hawl i'r capel nac i'r pulpud, am mai nid dyna y pwnc yr oeddynt hwy i'w benderfynu, ond mater yr *assault and battery* yn unig. A chan i hyn gael ei brofi, ac er mwyn gosod nod amlwg ar felltgedigrwydd y gwaith o ymladdach y capeli, dirwyasant Mr. Davies i bum punt, sef i eithaf ofyniad y gyfraith.

Ond yn awr at y rhelyw o hanes dydd yr *assault and battery*. Pan welodd Mr. Jones o'r Garth, a nifer amlaf yr ymddiriedolwyr, fod Mr. Davies wedi ennill y pulpud ar waethaf yr arolygwr, pa beth a wnaethant prydawn dydd Sul ond gosod barau mawrion a ffurfion o haiarn yn groes i ddrysau y capel, nes yr oedd mewn cadernid yn fath o Sebastopol, a'i Redan a'i Falakoff yn anoresgynadwy! Dyma y gorchwyl oedd yn myned ym mlaen ar brydnawn y Sul cyssegredig hwn! Wel, pan gadarnhawyd yr amdiffynfa Sebastopolaidd cyssegredig yn y modd hwn, gosodwyd *policeman* o'r tu allan i wyllo, a thyrfa fawr wedi ymgynnull o bob man a lle yr oedd y newydd wedi cyrhaeddyd i weled ac i glywed. Yr oedd yno rali braf; a phan ddaeth Mr. Davies a'i gyfeillion yno i gadw y moddion hwyrol, a gweled fel yr oedd pethau yn myned ym mlaen, troisant ymaith yn ddistŵr, er siomedigaeth fawr i'r dorf oedd yn bresennol. Pwy bynag sydd yn ewyllysio gweled mwy ar fater cyffelyb i hwn, edrychent *News of the World*, Gorph. 23ydd, 1865, yng nghylch cynhwrf capel yr Independiaid yn Truro, yng Nghernyw.

Pan welodd Mr. Davies, gweinidog Salem, y fath gythrwf melltigedig, a'r fath rebeldod mor gythreulig, wedi tori allan yn ei gorlan, efe a barotôdd ei fag and *baggage* dranoeth, ac efe a'i wraig newydd a aethant ymaith i'w chymmydogaeth hi, lle

yr oedd *split* yn barod i'w dderbyn yno. Ond i ddychwelyd at Wil.

Wedi i'r dafarnwraig fyned â Wil i'r parlwr, lle yr oedd y ferch ieuanc o'r Gweithiau yn eistedd, ac wedi iddi osod y ganwyllbren a'r ganwyll ar y hwrd, ac wedi gweled o Wil y ferch ieuanc, nid oedd yn debyg i ddim dynol yn ei gymmysgedd, ond i Belsassar pan welodd fyseidd llaw dyn yn ysgrifenu ar galchiad y pared. Cyfododd y ferch ieuanc o'r gadair, a chyda gwên, ac mor llon ag y gallasai edrych, estynodd ei llaw ato, gan ofyn iddo yn serchogaidd,

"Pa fodd yr ydych yn ymglywed er ys llawer dydd, Mr. Morgans?"

"Nid ydyf fi yn eich adnabod," meddai Wil; "o ba le yr ych chwi yn dyfod?"

Syrthiodd y ferch ieuanc ar unwaith i'r llawr gyda gwaedd wylofus a thorcalonus, ac mewn eiliad dyma ergyd ar ddrws y parlwr nes ydoedd led y pen, a Dai Luke yn sefyll ar y llawr ac yn gofyn,

"Beth gythraul sydd yn myned ym mlaen yma?"

Dyma Wil yn troi i fyned allan, yr hyn pan welodd gwraig y ty, dywedodd,

"Stopwch ef, stopwch ef i fyned bant, da chwi, Dafydd Luke."

"Myned i bant," ebai Dai Luke, "na, na, er cymmaint o gythraul sydd ynddo, yr wyf yn meddwl fy mod i yn ddigon ato;" a chyda hyny, efe a ymaflodd yng ngwar Wil â bysedd fel gwaiail hoelion, ac wedi ei osod ar un o'r cadeiriau, dywedodd wrtho,

"*For your life don't move*, Wil, amgen mi a'th hebryngaf fel cath i gythraul ar unwaith."

Yr oedd y ferch ieuanc ar y llawr, a chyfododd Dai Luke hi ar y gadair, a rhedodd gwraig y ty i ymofyn rhyw ddyferyn iddi, canys yr oedd yn amlwg ei bod mewn llewyg. Bu yn hir megys yn farw, ond deallwyd ei bod yn dadebru; anadlodd yn

wanaidd, dechreuodd ei chalon guro, a gwelid wrth ei dwyfron bod ei hergydion yn cryfhau. Griddfanai yn ddwys, a'r ocheneidiau a ddilynent eu gilydd mewn nifer fawr o waelod ei mynwes. O, mor druenus oedd ei gweled! Merch ieuanc landeg yng nghlych ugain oed, yn y fath gyflwr truenus, wedi cael ei thwylo—wedi cael ei thynu oddi ar lwybr glân a phur diweirdeb gan un a gymmerai arno fod yn bregethwr—gan un a gymmerai arno ymwisgo yn rhith angel y goleuni, ond yn ddiafol perffaith mewn egwyddor. Yr oedd ei griddfan a'i hochain yn ddigon i doddi'r creigiau caletaf! Gwraig y ty yn wyllo yn chwew yn y teimpladan tyneraf ati! Dai Luke yn gwelwi, a'r dwr yn rhedeg yn bistylloedd dros ei wyneb. Wil yntau mor galed a'r adamant, a'r olygfa bruddaidd oedd o'i flaen ddim yn cael mwy o effaith arno nag a gawsai ar faen callestr!

Druan â hi! Yr oedd y tônau yn drochionog, yn ymluchio am draws eu gilydd yn ei mynwes, yr hon, fel y gallesid meddwl ar y pryd, oedd ym mron ymdori. Ond o ychydig i ychydig, dyma y llifddor yn ymagor a'i dagrau yn pistyllo allan mewn cyflawnder mawr ac yn ddidor. Yr oedd ei wylofain yn chwew, ac yn chwewr iawn! Pan agorodd ei llygaid, edrychodd ar Wil gyda'r adgasrwydd a'r ffeidd-dra mwyaf, a dywedodd,

"Dyma'r bradwr! Dyma'r ysbeiliwr a'm hysbeiliodd i o drysor y galaraf y golled ar ei ol am fy oes. Dyma'r bradwr aeth â fi ar gyfeiliorn, ac y mae ganddo yn awr wyneb a chalon i'm gwadu! O! pa beth a wna? O! pa beth a wna? Dyma fi wedi cael fy arwain i halog-rwydd, ac yn dwyn cospedigaeth fy anwiredd; ond y mae yn well genyf gymmeryd fy nghwmp; y mae yn well genyf ddwyn fy nghywilydd a'm gwaradwydd am fy oes, a hyny yn fil myrddiwn o weithiau na bod yn

wraig i'r fath adyn! Cymmered pawb rybudd ar fy nhraul i. O! pa beth a wnaif? O! pa beth a wnaif? I ba le y troaf? ac at bwy y troaf yn y dydd blin hwn ac yn y storom fawr ac ofnadwy hon a dynais arnaf fy hun?"

Ac yng nghanol ei griddfan a'i dagrau, adroddodd y pennillion canlynol:—

"Dyma fi'r creadur eiddil
Yn y fagl 'nawr yn gaeth,
Gwenau f' haul giliasant ymaith,
Gwawr fy nghrefydd cilio wnaeth:
T'wyllwch dudew'r nos a'm daliodd
Yn ei fantell bruddaidd iawn,
Daeth y wermod chwerw imi
Yn rhyw gwpaneidiau llawn.

"Du yw'r dwyrain, du yw'r gogledd,
Du yw y gorllewin draw,
Du yw'r deheu, du yw pobman,
Du'r gwrthddrychau ar bob llaw:
Tegwch anian a fachludodd
Dan y lleni mwy i mi;
Collais goron fy rhywiogaeth—
Colled fawr yw'm colled i.

"Collais ffrydiau'r afon fywiol
Red o'r orsedd freiniol fry;
Collais fy mhrofiadau nefol—
Tônau yn fy mynwes sy;
Collais gryfdwr yr addewid,
Collais wenau llon y wlad,
Collais wiw gysuron meithion
Holl lanerchau ty fy Nhad."

Yr oedd yr olwg ar y ferch ieuanc hon yn druenus uwch law darluniad! Yr oedd ei llais yn lais gwasfa calon, a meddwl a theimlad wedi cael eu dolurio i'r byw! Yr oedd yn ymddolenu ac yn ymnyddu, a phob gewyn yn ei chorff yn ymweithio, ac megys mewn crynodd dan y llwyth, yr hwn, fel gwyddfa o blwm, a'i gwasgai lawr i iselion y cymydd dyfnion a thywyll! Plygai, ymysythai, cyfodai ar ei thraed, eisteddai, troai o un ochr i'r llall, curai ei dwyfron, a rhoddai ergydion trymion arni, a thynai wallt ei phen yn ysgeingiau; a pha ryfedd? canys yr oedd ei chyflwr preseennol, a'r siomedigaeth a gafodd yn y bradwr Wil, yn ddigon i ddryysu ei synwrau!

Cyfododd Wil ar ei draed, a dywedodd, "Mi welaf ei bod yn bryd i

mi ymadael, canys y mae bradwriaeth amlwg wedi cael ei llunio yn fy erbyn."

"Eistedd lawr, Wil, ac eistedd mewn mynyd," ebai Dai Luke; a chan ymafiyd yn ei goler, efe a bwysodd mor drwm arno nes yr oedd ei ddosbarth ol dap ar y gadair.

Gwedi i'r ferch ieuanc ymdawelu ac ymlonyddu ychydig ar ol y dymestl ddirfawr a chwythodd megys mewn lliidiogrwydd arni, daeth i raddau ati ei hun. Edrychodd yn dreiddgar ar Wil, ac wedi edrych am fynyd neu ddwy arno, ac yntau yn gorfod troi ei olygon draw, gofynodd iddo,

"A ydych chiwi, William Morgans, yn parhau i wadu nad ydych chiwi yn fy adnabod i?"

"Ni welais mo honoch erioed," atebai Wil, "ac nis gwn ddim am danoch."

"Ai nid yn nhy fy nhad a'm mam y buoch chiwi yn lletya pan gymmereich arnoch fod yn y *British School*? Oni chwsoch yno gymmaint a mwy o lawer o garedigrwydd nag a allasai dyn dyeithr ddysgwyl ar law estroniaid? A ydych chiwi ddim yn cofio eich ymadroddion dengar, a'ch addewidion teg i mi, cyn fy nhynu ar gyfeilliorn oddi ar lwybr rhinwedd? A ydych chiwi yn parhau i wadu nad ydych yn fy adnabod i? Cofiwch fod y Barnwr fry yn eich clywed, a meddyliwch am y farn a thragwyddoldeb."

"Y slwt ddrygonus," meddai Wil; "dim yn y byd ydych ond lodes ddrwg pen heol, wedi cael eich cyflogi i ddyfod yma i dori fy ngharitor i, a hyny gan Dai Luke a'i fath. Ni welais i mo honoch erioed o'r blaen."

"Wedi cael ei chyflogi gan Dai Luke a'i fath, aie, Wil?" ebai Dai, gan gyfodi oddi ar ei gadair a dal ei ddwrn mawr uwch ben Wil, a dywedodd, "D——, Wil, am ben pin mi wnawn dy ladd ar y *spot*, canys hyn a haeddet, a hyn a haeddai pob Jeekyn halogedig sydd yn myned yn

rhith pregethwyr ar hyd y wlad i ddinystrio merched. Mae yn rhyfedd fod tadau a mamau merched yn eich derbyn i'w tai, gan fath greaduriaid halogedig, aflan, a dinystriol ydych."

Gwadu wnaeth Wil trwy'r cwbl nad oedd erioed wedi gweled y ferch ieuanc hon o'r blaen! Yr oedd ganddi lythyron a thystiolaethau mor gadarn a'r creigiau; eto gwadu y cwbl oedd Wil, a galw ar y nefoedd yn dyst o'i ddiniweidrydd, a defnyddio geiriau ac ymadroddion rhyarswydus i'w hadrodd na'u hysgrifenu ar bapyr.

Nid oes dim curo ar y Jacks i wadu eu drygau a'u halogrwydd. Gan nad pa mor gredadwy y byddo y tystion yn eu herbyn, ac er i'r tystiolaethau fod yn ddiroi yn ol, gwadu wna y Jacks trwy y tew a'r teneu! Y mae gwadu hefyd, a cheisio gwyngalchu trwy gelwyddau ar gelwyddau, wedi myned yn arferiad cyffredin gan grefyddwyr rhai cymmydogaethau; canys ond cael digon o bres ar y talcen, a haerllugrwydd ar y gwyneb, dim ond gwadu, y mae yr halogedigion yn uwch eu penau na neb yn y gynnulleidfa. Dyma fel y mae yn myned ym mlaen yn rhai cymmydogaethau. Gwadu, a thyna ben arni.

Mae ger fy mron ddernyn o feirniadaeth wedi ei dori allan o ryw newyddiadur Cymreig ar gân a elwir, "Y Fenyw Wrthodedig," lle mae yr ymadrodd canlynol gan y beirniad, ac y mae y dyfyniad yn deilwng iawn o sylw.

"Gad i ni dy arwain yn awr at ddarlun arall. A weli di y fenyw lwydwedd bruddglwyfus acw? Dacw hi yn ei hunfan, wedi ymddidoli oddi wrth bob cymdeithas; ei chalon wedi llenwi ac ymchwyllo, bron, bron ar dori, a'i meddwl wedi ymlyncu i fyny gan siomiant—*Siomedig ydyw!* Y mae llawer benyw siomedig yng Nghymru wedi syrthio i fedd an-amserol; a fuost ti, ddarllenydd, yn achos o'r fath siomiant erioed?

Ystyria, O ddyn, ai nid cyssegredig genyt yw teimladau calon dy fam? Cofia fod tynerwch a chariad yng nghalon merch nas goddef y nef i ti chwareu â hwynt. Edrych ar un siomedig, pa galon na theimla?"

Wel, Jackach diog, lwrcaidd, a llosgfanlyd yn dyfod ar hyd y wlad ar ol eu cyhoeddiadau ac i dai! Dadau a mamau, cauwch eich drysau yn eu herbyn! Erlidiwch hwynt at eu gwaith a'u gorchwylion! Rhoddwch gryfdwr ym mynydd eich gweinidogion da, y rhai sydd yn teilyngu hyny; ond am y Wilod a'r Jacks, na dderbyniwch hwynt i'ch tai, canys nid oes ond y felltith yn eu dilyn!

"A ellwch chi wadu mai nid chwi, William Morgans, a ysgrifennodd y llythyron hyn?" meddai y ferch, ac estynodd un o honynt i law Dai Luke, yr hwn a ddarllenodd Dai fel y canlyn:—

"my dear mari

"I com on very wel. i be minister now. i veks very much about you being under your carc. you givit the jild to sumbodi els and i mary you after. and you wil do this to keep my hed who is now very hy you mind you do this and then all wil be very wel. Swer the jild to sumbodi els i dont put my name to this leter and you can see wy mind to swer the jild to sumbodi so i be free and i sure mary you."

"Dyna dy waith di, Wil," ebai Dai Luke.

"Ni 'sgrifenas i erioed mo'r llythyr yna," atebai Wil; "mae rhywrai wedi fforgio er mwyn gwneuthur drwg i mi."

"Mi dyngaf fi dy law di, Wil, ac mi allwn yn ddigon cydwybodol a gwirioneddol dyngu dy Saesneg hefyd," meddai Dai Luke.

"Wel, wel," meddai gwraig y tafarn, "mi glywais lawer o son gan bob rhai am gnaciau, celwyddau, gwadu, a drygioni y Jacks, ond nid oeddwn yn credu yr hanner oeddwn

yn ei glywed; ac mi glywais lawer am y William Morgans yma, ei fod i fyny â phob drwg, ond yr oeddwn rywffodd neu gilydd yn methu perswadio fy hun i gredu ei fod hanner mor ddrygionus ag ydyw! Ond yn awr yr wyf yn credu eu bod yn waeth nag y gall neb ddychymmygu eu bod; ac y mae yn llawn bryd i'r wlad gyfodi fel un gwr yn eu herbyn, ac yn yr achos hwn cadw pigffyrch wrth y drysau, fel ag y byddont yn barod wrth law i saluto poteni y Jacks pan ddygwyddont alw yn ein tai. Nid wyf fi un amser yn gwneuthur fawr o gydffwt â'r Jacks, ac yr wyf yn ymddwyn atynt fel yr wyf at dinceriaid, canys grogi beint gaiff Jacks gen i mwy nag a gaiff tincer heb y drws ym mlaen. Ac am danoch chwithau, ferch ieuanc, y mae yn ddrwg gan fy nghalon am danoch; yr wyf yn teimlo yn fy nghalon drosoch; ond gwelwch eich lwc nad ydych wedi priodi y Jack mileinig hwn sydd yn ddigon rhydd i'ch lladd, a diolchwch i'r Arglwydd nad felly y bu arnoch. Cymmerwch galon ac ymwrolwch, a gwelwch eich braint ei bod arnoch fel y mae, canys beth ddaethai o honoch pe buasech wedi priodi yr hen gythraul drygionus?"

"A dywedyd y gwir wrthych chwi," atebai y ferch ieuanc, "fe anfonodd ataf i ofyn i mi a fuaswn yn cymeryd rhyw foddion ganddo os y buasai efe yn eu hanfon i mi."

"Mae rhai o'r Jacks wedi bod wrth y fusnes yna," meddai Dai Luke, "ac y mae yn debyg bod Wil wedi cynnyg ati; a pha rhyfedd? canys y mae i fyny â phob drwg."

"Ni allaf fi ddim aros yn hwy," ddywedai Wil, gan gyfodi, "canys y mae yn rhaid i mi fyned."

Dyma bawen Dai Luke drachefn ar ei goler, a dyma fe yn parabl, "Y mae yn rhaid i ti aros, Wil, hyd y gwelwyf fi yn dda, ac yna ti gai fyned."

"A ddowch chwi allan gyda mi,

Dafydd Luke," ofynai Wil, i siarad gair neu ddau?"

"Dof," atebai Dai, "canys er bod digon o Satan ynot, nid oes arnaf fi ddim o'th ofn."

Aeth y ddau allan, ac wedi myned allan, ebai Wil, "Dafydd Luke, yr ydych chwi yn ddyn digon call, ond eich bod dipyn yn *rash*; os gwnewch chwi fy helpu i i ddyfod trwy'r fusnes hon yn ddystaw, fel ag y byddwyf fi yn ddyn rhydd, mi rof ugain punt i chwi. Mi rof ddeg punt i chwi heno a'm *watch* hyd oni chaffoch y deg punt arall ym mhen yr wythnos. Chwi allwch chwi fy nwyn trwyddi o'r goreu. A rowch chwi eich help i mi ar y telerau hyn?"

"Y mae yn fargen," ebai Dai Luke; "y *money* a'r *watch*."

Rhifodd Wil ddeg sofran ar dor llaw Dai, ac wedi rhoddi ei *watch* aur a'r *guard* aur iddo, aethant eill dau yn ol i'r ty tafarn ac i'r parlwr.

"Chwareu teg i William Morgans," dywedai Dai Luke, "y mae yn getyn o fachgen, ac y mae yn rhaid i chwithau, y ferch ieuanc, beidio pwyso yn rhy drwm arno. Mae wedi rhoddi deg sofran i mi a'i *watch*, hyd nes y caffwyf y deg arall, am ei helpu i ddyfod trwy'r fusnes hon, ac yr wyf yn benderfynol i'w helpu, canys busnes Wil mewn gwirionedd yw eich busnes chwi. A dyma'r deg sofran a'r *watch* i chwi; gwnewch a fynoch â hwynt;" ac efe a'u gosododd ar ei harffed.

"Fi," ebai Wil, "wedi rhoddi deg punt a'm *watch* i chwi am eich help i ddyfod trwy'r fusnes hon! Na roes i un ddimai i chwi; a chymeryd y *watch* o'm poced a wnaethoch i gael gweled beth o'r gloch ydoedd!"

Dyma Dai Luke yn dân purboeth trwyddo ar unwaith, a chan droi at Wil, dywedodd, "A wyt ti'r d—! am fy ngwneuthur yn rwbber?"

A chyda hyn dyma y dyrnaid glanaf a gafodd dyn erioed wrth fon

clust Wil, fel y syrthiodd ar un o'r cadeiriau, a'r gadair ac yntau a syrthiasant ar lawr y parlwr, a Wil yn beichad fel asyn! Wedi iddo gyfodi, dywedodd Dai Luke wrtho,

"Ti elli fyned gyda dy feistr yn awr, Wil, a chofia am y deg punt yr wythnos nesaf, canys yr wyf wedi dy helpu i ddyfod trwy dy fusnes."

Yr oedd erbyn hyn yn tynu yn hwyr, ac wedi i Wil esgyn ar gefn ei farch, efe a droes ei ben i'r ffordd oedd yn arwain at siop y widw er mwyn cael ymgeledd a gorphwysfa i'w gorpws yno. Yr oedd yn ei gwlede wedi myned yn nos arno, ac nad oedd ganddo ffordd yn y byd i ddyfod trwyddi ond trwy wadu y cwbl yn haerllug! Gwyddai y buasai ei ewythr, sef yr hen Domos y diacon, yn ddigon rhydd i'w amddiffyn ym mhob dim, ac y gwnelai Sion y Pant a'i wraig hyny hefyd; ond yr oedd yn ofni am rai, a'i benderfyniad oedd gwadu, i.e. gwadu i'r eithaf, a pheidio ildio mewn un dim. Ni fu yn hir cyn cyrhaeddyd ty'r widw, a gwelai oleu yn y gegin; ac wedi disgyn oddi ar gefn ei geffyl, curodd wrth y drws, a daeth y widw â'r ganwyll yn ei llaw i'w agor, ac wedi iddi ganfod mai Wil oedd yno,

"*Dear me,*" ebai hi, "ai chwi, William Morgans, sydd allan mor hwyr?"

Dysgwyliai Wil iddi alw ar y forwyn yn uniongyrchol i fyned â'r ceffyl i'r 'stabal, a'i wahôdd yntau i'r ty; ond pan welodd nad oedd hi yn gwneuthur hyny, dywedodd fod arno eisieu siarad ychydig o eiriau â hi, os gwelai hi fod yn dda.

"O'r goreu," meddai'r siopwraig, "dodwch y ffrwyn am y bach sydd wrth y gynnor, a deuwch i'r ty."

Gwnaeth Wil felly; ac wedi cyrhaeddyd y gegin, perodd y widw iddo eistedd, hithau a eisteddodd gyferbyn ag ef yr ochr arall i'r tân. Dechreuodd Wil synu peth—dim potel a *glass* yn dyfod i'r ford—dim dybaco a phib yn dyfod i'r ford—

dim "a welwch chwi fod yn dda, Morgans, i dynu eich *coat* fawr lawr," a dim "y mae yn rhaid i chwi gymmeryd gwely yma heno, Morgans." Yr oedd rhywbeth yn Greenlandaidd ac yn Labradoraidd yn ymddygiadau'r siopwraig na allasai Wil roddi cyfrif am dano!

Yng ngwyneb fod yr ymddyddan fel hyn rywbeth yn llesg, gofynodd Wil, "Wel, Mrs. Thomas, pa fodd y mae yr achos newydd yn dyfod ym mlaen yn y Pant? A ydyw dipyn yn llewyrchus? A ydyw wedi bod dipyn yn llwyddiannus pan oeddwn i ar fy nhaith? Mi chwennychnwn glywed ychydig o hanes yr achos, canys y mae yn gwasgu yn bwysig ar fy meddwl."

"Ydyw, mi wrantaf," atebai'r widw. "Ond ni wn i ddim am dano ar ol y Sul cyntaf wedi i chwi fyned ymaith, pryd y bu haid o Jacks yn cadw eu rebeldod a'u hunanoldeb yno! Ni fûm i byth yn agos i'r lle ar ol y boreu Sul hwnw, ac nid wyf yn bwriadu myned yn agos i'r lle byth ond hyny. Creadur dwl wyf fi; ond er dwled ydwyf, yr wyf yn cwbl gredu mai nid afreolaeth fel sydd wedi cymmeryd lle yn ddiweddar yn y gymmydogaeth hon, yw crefydd, nac eglwys Gristionogol. Mae yn gywilydd genyf feddwl am danaf fy hun, i mi fod â rhan na chyfran yn yr ysgelerderau sydd wedi cymmeryd lle yn ddiweddar yn yr ardal hon dan enw crefydd. Yr wyf fi wedi bod yn Eglwys fy nhadau bob Sul y buoch chwi oddi yma, a mawr mor gysurus yw hi yno heb eich 'stwr a'ch ymrafaelion tragwyddol chwi. Yr wyf yn cael addoli yr Arglwydd mewn tawelwch a llonyddwch yn yr Eglwys, yr hyn ni chawn gyda chwi, ond rhyw 'stwr, rhyw ddwndwr, rhyw ymrafaelion feunyddiol, a rhyw Satan di-ben-draw yn barhäus. Yr wyf wedi ymadael, ac ni waeth genyf pwy fyddo yn gwybod hyny; yr wyf wedi myned i'r Eglwys."

"Y mae yn ddrwg iawn genyf glywed hyna, Mrs. Thomas," atebai Wil, "canys Pabyddiaeth yw Eglwys Lloegr."

"Llawer wyddoch chwi fel finnau am Babyddiaeth, William Morgans," ddywedai'r widw; "atolwg, rhowch wybod beth sydd yn myned ym mlaen yn ysgubor Sion y Pant? A rhowch glywed i mi, William Morgans, a fuoch chwi yn galw yn y Farmer's heno wrth basio?"

"Do," atebai Wil.

"Y mae yn dda iawn genyf glywed," dywedai'r widw, "canys y mae merch y gwr a'r wraig y buoch chwi yn llettya yn eu ty, pan fuoch yn y Gweithiau yn y *British School*, yno er ys yng nghylch pythefnos, yn eich dysgwyl yn eich ol, ar ryw neges o bwys. Chwi a'i gwelsoch heno, onid do?"

"Na welais," atebai Wil.

"A siaradaodd gwraig y Farmer's ddim â chwi am dani?" ofynai y widw.

"Dim un gair," oedd ateb Wil.

"Nid ydwyf fi yn eich credu," ddywedai'r widw; "ni allaf eich credu; y creaduriaid mwyaf drygionus a chelwyddog ag sydd yn cerdded y wlad ydych chwi y Jacks. Ni ellir credu cymmaint a gair a ddywedwch. A ydych chwi yn dywedyd na welsoch y ferch ieuanc yn y Farmer's? Ac a ydych yn dywedyd na ddywedodd gwraig y Farmer's ddim wrthy ch am dani?"

"Dim un gair, ac mi fûm yno yn hir," atebai Wil.

"Mi fûm yn credu eich bod yn fachgen da, William Morgans," ddywedai'r widw, "ac mi ymddygais atoch fel y cyfryw; ond yr wyf yn eich ffeiddio, ac yr wyf yn ffeiddio y Jacks lwrcaidd sydd yn anfon eu cyhoeddiadau ar hyd y wlad, a hyny o blegid eich halogedigaethau, eich celwyddau, a'ch holl ddrygioni. Mae'r ferch y crybwyllais am dani wedi bod yma ddwy noswaith gyda mi; a neisach merch, yn ol ei gradd, ni welais erioed. Mae y ferch hon, a

dywedyd yn blaen, yn feichiog genych, yr adyn drygionus a diegwyddor! Y mae yn rhy dda eich crogi, y scwlpyn halogedig. Pa fodd y gellwch ddangos eich gwyneb, gan gywilydd?"

"Ni wn i ddim yn y byd am dani. Ond y mae yn debyg fod yn rhaid i mi, fel ereill o weision yr Arglwydd, yfed rhyw gwpaneidiau o ddyfroedd chwerwon Mara ar daith fy mhererindod," meddai Wil.

"Paid gwneuthur defnydd o'r Gair. Ymswyn wneuthur defnydd o'r Gair i geisio gwyngalchu dy halogrwydd, dy ddrygioni, a'th gelwydd," atebai'r widw. "Yr wyf wedi darllen dy lythyron ati. A gwaeth creadur o ddyr na thi, Wil, ni ellir ei gael ar wyneb clawr y greadigaeth. Mae genyf fwyd, Wil; ond ni chei di damaid o hono. Mae genyf beth yfed, Wil; ond ni chei ddyferyn o hono. Mae genyf wely, Wil; ond ni chei di orwedd ynddo. Nid oes arnaf dy ofn, Wil, i ti gysgu yma heno; ond byth, byth, byth, y cei di, nac un lwrcyn o Jack, gymmaint a du fy ewin genyf, ond a gawsoch. A chan ei bod yn llawn bryd myned i'r gwely, waca allan, Wil, a phan fyddo arnaf fi eisieu dy weled, mi anfonaf atat, a phaid â dŵad yma cyn hyny. Please to walk out, and go about your business, Sir William; please to withdraw your carcass from here."

Trodd Wil allan, â'i gynffon rhwng ei ddwy coes, ac yn ymferwi o lidiogrwydd. Rhai siomedig iawn yw y Jacks a'r pregethwyr lwrcaidd, oni chânt bob *attendance*, a'r *attendance* goreu; ac y maent hefyd yn baticular iawn yng nghylch eu boliau. *Sparerib*, fflowlyn, a hwyaden yw eu moddion cymmeradwy; a cheir gweled y *slaughter* fawr yn fynych yn myned yn mlaen prydawn y dydd y byddo'r Jack yn pregethu yn y capel, gan y rhai fydd yn cadw'r mis. Aeth Wil ymaith o dy'r siopwraig, gan wynebu ar y Pant, efe a'i horsyn. Wedi iddo gyrbaeddyd y

Pant, yr oedd pawb yno yn eu hun a'i heddwch. Aeth at y drws, a chlustfeiniodd; ac ni chlywai ddim 'stŵr yn y ty, ond yn unig Sion yn chwynnu, ac yn rhoddi ambell chwyrniad mwy nerthol na'u gilydd, o wely y *room* bach. Curodd Wil y drws, ac wedi curo, galwodd.

"Dyna Morgans bach wedi dyfod yn ei ol," ddywedai Pali, gan neidio yn hanner ar ddiuhun o'r gwely, ac wedi taflu rhyw hen bais a gafodd ar draed y gwely am dani, dyma hi yn prysuro at y drws i'w agor i Wil. A phan yr oedd Pali a Wil yn siglo dwylaw wrth y drws, dyma Sion o'i wely, ac i'r gegin yn ei gryd, ac wrth frysio tua'r drws, fe darawodd ei grymog wrth ymyl crochan oedd ar ganol y llawr, a dyma'r och fawr yn adseinio rhwng y pedyll a'r llestri llaeth; ac y mae crwtyn y gwas yn haeru yn barhäus iddo ef, o'r gwely uwch ben, glywed Sion yn damo'r crochan; ac nid oes genyf fi ond cymmeryd hyn ar dystiolaeth y crwt; gall crys ddywedyd y gwir.

I mewn i'r ty aeth Wil, ac wedi i Pali gael gafael, trwy ffwdanu llawer yn y tywyllwch, yn y box lusiffers, a goleuo canwyll, aeth i'r *room* bach i osod ei dillad am dani. Bu Sion yn taclu y cwt oedd ymyl y crochan wedi dori ar ei grymog, ac wedi doddi tipyn o wer maullwyn arno, a philen blonegen mochyn ar hwnw, aeth yntau i'r *room* bach i roddi ei dillad am dano, i gael myned â horsyn Wil i'r ystabl. Gofynodd Pali i Wil beth a gymmerai efe yn damaid o fwyd? Ond dywedai Wil na chymmerai efe ddim, am fod llafur a lludded ei waith ar y daith wedi lladd ei ystymog yn hollol. Gofynai Pali iddo a gymmerai efe ddim golwythyn a wy? Dim. Cawl a thaten? Dim. Bara a llaeth? Dim. Bara a menyf? Dim. Bara a chaws? Dim. Cwpanaid o de? Dim. Cwpanaid o goffi? Dim. Gofynodd iddo a gymmerai efe ddyferyn bach o whisgi?

"Dyferyn bach," atebai Wil, "canys whisgi sydd fel moddion yn llaw yr Arglwydd wedi fy nghadw yn fyw ar fy nhaith." Yn union-gyrchol, dyma y botelaid whisgi ar y bwrdd.

Erbyn hyn yr oedd Sion wedi dyfod i'r ty, a Phali yn chwythu'r tân i ferwi'r dwr oedd yn y shespan i Wil gyda'r whisgi; a dechreuwyd ei holi am ei lwyddiant ar y daith. Dywedai Wil ei fod yn cael llawer o bresennoldeb yr Arglwydd ar ei daith, a nerth mawr i draddodi gwirioneddau'r Gair; bod y tyrfaeodd yn lluosog iawn ym mhob man; a'i fod yn cael y serchogrwydd a'r caredigrwydd mwyaf ym mhob man. "Ond," meddai, "yr wyf yn deall fod cwpanaid chwerw wedi cael ei gymmysgu i mi, ac y caf fy nhaflu i'r ffwrnes; ond mi ddeuaf o honi wedi fy mhuro fel yr aur."

"O ie," ebai Pali, "mae rhyw sibrdw dystaw fod rhyw lodes o'r Gweithiau wedi dyfod i'r Farmer's i ymofyn am danoch, ac nad yw pethau ddim yn *right*; ond nid wyf fi yn credu un gair; a ddarfau i chwi alw yn y Farmer's? Ac a welsoch chwi'r lodes?"

"Do, mi elwais yno, ac ni welais y lodes, ac yr oedd Dai Luke y gof yno, ac mi gefais dafod anghyffredin gyda gwraig y Farmer's a Dai; ond am y lodes, ni welais hi erioed o'r blaen, ac yr wyf mor rhydd oddi wrthi ag ydych chwithau."

"Dyna 'nghred i am danoch," dywedai Pali. "Ond pa fodd y lluniwyd y 'stori? A phwy sydd yn y fusnes hon? Dyna'r pwnc."

"Credw yr wyf fi," atebai Wil, "mai yr Eglwyswyr, neu rhai o bobl yr hen gapel, sydd wedi cyfflogi'r lodes i dori fy ngharitor."

"O ie, yr Eglwyswyr, yr Eglwyswyr sydd wedi gwneuthur y fusnes hon, ac nid pobol yr hen gapel," ddywedai Pali.

"Nid wyf fi yn credu fod yr Eglwyswyr yn busnesu dim yn y

byd yn eich mater, Morgans," ddywedai Sion; "ac ni chredaf fi ddim fath beth am danynt."

"Mae o'r goreu i ni ddywedyd mai'r Eglwyswyr sydd wedi bod wrth hyn," meddai Pali, "i ni gael rhoi tipyn o scandal arnynt. Ond pwy sydd wedi ysgrifenu y llythyron sydd ganddi yn eich enw chwi?"

"Meddwl a chredu yr wyf fi," atebai Wil, "mai ysgolfeistr y National School sydd wedi ysgrifenu y llythyron, a flogio fy llaw i."

"Dyna 'nghred innau," meddai Pali.

"Na ddo erioed," meddai Sion, "canys dyn *upright* yw ysgolfeistr y National School wedi bod er pan mae yn yr ardal hon. Ond ar yr un pryd, yr wyf yn credu fod Morgans mor rhydd oddi wrth y lodes ag wyf finnau. Dyna, yfwch, Morgans, a chymmerwch lasaid arall, canys fe wna ddaioni i chwi. Ni fydd eisieu dim arnoch chwi tra fyddo Pali a finnau byw."

XIX.

Y MAE rhyw wahaniaeth mawr yn naturiaethau a thynnerau rhai dynion rhagor na'u gilydd. Mae rhai dynion ag ofn eu cysgodau arnynt, ac yn fynych mewu braw mawr o blegid eu dychymmygion eu hunain. Nid ydynt yn werth dim i amddiffyn eu hunain, pan fyddont yn cael y cam a'r anghyfiawnder mwyaf. Y mae dynion ereill drachefn o gyfansoddiadau gwahanol hollol; nid oes arnynt ofn dim; ffyrnigant pan oddiweddir hwynt gan y storom; ymgaledant dan yr awelon trymaf; ac nid oes unrhyw weinidogaeth a'u plyga i gyfaddef dim cymmaint ag un o'r amryfuseddau y maent yn weithredol o honynt! Ond y mae y rhith-broffeswyr, a'r rhith-swyddogion, a'r rhith-bregethwyr ym mhell tu hwnt i bawb yn y mater hwn! Maent yn gwybod eu bod yn chwarae ac yn gwneuthur cellwair o'r peth mwyaf ei bwys a'i symlwydd dan yr holl nefoedd; ac felly, o ychydig i ychydig, wedi ymgaledu i'r fath raddau fel nad ydynt yn teimlo dim, ond yn cymmyrd pob peth yn rali ac yn 'spri, ac yn gwadu pob peth y cyhuddir hwynt o'u plegid; ac yn lle gostwng eu penau, yn ymgodi yn fwy nag erioed, er fod yr ardal a'r wlad yn estyn bysedd ar eu hol ac yn eu ffieiddio! Gwadu yw y pwnc yn bresennol; a bydded dyn mor

anfucheddol ag y byddo, ac yn enog o'r drygau mwyaf, dim ond iddo wadu yn ddigon haerllug a phen uchel, y mae plaid o rai fel yntau, yn yr un gymdeithas, yn ymdyru oddi amgylch iddo, yn cymmyrd ei blaid, yn ei amddiffyn, yn ei wngalchu â chelwyddau, er eu bod yn gwybod eu bod yn ceisio drwg, ac mai drygioni eu calonau eu hunain sydd yn cael ei asio â drygioni!

Yr oedd y storom a'r ddryghin fawr wedi ac yn ymgasglu yn erbyn Wil—yr wybren wedi ac yn duo, a'r gwyntoedd yn dechreu chwibanu yn ei glustiau. Ond gwelodd Wil mai yr unig beth oedd iddo ef i'w wneuthur oedd gwadu, peidio â phlygu dim ar ei ben, a chymmyrd arno mai camgyhuddiadau oedd y cwbl, a'r offerynau a'r camgyhuddiadau yn orchwylion ei elynion, y rhai a wenwynent wrth ei boblogrwydd, ac am fod yr Arglwydd yn gweled bod yn dda i roddi ei fendith mor amlwg ar ei lafur a'i ymdrechdiadau. Yr oedd digon o satan yn Wil fel sydd yn ei frodyr jackyddol, a phenderfynodd mai yr unig ffordd iddo i'w dilyn yn ei dywydd garw oedd, ymrithio i lun ac agwedd sant dan dymnestl oedd uffern a'i goruchwylwyr wedi ei chyfodi yn ei erbyn; a chyhoeddi wrth bawb ei fod ef yn gwbl ddi-euog, gadael iddi chwythu ei chyn-

ddaredd arno; ac nad oedd ef, er pob peth, yn ddigysur yn ei enaid, a'i fod wedi rhoddi ei hun yn llaw Rhagluniaeth yn hollol. Dyma fel yr oedd Wil yn ei chynllunio yn y Pant wedi iddo fyned i'r gwely; ac wedi iddo weled y goleu yn tywynu ar y cynllun daionus hwn, fe dafodd ei hun i freichiau cwsg, a chysgodd, gan chwynu yn gysurus hyd y boreu, yr hyn ni allasai neb o blant Adda ei wneuthur dan yr un angylchiadau, ond Wil a'i frodyr!

Boreu tranoeth, pan ddihunodd Wil, daeth helyntoedd y nos o'r blaen i'w feddwl; ond cyfarfyddodd Wil â hwynt ym mhrofiad cawr nerthol, a phenderfynodd ddyfod trwy bob peth ar gefn gwadu. Gwyddai mor effeithiol oedd gwadu wedi myned yn mhlith rhagrithwyr o rith-broffeswyr, a'i fod wedi cadw llaweroedd yn y pulpudau, ac yn eu lleoedd yn y capeli; a phenderfynodd drachefn i ddal at y gwadu i'r pen draw. Pan ag yr oedd Wil yn y cyflwr cysurus hwn o feddwl yn ei wely, dyma was Mr. Jones o'r Garth yn curo wrth ddrws y Pant, a pha beth oedd ganddo ond llythyr oddi wrth ei feistr at *Rev. William Morgans, Minister of the Gospel!* Aed â'r llythyr yn uniongyrchol at Wil, a'i gynnwysiad oedd ceisio gan Wil i ddyfod i'r Garth yn gynnar dydd Gwener cyn amser y cwrdd parotoad, ac ar fod iddo ymdrechu cael rhywun yn ei le yn y Pant erbyn y Sabbath, fel y gellai dori bara iddynt, ac mai efe oedd yn debyg o fod yn weinidog iddynt. Cyfododd Wil o'i wely, ac wedi gosod ei ddillad am dano a thrwsio ei flewach, ac ymlunio i'r agwedd fwyaf fawreddog ag a ellai, daeth i'r gegin, ac wedi cyfarch Sion a Phali, a gofyn i was y Garth pa fodd yr oedd Mr. Jones, a Mrs. Jones, a'r holl deulu, archodd i'r gwas i ddywedyd wrth Mr. Jones y byddai ef yn y Garth cyn cinio dydd Gwener, ac ymaith â'r gwas â'r genadwri hon ganddo i'w feistr.

Wedi i Sion a Phali ddeall beth oedd y llythyr, llawenychasant yn fawr; canys ystyrient y genadwri hon fel godowyn goleu yn tori allan o'r cwmwl du oedd yn crogi uwch ben Wil.

"Da iawn, da iawn," meddai Sion; "nid oes dim raid i chwi, Morgans, i fflino dim ar eich meddwl yng nghylch y lodes sydd yn y Farmer's na'i chelwyddau; canys os nad wyf yn camsynied yn fawr, yr ydym ni yn ddigon i ddyfod â chwi yn ddiangol trwy y profedigaethau sydd yn awr wedi eich hamgylchynu. Fe ddeuwn ni â chwi trwy hyn eto, ac ni chaiff eich pen fyned lawr, ac ni chaiff neb eich maeddu yn y llaid."

Onid yr oedd wedi dechreu myned yn ddrwg yn yr eglwys newydd yn ysgubor Sion y Pant. Yr oedd rhai o'r swyddogion wedi llyncu llyfaint, wedi chwyddo, wedi myned yn dor-dyn, a braidd wedi myned yn fwy na'u dillad, ac yn camu o flaen y swyddogion ereill, ac yn eu back-stando, ac yn gosod eu hunain yn y ffront. Yr oedd Siencyn Troed y Foel bob amser yn y rear, a Tomos y diacon y blaenaf yn y ffront, a Sion y Pant wedyn; a chan fod Siencyn mor gyfoethog yn na y byd hwn a'r ddau, ac wedi cael ei wneyd yn ddiakon, yr oedd yn methu â dirnad nad oedd efe crystal gwr ym mhob ystyr a hwythau, ac na allasai ei air gyrrhaeddyd mor bell a'u geiriau hwythau. Cydrhwng pob peth a'u gilydd, yr oedd Siencyn wedi oeri cryn lawer yn ei berthynas â'r eglwys yn y 'sgubor; ond hyd eto yr oedd pob peth o'r goreu, ond nid mor wresog ag y bu. Yr oedd Nansi Troed y Foel hefyd wedi colli cryn dipyn o'i chariad cyntaf at achos y 'sgubor; canys fel gwraig yn caru ei gwr, ac yn hoffi gweled ei gwr yn cael ei anrhydeddu a'i barchu, ac o leiaf yn ei ystyried gymmaint, os nid yn fwy, o ddyn na Tomos na Sion, nid oedd ei theimladau yn gwbl gysurus i weled

Siencyn bob amser wrth gynffonau y ddau uchod. Ac heb law hyn, yr oedd Nansi Droed y Foel yn gweled Pali'r Pant wedi myned braidd yn ormod o fenyw wedi cael eglwys newydd yn ei hysgubor, ac wedi i Sion gael ei wneuthur yn ddiakon. Yr oedd Nansi yn ystyried Siencyn bob tipyn yn gymmaint o ddiakon a Sion, a hithau lawn cymmaint o ddiacones a Phali. Ac ar y Sadwrn yn y dref, pryd y dygwyddodd Pali a hithau gyfarfod â haid o Jacks, a dechreu siarad, Pali oedd yn myned â'r siarad i gyd.

"Mae'n debyg," meddai, "na fydd Mr. Morgans wedi dyfod yn ol erbyn y Sabbath wythnos i fory; ac y mae yn rhaid i chwi, a J., ac E., i ddyfod i lanw ei le y Sabbath hwnw; dewch chi a J. i'n ty ni i'r Pant, ac chwi ellwch chwithau, E., fyned i Droed y Foel."

"Yr ydych yn myned yn rywbeth yn fawr iawn, Pali," ebai Nansi, "ac mi allwn i feddwl ei fod yn ddigon i chwi drefnu, a gwahodd, a busnesa yng nghylch y Pant, a'm gadael innau i gael rhywfaint o'm trefn, a busnesan rhyw ychydig yng nghylch Troed y Foel; ond yn lle hyny, yr ydych chwi yn myned mor fawr; canys fe rydd Siencyn a minnau ddimai am ddimai, a cheiniog am geiniog, os nid ychwaneg, ag a rydd Sion a chwithau. A busneswech chwi, Pali, yng nghylch y Pant; ac mi allaf fi fy hun wahodd y neb fyddaf fi yn chwennych i Droed y Foel, heb ddim o'ch help chwi."

Trodd Nansi ymaith, ac a adawodd y Jacks i Pali, a Pali i'r Jacks. Yr oedd y drwg wedi dechreu yn eglwys y 'sgubor!

Dyweddodd Sion a Phali y cwbl wrth Wil, ac am iddo beidio ymddiried dim yn Siencyn a Nansi, a lled-grybwyllasant wrtho hefyd y byddai cystal, os nid gwell, i ddwyn Siencyn a Nansi o flaen yr eglwys.

Dranoeth, ar ol y storon fawr yn y Farmer's, torodd 'stori lodes y

Gweithiau allan fel rhyw genllif fawr trwy a thros yr ardal. Yr oedd rhyw sibrdw yn flaenorol; ond dranoeth, dyma hi allan fel tân gwyllt; yr oedd Dai Luke yn ei hollti yn yr efail, a rali wych yno drwy'r dydd; pasiodd gwaraig y Farmer's wmbredd o gwrw hefyd yno dranoeth; pob un yn ymofyn peint, er mwyn cael clywed yr hanes; a chyfododd eisieu rhyw betheuach yn ddisymmwrth ar holl wragedd da yr ardal, fel ag yr oedd yn rhaid iddynt fyned i siop y widw. Un ag eisieu llathod o galico; y llall gnotyn o incil; y llall ryban cap; y llall owns o liw glas; y llall hanner owns o edeu lin; y llall hanner cwarter o ddybaco Franklin i Dafydd; ac yr oedd yn llawn busnes yno, a bu yno daplas gysurus o de, a diu yn cael ei drafod ond Wil a'r lodes; ond nid oedd neb ag oedd yn eistedd yn eglwys ysgubor y Pant yno.

Yn y prydnewn, ar ol cinio, trodd Wil allan i fyned i dy ei fam, i edrych pa fodd yr oedd yr hen wraig yn ymdaro. Ni chlymmerai arno fod dim yn effeithio yn annymunol arno: a siglai ddwyllaw yn serchogaidd ac yn llon iawn, yn neillduol â phobl y 'sgubor, ac yn serchogaidd yn cyfarch pawb a gyrfarfyddai ar y ffordd, ond yr oedd yn cyfarfod â llawer oedd yn edrych yn llygad-gam iawn arno. Pan ag yr oedd y mater yn cael ei hollti rhyngddo a brawd neu chwaer fyddai yn perthyn i eglwys y 'sgubor, yr oedd yn efengylaidd iawn; braidd yn rhy dawel ac efengylaidd i'r hyn a ddysgwyliodd oddi wrth Gristion gwirioneddol, chwaethach oddi wrth ei gyffelyb; ac yr oedd Wil wrth hyn yn chwareu ei ddsbarth braidd yn rhy bell, yn neillduol yng ngolwg y rhai oedd yn adnabod tipyn ar y natur ddynol.

"Dyma fel y mae," meddai Wil; "fel hyn y mae wedi bod erioed ar ddyinion gwell ac uwch na mi. Mi gefais y melus, ac y mae yn debyg fy mod i gael y chwerw hefyd; ond

pam y gwna llwch gwael fel fi rwg-nach fy mod wedi cael fy nhafu i'r ffrwn, pan y mae fy ngwell wedi bod yno; ac y mae yn ddigon tebyg fod rhywbeth ynof yn galw am y storom hon. Yr wyf wedi rhoddi fy hun yn hollol i law'r Arglwydd, a gwnaed Ef fel yr ewyllysio â mi. Ond y mae hyn yn fy nghynnal; yr wyf yn rhydd; yr wyf mor rhydd a'r angel oddi wrth y lodes; ni welais hi erioed; ac y mae rhyw frad ofnadwy wedi cael ei lunio yn fy erbyn; ond yr wyf yn rhyfedd o dawel; yr wyf yn synu at fy nhawelwch; ond y mae fy nghydwybod yn gwbl rydd!"

Nid oes ar wyneb y greadigaeth greaduriaid mor rhagrithiol, mor galed, mor haerllug, a chymmaint o bres digywilydd-dra ar eu gwyn-ebau a'u talcenau a'r Jacks sydd yn lwrcau ar hyd a lled y wlad. Ac mewn gwirionedd, y mae aelodau, lawer iawn o honynt, wedi myned rywbeth yn rhyfedd o haerllug pan fyddir yn gwneuthur rhyw lamaan-ddrwg gwaeth na'u gilydd! Nid yn unig gwadant yng ngwyneb pob tystioloethau, ond ymgodant yn eu haerllugrwydd, a mynant orchfygu drwy *impudence!* Y mae wedi myned yn rhyfedd! A pha fodd y gellir dysgwyl iddi fod fel arall, tra fyddo, nid yn unig aelodau, ond gweinidogion, ie, hen weinidogion, yn ceseilio, yn clogwyno, ac yn dyrchafu cymmeriadau yn nrewdod trwne tomenau, i ddrewi pulpudau, megys ag y gwnaed yn ddiweddar mewn cymmanfa ag un o'r rhai fu yn cynnal gwledd gwyl Jolly mor neillduol ac arbenigol yn Abertawy? Mae hwn yn syndod ym mhlith ffeidd-dra sectyddol yr oesau!

Wedi i Wil gyrhaeddyd ty ei fam, ac wedi lwrcau noswaith a diwrnod rhwng cartref ei fam a'r ardal, ym-hwyliodd tua'r Garth, fel y gellwch wybod, cyn cinio; ond yr oedd stori'r lodes wedi cyrhaeddyd y Garth o'i flaen, eithr nid oedd wedi gwneuthur dim yn ei erbyn, canys clywsant fod

Wil yn gwadu, a phan glywsant hyny, credasant, neu yn hytrach cymmerasant arnynt gredu fod Wil yn rhydd a dienog. Derbyniwyd Wil yn serchogaidd anghyffredin yn y Garth; canys pan welwyd ef yn dyfod at y drws, rhedodd Mr. a Mrs. Jones i'w dderbyn yn nrws y ffront; ac yn eu brys i gyfarch yr athraw Wil, dyma hi yn fwstwr mawr yn y gegin, a chan frys y Misses Jones i gyfarch y *reverend*, tarawsant wrth eu gilydd, ac yn eu gwylltineb troisant y badell â'r llaeth oedd ar ganol y llawr ar ei hochr, a dyma'r llaeth yn llifo dros yr holl le, fel braidd y gallasai y *Great Eastern* nofio ynddo! Yr oedd yno bawb am y cyntaf yn estyn eu pawenau at Wil, ac wedi yr ymbawenau mwyaf gwresog, dyma Wil yn cael ei arwain i'r parlwr, megys y dylasid gwneuthur â Jeekyn o'i gymmeriad ef. Wedi eistedd, dyma Mr. Jones yn dyfod at y mater, heb fyned yn amgylchiadol yn ol ac ym mlaen, ys dywed y Jacks, ac yn dywedyd, "Wel, Morgans, mae yn dda iawn genyf eich gweled, canys yr ydym wedi bod mewn tywydd garw iawn; ond fe lwyddasom yn hyfryd i gael Davies o Salem; yr ydym wedi clywed am eich tywydd chwithau, ond peidiwch hidio dim yn y byd; canys yr ydym wedi eich dewis chwi i'n bugeilio yn yr Arglwydd. Bûm yn siarad â rhyw nifer o'r blaenoriaid neithiwr, ac er 'stori y ferch o'r Gweithiau, yr oeddynt hwy yr un feddwl a minnau am danoch; y maent yn fy llaw i; a pheidiwch hidio dim; fi sydd yma!"

Yr oedd rhyw danglaeth fawr wedi bod rhwng Mr. Jones a rhyw fenyw yng nghylch deng nilynedd yn ol, ond gwadodd Mr. Jones bob peth, a chadwodd ei le yn yr eglwys! Yr oedd No. 2 wedi cadw ei le yn yr eglwys trwy wadu nad oedd wedi pricio dan ei gymmydog er cael ei fferm, a meistr y tir oedd yn dyweyd y celwydd arno! Yr oedd No. 3 wedi cadw ei le yn yr eglwys trwy wadu na naddodd ewinedd dafad ei

gymmydog o ddigofaint ato! Cadwodd No. 4 ei le trwy wadu ei gnappo a'i ymladd! Cadwodd No. 5 ei le trwy wadu y twyll mawr a wnaeth â dyn dycieithr yn y ffair! Mewn gair, yr oedd bageidach o wŷr a gwragedd gwadu yn perthyn i eglwys Salem! Cafodd Wil ginio dda yn y Garth, a phan ddaeth yr amser i fyned i'r cwrdd parotoad, aed tua Salem, ac yn y cwrdd, dyma Mr. Jones yn dwyn mater Wil ger bron trwy sylwi fod 'stori ryfedd ar gerdded, a bod bradwriaeth ofnadwy wedi cael ei llunio gan elynion Morgans, a gelynyion yr achos, yn ei erbyn; ond ei fod ef wedi bod yn siarad â Morgans, a'i fod wedi cael boddlonrwydd cyflawn ei fod yn ddiueog, ac y gallent fentro ei gymmeryd yn weinidog. Arwyddodd y nifer amlaf eu cydsyniad â chynnygiad Mr. Jones; ond cyfododd rhai wrthwynebiadau, a dywedasant ei bod wedi bod yn ddigon trwsogl eisoes, ac os rhoddent alwad i Morgans dan yr amgylchiadau presennol, y byddent yn fwy o gorn cân trwy'r wlad a'r gwledydd!

"Yn gorn cân trwy'r wlad a'r gwledydd," atebai Mr. Jones, "pa achos i ni hidio am y byd annuwiol, na neb arall; nid y byd annuwiol yw ein Beibl ni."

"Nag e, y mac'n wir," dywedai yr hen fodryb Martha, draw yn y cornel, "ond ar lawer o ystyriaethau, dylem ni fod yn Feibl i'r byd annuwiol; ond o'm rhan i, nid wyf yn gweled un gwahaniaeth rhyngom ni a'r byd, ac os oes gwahaniaeth yr ydym yn waeth na'r byd; a byddai yn gywilydd i'r byd fod yn euog o'r pethau sydd wedi ac yn cymmeryd lle yn ein plith ni."

"Nid oes ar neb eisieu clywed na gwrando ar eich brawl chwi, Martha; tewch, a thewch mewn mynyd."

"O ië, dyna hi," atebai modryb Martha, "taw di'r gwan ar y gwir; ac yr wyf fi yn tewi, ond nid ydwyf yn rhwym i eistedd mwyach yn Salem."

"Mae modryb Martha yn *right* ei gwala," meddai un.

"Mae modryb Martha yn *right*," meddai arall, a dywedodd yno amryw ereill fod modryb Martha yn *right*. Ond ymgynhyrfodd Mr. Jones, a dywedodd,

"Beth? cyfodi terfysg, a rhwygo'r eglwys, aie? Os nad ydych yn ddystaw, fel 'rwyf byw, mi fynaf eich troi allan bob sowl o honoch oddi yma!"

"Terfysg!" ebai un; "pw y wnaeth y terfysg dydd Sul Sebastopol yma?"

"Dim rhagor o chwaldod," meddai Mr. Jones; "chwi, y rhai sydd dros i Morgans fod yn weinidog yma, i fyned i mewn ac allan o'n blaen, codwch eich dwylaw. Mi welaf fod y *majority* o blaid Morgans; ac y mae wedi ei benderfynu. Pa beth a ddywedwch chwi, Morgans? A ydych chwi yn derbyn ein galwad ni?"

"Ydwyf," atebai Wil.

"Chwi, gan hyny, yw ein gweinidog ni. Actiwch yn eich swydd!"

Beth dâl dywedyd? boreu dydd Sul a ddaeth; a daeth torf anferth yng nghyd i Salem, i gael gweled a chlywed y rali oedd yn myned ym mlaen yno; canys y mae terfysgoedd capelaidd bob anser yn boblogaidd am ychydig.

Tra fu Wil ar ei daith, fe gafodd afael yn y rhan gyntaf o lyfryn sydd yn dyfod allan o'r argraffwasg, a elwir *Y Fodrwy Aur*; ac ni chafodd ddim crioed yn taro ei archwaeth yn gyffelyb i'r llyfr hwn! Yr oedd ei *style* wrth ei fodd, ac yr oedd ei bregeth y boreu hwn yn frith o *phrases* y *Fodrwy Aur*; ond yr oedd rhyw walch wedi ei ddarllen, ac felly fe ddaliodd Wil yn lleidr. Wedi darllen pennod, fe roddodd Wil yr hymn ganlynol allan o'r *Fodrwy*:

"Pan gododd Duw ddyn i anrhydedd,
Ar *blatforn* trugaredd fe'i rhoes;
Fe'i cododd ef eilwaith i olud,
Ar *blatforn* y bywyd, drwy'r groes;

Fe'i *windia* ef eto'n mhen ennyd
Ar *blatfom* y gwynfyd digoll,
Can's dyna yr adeg a nodwyd
I'r Duwdod fod oll ac yn oll."

Yn awr at *phrases* Wil yn ei bregeth, allan o'r *Fodrwy Aur*.

"Gosodwyd y *royal hydraulic of charity* ar waith, a chodwyd y dyn. Ac y mae tyrfa na fedr *neb* ond hwn eu rhifo o blant y cwdwm mawr, yn *ornaments of love*, ar fryniau anfarwoldeb. Cariad yw y *belt of championship* sydd yn cynnal undeb y nef. Geill *fingero* myrdd o'r ser â'i fysedd fel *marbles* i'r man y myno. Yr oedd y gair *photographist* uwch ben pob drws drwy holl wlad Palestina. Yn yr all gyfnod o'i oes tynent ddarlun o hono ar lan y bedd newydd yn *freehold* y bydoedd. Ond wyddoch mai myfi yw *Field Marshal* y môr, and *Chief Commander* y gwynt a'r storm. A dyna y farn a basiwyd am dano fel y *first flower of salvation*, 'Nid wyf fi yn cael dim bai ynddo;' *very good*. Pe na wnelai crefydd dim ychwaneg na hyn i'w pherchenog, hi dalai *five per cent*. o log iddo. Cyfrol ag *Entered at Stationers' Hall* ar y *Title Page*. Mae yn yr Ysgol Sul feibion mewn cyflawn dwf, yn debyg i Moses, yn llawn deugain mlwydd oed, a hawliant yr anrhydedd o *walk side by side* ag uwch-lenorion Rhydychain. Yn llestri digon cymhwys i ddal eu llon'd o ogoniant yn yr hwn a'u gwnaeth, ac i fod yn *volumes of divinity* yn y *royal library* yn oes oesoedd. Ond am y cwpan hwn, fe'i llanwodd hyd yr ymyl â'r *spiritual wine of charity*. Dyma ei *Christmas box* a'i last *gift* i'w briod. Yn yr ardd yr oedd y *grand battle of heaven and hell* i gael ei hymladd. Yr oedd *batteries* Genhena, a *fortification* y fagddu fawr i gael ei roddi. Yr oedd Efe wedi dringo ael Golgotha, mynwent y pengolgau, ac wedi meddiannu y *battle ground*, a'r *black star of death* ar ei ddwyfron. Hoeliodd *certificate* uwch pob drws, ac a'u cyssegrodd yn *dressing rooms* i'w ddy.

weddi i ymdrwsio erbyn dydd ei phriodas. Crogodd y *chandelier of hope* uwch ben y *passage* tywyll, ac ar foreu y trydydd dydd daeth allan wedi ysbeilio angeu o'r holl *royal ornamentality*. Ysgrifenwyd â bys holl-alluogrwydd uwch ben y cyntedd nesaf allan, mewn llythyrenau bywiol, '*Rotten government for ever and ever*.' Cristion fydd y *fancy flower* harddaf welir yn y nef. *Hydraulic* mawr gwrthiol Golgotha a gyfyd y gwanaf i'w go!

"Gwel ar *blatfom* bryn Golgotha,
Dacw *orotario'r* Ior,
Yn *blatfom* rhyfeddol holl gampa Iehofa;
Ond gwelais ryw ddwy o'r *ideau*
Yn cerdded yn araf tu cefn,
Yn arwydd fod rhyw *exhibition*
Ryfeddol i ddyfod drachefn."

Dyma *phrases* y rhan gyntaf o'r *Fodrwy Aur*, cyflwynedig i'r Ysgol Sul, yn y flwyddyn 1865. Mae'r oes yn myned yn oleu iawn, onid ydyw? Sonir am laid mewn rhai ardaloedd Cymreig wrth yr enw *bwdlacs*, ac os bu *bwdlacs* llenyddol yn y byd llenyddol erioed, *bwdlacs* y *Fodrwy Aur* ydyw! Dyma enghraifft o'r moddion y gynnygir fel ebran ysbrydol i'r Ysgol Sul! Yr oedd Wil yn agor ei ben, ac yn gwaeddi y geiriau dyeithr, *Hydraulic*, *Chandelier of Hope*, *Field Marshal* y môr, a *Royal Ornamentality*, nes oedd llygod ac ystumod y capel ar lewygu gan ofn! Yr oedd Wil yn nofiad yn *phrases* y *Fodrwy Aur*; canys ni chafodd y fath foddion i daro ei archwaeth erioed o'r blaen, ac efe a wnaeth yn fawr o honynt.

Testyn pregeth Wil boreu y Sul hwn yn Salem oedd, "Ni bydd amser mwyach." "Time," meddai Wil, "yw amser, a pheth *wonderful* iawn yw amser. Ie, mhobli, peth *wonderful* iawn yw amser, ac y mae yn beth *precious* iawn. Ond nid af fi i fwya eich amser i fyned ddim yn *round about*, canys mae y pwnc o bwys, ac yr wyf yn ei ddifeidio fel y canlyn: Yn gyntaf, mi sylwaf ar amser cyn

bod amser; ac yn ail, mi sylwaf ar amser yn sefyll o fewn cylch amser; ac yn drydydd ac olaf, mi sylwaf ar amser pan na fydd amser mwyach.

“Y peth blaenaf yr wyf yn myned i sylwi arno yw, ar amser cyn bod amser. Gwnewch chwi sylwi, fy mhobl i yn Salem yma, canys y mae y mater yn fater mawr. Ychydig o ymdrafod sydd yn bresennol gan y rhan fwyaf o bregethwyr ar faterion mawr. Ond y mae rhai pregethwyr, fy mhobl i, yn pregethu ar faterion mawr. Mae genyf fi fater mawr heddyw; mater pwysig; ie, mater mawr sydd genyf, sef amser cyn bod amser. Sylwch, amser cyn bod amser; amser cyn bod haul yn codi, ac yn myned lawr; amser cyn bod [lleuad] yn newid, ac yn codi, ac yn myned lawr; amser cyn bod *clock*! Dyna beth rhyfedd! Dyna beth i chwi sylwi arno! Dyna beth o bwys i chwi fyfyrion arno; amser cyn bod *clock*! amser cyn bod *watch*! amser cyn bod *dial*! Dyna beth rhyfedd! Sylwch arno, amser cyn bod *clock*; amser cyn bod *watch*; amser cyn bod *dial*. Mae parch mawr i hen glock fyddo o dad i fab yn y teulu, am ei fod yn hen glock! Ond clywch, fy mhobl i, y mae amser yn henach o lawer na'r hen glock, canys yr oedd amser cyn bod amser! Amser cyn bod *clock* yn taro! Meddyliwch lawer am hyn, fy mhobl i; canys bu amser cyn bod amser, a thragwyddoldeb wedi myned heibio yw yr amser hwnw!

“Ond gan obeithio eich bod chwi wedi deall fy meddwl, a hyny am amser cyn bod amser, a'ch bod wedi derbyn bendith ar y sylwadau gwerthfawr a wnaethym, yr wyf yn dyfod ym mlaen at yr ail ben, sef i sylwi ar amser o fewn cylch amser. Chwi welwch, fy mhobl i, gwelwch yn siwr, chwi welwch fy mod yn myned yn ddyfnach dyfnach i'r mater, ac y mae arnaf ofn na allwch chwi ddyfod ar fy ol i'r dyfnder; treiwch, da

'mhobl i, treiwch, canys yn y dyfnder mae'r perlau; ac yr wyf fi yn y dyfnder, ac os na ellwch chwi ddyfod ar fy ol i, mi dafaf ambell berlyn i chwi ar lan y traeth. Llewch am berlau o'r dyfnder, a rhoddwch eich amenau gyda mi pan yn gwaeddi, 'Perlau i'r traeth o'r dyfnder; perlau i'r traeth o'r dyfnder, y boreu newydd yma,' fel yma, fel y byddo pob un yn myned adref o Salem heddyw â'i berlyn bach gydag ef. Peth tlawd yw myned adref o'r oedfa heb berlyn bach yn y llaw; ie yn siwr; am hyny mi waeddaf, a rhoddwch chwithau eich amenau gyda fi, 'Perlyn bach yn y llaw i fyned adref o Salem heddyw.'

“Ond at y mater, sef amser o fewn cylch amser. Peth am beth yw cylch. Ië'n siwr; peth am beth yw cylch; ac ef allai na ddarfu i chwi sylwi erioed ar hyn o'r blaen; ond gwnewch sylwi yn awr; peth am beth yw cylch. Cylch yw amser am amser; ac er mwyn gwneyd i chwi ddeall y mater hwn, chwi wyddoch fod cylchau am lestri coed—am lestri laeth—y mae'r hwpertiaid yn wneuthur; mae cylchau am y fuddai gorddi; oes yn siwr; mae cylchau am y twba a'r styciau, ac oni bai y cylchau, ni safent wrth eu gilydd; y cylchau sydd yn eu cadw wrth eu gilydd. Cylch yw amser. Syrthiai'r haul oni bai bod cylch amser yn ei gadw wrth ei gilydd, fel cylch *wheel*; a phe byddai'r cylch am yr haul yn tori, a chwympo i'r ddaiar, fe'n lladdai bob un o honom. Gwnelai yn siwr, fy mhobl i, fe'n lladdai bob un o honom! Dyna lanasdra fyddai pe byddai i gylch yr haul dori, onid e, fy mhobl i? Yr ydych yn awr yn gweled y mater yn oleu, mi feddyliwn.

“Ni ddylai neb o honoch fod yn falch, canys y mae cylch am danoch yn eich cadw wrth eich gilydd. Cylch amser sydd yn eich cadw wrth eich gilydd, amgen chwi elech yn yfflon fel ystyllod hen dwba. Peid-

iwch bod yn falch, canys y cylch sydd yn eich cadw wrth eich gilydd. Yr wyf yn gweled arwyddion balchder yma heddyw. Beth yw'r *shape* newydd sydd ar y *bonnets* o hyd? Beth yw'r dull newydd sydd ar y clogynau a'r siecedi, a'r cotiau bob dydd? Mae'n arwyddo eich bod wedi myned yn falch yn y cylch. Peidiwch â'n hinsulto ni, meddai y merched ieuainc, ac ereill sydd yn fy ngwrando. Nac ydwyf, nac ydwyf, ferched ieuainc bach, nid am eich insulto'rwyf; nag e, nag e, nag e; goddefwch i mi ddywedyd, canys yr wyf yn ofni eich bod dipyn yn falch, yn ol yr arwyddion a welir arnoch. Yr wyf wedi bod yn teithio ychydig yn ddiweddar; yn teithio yn lled galed, ac yn pregethu yn fynych; ydwyf yn siwr, yr wyf wedi bod yn teithio; ac yr oeddwn yn flin iawn yn fynych ar fy nhaith. Un diwrnod yr oeddwn yn teithio'n galed caled ar gefn fy ngheffyl, ac yn trotian ym mlaen, drot, drot, drot, er mwyn bod mewn pryd yn yr oedfa. Yr oeddwn yn sychedig iawn; oeddwn yn siwr, fy mhobl bach i; ac wrth fyned ym mlaen mi welais dy, a phan ddaethym ar gyfer y ty, a chwedi chodi fy ngolygon fyny, mi welwn *sign*, ac ar y *sign*, '*Good ale sold here.*' Mi droes ben y ceffyl tua'r drws, a disgynais, ac mi roes y ffrwyn wrth y bach; ac mi aethym i mewn, ac a gnocais y ford, ac wedi i wraig y ty ddyfod yno, mi ddywedais wrthi am ddyfod â pheint o'r *good ale* i mi. Daeth ag ef, ac mi a roddais dair ceiniog ar y ford am dano, ac mi a'i codais at fy ngeneu, ac a lyncais lymaid; ond och, ni phrofais erioed y fath drash; na ddo, na ddo erioed, fy mhobl i! Mi ddodais y peint ar y ford, ac mi sefais ar fy nbraed gyferbyn â gwraig y ty, a beth allech chwi feddwl ddywedais i wrthi? Ni feddylwch chwi ddim byth! Rhyw beth darawodd i'm meddwl fel mellten oedd; rhyw air oddi uchod oedd; ac ni

allwch feddwl beth; na ellwch yn siwr. Mi ddywedais wrth wraig y ty tafarn, '*Pull down your sign.* Mae "*good ale sold here*" ar y *sign*; ond y mae fel golchon yn dyfod o'r seler; *pull down the sign, pull down the sign,*' ddywedais wrth wraig y ty tafarn. Ac er hyny, pan welwyf ryw-beth allan o le, '*Pull down the sign,*' ydwyf yn ei ddywedyd wrthyf fy hun; ac mi waeddaf wrthyf chwithau, fy merched bach i, a phawb sydd yma fel chwithau, '*Pull down the sign; pull down the sign.*' Ac os nad â hi yn *pull down the sign* o fewn y cylch, bydd yn *pull down the sign* dan fy nhrydydd pen, sef amser pan fydd amser wedi darford. Yr hyn fydd yn cymmeryd lle yn yr amser pan bydd amser wedi darford, fydd tynu'r *signs* lawr; am hyny, *pull down the signs* yn awr, oll gyda'ch gilydd."

Yr oedd nifer amlaf o'r bobl wedi dotio! Nid oeddynt wedi clywed y fath bethau erioed; ac yn credu mai dyna beth oedd pregethu! Ond yr oedd yno rai yn deall yn well na hyn; eto yr oedd pregeth Wil yn cael ei hystyried gan y nifer amlaf yn bregeth wresog, yn bregeth dan arddeliad, ac yn bregeth â bendith yn cydfyned â hi. Yr oedd gan Wil, y mae'n wir, lais da; yr oedd yn cwafro, ac yn tori uwch ben y bobl, ac yn dra effeithiol; a llais, a chwafers, a 'stwr, yw enaid pregethu poblogaidd, gymmeradwy, a bendithiol y werin Gymreig; ac er pob peth y mae yn parhau fel hyn.

Aeth Wil ar ol y bregeth i dori bara. Yr oedd Mr. Jones o'r Garth yn ben ac yn bont ar Salem. Yr oedd llawer o'r ffermwyr yn ei ddyled, wedi cael benthg arian ganddo: un hanner cant; un ddeugain punt; un ddeg punt ar hugain; y llall ugain punt; ac arall bum punt. Yr oedd hefyd yn *guardian*, ac yn ddyn o bwys yn y plwyf, a llawer iawn ar ei law. Yr oedd y crydd, y teiliwr, y gof, y saer, a'r gweithiwr, â'i fach ef am danynt, ac

yn rhwym o eistedd, neu dynu drwg i'w nythau. Ond gommeddodd amryw dderbyn, er bod llygad Mr. Jones yn fanwl ar eu hol; ac yr oedd golwg lled gymmysglyd ar rai o'r aelodau; ac yr oedd hyn yn arwyddo bod dryghin a 'storom yn magu ym mon y gwynt, yr hon fyddai yn sicr o dori allan yn *hurricane* wedi i bethau addfedu. Yr oeddynt yn edrych yn bwfflyd iawn, ac yr oedd Mr. Jones o'r Garth hefyd yn edrych yn bwfflyd arnynt hwythau.

Yr oedd siarad mawr gan ac ym mhllith y bobl wrth fyned adref o gwrdd Salem.

"Rhyw fusnes afreolaidd iawn yw hon, mi allwn i feddwl," meddai un; a'r llall yn ei ateb yn uniongyrchol,

"Pa afreoleiddiwch sydd ynddi? Onid oes genym ni hawl gyflawn, fel eglwys, i roddi galwad fel y mynom ni, i'r neb a fynom ni?"

"Beth ddywed y gymmanfa am danom?" meddai rhywun arall: "fe'n cymmerir mewn llaw gan y gymmanfa."

"Pwy yw y gymmanfa, atolwg?" meddai lantor saer. "Beth sydd gan y gymmanfa neu unrhyw gyfarfod arall i ymwneuthur â ni? Ac a ydym ni yn gyfrifol i bac o weinidogion, pregethwyr, a Jacks o'n creadigaeth a'n gwneuthuriad ein hunain? Maent hwy, yn ol fy neall gwan i, yn fwy cyfrifol i ni nag ydym ni iddynt hwy."

"Beth am y 'stori gas yma yng nghylch y ferch o'r gweithiau?" meddai Evans y Cwm.

Ond gyda bod y gofyniad o'i eneu, dyma'r teiliwr yn ateb, mai nid dyna'r ferch gyntaf oedd wedi camgyhuddo gweinidog yr Efengyl, a bod Morgans yn gwadu pob math o gydnabyddiaeth â hi, a'i fod yn fwy rhesymol iddynt greu Morgans na chredu estrones na wyddent yn y byd pwy ydoedd, nac o ba le yr oedd wedi dyfod. Rhyw ferwi fel hyn oedd ar hyd y ffordd wrth fyned adref, ac yr oedd teimladau'r gwrag

edd a'r merched yn gyffredinol felly, yn erbyn Wil.

Dysgwyliai Mr. Jones o'r Garth dorffawr i Salem am chwech; ond yn lle hyny, teneu iawn oedd y gynnulleidfa; a phregethu yn fflat iawn wnaeth Wil. Methodd y côr hefyd â chanu, canys yr oedd mwy na'i hanner yn absennol.

"Fe fydd hi yn '*come to book*' ar fageidach am hyn, goeliaf fi," meddai y Jones o'r Garth, wrth fyned adref. "Mi ddodaf fi y screw yn lled dyn arnynt, os nad wyl yn yn camsynied. Codi yn fy erbyn i, ai e! Y spratach digywilydd!"

Yr oedd cwrdd parotoad i fod yn ysgubor Sion y Pant prydawn dydd Gwener; a phrydnawn dydd Iau, dyma Siencyn Troed y Foel yn ymdrwsio, ac yn gwisgo ei ffon, ac yn troi allan ar neges. Aeth heibio i Dai Luke y gof, ac wedi galw ar Dai allan o'r efail, dywedodd wrtho,

"Wel, Dai, ffryndiau yr ydym ni wedi bod; ond y mae yn rhaid i mi gyfaddef i mi gael fy nbwyllo a myned yn rhy bell yn achos Wil. Ac yn awr, Dai Luke, os gwnai di ddyfod gyda mi i'r Farmer's at y ferch syd yno o'r gweithiau, mi wnafyd fodloni am hyny; yr wyf am ei gweled, ac am gael siarad â hi."

"Dof yn ewyllysgar," ebai Dai, "ond y mae yn rhaid i chwi aros ychydig bach, tra byddwyf yn llyfanu y bilwg newydd hwn, canys anfonir am dano cyn y nos."

Wedi i Dai Luke lyfanu'r bilwg, ymdrwsiodd yntau, ac aeth gyda Siencyn tua'r Farmer's, ac yno efe a welodd ac a siaradodd â'r ferch o'r gweithiau, a chafodd yr holl hanes yn gyflawn a gwirioneddol, cydrhwng y ferch, a gwraig y Farmer's, a Dai Luke; ac wedi clywed y cwbl,

"Y mae y cythraul yn Wil," ebai Siencyn.

"Ydyw," ebai Dai, "mae'r diawl ynddo."

Nid rhaid ond rhoi awgrym fechan i ryw nifer o gwartau o gwrw fyned

lawr i'r lôn goch ar yr achos hwn yn y Farmer's; ond chwareu teg i Dai Luke, ni yfodd ddim ar gefn Siencyn, ond mynodd dalu cwart am gwart ag yntau. Yn eu dychweliad yn ol o'r Farmer's, galwasant gyda Mrs. Thomas, y siopwraig, a chawsant gryn siarad, ac adroddodd y widw wrthynt fel yr oedd Wil wedi gwadu na welodd efe y ferch yn y Farmer's, ac na ddywedodd y ferch, na gwraig y ty, na neb arall, ddim gair wrtho am ei neges.

"Mae'r cythraul yn sier yn Wil," ebai Siencyn eto.

"Ydyw, y mae'r diawl ei hun, ac nid un o'i *agents*, ynddo," ebai Dai Luke. Adref yr aeth Siencyn a Dai.

Ymgynnullodd eglwys y 'sgubor yn gryno iawn yn y cwrdd parotoad; a pha rhyfedd? Yr oedd yr *excitements* ar gerdded; yr oedd *stimulants* yn gweithio; ac yr oedd ysgyfarnog newydd yn cael ei hela, a'r cyrn yn cael eu canu yn uchel ar ei hol. Yr oedd Tomos y diacon, fel y gellir meddwl, yr oedd wedi dyfod i'r Pant erbyn ei ginio, ac wedi yfed te yno hefyd, ac fel arfer wedi gwneuthur bola llawn fel pledren wedi ei chwythu, ar gost pobl ereill. Sylwid bod Tomos y diacon yn fwy gwenieithgar nag arferol, ac wedi iddo ddechreu y cwrdd, dywedai,

"Wel, wel, y mae yn dda genyf eich gweled wedi dyfod yng nghyd mor gryno; ac y mae hyn yn rhoi arwyddion sier eich bod yn cael blas ar foddion gras, ac yn benderfynol i'w dilyn, a glynu wrthynt. Da iawn bod tipyn o wres yn ein plith; ac y mae yn dda iawn hefyd nad oes genym ddim yn annymunol i ymdrin ag ef. Yr unig beth o bwys sydd genym yn awr yw, pa fodd i wneuthur y Sabbath nesaf, o blegid bod Morgans wedi gorfod myned i Salem ar gais Mr. Jones o'r Garth ac eglwys Salem, i dori bara. Yr wyf fi yn barnu fod yn rhaid i ni geisio gan un o'r bechgyn ieuainc i dori bara, o blegid y mae genym ni, fel

eglwys, hawl ac awdurdod i wneuthur hyn; ac mi ddywedaf fi wrth un o honynt am weinyddu ar yr achos."

"Ond beth a wneir i'r 'stori fawr sydd ar led ac ar hyd y wlad yng nghylch y ferch ieuanc sydd wedi dyfod ar ol William Morgans? Mae yn 'stori gas iawn."

"Pa beth sydd a fynom ni, Siencyn, â 'stori gelwyddog fel hon? Myned ym mlaen â'r achos yw ein gwaith ni, ac nid rhoi clust a gwrando ar bob 'storiau. Ac mi a'ch cynghorwn chwi, Siencyn, i fusnesan llai; nid ydych chi ddim yn ffit i fusnesan llawer gyda'r achos."

"Tomos, Tomos," atebai Siencyn, "chwi a'm gwelsoch yn ffit i fusnesan rhyw gymmaut yng nghylch yr achos, amgen nis gwnaethoch fi yn ddiagon. Mae'n debyg nad wyf fi yn ffit i ddim ond i lanw boliau bolgwn."

"Mae Siencyn mor ffited a chwithau i fusnesan," ebai Nansi Troed y Foel.

"Wel, wel," ebai Tomos, "mae heddwch yr eglwys yn cael ei dori gan Siencyn."

"Mae Siencyn yn iawn," ebai un.

"Mae Siencyn yn ei le," meddai y llall.

"Rhowch chwareu teg i Siencyn," meddai y trydydd; ac yr oedd yno lawer ym mhlaid Siencyn.

"Yr wyf fi yn gwahardd pob siarad am yr ystori gelwyddog sydd wedi cael ei llunio ar William Morgans."

"Dylid chwilio i mewn iddi. Mae William Morgans wedi ymddyrysu. Mae llythrau William Morgans gan y ferch ei hun. Ac y mae tystion fod William Morgans wedi dywedyd llawer o gelwyddau yn yr achos, ac wedi gwadu llawer o bethau oeddynt yn wirionedd."

"Dim gair ym mhellach yng nghylch y mater," ebai Tomos y diacon, â lleferydd uchel.

"Mae genyf hawl i siarad," ebai Siencyn.

“Nac oes yma, goeliaf fi,” ebai Pali'r Pant; “nid oes genych ddim hawl i siarad yn ysgubor Sion a finnau. Ni bia'r ysgubor, beth bynag.”

“Ond y mae'r ysgubor wedi cael ei rhoddi genych at yr achos,” meddai Siencyn.

“Nid oes neb i gael siarad yma,” meddai Pali, “ond trwy gonsent Tomos y diacon; y mae ef yn ddyrn i'r Arglwydd.”

“A'i fola yw ei dduw,” ebai Siencyn.

“Ewch allan, Siencyn,” ebai Sion y Pant.

“Nac af ddim,” ddywedai Siencyn.

“Yr wyt ti, Mocyn, yn gwnstab,” ebai Sion wrth Morgan y *wheeler*; “tro Siencyn allan o ysgubor Pali a finnau.”

Dyma Mocyn ym mlaen, ac yn doddi ei law ar ysgwydd Siencyn, ac yn dywedyd wrtho,

“Yr wyf, yn enw y Frenines, yn eich ordro chwi, Siencyn, i ddyfod allan o ysgubor Sion a Phali'r Pant.”

“Mi rof i ti Frenines, Mocyn,”

e bai Siencyn; a chyda hyny, estynodd eithaf gic yn ei ffolen.

Dyma'r cwnstab mor gynted ag y gallodd yn ymafydd yng ngholer Siencyn, ac yn galw yn enw y Frenines am help, a thyma rai yn helpu'r cwnstab, a'r lleill yn helpu Siencyn, a Nansi Troed y Foel yn gwaeddi, “Iwb ŵb, murder,” ac yn galw ar y dynion er mwyn — i achub Siencyn rhag cael ei ladd. Cafodd Siencyn afael yng nghanllaw'r pulpud; ac wrth dynu Siencyn yn rhydd, dyma'r pulpud lawr, ac yn cael ei lusgo, efe a Siencyn, i ganol y 'sgubor, yng nghanol y 'stŵr mwyaf, a Phali a Nansi â'u dyrnau wrth ddannedd eu gilydd, ac yn poeri fel cathod!

Wedi i Siencyn gael ei draed dano, gwaeddodd,

“Pawb o honoch sydd yn ymofyn am chwareu teg yn yr eglwys, deuwch allan gyda mi; mae yr hen storws sydd uwch ben y stabal ym mron yn wag; mi a'i taclaf fory; deuwch acw erbyn deg o'r gloch dydd Sul, ac ni wnawn ein hunain yn eglwys, a baw iddynt.”

XX.

MAE yn ammhëus iawn a ydyw Sectwyr yr oes hon yn ystyried rhwygiadau eglwysig, yn eu perthynas â'r hyn a alwant hwy yn eglwysi, yn bechod, canys yr ydym yn cael achos i feddwl yn fynych eu bod yn eu hystyried yn fwy o fendith nag o felltith! Nid oes braidd unrhyw amgylchiad yn cymmeryd lle yn y cynulleidfaoedd sectyddol ag y mae Sectwyr yn ei ystyried yn llai o ddrwg na rhwygiadau, os bydd i un o'r pleidiau sefydlu, ffurfio, a chyfodi achos newydd. Yn unig er mwyn rhyw fath o ymddangosiad i ddyrnion, gwnânt ar ryw achlysuron, ryw fath o sham, a dim yn y byd ond sham, i ddangos eu hanfoddlonrwydd at un o'r pleidiau. Yn ol eu cred hwy, os oes ganddynt hefyd

gred yn y mater, y mae gan bob eglwys hawl i farnu, a hyny yn gwbl yn annibynol ar bob cynulleidfa neu eglwys arall, mewn mater o athrawiaeth neu ddysgyblaeth, yn ol y Gair; a phob person yn y gynulleidfa neu'r eglwys yr un hawl i farnu drosto ei hun, am bob peth sydd yn dwyn perthynas â chrefydd. Ymffrost fawr Sectyddiaeth yw hyn; ond y maent hwy eu hunain yn gosod y fraint hon, fel eu galwant, mewn cadwynau, ac y mae ganddynt gyrddau a elwir cymmanfa, cwrdd cwarter, cwrdd sirol, ac undeb sirol, sydd yn bwrw y dyb hon i gadwynau, hyd oni ryddhëir hi gan flwyddyn y Iubili sectyddol.

Ond er mwyn cynnorthwyo y darllenwyr i ddeall y pwnc mawr, ond

dyryslyd rhyfeddol ag sydd yn unig yn asgwrn cefn Sectyddiaeth, y mae yn angenrheidiol i mi ei osod ger bron y darllenwyr yn fwy goleu yn ei berthynas â'r Sectwyr. Mae A yn eglwys annibynol, a'i hawdurdod ganddi, i farnu a gweithredu yn ol fel y byddo hi yn gweled yn mhob peth. Wel, dyna eglwys y Testament Newydd, fel ei gelwir, ac fel yr ymfrostir ynddi, a'i hawl ynddi ei hun, heb fod "Victoria yn ben iddi, nac archesgob, nac esgob, na phresbyter, na neb arall." Ceir hyn yn cael ei faldardd gan yr holl Sectwyr, yn fawr ac yn fân, a mawr eu hymffrost yn hyn; a gellid meddwl wrth eu iwb a'u ielp fod rhyw wirionedd yn hyn! Ond erbyn edrych i mewn i'r pwnc, nid yw ond twyll a sham hyd y brig. Fel y canlyn y mae ffeithiau wedi ac yn llefaru; bu farw gweinidog cynnull-eidfaol sectyddol, neu eglwys anni-bynol C, a dewiswyd a rhoddwyd y papyrâu a elwid galwad i weinidog i ddyfod yno i gyflenwi ei le. Yn ol y *theory* sectyddol; yn ol yr egwyddor fawr yr ymfrostia Sectwyr ynddi, fel egwyddor eglwysig y Testament Newydd, ni wnaeth eglwys C ond adferyd a gweuthur defnydd o'u hawl gyfreithlawn. Pa beth fu y canlyniad o hyn? Dim ym mhellach na hyn: cyfarfu gweinidogion y sir, neu ryw nifer fawr o honynt yng nghapel S, a diarddelwyd eglwys C allan o'r undeb am ddefnyddio hawl ag mae'r holl bulpudau sectyddol yn cydgorganu eu bod yn ffrainc ac yn hawl eglwysig, sylfaenedig ar y Testament Newydd! Yn awr, yn ol Sectyddiaeth, mae y pwnc yn dyfod i hyn, sef bod y Testament Newydd yn rhoddi hawl i gynnulleidfa i ddewis ei gweinidog, a bod yr un Testament Newydd yn rhoddi hawl i'r peth—yn rhoddi hawl i'r *nondescript* a elwir cymmanfa, cwrdd cwarter, neu undeb sirol, i ddiarddel, bwrw allan, ac esgymmuno yr eglwys a arferu yr hawl hon! Nid peth a

all gymmeryd lle yw hyn, ond peth sydd wedi cymmeryd lle yn barod, yng ngwyneb haul, a llygad goleuni!

Rhwygiadau, neu fel y gelwir hwy yn fwy cyffredin gan y Sectwyr, *splits*, yw cryfder Ymneillduaeth; dyma ffynnonell fawr ei llwyddiant; ac wedi y cwbl, ni fu pwll erioed yn fwy cawdelog na'r pwll hwn o'r eiddynt hwy! Yn achos mater yr eglwys yng Ngh—n, diarddelwyd hi, nid am iddi weithredu yn groes i egwyddor y Testament Newydd, ond am iddi weithredu yn groes i reol y gymmanfa a'r undeb sirol; a'r canlyniad yw, fod y gymmanfa a'r undeb ac egwyddor y Testament Newydd yn groes i'w gilydd, ac yn gwrth-ddwywed y!

Y mae fel hyn: y mae hawl genyt ti, Tomos, i ddewis drosot dy hun, heb fod yn gyfrifol i neb pwy bynag, a dy ddyledswydd di hefyd, Tomos, yw arfer dy hawl yng ngwyneb pob gwrthwynebiadau. Ond gwrando, Tomos, y mae yn rhaid i ti fwrw dy hawl wrth draed, ac i drefniad dy glwb, neu gael dy ddiarddel o hono! Rhyw beth cawdelog fel hyn yw Sectyddiaeth!

Weithiau, ond fel y byddo yr *interest* yw hi braidd yn ddeithriad, cymmer yr undeb blaidd yr eglwys fel y dywedir yn y *split*, a chyhoeddir anathema ar unrhyw weinidog a phregethwr a roddo y gradd lleiaf o gynnorthwyon i'r *split*. Ymgymmer y *split* ar yr egwyddor a ddysgodd Sectyddiaeth iddynt, o weithredu yn ol yr hawl a'r ffrainc ag y mae y Testament Newydd wedi ei roddi iddynt; ffurfiant eu hunain yn eglwys, cadwant gyfarfodydd gweddi a seietau; sefydlant Ysgol Sul, ac ânt ym mlaen yn selog, yn wresog, ac yn ddiwyd gyda phob moddion; a hyn yn gwbl wrth yr egwyddor sectyddol y dywedir ac y bloeddir cymmaint ei bod yn wir egwyddor y Testament Newydd. Ond er hyn, er myned ym mlaen ar ac yn ol yr egwyddor hon, mae ffon y gymmanfa

a'r undeb sirol uwch ben y gweinidog a'r pregethwr a'estyno gymhorth i'r *split* yn barod i syrthio ar y cyfryw, a'u darnio a'u dieneidio yn y man. Ond ym mlaen y mae'r *split* yn myned; cymmerir tir, cesglir yn fisol, a chyfodir arian, a dechreuir adeiladu capel newydd, ac ymdaena y swm ym mhell ac yn agos fod y *split* yn llwyddo, a bod gwawr ryfeddol ar achos y *split*. O ychydig i beth, fe dyr rhyw hen jeckyn drwyddi, ac a bregetha i'r *split*, ac yn uniongyrchol cauir drysau capeli yr undeb yn ei erbyn. Telir y Jack yn dda yng nghil ei ddwrn gan y *split*, ac efe a ymuna â'r *split*; a phan glywo jeckyn arall fod y *split* yn hael yn y degwm cildwrn, tyr yntau hefyd yr ias oer, ac a rydd ei gyhoeddiad i bregethu i'r *split*; ac fel hyn bydd yr achos yn myned ym mlaen yn llewyrchus. Erbyn hyn bydd y colig gwynt ar lawer o'r gweinidogion, a doluriau a gwaew yn eu boliau am bregethu i'r *split*; a chytuna dau o'honynt ar y *terms*: "O cerdd di yng nghynta'i bregethu i'r *split*, ac mi af finnau y Sabbath ar dy ol; ni gawn ein talu yn dda, a baw i'r gymmanfa a'r undeb!" Degwm cildwrn gwerth ei alw yn ddegwm cildwrn i'r ddau *reverend*, nes byddont yn chwerrthin yn eu llwys am y fusnes. Ond beth dâl dilyn y 'stori? yr achos splitaidd yn myned ym mlaen yn llwyddiannus; y capel newydd yn cael ei orphen; wyth neu naw o weinidogion wedi tori bylchau ym mherthffin y gymmanfa a'r undeb, ac yn ei gweinyddu, ac yn ei phregethu nes yr oedd y capel newydd yn adseinio o gongl i gongl ar ddydd ei gyssegriad! Y gymmanfa yn dyfod, y troseddwyr yn cael eu galw o flaen y *bar*, y cyhuddiadau yn cael eu darllen, "*Guilty or not guilty*" yn cael ei ofyn, ond "*God give you a safe delivery*" yn cael ei adael ar ol, canys yr oedd yn eithaf gwybodus bod eu "*safe delivery*" yn ddiogel ei wala! Myned

drwy y mater yn esmwyth ddigon; yr oedd yr achos newydd yn myned ym mlaen yn llewyrchus; derbyn yr eglwys newydd i'r gymmanfa, a ban neu reg ymherodraeth y gymmanfa yn cael ei symmud yn ddefosynol ac yn grefyddol iawn oddi ar y *split*, a'r *split* o hyny allan yn eglwys i Iesu Grist! Gwarchod pob dyn byw rhag y fath ffars grefyddol!

Nid anfynych ym mater y rhwygiadau, na fydd yr undeb sirol yn ei sel dros hawliau crefyddol dynion, yn pleidio y *split*, ac yn traddodi yr eglwys y dadleua gweinidogion yr undeb fod eu hawl ynddi, i satan, am ddefnyddio yr hawl hono, megys ag y gwnaedd â chynnulleidfa barchus Independiaid capel Heol Awst, Caerfyrddin, yng nghyfarfod Salem, ger Llandeilo Fawr! Ym mhob golygiad cywir a gymmerir ar Sectyddiaeth y mae yn benbleth ddyrasedig o'r pen bwygilydd! Mae ganddi hawl a breintiau, ac y mae heb hawl na breintiau! Mae ganddi ryddid, ac y mae yn hollol gaeth! Mae yn gyfundraith wirfoddol; ac y mae pob Sectwr ar ei dderbyniad a'i gyfammodiad, megys yn gwerthu ei enedigaeth fraint, yn seinio ymaith ei holl iawnderau crefyddol, ac yn cymmeryd iau gaethiwus ar ei war, ac yn bloeddio fel gwallgofddyn, "*Voluntary system for ever!*" Dyma dwyll a hoced grefyddol i'r man eithaf! Mae pob Sectwr yn gaethwas i'w gyfundraith; mae ei ryddid fel crefyddwr wedi cael ei gymmeryd oddi wrtho; mewn gair, y mae wedi cymmeryd iau *rhaid* ar ei war mewn credu a gweithredu!

Nid yw rhwygiadau eglwysig ddim yn y byd yng ngholwg Sectwyr; yr hyn sydd amlwg iawn yn y dull esmwyth a thawel y maent yn myned dros eu hanes. Ni fu dim yn fwy cynnil na phan y mae Sectwyr yn myned dros hanesion rhwygiadau; canys yn lle dywedyd y modd y bu yn noeth ac ar ei ben yn onest, ni cheir ond "*Cyfydodd rhyw ymrafael*"

yn yr eglwys; cyfododd rhyw derfysg yn yr eglwys; cyfododd rhyw anghydfod yn yr Eglwys; cyfododd rhyw beth annymunol yn yr Eglwys; mynai rhai personau eu ffordd eu hunain yn yr eglwys; aeth yr eglwys yn ddwy blaid; a methwyd â'u dwyn at eu gilydd, a'u heddychu; a barnasant mai gwell oedd i un blaid ymadael, a myned yn eglwys ar eu penau eu hunain, ac felly y bu; ac ym mhnen rhyw gymmaint o amser, derbyniwyd yr eglwys newydd yn aelod o'r gymmanfa!" Dyma'r iaith; dyma'r ymadrodd, a dyma *phraseology* cyssegredig Sectyddiaeth pan fyddo hi yn adrodd helyntion annuwiol a phechadurus rhwygiadau eglwysig! Cuddio y drwg hwn yw y pwnc; i.e., a gwaeth na hyny, ei wneuthur yn ddaioni, yn lle ei nodi allan fel y drwg mwyaf!

Cyfundraith o ymrwygo di ben draw yw y gyfndraith grefyddol sectyddol, ond bod rhai yn fwy llwyddiannus nag ereill, megys Wil Brydydd y Coed a'i frodyr. Yr oedd Wil erbyn hyn yng nghanol y rhwygiadau; canys deallwyd nos Sul yr oedd efe yn Salem bod y lefain yn y toes, ac na allasai na dylanwad Jones o'r Garth, na dylanwad neb o'i bleidwyr yn Salem, attal y llifeiriant oedd wedi tori allan yn ei redegfa. Yr oedd Wil wedi gwneyd Sectwyr dwy ardal, sef ardal Salem ac ardal ei ewythr, sef yr hen Domos y diacon, yn ferw gwyllt, ac yr oedd y bobl yn debycach i wartheg yn ymloddiad ar y dolau yng ngwres mawr yr haf, nag i ddim arall. Mae y gwartheg, fel y gwyddoch, pan yn ymloddiad ar y gwres, yn chwythu, yn estyn eu tafodau allan, yn gwaro, yn tindafu, a'u cynn dan eu gilydd, ac yn ymddangos fel pe byddent wedi gwallgofi. Ac yn gyffelyb i hyn yr oedd Sectwyr y ddwy ardal a grybwyllwyd, canys ni bu afreolaeth Corah, yn yr anialwch, yn fwy ei stŵr nag afreolaeth y rhai hyn yn eu *splits!* Deallwyd nos Sul yn Salem,

ei bod yn myned yn ddrwg; a phan gyrhaeddodd Wil y Garth, ac wedi eistedd o hono yn y gadair fawr yn y parlwr, deallwyd bod ei feddwl wedi lowro, ac yr oedd y Jones ei hun yn lled wedwst; dim ond pwff ar ol pwff o'r bibell, a llyncu llymaid ar ol llymaid o'r jorwm oedd ar y pentan. Ond wedi i'r Jones lyncu yng nghylch hanner y jorwm ffres, cyfododd ar ei draed, ac wedi ymsythu, a chyfodi ei glos fyny, dywedodd, "Wel, Morgans, y mae hi yn yfflon mân yn y capel; bydd hi yma yn ddwy blaid; ond pe byddai mwy o gythraul ynddynt nag sydd, y mae yn rhaid i ni eu hmyladd, ac os safwch chwi i'r eithaf o'm plaid i, minnau a safaf i'r pen draw o'ch plaid chwithau; rhoddwch eich llaw i mi, Morgans." Estynodd Wil ei bawen yn ewyllysgar i'r Jones, ac ymgyfammodasant eill dau yn y fan i sefyll ym mhlaidd y naill y llall; "Na hidiwch ddim," ebai Jones, "am y lodes o'r gweithiau, hi na'i phlentyn, yr hwn y mae yn fygwth arnoch, canys yr ydym yn ddigon cefnog i'w fagu; a phwy ods i neb os bu tipyn o ledchwithod rhyngoch; o blegid y mae yn rhaid lwo rhyw faint i ddynion ieuainc. Peidiwch â hidio dim yn y byd am hyny; ond sefwch gyda fi, ac mi chwariaf y cythraul â'r rhai sydd yn groes i mi."

Nos Wener oedd y cwrdd parotoad yn ysgubor Sion y Pant, a dywedodd Siencyn wrth y bobl fod arno eisieu help dranoeth i barotoi y storws erbyn y Sul, ac addawodd amryw eu cynnorthwyon iddo. Boreu dydd Sadwrn ddaeth, ac aeth Nansi i'r dref i hela'r Jacks i gynnal yr achos newydd a blodeuog yno. Daeth amryw yng nghyd i Droed y Foel yn ol eu haddewidion; ac ati yr aethpwyd i lanhau yr hen storws, yr hyn nid oedd yn orchwyl hawdd. Dechreuwyd carthu tail y gieir a'r ceiliogod, y rhai a arferent gysgu ar drawstiau'r cyplau; a dechreuwyd ysgubo gwecedd y pryf copyn, y rhai oeddynt yn

rhwydau ac yn llinynau mawr dan yr hen grongrlwyd, wedi hongian yno am ddeng mlynedd ar hugain heb eu disturbo o'r blaen. Cwpwl o geryg yn nhyllau y muriau yma ac acw, a chau rhai o honynt â mortar; golchi, crafu, scwrio, hoelio hen ystyllod i wneuthur pulpud; crynoi hen grystau pydrion, a gosod traed ynddynt i fod yn feinciau, ac yn y diwedd, gwyn-galchu yr hen storws er mwyn ei gwneuthur yn barod erbyn dranoeth; ac felly gorphenwyd gorchwyl y dydd.

Daeth dau Jack adref gyda Nansi i Droed y Foel, eithr ni ddaeth ond un gyda Pali i'r Pant; canys ni ymofynodd am ychwaneg, er bod digon i'w cael. Yr oedd Pali wedi clywed bod rhyw weinidog ar y ffordd yn bwriadu treulio y Sul gyda hwy yn y 'sgubor, ac ni ymofynodd ond am un Jack. Bu y gweinidog hwn ryw fodd neu gilydd yn anffortunus iawn. "Daeth i'r Farmer's nos Sadwrn yn faw ac yn llaid o'i ben i'w draed; ac wedi cael ei glwyfo, a gwaed lawer ar ei wyneb; mewn gair yr oedd yn feddw, a digon wedi ei weled. Buwyd yn syberwi goreu y gallesid arno yn y Farmer's, ac efe a aeth i'r gwely. Ni chyfododd o'r gwely drwy gydol y dydd Sul dranoeth, hyd yn min yr hwyr; canys pan welodd gysgodau yr hwyr yn ymestyn, cododd o'i wâl; ac wedi gwisgo, a dyfod lawr o'r llofft, aeth adref yng ngwyl y nos, a'i gynffon rhwng ei ddwy droed ol, fel ci wedi gwneuthur llamanddrwg mwy na chyffredin!" Dyna'r hanes gwirioneddol; ond hawyr anwyl, dyma Sion a Phali'r Pant yn cymmeryd ei achos mewn llaw, yn gwadu ei feddwod yn nannedd clywed a gweled dynion; yn gwaeddi "Celwydd, celwydd;" yn haeru ac yn gwadu, nes yr oedd yn arswydus eu clywed; ac yn y pen draw, yn ei wyngalchu nes yr oedd mor ddu a'r *black!* Gwadu pob peth yw y *go* yn bresennol, ac yna, nid yn unig y mae y drwg yn

cael ei guddio, ond ei ddifodi yn hollol er gwaethaf y byd annuwiol!

Nid llawer o bobl ddaeth yng nghyd dranoeth am ddeg i storws Troed y Foel; ond aed trwy y Gwasanaeth, eithr yn lled dolciog. Dechreuodd un Jack y Gwasanaeth, ac yr oedd ganddo rai ymadroddion rhyfedd yn ei weddi! Yr oedd yn eofn iawn ar ei Greawdwr, ac yn anystyriol iawn o'r gorchwyl oedd ganddo mewn llaw. Awgrymai at ddydd eu dadymchweliad mawr gan angeu, ond yr oedd ei ffydd gymmaint a mynydd Libanus, canys dywedai,

"Ni waeth i ni pa bryd, Arglwydd, y byddi yn galw am danom; yr ydym ni ym mron â dyfod atat, ac ni fyddwn gyda Ti *just* yn union yn canu'r delyn aur!"

Saethai hefyd yn ei weddi at eglwys ysgubor Sion y Pant, a dywedai fel y canlyn:—

"Mae llawer Pharaoh calon galed am ein bywydau; a llawer Nebuchodonosor creulawn am ein llosgi; a llawer Iwdas fradwrus am gael ein penau i lawr; ond *never mind*, yr wyt Ti gyda ni!"

Yr oedd y Jack hwn ar weddi yn hela am hwyl, ac yn gwneuthur ei oreu i godi'r *steam*, ond yn ofer, canys yr oedd mor sych ac mor gras a cheirch wedi bod naw gwaith ar yr un odyn. Ar ol y weddi, neu yn hytrach ar ol yr hyn a basiodd yn lle gweddi, dyma'r Jack arall yn cyfodi ar ei draed, ac wedi pesychu yn lled gyssegredig dair gwaith neu bedair, i'r dyben o glirio ei bibelli, rhoes air allan i'w ganu, sef yr hyunn lithrig ganlynol ar rinweddau y Beibl:—

"Y Beibl yw llyfr y llyfrgellau,

Yn hwn y mae doniau Tri'n un;

Mae f'enaid yn hoff o'i swm tri-phlyg,

Na chlywir ei debyg mewn dyn," &c.

Rhoes Siencyn ei law ar ei glust a'i gern fel arferol, ac yn beichad i daro'r diwn: ond cyn cael y diwn, yr oedd wedi ei cholli, ac aeth y canu i'r llawr yn y fan. Yr oedd

Siencyn wedi gosod ei Feibl mawr dwyieithog ar y pulpud; ond dygwyddodd i'r Jack edrych ar y golofn Seisoneg; ac wedi troi rhyw gynnifer o'r dail, ac yn cadw ei lygad yr un modd ar y golofn Seisoneg, gofynodd,

"A oes gyda chwi ddim Beibl Cymraeg?"

"Mae hwna yn Feibl Cymraeg a Seisoneg," atebai Siencyn.

Ond yr oedd y Jack yn methu yn lân â chael gafael yn y golofn Gymraeg, a bu gorfod ar Siencyn fyned i'r celyn pulpud, a'i ddangos iddo drwy osod ei fys arni. Testyn y Jack oedd, "Canys os ein daiarol dy o'r babell hon a ddattodir;" a'i sylw blaenaf oedd, "Mai os o gadarnhâd oedd yr os hwn, a bod llawer os yn y Beibl yn os o gadarnhâd."

Treuliodd hanner ei bregeth, neu yn hytrach hanner ei fregod, i brofi fod dyn i farw! Yr oedd ganddo o ddeg i bymtheg o resymau i brofi fod dynion i farw; ac wedi myned dros y profion, aeth ym mlaen yn ddysgedig iawn i ddarlunio angeu fel hen deiliwr fyddai yn wastad yn methu gwneuthur dilledyn newydd, ond yn dattod hen ddillad fel hen reffynau, ac yn eu tafu i'r pridd i bydru. Crybwyllodd hefyd am y gwahaniaeth oedd rhwng merched ieuainc yn dattod ac Angeu pan fyddai yn ymafyd yn yr un gorchwyl. "Bod y merched ieuainc, yn neillduol y gwniadyddesau, â'u dwylaw a'u bysedd tegaid, yn handlo eu capau, a'u frills, a'u pethau yn esmwyth, rhag i ddim gael ei rwygo. Eu bod â'u cyllyll a'u sisiwrnau meinion yn panso i beidio â spwylo dim, ond yn dattod. Ond am Angeu, ei fod, nid yn unig yn hen ddattodwr, ond yn hen rwygwr hefyd, canys os na buasai yr hen wniadau yn dattod yn rhwydd, ei fod yn rhwygo y cwbl rhag ei flaen—y lliain, y camrig, a'r muslin, y brethyn, y rib, y calico, y sidan, yng nghyd â phob peth arall." Aeth i ddifrio Angeu yn enbyd fel dattodwr a rwygwr.

"Yr hen rwygwr melyn," meddai, "mae yn dattod pebyll dynion nes yw lwrdd fel cymylau yn codi oddi wrthynt."

Gwaeddai fel ellyll, ond yr oedd ei lais yn oerllyd, a bu rhyw eneth mewn hanner ffit, wedi dychrynu wrth ei oernadau; a chan ei bod yn anhyddysg yn y Gymraeg, ymhweddai ar y bobl, "Take me out, take me out, as I am afraid of the Jack!" *No go yn yr oedfa foreuol!*

Yn yr hwyr, yr oedd yr hen storws yn rhwydd lawn, pryd y pregethodd y Jack fu yn dechreu yr oedfa foreuol; ac wrth yr olwg dordyn, chwyddedig oedd arno, gall'esid meddwl ei fod yn bwriadu gwneuthur gwaith campus. Ei destyn oedd asynod Iob: "A'r asynod yn pori ger llaw iddynt."

"Ychain ac asynod," meddai y Jack, "dyma boints mawr fy nhext. *Emblems* o bethau ysbrydol; ychain ac asynod, 'a'r asynod yn pori ger llaw iddynt.' *Emblems* ydynt; mae yr ychain yn *emblem* o'r eglwys, neu yn ol y Seisoneg yn *emblem* o'r *shurch*, a'r asynod yn *emblem* o'r byd annuwiol, neu yn ol y Seisoneg, yn *emblem of this wicked world*. Mae'r ych yn greadur glân, a gellir ei fwyta; ac y mae yn *emblem* priodol o'r eglwys; ond y mae yr asyn yn greadur aflan, ac felly yn *emblem* o'r byd annuwiol. Trwy *emblems* y mae y Gair yn dysgu dynion, a thrwy *emblems* yr wyf finnau yn eich dysgu. Ger llaw yr ychain yr oedd yr asynod yn pori; ie, ger llaw yr ychain yr oedd yr asynod yn pori. Nid oedd-ynt yn pori yn yr un cae a'r un maes a'r ychain; nac oedd-ynt yn siwr, ond yr oedd yr asynod yn pori ger llaw iddynt. Ger llaw iddynt; ie'n siwr, ger llaw iddynt, ac nid gyda hwynt. Craffwch chwi, fy mhobl, ger llaw iddynt. Yr wyf am fod dipyn yn fanwl, canys wrth fod yn fanwl fel hyn y mae dyfod â chwi i gynnyddu mewn gwybodaeth. Ychain ac asynod; yr eglwys a'r byd.

A chraffwch hefyd, 'A'r asynod oedd yn pori ger llaw iddynt.' Mae oedd yn y *past tense*, ac y mae y dysgedigion yn dywedyd am y gair Hebraeg *est*, mae *is* ydyw yn y Seisoneg, ac y mae *is* yn y *present tense*. Tri thense sydd, meddai y dysgedigion, sef y *past tense*, y *present tense*, a'r *future tense*; nid yw *is* yn y *past tense*, canys pe buasai felly, fel hyn y dywedasad, 'And the asses *is* feeding beside them;' ond yn lle *is*, fel hyn y dywedir, 'And the asses feeding.' Nid yw *is* hefyd yn y *future tense*; a chan nad yw *is* nac yn y *past* na'r *future tense*, mae yn rhaid ei fod yn y *present tense*. Dyna y pwnc yna wedi cael ei brofi."

Aeth y Jack ym mlaen yn rhyfeddol o ddsygedig, ond ryw fodd neu gilydd yn fyr o ddyllanwad Wil ar y bobl, er ei fod yn gwneuthur ei oreu i godi'r *steam*, er mwyn cael galwad i fugeilio eglwys newydd y 'storws yn Nhroed y Foel. Yr oedd y Jack yn bustulad yn ofnadwy am hwyl; pwt fan hyn, proc fan draw, ergyd ar y llwyn hwn, a chareg i'r berth acw; ond dim helpa. O'r diwedd, pan oedd y Jack ym mron ag anobeithio, gwnaeth y sylw canlynol:—

"Mae'r asynod yn pori ger llaw'r ychain, ond nid yn yr un cae a'r ychain. Nid oes dim diolch yng nghae'r asynod, nac oes, nac oes; nid oes dim diolch yn y byd annuwiol. Mi synais yn anghyffredin pwy ddiwrnod wrth weled y ceiliog yn yfed dwr o ffiol. Dodai ei big yn y ffiol â'r dwr, ac yna efe a godai ei ben i lyncu'r dyferyn, ac i ddiolch. Gosodai ei big drachefn yn y ffiol â'r dwr, a chodai ei ben i lyncu'r dyferyn, ac i ddiolch am dano. Fel hyn yr oedd y ceiliog yn gwneuthur, ac wedi iddo yfed digon o ddwr o'r ffiol, dyma fe yn estyn ei adenydd oddi wrth ei gorfilyn, ac wedi eu clatsian yn ol wrth ei ochrau, dyma fe yn diolch ei goco go go mor rhyfedd a dim a glywais erioed."

Yr oedd ffowls Troed y Foel yn arfer cysgu yn yr hen 'storws, ac o ddiffyg bod yn ddigon gofalus i'w bugeilio hwyr y Sul hwnw, aeth cwplach o honynt i mewn iddi i ymglwydo, a chymmerasant eu gwelyau yn rhes ar drawst y cwpwl, a'r hen geiliog yn y canol; a chan fod yr hen 'storws mor dywell, nid oedd fawr neb wedi cymmyrd sylw o honynt. Ond wrth swm 'sgrech-feydd irad y Jack, dihunodd y gieir, a dechreusant anesmwytho, ac yn eu hanesmwythder, ar derfyn y dysgrifiad o'r ceiliog yn canu i ddiolch am y dwr, dyma hen geiliog tagelloch coch y domen Troed y Foel, nad oedd gwell cantwr nag ef trwy'r gwledydd, yn rhoi ei *voice* allan uwch eu penau, hyd nes yr oedd hyny o le yn adsain! Yn siwr, yr oedd yr ychain, *emblem* yr eglwys, yn ymdrechu ymddangos yn weddol syml ar yr achlysur; ond am yr asynod gwrywaidd a'r *she asses*, *emblem* y byd annuwiol, dyma hi allan yn chwerthin mawr cydrhyngddynt, heb fodd i'w attal; ac yng nghanol y chwerthin, dyma'r gieir a'r hen geiliog lawr o'r trawst ar benau y bobl, yn y 'stŵr fwyaf, a'r ddwy ganwyll yn cael eu diffodd, a'r plant yn 'sgrechchain mor ofnadwy gan eu hofnau, a phe buasai holl fwcïod y deyrnas wedi dyfod i'r 'storws!

Dybenwyd y cwrdd, ac ni wnaed na chanu na dim, ond yn unig i Siencyn rybuddio y brodyr a'r chwiorodd i ddyfod yng nghyd i'r 'storws nos Fercher i drefnu pethau.

Mewn perthynas i fusnes eglwys 'sgubor Sion y Pant y Sul, y mae yn barod yn hysbys i'r darllenwyr—i'r gweinidog oedd yn bwriadu dyfod yno i gadarnhau y frawdoliaeth a'r chwaeroliaeth yn y ffydd, i feddwi prydawn dydd Sadwrn ar ei daith; ac iddo gysgu yn y Farmer's, a bod drwy gydol y Sul yno yn ei wely; ac felly gadawyd busnes bregethwraidd y 'sgubor yn gwbl i'r unig Jack ddaeth gyda Pali o'r dref nos

Sadwrn. Teneu, teneu oedd y gynulleidfa yn y 'sgubor boreu dydd Sul, a hyny o blegid yr ymranid oedd wedi cymmeryd lle yn yr eglwys. Gweddiodd y Jack lawer iawn dros Wil, fel gwas yr Arglwydd oedd yng nghanol profedigaethau mawrion—bod y 'stormydd yn curo yn ofnadwy arno; ond dymunai ar fod iddo gael nerth yn ol y dydd, i'w feddwl gael ei ddal fyny yng ngwyneb ei dywydd garw; ac ar fod iddo gael llawer o bresenoldeb y nefoedd yn y ffwrnes danllyd; ar fod i'r goleuni dori allan o'r cymylau ar ei enaid yn fuan, fel ag y byddai iddo fyned ym milaen yn fwy llewyrchus a llwyddiannus yn ei weinidogaeth nag erioed.

Yr oedd yr hen Domos y diacon, a Sion y Pant, a dau neu dri o'r brodyr, yn agor eu penau o glust i glust, ac yn 'sgrechain eu hamenau nes yr oedd eu swn dyeithriol yn ddigon i ddychrynu ellyllon annwn ei hunan. A Pali'r Pant, hawyr anwyl, pan oedd y Jack yn gweddio dros Wil yn ei dywydd, yr oedd ei gwyneb yn wlyb drosto, fel pe buasai twbaid o ddwr wedi cael ei chwistrellu arno, a'i llygaid mor goched a llygaid 'sgadan wythnos oed.

Swm pregeth y Jack oedd tywydd garw gweision yr Arglwydd, gan gyfeirio yn neillduol at Wil, yng ngwyneb ymosodiadau presennol y gelyn diafol arno.

Gwedi yr oedfa, dywedodd Tómos y diacon fod cyfeillach ar ol, ac am i'r brodyr beidio myned allan; ac ar ol i wŷr y byd fyned allan, dyma y diacon yn agor ei foch, ac yn llefaru rhywbeth fel y canlyn:—

“Wel, wel, y mae wedi myned yn amser rhyfedd iawn! Y mae dynion yn ddrwg iawn, i.e., y dynion y galleid dysgwyl pethau amgen oddi wrthynt. Ond pa ryfedd? Y mae'r apostol wedi dywedyd am dertysgwyr, mai rhai fel hyn ydynt; yn cyfodi cynhenau ac ymrisonau, ac yn ymbleidio, ac yn ymrwgo, gan wneuthur

y niweidiau mwyaŷ i grefydd. Ond,” meddai gwas y pechod, “y mae yn rhaid i ni ymwroli ac ymnerthu; canys 'storom yw hon sydd yn dyfod arnom i'n profi, trwy ein cyfodi i'r gwynt, ac yr ydym wedi gweled yr us yn myned gyda'r gwynt, ond diolch byth, y mae y gwenith pur wedi aros ar y llawr dyrnu. Bydded i ni gymmeryd calon, canys ni ddeuwn i fyny eto; o blegid y mae'r Arglwydd gyda ni.”

Fel hyn y dywedai yr hen Dwm; ac fel y gall y darllenwyr farnu oddi wrth ei gymmeriad cyffredinol, y mae yn rhaid bod ei galon mor galed a chraig o adamant.

Aeth y Sul hwn heibio ar eglwys 'sgubor y Pant yn lled sychlyd, ond fel yr oedd yr hen Domos, a Sion, a Phali, a'r ychydig ereill, yn treio gwneuthur hwyl.

Meddyliodd Wil mai gwell oedd iddo fyned yn glaf yn y Garth, ac yn ei glefyd i fyned yn brudd ac yn wedwst; a bod mewn rhyw fath o iselder ysbryd, ac y buasai hyny yn creu teimlad yn ei blaid yn ei gyflwr presennol; a dydd Llun efe a aeth yn lled achwyngar. Nid oedd Mr. Jones o'r Garth yn credu dim yn nolur Wil, ond efe a'i gwelodd yn fanteisiol; a phrydnawn dydd Llun efe a aeth i siop y gof, ac a ddywedai yno yng nghanol rhyw siarad, fod Morgans yn lled ddrygaidd. Dywedodd yr un peth yn nhy'r crydd, ac wrth dŵr o hen wragedd y pentref, y rhai oeddynt yn gwau 'sanau ac yn adrodd clecs; ac yna efe a aeth i'r Red Lion i ymfyn cwart, ac i adrodd yr un 'stori, sef bod Morgans yn lled achwyngar. Dydd Mawrth, yn lle bod yn well, yr oedd Wil yn hytrach yn waeth; a phrydnawn y dydd hwn, gan nad gwiw anfon i'r dref am feddyg rheolaidd, am y buasai hwnw yn gwybod mai *sham* oedd y cwbl, penderfynwyd anfon ei ddwr dranoeth at gwac oedd yn byw yng nghylch pedair milltir oddi yno, o'r enw Ianto'r Gwēydd. Yr oedd

hen glecen yn byw yn yr ardal o'r enw Sioned y Glap, ac anfonwyd o'r Garth yn hwyr dydd Mawrth, am iddi ddyfod yno boreu dranoeth i fyned i neges dros Mr. Jones. Yr oedd Sioned â doniau siarad rhyfeddol ganddi—yn ddywedyd o'i phen i'w thraed, ac yn fusnes bob cymmal o honi, ac yn fenyw lled fawr yn y Garth, ac yn myned yno o leiaf ddwy waith, ac ar achlysuron trymion, tair gwaith yr wythnos, i arllwys ei chydau. Boreu dydd Mercher, dyma Sioned, wedi gwisgo'r bais goch a'r pastwn, yn ympirio *in propria persona* yn y Garth; ac wedi adrodd y fusnes wrthi, rhoddwyd dwr Wil mewn potel iddi i fyned at Ianto'r cwac iddo ei ddarllen; ac wedi brecwasta o Sioned, ymaith â hi â dwr Wil yn ei phoced. Ymaith â Sioned, ac er y gallasai yn hawdd gyrhaeddyd ty Ianto'r cwac mewn awr a hanner, bu dair awr ar ei thaith, a pha ryfedd? Yr oedd yn aros gyda phob dyn a gyfarfyddai, ac wrth bob drws yr elai heibio iddo, i glecen, ac ar yr un pryd dywedai ei bod yn y brys mwyaf. O'r diwedd cyrhaeddodd dy'r cwac, ac yr oedd Ianto gartref yn y gwydd, ac yn tafu'r wnnol o un ochr i'r llall yn ddiwyd.

Yr oedd Ianto a Sioned yn hen gydnabyddiaeth; a phan aeth i mewn i'r ty, yr oedd Ianto a'i wraig yn serchus dros ben iddi; a gosodwyd hi i eistedd yn yr hen 'stól gefn dan fantell y simnai, yn y gongl wrth y tân.

Yr oedd Ianto â llawer o synwyr a chyfrwysdra ynddo, ond ei fod yn gnaf, ac yn byw mewn rhan ar ei gnafeidd-dra. Gwyddai o'r goreu mai dwr rhyw un neu gilydd oedd gan Sioned; a gwyddai cystal a hyny, ond iddo roddi ei hamser, a digon o raff i Sioned, y gwnaethai efe y tro o'r goreu.

“Wel, Sioned, o ba le y daethoch chi heddyw,” ofynai Ianto iddi.

“Mi ddaethym o gartref,” atebai

Sioned; “hyny yw, anfonasant neith-iwr o'r Garth, i geisio genyf ddyfod yno y boreu hwn, i fyned dipyn o neges drostynt. Mae genyf ddwr i chwi i'w ddarllen.”

“Pa sut y mae teulu y Garth?” ofynai'r cwac. “Dodwch y dwr ar shamp y ffenest i setlo.”

“Y maent yn wych iawn yno yn eu hiechyd,” atebai Sioned.

“Hi fu dipyn yn gynhyrfus tua Salem y Sul diweddaf,” meddai y cwac, “oni bu, Sioned? Ym mha le y mae Morgans yr wythnos hon?”

“Y mae wedi aros yn y Garth y diwrnodau hyn,” atebai Sioned; “nid yw yn gwbl iach; ond nid dwr Morgans sydd yn y botel.”

“Ni waeth genyf fi yn y byd dwr pwy ydyw,” ddywedai Ianto.

Wedi olrhain, ac wedi siarad wmbredd, dyma'r cwac yn cymmeryd y botel â'r dwr oddi ar shamp y ffenestr, ac yn ei dal rhyngddo a'r goleuni; yn ei thro; yn edrych drachefn arni; a bu yn hir iawn yn ei thrafod, heb ddywedyd cymmaint ag un gair.

“Nid yw o un dyben i ofyn dim i chwi am berchenog y dwr hwn, Sioned; canys ni wrantaf na ddy wedwch ddim wrthyf,” meddai Ianto.

“Dim un gair,” atebai Sioned, “canys mi gefais ddigon o siars i fod yn ddystaw, ac i adael rhyngoch chi a'r dwr.”

“Ni wn i ddim yn iawn pa beth i ddywedyd am y dwr hwn, Sioned,” meddai Ianto; “y dwr rhyfeddaf yw ag yr edrychais erioed arno. Mae yn ddwr dyn ieuanc, heb fod yn gyffelyb i ddynion ieuainc yn gyffredin. Mae perchen y dwr hwn yn gweithio yn galed iawn; y mae arno lafur mawr iawn; y mae wedi gwneuthur cam ag ef ei hun; ond nid yw ei gorff yn ddrwg eto; nid oes dim yn ei stushion; ond fe all fyned yn ddeclein arno, eithr mi wnaf fi rwystro hyny trwy roddi moddion iddo. Mae arno braidd waeth clefyd na chlefyd y corff, sef clefyd y meddwl, ac y mae gradd

mawr o iselder ysbryd arno; y mae prudd-derwedi cymmyrd gafael arno; tipyn o ddot ar droion yn ei ben; a'i anadl weithiau yn mron stopio."

"Yr ydych yn dywedyd i'r dim fel y mae," meddai Sioned, "a gwnewch eich goreu iddo; mae genyf ddigon o arian i dalu."

"Nid wyf wedi darllen y dwr i gyd eto," ebai Ianto'r cwac, "ac y mae yn rhaid iddo gael setlo unwaith yn ychwaneg." Ac efe a'i dododd heibio.

Hi aeth yn siarad mawr ac yn siarad bach drachefn rhwng y cwac a Sioned; ac fe gafodd hanes gwlad a gorwlad ganddi; hanes Davies Salem, ei briodi, a'r modd y bwriwyd ef ymaith; sefydliad Wil yn Salem; y terfysg; y ferch o'r Gweithiau.

"A rhyngoch chwi a minnau," ebai Sioned, "y mae Morgans yn dost iawn yn y Garth."

Ym mhen ennyd cymmerodd Ianto ddwr Wil drachefn i edrych arno, ac ym mhen ychydig dywedodd,

"Oh ho, y mae y dwr hwn yn awr wedi dyfod yn glir ac yn amlwg i mi. Mae rhywfaint yn ormod o ddwr ar ei ymenydd; y mae rhyw gymmaint o inflammasiwn yn ei gorn chwyth; mae ei gefenedyn yn gwaethygu yn ei ben isaf wrth fflapan yn erbyn y boten ludw; mae wllf yn magu yn ei 'stumog; ac y mae gwynt, beth enbyd, wedi crynoi yn y coluddyn mawr; ac y mae ei *nerves* wedi estyn gormod; y mae mewn ffordd ddrwg."

"Wel, wel, pa beth sydd i'w wneuthur?" meddai Sioned.

"O," ebai'r cwac, "moddion, moddion; y mae yn rhaid i chwi wrth fyned adref i droi i'r siop, a phrynu hyn a hyn o *senna*, a hyn a hyn o *fanna*, a hyn a hyn o *salts*; a'u berwi yng nghyd mewn cwart o ddwr, ac wedi eu streinio, dodwch ef mewn potel, a chymmysgwch y pow-

dwr hwn ag ef yn y botel; a rhoddwch dair lloned llwy fawr iddo bob dwy awr, nes y byddo yn gweithio; ac wedi i'r moddion weithio, dyma ddrops i chwi; a chymmered bum dropyn ar hugain dair gwaith y dydd mewn te agrimony; a dywedwch mai cawl fflowlyn, a thipyn o facwn yw y bwyd goreu iddo; a deuwch â'i ddwr yma ym mhen yr wythnos."

"Pa faint sydd i'w dalu i chwi?" gofynai Sioned.

"Pedwar swllt a chwe cheiniog," atebai Ianto, "rhwng darllen y dwr, a'r powdwr, a'r drops."

Trodd Sioned tuag adref, a phrynodd y *senna*, a'r *manna*, a'r *salts*; ac wedi myned i'r Garth, berwyd hwynt, a streiniwyd hwynt, a chymmysgwyd y powdwr a'r gwlybwr yn y botel, a dechreuwyd llwyeidio y physig i Wil, a rhoddwyd Sioned i dendio arno trwy'r nos. Tua thri o'r gloch y boreu, dechreuodd Wil â rhwmbwlian o'r tu mewn; erbyn pedwar, yr oedd wedi myned yn bwrijin; a chyn pump, yr oedd wedi myned yn uchel gynffon buwch ar Wil.

Gwyddai Jones o'r goreu nad ydoedd unrhyw afiechyd ar Wil; ond yr oedd yn cefnogi ei salwch er mwyn ateb dybenion. Gwyddai mai cythraul oedd Wil; ond gwyddai hefyd mai cythraul oedd efe ei hun, ac nad oedd dim yn ei olwg ond cynnal ei fawredd fel Jones o'r Garth, ac fel prif lordyn Salem, i lywodraethu ar y gweinidog a'r bobl, a bod Wil yn offeryn pwrpasol yn ei law at hyn. Yr oedd yn anser dyeithr yn y Garth pan gyfododd physig Ianto'r cwac yn *hurricane* mawr ym mol Wil; ac er pan y mae byd yn fyd, ni bu y fath drotian. A chwareu teg i Wil, yr oedd yn wir dost dan ei physig. Dydd y *movements* ar Wil, daeth *policeman* o'r Gweithiau â rhyw notis iddo yng nghylch y ferch.

XXI.

Yr oedd Wil ym mhob ystyr yn wir Jack; yr oedd yn ddyrgionus i'r eithaf, ac yr oedd mor gelwyddog fel na ellid credu braidd un gair a ddywedai; ac er iddo ddywedyd rhyw gelwydd, efe a'i gwadai gyda thalcen o bres, ac a'i tafiai ar gefn rhywun arall. Yr oedd Wil yn dwyn holl nodweddiadau Jack; yr oedd yn seren wibiog o dy i dy, ac o ardal i ardal; ac ym mha le bynag y clywai fod cyfeillion caredig i'r achos, a'u bod yn derbyn yr arch, yr oedd Wil yn sicr o wahôdd ei hun yno, a gwneuthur ei hun yn lloned y ty, yn neillduol felly ym mhlith anwybodusion. Siaradai Wil lawer iawn mewn tai fel hyn; ond nid yng nghylch dim a fyddai o les, eithr am y newyddion fyddai ar gerdded yn dwyn perthynas â'r achos. Yr oedd bob amser yn iselhau cymmeriadau gweinidogion a phregethwyr teilwng; ac os byddai rhyw fan go dywyll arnynt, yr oedd yn sicr o nodi hwnw allan; ac os byddai crachen fechan ar rywun, yr oedd ewin Wil yn sicr o fod dani i'w gwaedu. Iselhau pawb oedd yn ei fryd, a dyrchafu ei hun, a gwnaeth ei dafod celwyddog lawer iawn o ofid o bryd i bryd i ddyinion da a theilwng. Soniai lawer am dano ei hun; y fath lwyddiant oedd yn ei ddilyn; mor boblogaidd oedd; mor gymmeradwy oedd; y fath barch a roddid iddo; a'r eglwysi niferog a wrthodai, rhag gwneuthur terfysg. *Climax* Wil i ddyrchafu ei hun, ac i ddangos ei fod yn wrthddrych o sylw mawr, oedd dywedyd iddo gael cynnygion i fod yn offeiriad; ac aeth mor bell yn y celwydd hwn, fel y dywedai ar hyd y tai, ac wrth ddyinion ffliion, fod esgobion wedi anfon ato—y gwnaent ef yn offeiriad! Y mae y celwydd hwn yn gyffredin yng ngeneuau pregethwyr a gweinidogion hunanol; canys y maent yn meddwl eu bod yn gwneuthur eu hunain yn

fawr wrth ei farchogaeth. Dywedai Wil ei fod wedi cael llawer cynnyg ar yr offeiriadaeth; ond dirgelwch y pwnc hwn yn ei berthynas â Wil, ac â'r holl Wilod yw, pa fodd y mae yr esgobion wedi dyfod i wybod am danynt, ac am eu gwerth, fel ag i gynnyg gweinidogaeth yn yr Eglwys iddynt? Yr epaod anwybodus! Ac y mae y bobl sydd yn eu credu gymmaint o epaod a hwythau!

“Mi gefais i gynnyg i fyn'd yn 'ffeirad; mi gefais i ddigon o gymhelliadau i fyn'd yn 'ffeirad; mi allwn i gael myn'd yn 'ffeirad y pryd y mynwn, i'e, cyn nos y fory tawn i'n leicio!”

Dyma yr hyn sydd yn cael ei faldorrd yn feunyddiol gan Jackach, pregethwyr, a gweinidogion hunanol, er mwyn gwneuthur eu hunain yn fawr yng ngolwg anwybodusion! Mi glywais un gweinidog ymneillduedig parchus, â chryn enw iddo, fwyddyn neu ddwy yn ol, yn dywedyd fel y canlyn:—

“Wel, wel, mawr fel y mae'r esgobion a'r offeiriad yn clywed am ddefnyddioldeb y Jacks, a llawer o'n gweinidogion; a dyma finnau, *poor fellow*, yn bregethwr y cymmanfa-oedd, a thipyn o enw i mi trwy Gymru; ond grogi esgob na pherson sydd wedi clywed na gwybod dim am fyngwerth, i gynnyg fy ngwneuthur yn offeiriad! Och fi, peidiwch â'u credu; canys celwydd yr pob gair y maent yn ddywedyd, er mwyn porthi eu hunain, a gwneuthur eu hunain yn fawr, debygent hwy, yng ngolwg ffyliaid.”

Mae pregethu Wil a'r Jacks, a dywedyd mor ysgafn ag y gellir am dano, wedi ac yn gwneuthur niwed mawr i grefydd ar hyd a lled y wlad; sef i'r grefydd hōno a ddysgir gan ein Harglwydd Iesu Grist a'i apostolion. Mewn gair, y mae nifer mawr o'r pregethau presennol yn

cefnogi pechod, yn lle ei ddangos yn ei natur aflan, er mwyn i'r bobl i'w ochelyd. Fel y canlyn y mae rhai o ddywediadau Wil:—

“Mae rhai o'r saint, mae rhai o bobl yr Arglwydd, mae rhai o'r etholedigion yn syrthio; oes, oes, mae rhai o'r etholedigion yn syrthio. Ond, fy mhobl i, maent yn cwmpo, nid yn ol, ond ym mlaen, a'u gwynebau tua'r bywyd. Dyma fel y mae'r etholedigion yn cwmpo; nid cwmpo yn ol, ond cwmpo ym mlaen; i.e., cwmpo ym mlaen maent hwy; ac y maent yn ennill tir wrth gwmpo. Cwmpodd Noah, ond fe gwmpodd â'i ben ym mlaen; cwmpodd Dafydd, ond fe gwmpodd â'i ben ym mlaen; a chyn codi, dywedai, 'Eithr cyfammod tragwyddol a wnaeth Efe â mi!' Ac,” meddai Wil, “*never mind* ambell gwmp, ond i ni gwmpo â'n penau ym mlaen. Mae nodwydd y cwmpas bob amser yn pointio at y *north pole*; canys os bydd y llong yn myned i America, neu yn myned i Babilon, mae y nodwydd yn pointio at y *north pole*; ac os bydd y llong yn myned i Greenland ac Ynysoedd Môr y Dehen, y mae nodwydd y cwmpas yn pointio i'r *north pole*. Yr oedd nodwydd cwmpas Noah yn ei gwmp, a nodwydd cwmpas Dafydd yn ei gwmp yntau, yn pointio tua'r *north pole* ysbrydol; ac yr oedd eu codymau yn help mawr iddynt fyned tuag adref.”

Mae baldordd cableddus fel hyn wedi ac yn cael ei bregethu gan y Wilod a'r Jackach; ac y mae wedi gwneuthur y rhai sydd yn credu y cyfryw sothach, yn ddiogel ac yn ddiystyr o bechod!

Bu Wil yn gorwedd i mewn, hyny yw, bu Wil yn cymmeryd arno fod yn glaf, am yng nghylech tair wythnos yn y Garth, a theulu'r Garth yn tendio arno gyda'r fath dirionwch a phe buasai mewn gwirionedd yn glaf, er y gwyddent o'r goreu mai chwareu a thwyll oedd ei glefyd. Mae yn wir i Ianto'r cwac roddi y cyfryw scwrfa iddo, fel ag i'w wneuthur

y chydig yn deneuach nag yr oedd. Ymwelwyd ag ef yn ei salwch gan brif aelodau Salem; a chan y merched ieuainc ag oeddynt yn aelodau yno. Yr oedd Mr. Jones a Mrs. Jones o'r Garth yn cwyno yn fawr am Wil, ac yn adrodd am ei boenau a'i ddirydniadau, ac mor amyneddgar oedd yn ei gystudd, braidd yn fwy amyneddgar na Iob. Dywedent hefyd am felusder ei brofiad yn ei gystudd, a'i fod wedi ymadael mewn ffordd â'r byd hwn, a bod ei feddwl yn hollol ar bethau y byd arall.

Pethau fel hyn adroddid gan Mr. a Mrs. Jones am dano wrth y rhai a ddeuent i ymweled ag ef; a merched y Garth yn camu llygad ac yn gwenu ar eu gilydd wrth wrando; canys gwyddent o'r goreu mai celwydd oedd y cwbl. Daeth y chwiorydd yno â basgedeidiau llawnion, rhai yn ol eu cyfoeth, ac ereill yn ol eu sel dros Wil; ac yr oedd Pali'r Pant â'i basged yn llawnach na neb, ac yn gwynfanus iawn o blegid y golled oedd eglwys y 'sgubor wedi ac yn gael o blegid salwch Wil. Yr oedd Wil yn ei *easy chair* wrth y tân, uewn ystafell ar y llofft, ac yn edrych yn rhyfeddol o addfryn a thawel, ac megys pe buasai yn isel iawn yn ei feddwl a'i ysbryd. Fe a achwynai yn fawr ar ei dywydd, a bod y 'storom wedi chwythu mor enbyd arno, fel yr oedd yn fynych yn ofni mai ei lethu yn hollol a wnelai yn y pen draw.

“Ond er y cwbl,” meddai Wil, “nid wyf wedi fy ngadael gan yr Arglwydd, a gobeithio y deufaf allan o'r ffwrnes yn bur, ac y bydd i mi ymaflyd yn fy ngwaith gyda mwy o egni nag erioed.”

Yr oedd y gwragedd duwiol yn wylo ac yn cwynfan yn fawr o'i blegid, ac yn hiraethlawn iawn am glywed ei lais eto yn y pulpud, i'w cynhesu yn fwy nag erioed at y gwaith. Nid oedd y merched ieuainc, sef y chwiorydd, yn myned mor ddyfned i bethau crefyddol a'r

“Gair trwm, a gair o bwys mawr yw argyhoeddiad; ac nid oes ond ychydig iawn yn ei ddeall; ac mewn gwirionedd ni ellir ei ddeall heb droi at y Groeg. Y gair am argyhoeddiad yn yr iaith Roeg yw *elerchomonai* (yn iawn *elegmos ab elegcho*). Ië, *elerchomonai* yw y gair gwreiddiol yn y Groeg am argyhoeddi ac argyhoeddiad. Nid *elercomai*, ond *elerch o monai*. Mae y Seison â'u cegau mor feinion fel na allant swnio'r *ch*, ond galwant hi *c*; ond y mae'r Groegiaid a ninnau y Cymry yn mhell iawn o flaen y Seison. Ond i gwympo ar fy nhestyn. Y mae *elerchomonai* yn arwyddo dau beth yn neillduol, sef yn flaenaf troi y tu mewn allan: ac yn ail, codi'r cloriau. Yn gyntaf, troi y tu mewn allan, neu droi megys ar y gwrthwyneb, er mwyn gweled beth sydd o'r tu mewn; ac yma y mae yr ail ben, sef codi'r clawr, neu godi'r cloriau, yn bachu yn y pen cyntaf. Crochan yw dyn wrth natur a chlawr arno. Dacw y crochan ar y llawr, a'i glawr arno. Wel, gad i mi ofyn i ti beth sydd yn y crochan yna? ‘Wn i ddim,’ meddi dithau, canys y mae y clawr arno. Ai cawl, cig, a thatws, a chenin sydd yn y crochan? ‘Wn i ddim,’ meddi dithau, canys y mae y clawr arno. Ai cawl llaeth sydd yn y crochan? ‘Wn i ddim,’ meddi dithau, canys y mae y clawr arno. Ai tatws trwy'r dwr sydd yn y crochan? ‘Wn i ddim yn y byd,’ meddi dithau, canys y mae y clawr ar y crochan. Crochan yw dyn, ac y mae y clawr arno, fel na ellir gweled beth sydd yn y crochan. Mae'r clawr yn cuddio beth sydd yn y crochan, ond fod ambell i ddyferion yn colli dros yr ymyl pan fyddo yn berwi. Pwy all godi'r clawr oddi ar wyneb y crochan? Yr oedd Samson yn gryf, ond yn rhy wan i godi'r clawr oddi ar y crochan. Yr oedd cedyrn Dafydd yn gryfion, ond yn rhy weiniaid i godi'r cloriau oddi ar hen grochanau'r ddaiar. Ni allasai Bonapart, er

cymmaint dyn oedd e, ddim codi'r clawr oddi ar y crochan. Ni allai Wellington, er cymmaint dyn oedd yntau, ddim codi'r clawr oddi ar hen grochan dyn. Pwy all ynte, fy mhobl anwyl i? pwy all ynte, fy mhobl fach i, godi'r clawr oddi ar y crochan? Dyma fe, ië, dyma fe, sef yr *elerchomonai* mawr; a heibio delo fe yr hwyr hwn, i godi llawer o gloriau hen grochanau yn yr ardal hon.”

Yr oedd hon yn bregeth boblogaidd iawn; yr oedd y peth a elwir “myn'd” ynddi; ond y sylw canlynol oedd coron y sylwadau:—

“Gorchymmynodd y prophwyd Elisëus i'w was drefnu'r crochan mawr, a berwi cawl i feibion y prophwydi, a chasglodd un o honynt fresych gwylltion i'w berwi yn y cawl, ond pan gymmerasant o hono, dyma'r wawch fawr yn cael ei chodi ganddynt fod angyu yn y crochan. Bobol, bobol, y mae angyu yn eich crochanau; oes, oes, y mae angyu yn y cawl yr ydych yn ei ferwi. Mae angyu yn eich crochanau. Yr wyf yn cofio o'r goreu, ac mi gofiat byth, fy mod i unwaith yn myned i ryw le neu gilydd erbyn y Sabbath, ac ar y ffordd mi elwais gyda theulu caredig, i roddi fy hun lawr; ac wedi eistedd mi welwn wraig y ty yn dodi'r sespan ar y tân i wneuthur llymaid o beth yfed cysurus i mi ar fy nhaith; ac ym mhen ychydig dododd ddicanteraid ar y bwrdd o fy mlaen; a pheth oedd hi wedi ei wneuthur ond eblon. Yr wyf finnau yn ffordd iawn o lymaid o eblon; a thyna lle bwm am amser yn 'smocio tipyn, ac yn yfed llymaid o eblon bob yn ail. Pan ddaeth y ddicanteraid tua'r gwaelod, beth ych chwi yn feddwl welais i yn ei waelod? Dim ond llyfant melyn mawr yn edrych arnaf! Beth ych chwi yn feddwl wnes i? Yn fy myrbylldra mi darewais y ddi-canter ar y llawr, nes yr oedd yn gant o gatiâu, ac wedi'r cwbl nid oedd ond llun llyfant yn y ddicanter! Ond hi ddaeth yn fater mwy

pwysig arnaf fi; fe gododd gweled y llyffant yng ngwaelod y ddicanter wrthwynebrwydd yn fy 'stumog, ac mi gefais yr eblon yn ol bob dyferyn. Do, do, mi gefais yr eblon yn ol bob dyferyn, achos llun y llyffant! A welwch chwi gymmaint wnaeth llun y llyffant yng ngwaelod y dicanter i mi? ond fe wna yr angeu sydd yn eich crochanau fwy i chwi."

Stwff cyffelyb i hwn yn fynych a bregethir yma ac acw ar hyd y wlad; ac fel y mae gwaethaf y modd, stwff fel hyn y mae y werin yn ei hoffi; a pho mwyaf o stwff fel hyn a draddodir, mwyaf oll fydd y tynu ar ol y pregethwr, am ei fod yn dywedyd pethau pert a difyrus. Ond geiriau gwirionedd a sobrwydd yw'r Efengyl, a geiriau gwirionedd a sobrwydd yw gwir bregethu. Pa beth yw "pastwn achub a gambo'r iechydwrriaeth," a rhyw ymadroddion annheilwng o'r Efengyl cyffelyb iddynt, ag y mae amryw bregethwyr yn eu defnyddio, ac ymadroddion hefyd a ystyrir gan nifer fawr yn brydfertion pregeth, ac yn gwneuthur y pregethwr yn boblogaidd? Fel hyn y mae yn ein gwlad, a pha fodd y gall fod fel arall, pan y mae dynion wedi cael eu dysgu mai rhyw chwareu fel hyn yw pregethu? Maent gwedi arfer clywed hen chwedlau ac ystorïau sydd yn warth ac yn ddianrhydedd ar grefydd.

Yr oedd gweinidog, os gwelwch fod yn dda, yn pregethu yn eglwys 'storws Troed y Foel, i.e. gweinidog ag ydoedd wedi bod am ryw amser yn Lloegr, meddai ef, yn adrodd y 'stori ganlynlol:—

"Yr oedd gwr boneddig a'i was, Gwyddel, yn trafaelu unwaith, ac ar y ffordd aeth y meistr at y gwas, a dywedododd wrtho, 'Pat, pe deuai y diawl yma, pa un o honom ni a gymmerai efe ymaith?' 'Fi, bid siwr,' atebai Pat. 'Pa ham felly,' ebai y meistr? 'Am fod digon o ddiawl ynoch chwi yn barod.'"

A oedd y 'stori hon yn taro yr Efengyl? A oedd y 'stori hon yn taro sancteiddrwydd y pulpud? Nid wyf yn dywedyd dim yn erbyn adrodd *anecdote* mewn pregeth, pan fyddo y *moral* yn dda; ond am 'stori ei feistr a Pat, yr oedd ei halogedig-aeth yn drevi'r pulpud! Dyrchafodd y diweddar Ddoctor William Richards, o Lynn (Ymneilldŵr), yn ei ddydd ef, ei lais yn uchel ac yn uchel iawn yn erbyn pregethu ffwlbrï fel hyn; a pha beth yw y talment a gafodd am ei waith? Ei alw yn erlidiwr ar hyd a lled Cymru! Mae y pulpud yn lle cyssegredig, yn rhy gyssegredig i ffwlbrï; ond ym mha le yn fynych y dywedir mwy o ffwlbrï, neu y chwareuir mwy o branciau, nag yn y pulpudau? Pa beth geir yn fynych ynddynt ond mountibanciaeth ddilen; yn warthus i grefydd, ac yn sarhâd ar yr Efengyl? Mae yn gywilydd yn fynych fod llawer pregethwr yn cael esgyn y pulpud!

Yr oedd cwrdd cwarter y sir, neu yr undeb siriol, yn nesu, ac yma yr oeddid i benderfynu yng nghylch yr achosion, ac yr oedd y canvaso drwy y sir yn myned ym mlaen yn ddiwyd iawn.

* * * * *

hen chwirydd; dim yn neillduol oedd ganddynt hwy i'w ddywedyd ond "Hi hi, Morgans, yr ydych yn dechreu gwella; hi hi, gobeithio y dewch yn fuan; hi hi, a ydych chiwi yn dechreu cryfhau tipyn? Mae eich lle yn wag iawn, a phan deimlwech eich hun yn ddigon cryf, dewch atom ni ychydig o ddiwrnodau a nosweithiau."

Edrychai Wil yn llon iawn ar y chwirydd ieuainc, a chollai gryn dwysged ar ei sibwrdd arferol. Tynent eu trysorau allan, sef teisenau o bob math, yng nghyd ag amrywiaethau o ddanteithion blasus, nes oedd y bwrdd yn tuchan dan y llwyth, ac mor llawn ag unrhyw *standing* a welwyd erioed yn ffair Fedi Llandyssul. Wrth ffarwelio, gwasgai Wil ddwylaw y chwirydd ieuainc yn dyn, ac nid oeddynt hwythau yn ol yn hyn, canys gwasgent bawen y Wil nes yr oedd ym mron â gwaeddi.

Ym mhlith ereill daeth Tomos y diacon, cwythr Wil, i'r Garth, i roddi tro am dano yn ei salwch, ond yn flaenaf ac yn benaf er mwyn ei fol. Pan ddaeth yr hen Dwm y lordyn i'r ty, yr oedd yn rhyfedd o gwtws lon i Mr. Jones ac i Mrs. Jones. Galwyd y lordyn at y tân, canys gwyddent mai gwr am fod yn nesaf at y tân oedd Tomos. Ac wedi cistedd dechreuodd fwrw ei "ho ho," a'i "wel wel" allan, ac wedi bwrw y rhai hyn allan, dyma fe yn tynu y cetyn pib o'i boced, ond erbyn ei fod wedi ei thynu allan, fe gofiodd iddo fethu â chael dybaco yn y siop am ei fod wedi darfod, a dododd y cetyn pib yn ol yn ei boced. Ond yn uniongyrchol dyma Mr. Jones yn tafu cwarter o ddybaco *superfine shag* Franklin ar y bwrdd, ac ni welwyd erioed un creadur gwyllt yn ymaflyd yn fwy awchus yn ei ysglyfaeth, nag oedd yr hen Domos yn ymaflyd yn y dybaco. Yr oedd yr hen lordyn yn dal y cwarter yn hir yn ei law; yn doddi peth yn y

cetyn, ond yn cuddio mwy yn ei lawes, ac ar yr un pryd yn dywedyd, "Mae hwn yn ddybaco da, Mr. Jones."

Dechreuwyd yn awr i siarad am Wil a'i brofedigaeth, am ei salwch, ac am yr achos goreu; a dymunai y ddau iddo gael adferiad buan o'i gystudd.

"Mae Morgans yn gwella," ebai un o ferched y garth; "mae wedi dechreu gwella yr wythnos ddiweddaf, ac yr wyf fi yn sier o hyny."

Dodwyd ymborth o flaen y lordyn, ac wedi gwneuthur ei ol yn lled dda arno, aeth Mr. Jones ac yntau i'r lofft, ac i ystafell Wil, a phan yr aethant i mewn yr oedd Wil â'i ben yn gogwyddo at ei war, a gwydraid go dda o *bort wine* yn bwrlymu drwy ei gorn pori ar y ffordd i'w gylla. Gwedi i Mr. Jones a Tomos fod am gryn amser yn ystafell Wil, yn siarad am bethau, ac yn trefnu pethau perthynol i'r achos goreu, bid sier, aeth y Jones allan, ac a adawodd Wil a'i cwythr yng nghyd. Wedi cael y lle yn rhydd, ebai Tomos,

"Wil, fachgen, yr wyt wedi chwareu dy gardiau yn dda rhyfeddol, ac y mae pethau ar y cwbl wedi troi allan yn lled dda yn dy ffafr. Ond gwrando arnaf fi, y mae yn llawn bryd i ti wella, ac y mae galwad am i ti ymaflyd yn dy waith. Mae rhai o'r Jacks a'r gweinidogion, yr wyf yn ofni, yn dechreu gwneuthur cyffroad; ac y mae yn llawn bryd i ti wella. Pa beth oedd oeddyt ti yn yfed pan ddaeth Mr. Jones a minnau i mewn?"

"*Port wine*," atebai Wil.

"Tynged da i ti, Wil; gad i mi ei brofi."

Tywalltodd Wil wydraid i'w ewythr, a llyncodd y gwin, a chan ymlyfu, dywedodd,

"Moddion da, moddion da yn wir, fachgen; bygwth fi â'r llall," yr hyn a wnaeth Wil.

Gwelodd yr hen lordyn y danteithion yn y cwpwrdd, a dyma fe yn

syrthio yn awchus arnynt; ac fe wnaeth alanasdra o honynt, nes oedd ei fol mor dyn a phêl. Bu y diacon yno ar ei gost am ddau ddiwrnod, a phan aeth ymaith, yr oedd poteli Wil a'i gwprdd yn gryn wag.

Y boreu yr ymadawodd Tomos y diacon â'r Garth, collwyd Mr. Jones, ac nid oedd un hanes am dano, ond iddo gael ei weled yn y *station*, ac yn myned ymaith gyda'r *train*.

"I ba le y mae Mr. Jones wedi myned?" meddai un; "ac i ba le y mae Mr. Jones wedi myned?" meddai y llall; ac yr oedd y gymydogoeth braidd mewn cyffro o blegid ei fod wedi myned ymaith mor ddisymmwrth, na wyddai neb i ba le; ac ni chaid gwybod dim yn y Garth, ond ei fod wedi myned ar fusnes. Eithr ym mhen tua'r wythnos, dyma Mr. Jones yn ei ol, a phan ofynid iddo ym mha le yr oedd wedi bod, yr ateb a roddai oedd, mai tua Chaerwrangon y bu yn ymweled â gwr boneddig ar fusnes. Diwrnod cyn dychweliad Mr. Jones yn ei ol, dyma lythyr o'r *post* yn dyfod ato, yr hwn a agorwyd gan Mrs. Jones; ac erbyn edrych, lythyr ydoedd oddi wrth yr Eglwys yn y Gweithiau lle y bu Wil yn y *British School*. Yr oedd y lythyr hwn wedi ei anfon gan eglwys y Gweithiau, ac wedi ei arwyddo gan weinidog a diaconiaid eglwys y Gweithiau, yn hysbysu i bawb y perthynent iddynt wybod, *to wit*, nad oedd un ferch yno yn feichiog gan y Parchedig William Morgans; nac un ferch yn perthyn i'r eglwys, nac heb fod yn perthyn i'r eglwys, yn dywedyd ei bod yn feichiog o'r Parchedig William Morgans; ac nad oedd unrhyw ferch wedi dyfod oddi yno, ac wedi d'od i ardal y Parchedig William Morgans i'w gyhuddo; ac mai rhyw fradwriaeth felltigidig oedd y cwbl oll, wedi cael ei llunio gan elynion, er mwyn dinstrio cymmeriad y Parchedig William Morgans, fel gwas yr Arglwydd; a dymunai eglwys y Gweithiau ar

fod i'r llythyr hwn gael ei wneuthur yn hysbys.

Dyna beth ddaeth ar ol Mr. Jones o'r Garth dranoeth ar ol iddo ddychwelyd adref, wedi bod ar ol busnes gyda gwr boneddig! Y Sul canlynol darllenwyd y llythyr yn Salem, a phan oedd yn cael ei ddarllen edrychai y chwiorydd ieuainc yn llon ar eu gilydd, ac ystyrid Wil fel wedi ei wyngalchu! Darllenwyd y llythyr hefyd yn eglwys ysgubor y Pant, a bu Pali yn agos â myned i lesmeirio gan mor felus oedd. Cliriwyd Wil gan y llythyr hwn!

Tra bu Wil yn glaf ffurfiwyd eglwys newydd o *split* Salem, yng nghegin Pant yr Afr, yr hwn a gyfammodwyd gan Mr. Evans, a Mr. Davies, gweinidog Salem gynt; a gwnaed diaconiaid a swyddogion ereill iddi, yn gwbl yn ol cyfarwyddiadau y Testament Newydd, gyda golwg ar Sectyddiaeth!

Yr oedd Jacks a rhai gweinidogion yn suppleio yr eglwysi newyddion, ac yn cyflenwi pob angenion ysbrydol ynddynt. Yr oedd Mr. Jones o'r Garth a Sion y Pant yn gofalu am *supplies* i Salem, ac eglwys y 'sgubor; yr oedd Siencyn Troed y Foel yn gofalu am *supplies* i eglwys y storws; ac yr oedd Mr. Davies, hen weinidog Salem, yn gofalu am *supplies* i eglwys Pant yr Afr, canys yr oedd yn myned i symmud yn ei ol i'r hen ardal i fyw ym mhen ychydig. Yr oedd wedi myned yn rali wyllt rhwng pob peth yn yr ardal a'r ardaloedd; ac heb fwy o wir grefydd yn yr eglwysi hyn, nag sydd mewn brwyn! Dim yn y byd ond sel orwyllt, penboethder, ffanaticiaeth, rhagfarn, llid, a chythraul.

Yr oedd rhyw bregethu rhyfedd o adeiladol yn cymmeryd lle yn yr eglwysi hyn; ym mhlith y rhai y gellir nodi un bregeth a bregethwyd yn Salem, a hyny nid gan Jack, ond gan weinidog o gryn fri ac enw. Testyn ei bregeth oedd "argyhoeddi ac argyhoeddiad;" ac meddai,

Prynodd ei dad gyllell dair ceiniog iddo, yn newydd o Gaerfyrddin; prynodd gyllell gam iddo, ail law, am geiniog a dimai; ac yr oedd hen fwyall taid Twm gwedi aros yn y teulu fel *fixture*, neu *heir-loom*; a rhoddwyd yr holl drec hon at wasanaeth Siencyn. Ond y mae yn dygwydd bod lledchwithdod braidd yn perthyn i'n holl ddyinion mawrion yng nghychwyniad eu gyrfaoedd, eto y mae y pethau lledchwith hyn rhag llaw yn ychwanegu at eu bri a'u hanrhydedd, os nad ydynt hefyd yn cael eu crybwyll er mwyn cuddio yr hyn a ddywed dyinion ffolion, ei fod yn ddiffyg synwyr.

Yr oedd Siencyn yn lledchwith yn ymdrin â'i offer; canys rhwng y gyllell dair ceiniog a brynodd ei dad iddo yng Nghaerfyrddin, a rhwng y gyllell gam ail law, pris un geiniog a dimai, a'r hen fwyall ag ydoedd yn *heir-loom* yn y teulu, yr oedd Siencyn ym mron bob amser â bysedd ei ddwyllaw yn glwyfau, ac wedi eu lapio mewn hen glytiau a roddai Martha ei fam am danynt. Yn y cytiau, ac yn y clwyfau hyn ar fysedd ei ddwyllaw, yr oedd peth mawr iawn yn dyfod i'r golwg; sef y dylai fod ol profies pob dyn arno. Cymmerer yr holl *professions*; dylai ol *profession* neu grefft pob dyn fod yn amlwg arno, yr un fath a'r broffes o *Jack*, yr hwn a adnabyddir wrth ei ellyll o ymrafael; wrth ei gelwydd; wrth ei ymfrost; wrth ei lwraeth; ac wrth y llysnafedd a'r drawdod y mae yn adael ar ei ol ym mhob man. Felly, yr oedd Siencyn yn dwyn nodau ei *professorship* fel *llwywr* bob amser ar ei fysedd; ac ryw fodd neu gilydd, gan mor gwmpasog ydoedd ei *genius*, yr oedd rhyw beth i'w weled ganddo mewn ffordd o wellâd ar ol pob llwy.

Y llwyau cyntefig, neu y llwyau gwreiddiol, a wnaed gan Siencyn, oeddynt gyffelyb i ddannedd ogedi, ond ei fod yn gosod rhisgl ar flaen pob un, ac yn plygu tipyn ar y rhisgl, ac yn ei rwymo ag edau baccas, a'r

plygiad hwn yn gallu dal hanner lloned gwiniadur o ddwfr. Aeth ym mlaen yn ei gelfyddyd, gan *improvo* ei hun, fel ag wedi iddo gael y gyllell gam, dechreuodd wneuthur twll bychan ym mlaen y pren; ac er y buasai Twm ei dad, a Martha ei fam, hyd hanner nos yn yfed pob o ffiolaid o gawl â llwyau Siencyn, eto edrychent arnynt fel ffirwythau rhyw *genius* rhyfeddol ag ydoedd i dori allan o Dy'r Lloi, yn ddsygleirdeb mawr trwy Gymru benbaladr. Dyma fel y mae gyda golwg ar ddyinion mawr erioed. Ond y mae *genius* yn cynnyddu, ac felly gyda golwg ar Siencyn; cynnyddodd ei *genius* yntau gyda'i oedran, ac efe a ddaeth i wneuthur tyllau, neu benau dyfnion ar ol tipyn o ddilyn ei gelfyddyd. Ond y mae dyinion, neu yn hytrach, plant o anianawd, er eu bod yn blant, eto mae meddyliau mawrion rhyfeddol ganddynt pan uwch beu eu *mathematics*. Pan ddaeth Siencyn i allu tyllu pen pren, i gyfodi llymaid o gawl o'r ffiol, colodd ei olwg ar y byd presennol, ac yn neillduol felly ar bobl y byd presennol, ac a aeth yn ol yn ei feddwl at yr hen amserau, ac at yr hen oesau, pan yr oedd Og, brenin Basan; Sehon, brenin yr Amoriaid; meibion Anac; ac Ajax, Achilles, yr hen Nestor, a Sardanapalus, yn yfed cawl cenin Cymreig; canys daliai penau neu gafnau ei lwyau yng nghylch hanner peint o gawl. Mae Martha wedi crogi y llwyau hyn wrth nenbren Ty'r Lloi, ac y maent yno heddyw yn golofnau coffadwriaethol o *genius* Siencyn, a'r hyn fuasai fel *llwywr*, pe gwelsai Rhagluniaeth yn dda i estyn ei ddyddiau ar y ddaiar.

Ni ellir cyfiawnhau mewn un modd, rai o arferion Siencyn, ond y mae yr arferion ag oeddynt yn perthyn iddo yn myned o'r golwg yn myml athrylith Siencyn, a'r orsaf uchel a lanwasid gan Siencyn, pe caniatasai Rhagluniaeth iddo fyw. Yr oedd yn fawlyd iawn; ei wyneb fel *map* y byd, yn amryliw; tipyn bach o Europe;

cetyn mawr o Asia; rhyw wmbredd o Affrica, a chryn dipyn o bwdel America; ac fel llusgo cath ar ei gefn oedd cael ganddo ymolchi a chribo ei wallt. Wrth ystyried pob peth, yr oedd mawredd Siencyn yn amlwg yn ei aflendid; canys diammheu, ystyriai efe natur yn ei phrydferthion goreu, trwy ei gadael heb gynnorthwyon celfyddydol, megys ag y mae ein gwŷr call, dysgedig, a mawr yn gwneuthur “yn y dyddiau rhai'n â'u” barfau. Nid ydyw glanweithdra, ys dywedodd Dic Aberdaron, ond “*modern vice*,” a byw yn y baw, fel Siencyn, ydyw yr *original mode of living*; ac yn ei arferiad o fyw fel hyn, y mae ei goffadwriaeth yn deilwng o barch, a'i arferion yn deilwng iawn o efelychiad.

Yr oedd drychfeddyliau Siencyn yn rhedeg yn uchel; a phan ddywedai Twm ei dad wrtho, a Martha ei fam, fod penau, neu gafnau ei *lwyau* allan o bob trefn yn rhy fawr, yr oedd Siencyn, fel pob bachgen o wir *genius*, yn eu hystyried yn fïol pan ryfygent roddi barn ar gynnyrehion ei *brofession* ef. Un noswaith, pan yr oedd y cawl yn berwi yn Nhy'r Lloï, a Siencyn â'r gyllell gam yn ei law, yng nghongl yr aelwyd yn myfyrio, aeth yn ddadl boeth rhyngddo ef a'i dad a'i fam yng nghylch maintioli cafnau penau y llwyau. “Maent yn rhy fawr,” meddai Twm ei dad: “Maent yn rhy fawr,” medd Martha ei fam; ond, ebai Siencyn, “Mam, codwch gawl i mi;” cyfododd Martha y cawl iddo mewn cawg pren mawr, fel arferol, a diengodd dwy neu dair o gloron o'r crochan, yn y lletwad i'r cawg. Estynodd ei law, a chyrhaeddodd *lwy* Og o Fasan; ac efe a'i rhoes yn y cawg cawl, ac a gyfododd un bytaten fawr yn y llwy, gyda'r cawl, ac a wanodd y llwy a'i chynnwysiad i'w hopbren; ac wrth edrych ar y gwrhydri hwn o eiddo Siencyn, chwarrddai Twm ei dad, a chwarrddai Martha ei fam am ei ben. Ond pan

â'r llwy yn ei ben, gwelid llygaid Siencyn megys ar y gwrthwyneb; gwelid ef yn gogwyddo yn wisg ei gefn; gwelid ef yn glasu, ac yn duo yn ei wedd; a gwelid ef wedi colli ei anadl! Yr oedd Siencyn gwedi marw; ac nid oes unrhyw ammhueaeth, pe buasai byw, na buasai y llwywr penaf yng Nghymru.

Dyma i chwi fraslun o gofiant Siencyn Bach y Llwywr, o'i febyd hyd yn ddeuddeg oed, pan fu farw efe fel merthyr dros ei *profession*. Mae ei gofiant, er yn fyr, yn faes helaeth iawn, ac ynddo lawer o dywysenau a ellid gasglu yng nghyd fel lloffion addysgiadol neu gasgliadol. Ond er bod y maes mor llawn o dywysenau, ni wnafl fiar hyn o bryd ond gwneuthur y casgliadau canlynol:—

1. Y *buasai* Siencyn, pe estynasid ei oes ar y ddaiar, yn Ymneilldŵwr selog. Gellir casglu hyn oddi wrth ei *genius* bachgenaidd; canys pan gyrhaeddasai oedran priodol, ni allasai anadlu unrhyw awyr, ond awyr Ymneillduaeth. Ac heb law hyny, yr oedd arwyddion ymneillduaeth yn amlwg ar ei *lwyau*; yr oedd argraff o *anghydfurfiad* ar bob un o honynt. Diammheu yw, y buasai Siencyn yn *Nonconformist* trwm.

2. Ni allwn gasglu oddi wrth febyd Siencyn, y buasai yn elyn ffyrnig ac anghymmodlawn i'r Eglwys. Ni theimlai oddi wrth swm y gloch alwadol foreu Sul, nac oddi wrth swm y gloch angladdol, mwy na phe buasid yn curo hen *shespan* â morthwyl o bren gwsberis: ac ar amser y gwasanaeth yn yr Eglwys, yr oedd efe bob amser yn naddu ei *lwyau*. Digon tebyg pe buasai byw, y rhoddasai ei hun yn gwbl at wasanaeth yr “Anti-Church Society,” a'r gwasanaeth hwn yn gynnwysedig mewn gwneuthur *llwyau* i ddirprwywr y gymdeithas i yfed eu cawl â hwynt.

Dyna gymmaint ag a gewch yn bresennol genyf fi yng nghylch Siencyn Bach y Llwywr; a byddwch yn ddiolchgar am a gawsoch.

COFIANT SIENCYN BACH Y LLWYWR.

MAE rhyw annhegwch mawr yn y wlad gyda golwg braidd ar bob peth, ac yn neillduol felly mewn perthynas i gofiantau. Os bydd gweimdog, diacon, aelod cyfoethog, neu blentyn dyn o urddas, farw, ceir cofiantau yn y misolion am danynt, a'r rhai hyn fynychaf yn llawn o feddyliau gwreiddiol, ac ar bob ystyriaeth yn dra adeiladol i'r darllenwyr. Ond y mae chwareu ochr, yn gyffredinol felly, yn y cofiantau, ac o blegid y chwareu ochr hwn, y mae amryw bersonau yn cael ymadael a'r byd hwn, heb fwy o grybwylliad am eu henwau mwy na phe buasant erioed heb fodoli ar y ddaiar. Mae dynion mewn camsyniadau mawrion gyda golwg ar bwnc y cofiantau, megys ag y maent mewn perthynas i laweroedd o bynciau ereill, canys—

“Y mae'r gemau a'r perlau puraf,
Goreu 'u lliwiau is y llo'r
Dan y tŷonau 'n gudd rhwng creigiau,
Yn nyfnderoedd mawr y môr;
Ac mae'r blodau teca 'u lliwiau,
Lle nas gwelir byth mo'u gwawr!
Ac yn taenu 'u per aroglau
Lle na sylwa neb mo'u sawr,”

ac ym mhlith y rhai hyn y mae Siencyn Bach y Llwywr wedi cael ei adael; ac yn y cyflwr hwn y gadawsid ef, ond fel y cymmerodd yr ysgrifenydd ef mewn llaw “er budd a llesâd y Cymry uniaith!”

Enw tad a mam Siencyn ydoedd Twm Pwll y Biswail, a Martha Pen y Gors, a ganed ef Mawrth yr ail ddydd ar hugain, am ddwy fynydd ar byntheig gwedi hanner nos; yr oedd Twm a Martha gwedi priodi saith mis cyn hyny. Mi anghofiais y flwyddyn y ganwyd Siencyn, ond yn awr yr wyf yn ei chofio; y flwyddyn oedd 1777. Mae rhywbeth mawr yn dwyn

perthynas ag *un* saith; ond yr oedd genediggaeth Siencyn ar flwyddyn â thri saith ar ol eu gilydd yn syndod; ond ni ddeallwyd hyn ar y pryd yn ardal genediggaeth Siencyn, canys nid oedd yr oes hono mor oleuedig a'r oes hon. Yr oedd tad a mam Siencyn ar y pryd wedi cymmyrd Ty'r Lloi, ac yn byw yn Nhy'r Lloi, a sylwodd y fudwraig ar y pryd pan aned Siencyn, ei fod yn ysgrechwr cryf, ac yn hornio nes ydoedd Ty'r Lloi yn adsain oll drwyddo.

Mae rhyw beth mawr a neillduol, braidd bob amser, yn dwyn perthynas â genediggaethau dynion fyddant yn debyg o droi allan yn ddyinion rhyfeddol yn eu hoes a'u cenedlaeth; ac felly, ysgrechain a hornio Siencyn, pan ei ganed, a dynodd y sylw cyntaf, canys yr oedd rhyw swm yn ei *larynx* a'i *pharynx* yn groes i swm plant cyffredin, ar yr unrhyw achlysur.

Nid oes nemawr neu ddim i'w ddywedyd am egwyddorion crefyddol Twm a Martha Ty'r Lloi, canys am Twm, bu yn yr Eglwys yn cael ei fedyddio; bu yn yr Eglwys yn priodi; a bu yn yr Eglwys pan gladdwyd ei dad. Bu Twm unwaith yn edrych ar fedyddio wrth gapel y Bedyddwyr, ac unwaith yng nghapel y Methodistiaid, yn adeg y neidio mawr, ac aeth Twm i neidio, ac wrth neidio, efe a holltodd ei gloesen; ac wedi deall o hono ei fod gwedi hollti ei gloesen, efe a regodd yn y fan, ac a aeth adref yn llawn nwyddau drwg. Yr oedd Martha yn wraig dda i Twm, ac yr oedd ei holl grefydd yn gynnwysedig yn fod yn *rhaid* i bob peth fod ag ydoedd yn bod.

Mae athrylith yn dangos ei hun yn fore, yn neillduol felly gyda golwg ar rai personau. Mae rhyw beth

fynychaf yn tori allan mewn plentyn, fel rhyw ganwyll gorff, yn rhagarwyddo yr hyn sydd i ddyfod; astronomyddwr, daiaryddwr, morwr, difinydd, &c.; ac yn ol y rheol ei gyffredinol hon, dangosodd Siencyn duedd athrylithgar trwy ymaflyd mewn *llwy*, fel prif wrthddrych ei sylw. A *llwy* y curai y bwrdd; â *llwy* y curai y gath; â *llwy* y curai ei fam; â *llwy* y tarawai ei dad am draws ei geg; ac nid oedd un amser heb *lwy* yn ei law. Y mae hyn yn addysgiadol iawn i ni; canys y mae yn dangos mor rymus ac anwrthwynebol y mae greddf dyn at y peth mawr y mae wedi cael ei alw ato. Daeth Siencyn yn hynod hoff o'r *llwy* pan gafodd ddannedd; dau ddant mawr yn ei uchannedd; a dau ddant mawr yn ei is ên. Rhaid deall mai *llwyau* preniau oedd gan Twm a Martha yn Nhy'r Lloi; a rhyfedd fel y mae natur yn gweithio; canys wrth fod Martha yn bwyda, neu yn porthi Siencyn â'r *llwy*, cauai ei ddannedd mawrion ar y *llwy*, ac yn llwddn pengrych, melyn, llygadog, a ysgydwai ei ben, nes byddai y cawl, y bwdran, a'r twym llaeth, yn pistyllu yn ol o'i geg, ac o'r *llwy*, i'r ffilol bren, neu ar y bwrdd, neu i frest ei fam. Yr oedd golwg syber ar fwrdd ac ar lawr Ty'r Lloi bob tro y byddai pryd o fwyd ar gerdded, gan Siencyn a'i *lwy*.

Fel ag yr oedd Siencyn yn cynnyddu mewn oedran a maintioli, yr oedd anianawd ei athrylith mawr yn cynnyddu yn amlwg iawn ynddo, nes y tynai sylw yr holl gymnydogion ato. Pan tuag wyth mlwydd oed, ni welid Siencyn byth heb ei gyllell yn ei law, yn naddu *llwy*, neu ryw beth a elwai efe yn *llwy*. Ac yma, mi chwennychwn sylwi eto, fod yr holl ddynion mawrion, ag yr ydym erioed wedi clywed son am danynt, wedi gwneuthur y peth y rhagorasant ynddo yn *bwnc* trwy eu holl oes; ac fel hyn yn hollol yr oedd gwrthddrych ein cofiant. Pan welai wr boneddig ar ddamwain yn pasio y ffordd ger

Ty'r Lloi, gofynai i'w fam, "A all efe wneuthur *llwy*?" Pan welai offeiriad neu weinidog ymneillduedig, neu *exciseman* yn dyfod heibio ar y ffordd, gofynai i'w fam, "A allant hwy wneuthur *llwy*?" Rhyfedd yw greddf, neu anianawd gref! Treio cael Siencyn i'r ysgol, er bod Ficer y plwyf yn foddlawn ei rhoddi yn rhad iddo! Pa beth ydoedd ysgol yng ngolwg Siencyn at wneuthur *llwy*? Rhoddi Llyfr Corn, *Reading Made Easy*, a *Spelling Book* i Siencyn! Edrychai yn ddirmygedig arnynt; edrychai yn *insolent* arnynt! Yr oedd ei athrylith yn rhy ddyrchafedig; yr oedd ei feddwl cryf yn eangach; yr oedd ymgais ei enaid yn cyrhaeddyd ym mhellach; yr oedd wedi gwneuthur *llwy* yn *bwnc*, ac yn brif fater ei oes, ac yn benderfynol o ymddygleirio, a gwneuthur ei hun yn anfarwol yng Nghymru uchel ei breintiau fel *professor of spoonery*!

Wel, edrychai Twm ei dad, a Martha ei fam, ar Siencyn eu mab, fel prif *genius* yr ardal, ac yn neillduol felly gyda golwg ar yr amser dyfodol; sef y deuai yn berchenog ar gyfoeth lawer, ac y byddai iddo yn y pen draw brynu yr holl blwyf, yr Eglwys, yr offeiriad, a'r clochydd, ar gefn ei grefft o wneuthur *llwyau*. Yma, mi chwennychwn i'r darllenwyr ystyried, y dylai pob dyn, hyd ym moreu ei oes, fod â *phwnc* diysgog o flaen llygad ei feddwl, i ragori, ac i fod yn enwog yn ei broffes; neu fel y dywed y Sais,—“*at the top of his profession.*” Mae llawer o rieni yn gosod tramgwydd ar ffordd, neu reddf naturiol, neu os mynwch, ar anianawd eu plant, ac felly, nid yn unig eu rhwystro i gyrrhaeddyd yr orsaf uchaf mewn gwybodau a chelfyddydau, ond i ysbeilio y byd am fyrddiwn o oesau o ddefnyddioldeb eu darganfyddiadau, pe cawsent ond chwareu teg. Ond am Twm a Martha Ty'r Lloi, pañ ddeallasant ogwydd *genius* Siencyn, ni arbedasant unrhyw draul er mwyn ei wneuthur yn *llwywr*.

COFIANT DAI HUNANDYB.

MAE y Cymry fel cenedl, a Chymru fel gwlad, yn sefyll yn yr un cyflwr a chenedloedd ac a gwledydd ereill gyda golwg ar y cymmeriadau, sef rhai cymmeriadau a gynnyrchir ym mhlith pob cenedl, ac ym mhob gwlad. Yn ol mor belled ag y mae fy narllen i wedi myned,—ac yn ddiymffrost yr wyf wedi darllen llawer: ond y mae nifer fawr gwedi darllen mwy, ac y mae rhyw nifer yn ein plith ni, y Cymry, gwedi darllen llai. I ba le yr aethym? Mae dyn mawr, ac y mae cofiant dyn mawr, yn llyncu y cwbl; ac wrth lwybreiddio fy ffordd i ragymadroddi Cofiant Dai Hunandyb, mi gollais arnaf fy hun; ond fe faddeua darllenwyr yr HAUL i mi am golli arnaf fy hun wrth hela buchedd, neu yn hytrach, gofiant Dai, canys y mae dynion mawr yn colli tipyn arnynt eu hunain, neu y maent yn ffugio ysbryd melancolaidd, ac y mae y melancoleiddiwch hwn yn eu gwnenthur yn fawr gan rai, os ydyw yn ei wneuthur yn fychan gan ereill.

Mae yn rhaid i ddyw wneuthur ei hun yn *od* cyn tynu sylw rhai math o bobl. Mae cwacyddiaeth pob celfyddyd a'i llwyddiant yn ymddibynu ar fod yn *od*. Cwac o gyfreithiwr, dim ond iddo fod yn *od*, ac ennill dan neu dri treial yn y County Court, dyna fe ar unwaith yn ddyw yng ngolwg y *mob*; a hwrâ fawr, a phob mater drewllyd i'r cwac hwn, nes y byddo gwedi myned trwy gylch ei gwacyddiaeth, ac yn groenllwm cnafaid ar y rhos. Cwac o ddoctor, dim ond iddo fod yn *od*; dim ond iddo regu yn Seisoneg, a chymmysgu ambell i reg Gymraeg â'r rhegu Seisoneg; edrych trwy spectral werdd, cadw nifer o boteli, a ffrogaod, a mwydynod, a madfeillod, a chreadur-

iaid ereill mewn *warwork*, na fu erioed mo'u cyffelyb, ond yn nychymmyg y cwac, dyna y *doctor*; dyna y meddyg sydd yn ysbeilio anghu a'r bedd, ac yn cynnyddu *census* pob teyrnas, y naill flwyddyn ar ol y llall. Ond y cwac pregethwraidd ydyw prif gwac y deyrnas, a phrif gwac holl genedloedd a gwledydd y greadigaeth. Mae y cwac pregethwraidd dan ysbrydoliaeth; mae naill ai dan ysbrydoliaeth y da neu y drwg; mae yn onest neu y mae yn anonest; mae yn ddyw gceirwir neu y mae yn ddyw celwyddog; mae yn sant ar y ddaiar neu y mae yn gythraul ar y ddaiar. Prif gwac y byd ydyw y cwac pregethwriaethol, ac y mae yn seilio ei gwacyddiaeth ar fod yn *od*, ond bod ei *oddities* gan rai yn ei restru ym mhlith y ffwlcynod; eithr nid yw y cwac pregethwraidd yn hidio dim am hyny, tra byddo efe yn cael galwad i *supplyo*, ac yn cael y talment *public* am *supplyo* gan *officer* y gynnulleidfa, a degwm cil dwrn y chworiydd yn breifat: mae y cwac pregethwraidd yn teimlo cysur yn ei brofiad a'i fynwes wrth fyned adref, yn ol pwysau cynnwysiad ei bwrs.

Nid ydyw am ysgrifenu dim ond yr hyn ag y mae sylw darllenwyr yr HAUL yn ei brofi yn wirionedd gyda golwg ar gwacyddiaeth pregethwraidd yng Nghymru—nid cwacyddiaeth *holl* bregethwyr Cymru, ond cwacyddiaeth dosbarth o honynt, sef y dosbarth hwnw sydd â sail eu poblogrwydd yn gyfangwbl ar eu prancs, y rhai fel hudlewyrnod a dwyllant ffyliaid. Mae pregethwyr ac areithwyr yng Nghymru ar ben yr ysgol; maent yn ser dysglaer; maent yn anrhydedd i'w gwlad, i'w hoes, ac i'w cenedl; ond y mae cwacyddiaeth pregethwriaethol â dy-

lanwad mawr ar y werin Gymreig; a chwacs yn gyffredin felly a bia y nifer amlaf o'n pulpudau ni yn y Dywysogaeth. A byddai yn briodol hysbysu i ddarllenwyr yr HAUL, os nad ydynt gwedi deall hyny yn barod, mai un o'r cwacod ydyw gwrthddrych ein cofiant, sef Dai Hunandyb.

Wrth gyfansoddi cofiantau, yr arferiad gyffredin ydyw crynoi y cwbl yng nghyd ag fyddo mewn unrhyw ffordd yn dwyn perthynas â'r gwrthddrych. Sonir am ei daid a'i deulu; ei nain a'i theulu; ei dad a'i deulu; ei fam a'i theulu; eu henwau; y lleoedd a'r plwyfau yr oeddynt yn byw ynddynt; yng nghyd â phob hanesion ac *anecdotes*, naill ai er budd y darllenwyr, neu er budd i'r cofiantwyr eu hunain, mewn ffordd o nyddu yr erthygl, neu i chwyddo y llyfr i faintioli pamphletyn chwe cheiniog neu swllt, i ateb dyben arfaeth y cofiantwr. Mae gwrthddrych y cofiant presennol yn ddigon ar ei ben ei hun, ac wrtho ei hun, yn ddigyssylltiad â thaid, nain, tad, mam, lle a phlwyf, yr hyn nad ydyw yn perthyn i'r nifer luosocaf y gwneir cofiantau am danynt yn yr oes hon. Y peth cyntaf yn nodweddiad Dai Hunandyb y sylwodd dynion arno oedd, ei fod yn yr *oll*, nid mewn *rhai* pethau, ond yr *oll*, yn wahanol i holl grytiaid yr ardal, ac i holl grytiaid y byd. Pan yn yr ysgol, tybiai ei hun yn dalach, yn gryfach, ac yn harddach nag unrhyw grwtyn arall. Yr oedd yn well darllenwr, yn well spelianwr, yn well ysgrifennwr, ac yn well rhifydddegwr, nag unrhyw grwtyn arall. Yr oedd ganddo well copi, gwell slât, gwell cylllell, gwell pêl, a gwell clocs, nag unrhyw grwtyn arall. Clywai yn well nag unrhyw grwtyn arall, canys clywai bethau nad oedd neb crytiaid creill yn eu clywed; gwelai yn well nag y gwelai unrhyw grytiaid ereill, canys gwelai bethau nad oedd crytiaid creill yn eu gwled. Dichon ei fod

yn ofid ac yn flinder iddo ei hun pan yn grwtyn, ond gan nad beth am hyny, yr oedd yn ofid ac yn flinder mawr i grytiaid, canys nid oeddynt hwy ddim yn ei olwg ef, ac efe ei hun oedd y cwbl. Yr oedd Dai pan yn yr ysgol ym mhell o fod yn gysurus, canys yr oedd ei hunandibiaeth gwedi ei droi yn hollol o'r naill ochr, fel nad ydoedd gwir gyssylltiad rhyngddo â neb nac â dim. Mae cysur a dedwyddwch rhai yn gynnwysedig yn eu cyssylltiad â chymdeithas; ond ni fynai Dai, pan yn grwtyn, ddim â chymdeithas crytiaid yr ysgol, canys yr oedd ffynnonell ei holl gysuron ef yn tarddu yn gyfan-gwbl ynddo ac o hono ei hun. Yr ydwyf gwedi myned yn rhy bell wrth son am ddedwyddwch a chysuron Dai Hunandyb, canys ni bu y naill na'r llall o honynt yn ei feddiant erioed. Pan fyddai crwtyn yn yr ysgol gwedi cael rhyw ddilledyn newydd, yr oedd Dai yn llawn gwenwyn wrtho; pan welai lyfr newydd yn llaw rhyw fachgenyn, yr oedd yn llawn gwenwyn; os byddai crwtyn yn ddarllenwr gweddol yn ei Feibl, neu yn ei *Speaker*, yr oedd hyny yn dân ar groen Dai; ac os dygwyddai i'r ysgolfeistr gammol un o'r crytiaid am ei ddarllen, ei spelian, neu ei ysgrifenu, neu am ryw beth arall, yr oedd yn achos o waew a dirdyniadau ofnadwy ym mol Dai.

Gwnaeth hunandyb Dai iddo fod y crwt mwyaf anghysurus yn yr holl ardal. Yr oedd yn llawn eiddigedd —yr oedd yn berwi o eiddigedd at bawb o'i gyfoedion; ac efe a chwenychasai fod ei hun yn y byd, oni buasai bod angenrheidrwydd am ereill i fod yn ymborth i'w genfigen ef. Ond ni estynnwn gam ym mlaen, a Dai yn ein llaw, hyd onid ydoedd o ddeunaw i ugain mlwydd oed. Yr oedd Dai erbyn hyn yn getyn mawr o ddyn; yr oedd yn fardd; yn gwybod nifer o englynion ar ei dafod, ac amryw linellau o "Gywydd y Farn,"

gan Goronwy Owain; yr oedd yn son yn fynych iawn am ramadegau; gwyddai enwau saith neu wyth o ser; ac os dygwyddai nad oedd neb yn y gwmniaeth yn gwybod dim, yr oedd Dai yn gwybod y cwbl; ac ar fy ngair gwir, yr oedd y dynion na wyddent ddim yn credu yn ddilys fod Dai yn gwybod llawer. Dechreuodd Dai yn awr i ymrwbian yn Ficer y Plwyf; yr oedd yn fynych iawn yng Ngwasanaeth yr Eglwys, braidd felly bob Sul, ac yn ymddangos yn Eglwyswr selog. Meddylhodd y ficer y buasai ychydig o gefnogrwydd i Dai yn debyg o wneuthur daioni iddo ef ei hun, ac yn y pen draw i ereill hefyd, a phenderfynodd i siarad ag ef ar y mater, er mwyn rhoddi start iddo, trwy ei gael i'r *Training College*, ac i wneuthur *schoolmaster* o hono. Dechreuodd y ficer deimlo *pulse* Dai gyda golwg ar iddo fod yn ysgolfeistr; ond cafodd ar ddeall yn fuan fod Dai, ac ef yn gwybod enwau saith neu wyth o'r ser, yn edrych cuwch, os nid yn uwch na'r ser. Dodi Dai yn ysgolfeistr! Yr oedd y swydd hon yn isel ac yn ddirmygedig yng ngolwg Dai; a chwi chwarddasech mor *flat* yr edrychodd y ficer pan ddeallodd nad oedd dim a foddlonai ei feddwl ond gweinidogaeth yn yr Eglwys, a bod i'r esgob roddi urddau iddo heb nac ysgol na choleg, ond ei hystyried yn fraint i gael dyn o'i fath ef i weinyddu yn ei chyssegr heb lwch na Seisoneg, na Lladin, na Groeg, na Hebraeg; heb lwch *Logics*, *Mathematics*, nac *Ethics*, nac *Algebra*, na dim *outlandish* arall yn llychwino ei wisgoedd; dim foddlonai Dai ond ei gymmeryd fel yr oedd; ei osod ar y bwa eglwysig, a'i saethu i orsedd Archesgobaeth Canterbury braidd cyn cymmeryd llethy curad, na ficer, na *rector* ar y ffordd. Pan welodd y ficer trwy Dai, chwi ryfeddasech os na chwarddasech weled y ficer yn myned mor *flat!*

"Wel, Davy," ebai y ficer, "nid

oeddwn i gwedi meddwl dim am hyna; ffarwel yn awr; mi gaf eich gweled ryw dro eto."

Nac oedd; nid oedd y ficer wedi meddwl am offeiriadaeth i Dai, na neb arall ond Dai ei hun.

Wel, a aeth Dai i'r Eglwys y Sul canlynol? Dai i'r Eglwys y Sul canlynol! Yr oedd Dai cyn gosod ei droed ar drothwy ty y ficer i fyned allan yn elyn mor chwerv i'r Eglwys ag unrhyw elyn fu, neu sydd iddi yng Nghymru! Aeth yn elyn chwerv iddi ar unwaith, a hyny am nad oedd gobaith iddo gael gweinyddu yn ei chyssegroedd.

Gwedi deall o Ddai ei fod yn fachludiad haul arno gyda golwg ar weinidogaeth yr Eglwys, penderfynodd i ymlynu wrth un o gerbydau Sectyddiaeth, a chan fod y Methodistiaid braidd yn uwch ac yn fwy parchus nag un sect arall yn yr ardal, meddylhodd am anrhydeddu a phrydferthu y Corff â'i berson a'i dalentau, gan feddwl y buasant yn edrych arno trwy yr un spectral ag yr edrychai efe arno ei hun. Yr oedd Dai yn ei olwg ei hun bryd hyn yn ddyn mawr; yn lloned pob man lle byddai; yn fardd, yn feirniad, yn ddarllenwr, yn feiwr, ac yn bob peth ag sydd yn cyfansoddi mawredd; ac ar ol yr ymddyddan â'r ficer, aeth yn ei lid i Ysgol Sul y Methodistiaid, gan arfaethu y cawsai barch a bri mawr gan y Corff. Gwedi myned i mewn i'r capel, â'i Feibl dan ei gesail, edrychai megys pe buasai doethineb ei hun wedi ymgorffori yn ei berson ef ar y ddaiar; edrychai ar ei law ddeheu; edrychai ar ei law aswy, ac yn neillduol edrychai ar y dosbarth uchaf, lle y meddylid bod y *dons*, gan feddwl y buasai yn fraint o'r mwyaf gan aelodau y dosbarth hwnw i gael dyn o'i dalentau ef yn eu plith, i'w haddysgu a'u hyfforddi. Ond rhyw hen frawd penllwyd, adnabyddus o Dai, ac yn deall tipyn o Dai, a'i troes at ryw ddosbarth ag ydoedd yn feddwl oedd yn ei daro, a

Dai o achos hyn a ffromodd yn aruthr ynddo ei hun. Gwedi eistedd o Ddai ym mhlith aelodau y dosbarth hwn, dechreuodd yn gyntaf fwrw ei lid ar yr Eglwys, ond ni wnaed sylw o hono. Dechreuodd yn ail feio y dull o ddarllen oedd gan y dosbarth, a rhoddi cyfarwyddiadau at well darllen; ond neb yn sylwi eto ar hyn. Yn drydydd, dechreuodd weled bai ar y dull o gario yr ysgol ym mlaen, gan awgrymu y buasai efe yn dyrchafu ei defnyddioldeb yn rhyfedd, ond rhoddi awenau ei llywodraeth yn ei ddwyllaw ef. Yr oedd yr hen frawd ag ydoedd yn arolygydd, trwy yr amser â'i lygaid ar Dai, ac wrth fyned heibio yn clustfeino ar siarad Dai, ac ar derfyn yr ysgol, efe a gymmerodd Dai o'r neilldu, ac yn lled ddiseremoni a ddywedodd wrtho fel y canlyn:—

“Dai, os bydd i ti ddyfod i'r ysgol eto, cofia di fod fel rhyw un arall o dy fath, amgen cadw draw.”

Aeth Dai i gapel y Wesleyaid y noson hono, ac y mae yn elyn anghymmodlawn i'r Methodistiaid o'r dydd hwnw hyd heddyw. Yr oedd ergyd yr hen frawd ar ben ei falchder yn annyoddefol.

Ni fu Dai ond pythefnos i dair wythnos yn myned i gapel y Wesleyaid, cyn myned yn lloned y capel ei hunan; ac nid rhyfedd i Dai yn y cyfwng hwn fyned yn fawr, canys ennillodd wobr o ddimai yn Eisteddfod Ty'rbaw am y triban goreu i barchell per, yr hwn oedd fel y canlyn:—

“Mi ganaf i'r parchellyn
Gystal cân ag undyn;
Mi wrantaf gwedi ei rostio
Ei fod yn gig *nise* iawn.”

Hi aeth yn nos ar Dai gyda'r Wesleyaid, canys yr oedd dyrchafiad yn anobeithiol, a chan fod Arminiaeth yn gyfeiliornad mor ofnadwy, ni allasai Dai gydfyw â hi, na braidd fyw yn yr un ardal a hi. Yn ddisymmwth, wele Dai un boreu dydd Sul vng nghapel y Bedyddwyr fel gwan-

däwr, ac yn ol yr arwyddion, yr oedd mewn cryn gariad ag ef ei hun. Er pan yr ennillodd y wobr o ddimai yn Eisteddfod Ty'rbaw, yr oedd gwedi mynu *studs* ar frest ei gryd, a phar o fenyg *kids*, *guard* felen (nid oes dim gwybodaeth am ei *watch*), yng nghyd â llawer o betheuach ereill, i harddu ac i brydfertu ei berson. Yr oedd Dai erbyn hyn wedi cael ei argyhoeddi o fedydd y crediniol, a bedydd trwy drochiad; ac yr oedd hyn, mor belled ag yr oedd yn myned, yn dderbyniol gan y Bedyddwyr, ond ei fod wedi dygwydd eu bod wedi credu hyny cyn i Dai ymberennoli yn eu plith. Bu yn ymwyddfodoli yng nghapel y Bedyddwyr am yng nghylech chwech o Suliau, a'r naill Sul ar ol y llall yr oedd Dai yn ei *studs*, yn ei *guard*, ac yn holl *baraphernalia* ei fawredd, yn wyddfodol ym mhob cyfarfodydd; canys yr oedd Dai yn *attendio* pob cyrddau; cyrddau cyhoeddus a'r cyrddau gweddi; ym mhob *sol* (ysgol ganu); ym mhob cyfeisteddfodau; ac ym mhob busnes hyd ei wddf, ond yn y seict breifat. Dai oedd y cwbl am yr ychydig wythnosau y bu yn llyswyru gyda'r Bedyddwyr; ond yr hen lordiaid a edrychent ar Dai fel dyn ammhëus: yr oedd yn rhy selog—gwedi dyfod felly ar unwaith: yr oedd yn ormod o Faptist hyd yn oed gan y Baptisiaid eu hunain. Felly yr oedd yr hen lordach yng nghapel Salim â'u llygaid ar Dai, a Dai â'i lygaid arno ei hun; eithr cymmerodd tro disymmwth iawn le ar arfaethau Dai, druan, ryw ddiwrnod yn yr ysgol; a rhoes derfyn ar unwaith ar gyssylltiad Dai â'r Bedyddwyr; a'r achos oedd hwn:—Ryw ddiwrnod, yn y pentref, aeth dau geiliog i ymladd â'u gilydd; ceiliog lordyn y Baptists a cheiliog lordyn yr Independiaid. Ni wyddai y ddau lordyn ddim yn y byd am frwydr y ddau geiliog; a phe buasai yn gwybod, ni ddaethai yr un o honynt allan o'u tai. Ond yr oedd Dai yn hoff o rali,

a phan aeth yn frwydr rhwng y ddau geiliog, yr oedd Dai yn un o'r rhai cyntaf yn y man a'r lle. Er mwyn ymwithio i lawes lord y Baptists, rhoes gic ofnadwy i geiliog lordyn yr Independiaid, ac a'i lladdodd yn y fan; ond erbyn edrych dipyn oddi amgylch, i geiliog lordyn y Baptists y rhoes Dai gic, yr hwn gic a'i lladdodd. Yr oedd lordyn y Baptists yn dygwydd ar y pryd i fod yn edrych trwy ddellt ei ffenestr, a gwelodd Dai yn rhoddi cic i'r ceiliog, a gwelodd y ceiliog yn estyn ei adenydd, yn gorwedd ar ei gefn, ac yn trengu; ond er anrhydedd iddo ei hun fel Cristion, ac er anrhydedd i'w swyddogaeth fel lordyn, ni wnaeth sylw yn y byd o'r peth, a throcs yn ei ol, ac eisteddodd ar ei seat, ond nid heb deimlo ei hen ddyn yn gwingo at Dai, a'i ewyllys da yn rhoddi y fath gic marwol i'r ceiliog.

Yr oedd lordyn yr Independiaid, yntau, â'i big yn y ffenestr, yn edrych ar y ddau geiliog yn ymladd, ac wedi gwled Dai yn rhoddi y cic dylanwadol i geiliog lordyn y Baptists, ac wedi gwled o hono geiliog lordyn y Baptists yn lledu ei adenydd, yn troi ar ei gefn, ac yn trengu, corudd, â'i fys nesaf at ei fawd, ar wydr y ffenestr, ac wedi tynu sylw Dai, efe a amneidiodd arno i ddyfod i'r ty.

Aeth Dai i'r ty; rhoddwyd cadair iddo; ac eisteddodd Dai.

"Dafydd Jones," ebai lordyn Independia, "yr wyf fi, ac y mae ereill o'r brodyr, â'n llygaid ar eich ol chwi er ys llawer dydd; yr oedd yn drueni genym eich gwled yn myned i hen Eglwys lwydaidd y plwyf, lle nad oes dim ond seremoniau pabaidd, a hen ffeiriadon nad ydynt werth dim yn y byd. Dyn, Dafydd Jones, o'ch talentau; eich cyrhaeddiadau, a'ch manylrwydd chwi, yn myned i aberthu eich hun ar gyssegr Eglwys ag y mae Eglwys Rhufain ym mhell o'i blaen; buom ni, yng nghapel Marah, yn tosturio—do, yn gweddio drosoch pan yn gwled dyn o'ch talentau

chwi yn myned Sul ar ol Sul i'r hen Eglwys blwyfol. Synasom yn fawr i'ch gwled yn myned i gapel y Methodistiaid; canys nid oedd hyn ond neidio o'r badell ffrio i'r tân. Fel aderyn gwyllt, gwelsom chwi yn myned i gapel y Wesleyaid, y rhai sydd yn mhell o fod yn iachus yn eu barn, er ein bod ni, yr Independiaid, ym mron bod o'r un farn a hwynt, ond bod well genym yr *improved spectacles* na'r hen spectralau gynt. Ond yr hyn a'n doluriodd ni yn fawr oedd eich gwled yn dilyn y Baptistiaid; dim ond dwr, dwr, dwr; Ainon yn agos i Salim—dyfroedd lawer—myned i'r dwfr—dyfod i fyny o'r dwfr—claddu trwy fedydd, yng nghyd â rhyw hen ffwlbrï fel hyn; yr oedd yn syn genym eich gwled yn ymrwbio ac yn dilyn gwŷr y dwr. Ni, yr Independiaid, sydd yn adnabod talentau, ac yn meithrin talentau; ac y mae genych chwi, Dafydd Jones, dalentau, a thalentau mawrion hefyd; ac os trowch atom ni i gapel Marah, chwi gewch groesaw, chwi gewch barch, chwi gewch anrhydedd, ac nynt a wnawn ddyn o honoch."

Aeth Dai yn ei *studs* a'i *guard* i'r seiet nos fercher at yr Independiaid i gapel Marah.

"Wel, frodyr," ebai y lordyn y gwnaeth Dai dipyn o gamsynied yng nghylch ei geiliog, "mi welaf Dafydd Jones yma. Yr oeddym, bawb o honom, er ys misoedd a misoedd, yn rhyfeddu o'i blegid; yr oedd yn aderyn gwyllt; ond y mae yn ymofyn am nyth, ac wedi cael nyth. Mae Dafydd Jones, fel ag yr ydym yn gwybod, yn ddyn gwybodus iawn, ac yn llawn iawn o bob talentau; mae yn ddyn ym mhob ystyr fyddai yn addurn ac yn ogoniant i bob achos crefyddol; bu yn grwydredig, fel ag y mae yn dygwyddo i bob dyn o dalentau mawrion; ond y mae gwedi dyfod atom ni, ac mi chwennychnwn i rai o'r brodyr i siarad ag ef, canys yr wyf yn ystyried ei fod yn fraint i ni i'w gael. A welwch chwi fod

yn dda, John Thomas, i siarad â Mr. Dafydd Jones."

"Wel, Mr. Dafydd Jones, y mae yn dda rhyfedd genym oll eich gweled yn ein cyfeillach; a chan ei bod yn Sabbath y cymmundeb y Sul nesaf, chwi ellwch gael eich derbyn a'ch aelodi, canys nid chwi ydyw pawb; chwi fyddwch yn ddyn defnyddiol iawn i ni, ac chwi atebwch ddybenion eich creadigaeth trwy ymuno â ni, ie, â ni. Gwell yw i chwi gael eich derbyn y Sabbath nesaf, Dafydd Jones, ond dywedwch chwi."

Bu Dai ym mron â neidio o'i groen gan ei falchder wrth glywed y ganmoliaeth a roddai yr hen ddiakon, John Thomas, iddo, ac a ddywedodd y byddai yn dda ganddo gael ei dderbyn y Sabbath nesaf.

"A fyddai ddim yn fwy rheolaidd i ni gael clywed ei brofiad a'i farn?" meddai Mary Roberts.

"Onid ydym ni yn gwybod am Mr. Dafydd Jones?" meddai y diacon, "a pha eisieu sydd *arnom ni* i glywed ei brofiad a'i farn ef?"

Derbyniwyd Dai y Sul canlynol yn aelod rheolaidd, ac o farn iachus a phrofiad ysgrythyrol. Ond dygwyddodd bod Dai heb erioed gael ei *fedyddio*, canys yr oedd ei rieni, ryw fodd neu gilydd, yn *belongo* rhyw beth at y Baptists. Deallwyd ym mhen ychydig ddiwrnodau fod Dai fel llwddn dafad neu lo buwch yn ddi-fedydd; ond er mwyn yr achos, ac er mwyn symmud neu rwystro achos i'r gelynyion gablu, penderfynwyd mai gwell tewi yng nghylch y peth, a gadael Mr. Dai i fwynhau ei freintiau heb na *chred* na *bedydd*. Mae fel hyn heddyw!

Mae yr ordinhadau yn lled ddiwerth gan y sectau, ym mhellach nag y maent yn ateb dybenion Sectydiaeth.

Yr oedd Dai yn ei *studs* ac yn ei *guard* yn cael ei dderbyn, ac ar y ffwrwm, neu yn y côr nesaf ato yr oedd Miss Ellis; ac edrychai Mr. Dafydd Jones ar Miss Ellis, ac edrychai Miss

Ellis hefyd ar Mr. Dafydd Jones, pan yng nghylch derbyn.

Yn y cyfarfod gweddi nos Sul y derbyn, rhoddwyd Dai i weddio; a chwareu teg i Dai, er mwyn gwneyd ei hun yn boblogaidd, gweddiodd yn erbyn yr Eglwys, yn erbyn y Methodistiaid, yn erbyn y Wesleyaid, yn erbyn y Baptistiaid, ac yn erbyn pob peth a phob sect ond Independia fawr yn unig. Sylwyd yn neillduol dydd Llun bod Dai gwedi llyncu llyffant anferthol ei faintioli.

Yr oedd Dai yn awr yn aelod cyflawn, ac ystyriai ei hun yn ddyn trwm yn yr ardal a'r gymmydogaeth; ac nid yn unig yr oedd yn ddiwyd iawn gyda'r moddion, ond â'i fys hefyd yn lled bell ym mhob moddion a gynnelid. Rhoddid Dai i arfer ei ddawn yn fynych yn y moddion; ac ym mhob cwrdd lle y byddai efe yn cyflawnu rhan o'r gwaith, yr oedd yn lwrcan ar ol, ac yn y gyfeillach, siarad ar ol ar yr aelwyd, byddai yn canmol y cyfarfod hwnw yn fawr; ond pan na byddai efe yn cael ei alw i arfer ei ddoniau mewn rhyw gyfarfod, gwelid ef ar ei ddiwedd yn ymaflyd yn ei het, ac yn ymadael gyda'r blaenaf, a thranoeth byddai yn awgrymu mai cyfarfod sychlyd a gafwyd yr hwyr o'r blaen. Ym mhen ychydig wythnosau dechreuodd Dai, yn ei gyfeillachau ymddyddanol â'r brodyr a'r chwiorydd, cyn ac wedi rhyw gyrddau, achwyn bod eu henwad hwy yn cael cam, a hyn yn benaf o blegid bod eu pulpudau wedi myned yn ddidalent iawn, ac nad oedd agos digon o ddynion ieuainc doniol a gobeithiol ar y maes, ac y dylent hwy oedd yn caru yr achos, a'r achos yn gwasgu arnynt, weddio am ychwaneg o weithwyr talentog i'r cynauaf. Yr oedd erbyn hyn gwedi myned yn siaradwr mawr, ac yn flaenaf ym mhob achos, ac nid yn unig yn flaenaf, ond galleid meddwl ei fod yn cario pob achos ar ei gefn ei hun; yr oedd Dai yn bob peth ym mhob peth, ac erbyn hyn yr oedd yn

gnepyn o ddyd. Yn yr Ysgol Sul, Dai oedd y trefnwyr, Dai oedd yr esboniwr, Dai oedd y beirniadwr, Dai oedd dadryswr clymau, Dai oedd yn rhoddi ystyron geiriau, a Dai oedd yn trefnu'r bennod, y pwnc, a'r interludau. Dai oedd y cwbl yn yr ysgol gân, er nad oedd yn gantwr, ac yr oedd yn y sol bob nos, ac yr oedd Miss Ellis hefyd bob amser yn y sol, a Dai yn ei hebrwng adref, ac yn ei breicho. Yr oedd yn awr yn dechreu crynoi *study* yng nghyd: *Allwedd Myfyrdod, Y Cerbyd, Aur Gwallt Samson wedi ei dori, Society yr Apostolion, a Phregethau Finney*; a derbynai hefyd y *Cronicl*, ac o hwn y cymmerai ei *bolitics*, ac yr oedd yn myned yn fwy o elyn beunydd i'r Eglwys.

Pryd hyn yr oedd ficer y plwyf wedi gwneuthur sylw o ddyd ieuanc gobeithiol yn yr ardal, a chymmerodd ef dan ei nodded; a rhwng y ficer a rhieni y dyn ieuanc, anfonwyd ef i'r ysgol er mwyn ei barotoi i weinidogaeth yr Eglwys, a galleid meddwl na buasai hyn yn rhoddi tramgwydd i neb; ond nid felly, canys ymaflodd Dai yn yr amgylchiad er mwyn ei wneuthur mor fanteisiol ag y gallai iddo ei hun.

"A welwch chwi," ebai ef, "fel y mae y ficer yn ochro gyda hwna i'm *speito* i, am i mi ymadael â'r Eglwys; nid yw hyna ddim ond dial arnaf fi, am i mi ymadael; ond nid oes dim i'w wneuthur; ef allai fod gan Ragluniaeth ryw beth ar fy nghyfer innau."

Atebodd yr abwyd ddyben Dai yn gyflawn; ystyriwyd ei fod o dan erlidigaeth gan ficer y plwyf, a phenderfynwyd cynnyg yn deg at wneuthur dyn, a dyn mawr o hono, er gwaethaf yr Eglwyswyr, y rhai erbyn hyn oeddynt gwedi gosod Dai dan erlidigaeth, am na buasant yn ei ddwyn fyny i weinidogaeth yr Eglwys. Rhoddwyd Dai yn uniongyrchol ar ben 'stôl, ac efe a synodd y gwrandawyr yn fawr â'i bregeth

gyntaf, yr hon oedd ar y pwnc o rwymo Satan am fil o flynyddoedd. Mawr fu y siarad am ddiwrnodau yng nghylch y bregeth ryfeddol hon.

"Rhyfedd," meddai y rhai a'i clywsant, "y fath ddyd trwm yw Dafydd Jones; mawr ei gyrrhaeddiadau, mor oleu yr oedd yn dywedyd, mae yn sicr o ddyfod yn ddyd mawr iawn."

Nos Sul canlynol, rhoddwyd Dai i bregethu yn y capel, ac ymddangosai yn hynod o *spruce* yn y pulpud; ei wallt wedi ei oilio, a'i droi yn ol y ffasiwn i lechwedd ei siol, at fon ei gorn; y *tie* am ei wddf yn gywir yn ei le; y *studs* melynion â'r perlau gwyrddion yn eu canol ar frest ei grys, a'i wasgod yn agored hyd at ddau fotwn i waspant ei glos. Yr oedd yn y pulpud fel dyn mewn ffrâm, ac yr oedd Miss Ellis gyferbyn ag ef yn y *gallery*, yn y côr nesaf i'r ymyl, ac yn sefyll ar ei thraed agos trwy yr holl oedfa. Pwnc pregeth Dai y nos Sul hwn ydoedd, y gwahaniaeth rhwng sicrwydd ffydd a sicrwydd gobaith; a barnwyd ei bod yn bregeth ddofn iawn, a bod Dai yn ddiffnydd trwm iawn.

Barnwyd erbyn hyn bod Dai nid yn unig yn feddiannol ar dalentau gweinidogaethol o'r rhywogaeth oreu, ond ei fod yn bendant wedi cael ei alw i'r weinidogaeth; a chymmerwyd mater Dafydd Jones yn wresog mewn llaw, i'r dyben i'w barotoi i'r coleg, a'i wneuthur yn y pen draw yn un o ser dysgleiraf yr enwad. Cyhoeddwyd cyfarfod tuag at wneuthur casgliad i Dai i'w anfon i'r ysgol, ac yn y cyfarfod hwn ymhelaethwyd yn fawr ar ddoniau a galluoedd eneidol Dai, yng nghyd ag ar ei gymhwysderau mawrion i waith a swydd bwysig y weinidogaeth; y byddai yn gollod i'r byd crefyddol yn gyffredinol, ac i enwad yr Independiaid yn neillduol, i golli talentau a galluoedd David Jones, a'i fod gwedi myned trwy lawer iawn o rwystrau, ac wedi

gwneuthur llawer iawn o aberthau er mwyn *egwyddor* a *chydwybod*, i ymuno â hwy fel corff o Independiaid: bod ficer y plwyf a'r Eglwyswyr wedi myned yn elynion digofus i David Jones, ac yn gwneuthur eu goreu i gadw ei dalentau gwerthfawr yn guddiedig yn y ddaiar; a chan ei fod yn drueni mawr gadael David Jones i fod yn ferthyr i ddial y ficer a'r Eglwyswyr, ac yn golled mor fawr i gorff yr Independiaid, a chan mai ar yr egwyddor wirfoddol yr oeddynt hwy yn sefyll, ac er mwyn dangos i'r ficer a'r Eglwyswyr mor rymus yr oedd yr egwyddor hon yn gweithio yn eu plith, bod y cynnygiad yn cael ei roddi i wneuthur casgliad i'r brawd David Jones, er mwyn ei anfon i'r ysgol, ac yna i'r coleg, ac yna i fod yn weinidog enwog yn eu plith; a chytunwyd yn unfrydol â'r cynnygiad hwn.

Nid oedd yn awr ond galw ar y brodyr a'r chwirydd ym mlaen i danysgrifio at *funds* Dai; a dechreuwyd yn uniongyrchol ar y gorchwyl.

"Pa faint rowch chi, Sion y Pant?"

"Wel, yn siwr; wel, y mae llawer o alw, ac y mae yn anhawdd iawn cyfrânau at bob achos. Chwi gewch wybod eto."

"Nag e, nag e, Sion; yn awr, yn awr."

"Wel, mi rof fi swllt."

"O! Sion, Sion, rhowch fwy na swllt."

"Mi rof swllt, a thyna gyd."

Towards supporting Mr. David Jones in school, preparatory to a regular College education:—

John Jones, Pant, £0 1s. 0d.

"Richard o'r Lliidiard, pa faint ydych chi yn ei roddi at gynnal Mr. David Jones yn yr ysgol?"

"Mae yn amser go galed arnaf fi yn awr, ac y mae swllt yn llawn gymmaint ag a allaf fi roddi."

"Richard, Richard, rhowch fwy na hyny."

"Na, ni allaf fi roddi rhagor."

Richard Lloyd, Lliidiard, £0 1s. 0d.

"Mrs. Williams, Ddôl, pa faint ydych chi yn roddi?"

"Mi roi deunaw ato clasgad hwn, a cobeithio y gwneiff pawb y core at roddi *education* da i Mr. Jones."

Mrs. Williams, Ddôl, £0 1s. 6c.

"Mrs. Roberts, Fron, pa faint ydych chi yn roddi?"

"Mae digon o arian gan rai i brynu *shawl*, a thalu hanner can swllt am dani; ond y maent yn gallu bod yn glos iawn at achos fel hyn. Mi rof goron."

Mrs. Roberts, Fron, £0 5s. 0d.

"Raid i cwi, Mrs. Roberts, dim lletemo o achos fy *shawl* newydd i; nid ydyw cwedi costi dim i cwi," meddai Mrs. Williams.

"Os na chostia hi ddim i mi, mae ar lyfr y siopwr, mi glywais, at lawer o bethau *crand* sydd yno yn barod," atebai Mrs. Roberts.

"Mi roi fi saith swllt i'r clasgad hwn," meddai Mrs. Williams, Ddôl.

Mrs. Williams, Ddôl, £0 7s. 0d.

"Mae yn hawdd iawn addaw, a thalu arian pobl ereill," meddai Mrs. Roberts; "cymmaint ag ydwyf fi yn roddi, fy arian fy hun ydwyf yn roddi, ac nid arian dynion ereill."

"A oes arnaf fi rw arians i cwi?" gofynai Mrs. Williams.

"Os nad oes arian arnoch i fi," atebai Mrs. Roberts, "y mae arnoch ddigon i ddynion ereill. A oes dim *mortgage* ar y Ddôl? A beth am y can punt gyfodwyd o'r banc wythnos yn ol?"

"Dystawrwydd," ebai Llywelyn Ty'r Cwm, "a oes arnoch chi ddim peth cywilydd, Mrs. Roberts?"

"O bawb, chi ddylech fod yn ddystaw, Llywelyn," dywedai Morgan Llwynfry; "mae genych ddigon o waith setlo busnes yr hwrdd â Tomos y Rhos, cyn agor llawer ar eich ceg yna."

"A ydych chi yn dywedyd," meddai Llywelyn, "fy mod i wedi lledrata hwrdd Tomos y Rhos?"

"Chwi sydd i glirio eich hun, Llywelyn; y mae cwmwl du arnoch

mewn perthynas â'r hwrdd," atebai Morgan.

"A ydych chi eiddo nodi yr oen wedi clirio, Morgan?" gofynai Llywelyn.

Bu y gweinidog yn ddiymyraeth hollol braidd â mater Dai o'r dechreu; ni ymddangosai mewn un modd yn wresog yn ei achos, a phan aed at gasgliad iddo, gwelwyd rhyw arwyddion o anfodlonrwydd yn ei wedd. Yng ngwyneb y cythrwfl presennol, a'r dymmestl ag ydoedd yn barod i chwythu, cyfododd ar ei draed er mwyn cynnyg gostegu pethau, ac a anerchodd y brodyr a'r chwiorydd yn debyg fel y canlyn:—

"Yr ydych chi bawb o honoch fel eich gilydd wedi colli eich ysbryd, ac yr wyf fi yn methu yn lân â deall bod Dafydd Jones yn werth i neb ymrafaelio yn ei gyloch, ac yr wyf yn eich ystyried chwi, Mrs. Roberts, yn feus iawn, ac felly chwithau, Morgan, Llwynfry; yr ydych chi anwedus iawn. Ac heb law hyn yr —"

"Dyna y talment ydych chi ei roddi i mi, syr," atebai Mrs. Roberts, "am fy ngharedigrwydd i chwi yn llanw eich bola pan fydech yn dyfod i'r Fron, a hyn bob wythnos, ac weithiau lawer gwaith yn yr wythnos. Ni welsoch chi ond pob caredigrwydd oddi wrthym ni yn y Fron; ond fel hyn y mae rhai yn cael eu talu. Mae yn debyg fod y Ddôl yn awr yn nes ym mlaen na'r Fron, ac y mae hyn i'w briodoli, digon tebyg, i'r basgedaid trwm hwnw ddaeth i'ch ty chwi yn ddiweddar. Ond deallwyd chwi nad ydwyf fi yn myned i gymmeryd dim gyda chwi, na neb arall."

"Mae'r wraig yn benwan," ebai'r gweinidog.

"Nid yn gwbl mor benwan ag oeddech chi pan yn dyfod adref er ys yng nghylch mis yn ol o'r —. Cymmerwch chi hyna genyf fi, syr; a chymmerwch ef yn ddystaw hefyd; canys nid wyf fi yn ymglywed i gymmeryd rhyw lawer genych chi," dywedai Morgan, Llwynfry.

O air i air, ac o dipyn i beth, hi aeth yn enbyd yn y cyfarfod casglu i Dai, ac ymadawodd pawb yn y terfysg mwyaf, a bu yn gryn dafod rhwng amryw o'r aelodau wedi myned allan. Yr oedd yn Sabbath cym-mundeb yn y capel y Sabbath nesaf ar ol y cyfarfod hwn, ac ni chym-munodd hanner yr aelodau; canys yr oeddynt erbyn hyn gwedi myned yn ddwy blaid, sef plaid y gweinidog a phlaid Dai, fel yr oeddynt yn galw y naill y llall. Cynnaliwyd amryw gyrdau heddychu; ond yn lle heddychu, yr oedd yr ymrafael yn cynnyddu, a'r rhwyg yn myned yn fwy ar ol pob cyfarfod. Bu yno amryw weinidogion yn eistedd ar y mater; ond yr oedd y rhai hyn ym mhell o fod yr un farn, ac ymadawsant heb wneuthur dim, ond gadael i'r Eglwys i "ymburo" yn y berw mawr hwn. Yngymmerodd y gweinidog at y gorchwyl o ddysgyblu, ac efe a dorodd Dai allan, yng nghyd â Mrs. Roberts, a Morgan, Llwynfry, a Miss Ellis, canys yr oedd Miss Ellis yn selog iawn dros Dai, ac yr oedd ganddi beth dylanwad hefyd, fel gwniadyddes yn myned ar hyd y tai, ac yr oedd ganddi dafod *flippant* iawn. Er ysgymmuno, yr oedd y terfysg yn myned yn fwy; tori allan drachefn a thrachefn; ac o'r diwedd cymmerodd rhwyg hollol le.

Cadwodd y gweinidog a'i blaid afael yn y capel, ac ymffurfiodd y blaid arall yn eglwys annibynol, dan lywyddiaeth Dai, a darfu son am ei ysgol a'i goleg, canys yr oedd erbyn hyn yn ben ar blaid, a maes helaeth yn agored o'i flaen. Yn y capel yr oedd y gweinidog yn pregethu ar rwyg Corah yn yr anialwch, a rhwyg Ieroboam, fab Nebat, ac am y rhai oedd yn creu ymrysonau, ac ymbleidiau, a soniai o hyd am *split* sismaticiaid. Ac o'r tu arall, yr oedd Dai ar hyd y tai ar ben 'stolau yn pregethu am ormes Pharaoh, ac fel yr oedd Israel dan gaethiwd ym Mabilon, ac fel y mae y duwion

trwy yr oesau yn cael cam. Yr oedd cryn sel a gwresogrwydd yn y capel, ond mwy o lawer gyda Dai ar hyd y teiach. Un noswaith, pan oedd Dai yn pregethu mewn gwres, brwdanwch, a chwys mawr, torodd Miss Ellis allan mewn gorfoledd nerthol iawn, ac aeth y tân trwy yr holl dy, a'r canlyniad fu ychwanegiad mawr at gynnulleidfa Dai, trwy i amryw aros ar ol y noswaith hono. Yn yr oedfa nesaf yn y capel, torodd chwaer gwraig y gweinidog a'i chyfnither allan mewn gorfoledd cryf iawn, a chafwyd oedfa felus a llewyrchus, ac arosodd amryw ar ol. Ond trwy ryw foddion neu gilydd, yr oedd mwy o gynnydd ar achos Dai nag ar achos y capel; yr oedd llawer ganddo yn y seiet, ond pa beth i'w wneuthur yng nghylch eu derbyn?

Aeth Dai a rhai o'r brodyr i'r cwrdd cwarter â'u hachos; ond cyfododd rhai o'r gweinidogion ar eu traed, a dywedasant na ellid rhoddi unrhyw gynnorthwyon iddynt, o blegid rheol y gynmanfa, yng nghyd â phenderfyniad yr undeb sirol: eu bod wedi gwneuthur rhwygiad, ac o blegid hyny, na ellid eu cynnorthwyo. Ond dadleuai rhai o'r gweinidogion bod yr egwyddor o annibyniaeth eglwysig yn rhoddi hawl i ddynion ymfurfio yn gynnulleidfa, ac nad oedd gan na chymmanfa nac undeb sirol hawl i gymmeryd eu rhyddid oddi ar neb; ac heb law hyny bod cynulleidfa Mr. Jones yn cynnyg ei hunan i fod yn aelod o'r gymmanfa a'r undeb sirol, ac nad oeddynt hwy yn gallu gweled ar ba dir y gellid eu gwrthod; ac heb law hyny bod y nifer amlaf o eglwysi yr undeb wedi cael eu bodolaeth mewn rhwyg neu ymrafael, a bod y rhai hyny yn aelodau o'r gymmanfa a'r undeb sirol; a pha ham na ellid derbyn cynulleidfa Mr. Jones fel yr oedd ereill wedi cael eu derbyn? Ond yr oedd cyfeillion y gweinidog yn amlach yn y cyfarfod hwn, a cholodd

Dai a'i Eglwys y dydd. Yr oedd Miss Ellis yn y cyfarfod hwn.

Yng ngwyneb eu bod wedi colli y dydd, ffurfiodd cyfeillion Dai gyfeisteddfod ddystaw, ac yn y gyfeisteddfod dywedwyd wrtho fel y canlyn:—

“Peidiwch digaloni dim, Mr. Jones, ond ewch ym nulaen â'ch gwaith; ac os ydyw eich pobl am eich gwasanaeth, rhoddent alwad i chwi i weinyddu iddynt, canys yr ydys wedi cael allan mai hyn sydd yn gwneuthur ac yn cyfansoddi gweinidog, yn neillduol felly dan amgylchiadau neillduol. Gwedi i'chwi gael yr alwad, derbynwch yr ymgeswyr am aelodaeth; cyfammodwch; torwch fara iddynt; a chyflawnwch holl waith y weinidogaeth yn eu plith.”

Aeth Dai adref yn falch iawn, ac yr oedd Miss Ellis hefyd yn llon iawn y diwrnodau canlynol. Y Sul canlynol ddaeth, a llanwyd ysgubor fawr y Fron, ac yr oedd amryw allan, canys yr oedd newydd-deb y peth nid yn unig wedi creu cyffro, ond hefyd yn gwneuthur y fusnes yn boblogaidd. Derbyniodd Dai y bobl; cyfammododd hwynt; torodd fara; ac yr oedd yno wresogrwydd anarferol, ac argoel da iawn ar yr achos newydd.

Yn fuan ar ol hyn, cafodd Dai genadwri oddi wrth frawd yn y weinidogaeth am newid Sul ag ef, yr hyn yn ewyllysgar a wnaeth; ac yr oedd Dai erbyn hyn yn cael pregethu yn rhai o'r capeli, a chapeli ereill yn ei wrthod; ond yr oedd gwedi myned yn ddyn, ac efe a ystyriai ei hun yn ddyn lled drwm.

Fel ag yr oedd Dai yn ymestyn yn ei bregethu yn y capeli a'i derbynient, ac fel yr oedd yn cael ei ategu gan ei gyfeillion yn y weinidogaeth, dechreuwyd sibrd am gael capel newydd i'r cynulleidfa newydd, am ei fod yn drueni o'r mwyaf fod gweinidog mor llwyddiannus a Dai, a bod cynulleidfa mor *respectable* a chynulleidfa Dai, heb gapel *respectable* i addoli ynddo. Aeth y newydd trwy yr adref mor gynted ag y

goddeithia tân gwyllt borfa sych y crindir, bod Mr. Jones yn myned i adeiladu capel newydd ym mhen arall y pentref, a'i fod yn debyg o gael ewylls da y gymmanfa a'r undeb, neu y cysswllt sirol at hyny, a hyny o blegid bod ei achos dan gymmaint o arddeliad, a bod cymmaint o wawr arno. Yr oedd pobl gofal Dai yn garedig anarferol i'r gweinidogion fyddent yn cyfnewid Suliau ag ef; canys nid oeddynt yn gadael dim ar ol tuag at eu gwneuthur yn gysurus pan fyddent yn cadw y mis. Aed at y capel newydd yn wresog, ac yr oedd yr adeiladaeth yn myned ym mlaen yn llwyddiannus; y ffyddlondeb mwyaf yn cael ei ddangos; a chyn gorphen yr adeiladaeth, yr oedd Dai a'i bobl wedi cael eu derbyn i'r undeb sirol, a thrwy hyny pob rhwystrau wedi cael eu symmud, a phob porth wedi cael ei agor iddynt i gael eu derbyn yn anrhydeddus i'r gymmanfa.

Fel ag yr oedd pethau yn dynesu at addfedrwyd gyda golwg ar gapel Dai, yr oedd y gynnulleidfa mewn blinder mawr o blegid bod iechyd Miss Ellis yn gwaethygu. Yr oedd Miss Ellis yn ffyddlawn iawn gyda'r achos newydd, ym mhob dosbarth o hono, a blinid yn fawr wrth weled ei gruddiau yn llwydo, a hithau, yng nghanol ei defnyddioldeb, yn gwywo ar ei thraed. Yr oedd yn parhau trwy y cwbl i ddilyn y moddion, ond

o'r diwedd hi a fethodd. Yr oedd cwyno mawr gan y frawdoliaeth o blegid Miss Ellis, a llawer yn myned i ymweled â hi, ac yn ochen-eidio yn drwm am y gwelent arwyddion y darfodedigaeth yn amlwg arni. Yr oedd y capel newydd yn awr ar ben, a'r amser i'w agor ac i sefydlu Dai yn weinidog rheolaidd gwedi cael ei benodi, a phawb yn awyddus am weled dydd gogoniant yr achos newydd wedi gwawrio. Yr oedd y parotoadau yn fawrion; pawb am y mwyaf eu ffyddlondeb i gynnal y cwrdd yn anrhydeddus, a hyny yn un peth, er mwyn taflu cwmwl ar yr hen gapel a'i achos. Yr oedd y capel newydd i gael ei agor a'i gyssegru dydd Mawrth; a'r dydd Gwener cyn hyny, dyma y newydd yn ddisymmwth fel mellten yn dyfod trwy y pentref, fod Mr. Jones a Miss Ellis newydd briodi yn swyddfa y cofrestrydd; a chymmaint oedd y syndod, fel na wyddai neb pa beth i'w ddywedyd ar y mater. Rhwng pob peth a'u gilydd, cymmerodd Miss Ellis—nag e Mrs. Jones—ati yn fawr iawn, ac aeth yn glaf iawn noswaith ei phriodas; ond hi a orfuodd yr afiechyd hwnw, ond bu yr amgylchiad yn achos i Mr. Jones a hithau fod yn absennol o agoriad y capel newydd, ac o sefydliad gweinidog ar y gynnulleidfa. Cymmaint a hyna am Dai.



